

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Dafydd Epynt

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA, MPHIL

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Barry James Lewis, MA, MPHIL

Owen Thomas, BA, LLB, MST

Golygydd Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH DAFYDD EPYNT

golygwyd gan

OWEN THOMAS



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2002

© Prifysgol Cymru ©, 2002.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 51 3

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Y mae mwyafrif y cerddi a gyflwynir yn y gyfrol hon (sef cerddi 1, 3–6, 8–9, 11–14, 16–22) yn seiliedig ar destunau sy'n unig gopïau yn llaw Dafydd Epynt ei hun yn llawysgrifau Peniarth 54, Peniarth 55 a Pheniarth 60. Y mae'r testunau hynny o safon uchel, a cheisiwyd osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau iddynt. Fodd bynnag, os bu rhaid diwygio, dangosir y darlleniad gwreiddiol yn 'Narlleniadau'r llawysgrif' ar waelod y testun.

Codwyd testunau o'r chwe cherdd sy'n weddill (sef cerddi 2, 7, 10, 15, 23 a 24) gan amrywiol lawiau i lawysgrifau o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen. Wrth gyflwyno testun golygedig o'r cerddi hyn, dangoswyd y darlleniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os ceir darlleniad amrywiol mewn grŵp o lawysgrifau, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi'r gair neu'r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Os oes llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y rheini mewn bachau petryal wrth drafod trefn y llinellau. Fodd bynnag, os yw llinell yn anghyflawn, neu os yw gair neu eiriau'n annarllenedwy oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlv); er eng-hraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *(g)wedy*, &c.

Yn yr Eirfa ar ddiwedd y gwaith rhestrir y geiriau a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'). Rhestrir hefyd eiriau dieithr neu eiriau sy'n digwydd mewn ystyr gwahanol i'r arfer, gan gynnig aralleiriad ar eu cyfer. Yn y mynegeion i enwau priod rhestrir pob enw person a phob enw lle sy'n digwydd yn y cerddi.

Diolchiadau

Carwn gydnabod yn ddiolchgar y cymorth a gefais wrth baratoi'r gyfrol hon gan Olygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, Golygydd Ymgynghorol y gyfres; yr Athro Dafydd Johnston, Dr Cynfael Lake a Gareth A. Bevan, o Fwrdd Golygyddol y gyfres; yr Athro Emeritws D.J. Bowen, M. Paul Bryant-Quinn a Mrs Glenys Howells. Y mae arnaf ddyled neilltuol i Olygydd y gyfres, Dr Ann Parry Owen, am 'lanw y iau' gynifer o weithiau.

Owen Thomas

Cynnwys

DULL Y GOLYGU	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol	ix
Termau a geiriau	xvii

GWAITH DAFYDD EPYNT

RHAGYMDRODD	1
-------------------	---

TESTUN

1. I Grist	25
2. I Fair	27
3. I Gynog Sant	30
4. I Gathen Sant	32
5. Marwnad Morgan ap Syr Dafydd Gam	34
6. I Hywel ap Gwilym Dew	37
7. I Wiliam Hafard ap Tomas o Aberbrân	39
8. Awdl foliant Lewys Hafard a'i wraig Isbel	41
9. I Wiliam Herbert o Golbrwg	44
10. I Wiliam Herbert o Golbrwg	46
11. I ofyn gŵn gan Risiart Herbert	48
12. I Syr Rhys ap Tomas	50
13. I Syr Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Dretŵr	52
14. Awdl foliant Siôn Fychan o Dretŵr	54
15. I ddiolch i Ddafydd ap Hywel am farch, ffrwyn a chyfrwy	57
16. I Siôn ap Rhosier o Lanfrynach a'i wraig Mawd ferch Morgan Awbrai	59
17. Awdl foliant Hopgyn Awbrai o Abercynfrig	61
18. I Siôn Morgan, esgob Tyddewi	64
19. I ofyn ffaling gan Siancyn ap Rhys	66
20. Marwnad Morgan ab Owain a'i wraig Sisli	68
21. Marwnad Hywel Amhadog ap Trahaearn	70
22. Marwnad Hywel Dafi a Huw Cae Llwyd	72
23. Englyn gorchest	74
24. Englyn gorchest	75

ATODIAD

i.	Marwnad Morgan.....	76
ii.	Llinellau o farwnad.....	77
iii.	Llinellau o gerdd foliant i Wallter Hafart.....	78
iv.	Llinellau o gerdd foliant i swyddog.....	79

NODIADAU.....	81
---------------	----

GEIRFA.....	189
-------------	-----

Enwau personau.....	203
---------------------	-----

Enwau lleoedd.....	206
--------------------	-----

LLAWYSGRIFAU.....	207
-------------------	-----

MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF.....	211
-----------------------------------	-----

MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU.....	213
--	-----

Byrfoddau

Llyfryddol

- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93
- P.C. Bartrum: WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- P.C. Bartrum: WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- BD *Brut Dingestow*, gol. H. Lewis (Caerdydd, 1942)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- BI BGCC *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. Marged Haycock (Llandybie, 1994)
- Bodley Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
- Boutell *Bouttell's Heraldry*, revised by J.P. Brooke-Little (London and New York, 1983)
- BrM *Breuddwyd Maxen*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1908)
- Brog Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- J. Cartwright: ForF Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999)
- CH William Gwyn Lewis, 'Astudiaeth o Ganu'r Beirdd i'r Herbertiaid hyd Ddechrau'r Unfed Ganrif ar Bymtheg' (Ph.D. Cymru [Bangor], 1982)
- CLC² *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)

- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–93; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CSF F.G. Payne, *Crwydro Sir Faesyfed* (2 gyf., Llandybïe, 1966–8)
- CSTB *Cywyddau Serch y Tri Bedo*, gol. P.J. Donovan (Caerdydd, 1982)
- Cy *Y Cymmrodor, The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1877–1951
- Cylchg HC *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960–
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- Dat ‘Datguddiad Sant Ioan’ yn y Testament Newydd
- R.R. Davies: CCC R.R. Davies, *Conquest, Coexistence, and Change: Wales 1063–1415* (Oxford and Cardiff, 1987)
- R.R. Davies: LSMW R.R. Davies, *Lordship and Society in the March of Wales 1282–1400* (Oxford, 1978)
- DGIA H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DrOC *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Caerdydd, 1986)
- DWB *The Dictionary of Welsh Biography down to 1940* (London, 1959)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- L. Dwnn: HV *Heraldic Visitations of Wales*, ed. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- Ecs ‘Ecsodus’ yn yr Hen Destament
- Études *Études celtiques*, 1936–

- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GC *Gwaith Casnodyn*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Gen ‘Genesis’ yn yr Hen Destament
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI² *Gwaith Guto’r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a’r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGM *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans, Ann Parry Owen, W. Dyfed Rowlands ac Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GHS *Gwaith Hywel Swrdwal a’i Deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)

- GIBH *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GIF *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*, gol. Howell Ll. Jones ac E.I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. D. Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, 1996)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GOLIM *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, gol. Eurys Rolant (Caerdydd, 1984)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- GPhE *Gwaith Syr Phylib Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)
- R.A. Griffiths: PW i R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- R.A. Griffiths: RhT *Sir Rhys ap Thomas and his family: A Study in the Wars of the Roses and Early Tudor Politics* (Cardiff, 1993)
- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)

- GSCMB ‘Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor’ (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor, 1962)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSH *Gwaith Siôn ap Hywel*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- Gwilym Tew: Gw Anne Elizabeth Jones, ‘Gwilym Tew: astudiaeth destunol a chymharol o’i lawysgrif Peniarth 51, ynghyd ag ymdriniaeth â’i farddoniaeth’ (Ph.D. Cymru [Bangor], 1981)
- GWL ii² *A Guide to Welsh Literature 1282–c.1550 Volume II*, ed. A.O.H. Jarman and Gwilym Rees Hughes, revised by Dafydd Johnston (Cardiff, 1997)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies, yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1931)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- ID *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1909)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- Io ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan’ yn y Testament Newydd

- Iolo MSS *Iolo Manuscripts*, ed. Taliesin Williams (Llan-dover, 1848)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LGCD *Lewys Glyn Cothi (Detholiad)*, gol. E.D. Jones (Caerdydd, 1984)
- LM *Vita Merlini: Life of Merlin*, ed. Basil Clarke (Cardiff, 1973)
- LPGM G.T. Clark, *Limbus patrum Morganicæ et Glamorganicæ* (London, 1886)
- Llawdden, &c.: Gw M.G. Headley, ‘Barddoniaeth Llawdden a Rhys Nanmor’ (M.A., Cymru [Bangor], 1937)
- LIC *Llyfr Colan*, gol. Dafydd Jenkins (Caerdydd, 1963)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LII *Llyfr Iorwerth*, gol. Aled Rhys Wiliam (Caerdydd, 1960)
- J.E. Lloyd: HW³ J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Math ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew’ yn y Testament Newydd
- MED *Middle English Dictionary* (Ann Arbor, Michigan, 1963–)
- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- MWM Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff, 2000)
- MWRL Catherine A. McKenna, *The Medieval Welsh Religious Lyric* (Belmont, Massachusetts, 1991)

- NBSBM Tegwen Llwyd, 'Noddwyr y Beirdd yn Siroedd Brycheiniog a Maesyfed' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1987)
- NBSG Eurig R.Ll. Davies, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir Gaerfyrddin' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1977)
- NCE *New Catholic Encyclopaedia* (New York, 1967–79)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- OCD³ *The Oxford Classical Dictionary*, ed. Simon Hornblower and Antony Spawforth (third ed., Oxford, 1996)
- ODCC³ *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., London, 1997)
- OED² *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Peniarth 67 E. Stanton Roberts, *Peniarth MS. 67* (Cardiff, 1918)
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J. Gwenogvryn Evans
- Rhisiart Fynglwyd, &c.: Gw M.E. Bassett, 'Gwaith Rhisiart Fynglwyd, Siôn Teg a Dafydd ap Siencyn Fynglwyd' (M.A. Cymru [Abertawe], 1983)
- SC *Studia Celtica*, 1966–
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)
- Stowe Llawysgrif yng nghasgliad Stowe, yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain

- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- TLIM G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948)
- Traeth *Y Traethodydd*, 1845–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TRS *The Radnorshire Society Transactions*, 1931–
- TWS Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987)
- TYP² *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCCR² Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (second ed., Cardiff, 1976)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- I. Williams: ELI Ifor Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945)
- WLI *Barddoniaeth Wiliam Llŷn*, ed. J.C. Morrice (Bangor, 1908)
- W Surnames T.J. Morgan and Prys Morgan, *Welsh Surnames* (Cardiff, 1985)
- WWR² H.T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (second ed., Stroud, 1995)
- Wy Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–)

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	g.	gwrywaidd
a.	<i>ante</i>	gn.	geiryn
adf.	adferf	gol.	golygydd, golygwyd gan
amhff.	amherffaith	grb.	gorberffaith
amhrs.	amhersonol	grch.	gorchmynnol
anh.	anhysbys	grff.	gorffennol
ardd.	arddodiad, -iaid	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
arg.	argraffiad	gw.	gweler
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	Gwydd.	Gwyddeleg
b.	benywaidd	H.	Hen
ba.	berf anghyflawn	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
be.	berfenw	<i>id.</i>	<i>idem</i>
bf. (f.)	berf, -au	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
c.	<i>circa</i>	ll.	lluosog; llinell
c. (g.)	canrif	Llad.	Lladin
C.	Canol	llau.	llinellau
cf.	cymharer	llsgr.	llawysgrif
cfrt.	gradd gyfartal	llsgrau.	llawysgrifau
Clt.	Celteg, Celtaidd	m.	mewnol
cmhr.	gradd gymharol	myn.	mynegol
Cym.	Cymraeg	n.	nodyn
cys.	cysylltair, cysylltiad	neg.	negydd, -ol
d.g.	dan y gair	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
dib.	dibynnol	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
dyf.	dyfodol	pres.	presennol
e.	enw	prff.	perffaith
eb.	enw benywaidd	prs.	person, -ol
e.c.	enw cyffredin	pth.	perthynol
ed.	<i>edited by, edition</i>	r	<i>recto</i>
e.e.	er enghraifft	rh.	rhagenw, -ol
eg.	enw gwrywaidd	S.	Saesneg
eithaf	gradd eithaf	<i>sc.</i>	<i>scilicet</i>
e.p.	enw priod	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
f.	ffolio	td.	tudalen
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	tt.	tudalennau
ff.	ffolios	un.	unigol
ffig.	ffigurol	v	<i>verso</i>
Ffr.	Ffrangeg	vols.	volumes
g.	(c.) canrif		

Rhagymadrodd

Bywgraffyddol

Ni wyddom odid ddim am fanylion bywgraffyddol Dafydd Epynt ar wahân i'r hyn y gellir ei gasglu o'i gerddi. Ni chadwyd unrhyw wybodaeth am ei hynafiaid ac ni wyddys enw ei dad na'i hendant. Hyd y gwyddys, ni chadwyd ei enw mewn unrhyw ddogfen hanesyddol ac y mae'r ffaith nad ymddengys ei enw yn yr achau ychwaith yn awgrymu nad bardd-uchelwr mohono ond bardd wrth broffes. Cadarnhau'r dybiaeth hon ei fod yn fardd wrth ei waith ac ar gylch clera a wna'r hanesyn *cameo* hwn yn Llst 118 sy'n esbonio cyd-destun cerdd ddiolch i'r bardd Dafydd ap Hywel:

k. Davydd epynt i ddiolch march i dd ap holl prydydd watkyn fychan o hergest canys Dd epynt a ddaeth i glera rhwng gwy a hafren ar i draed, a dd ap holl ai gwelas yn glairch trwm, ag a ddisgynodd i lawr oddiar i farch ag a roes y march ar ffrwyn ar ysbardynau ar bwysgyns i dd epynt.¹

Yn ogystal â dangos bod Dafydd yn braff o gorff ac o bosibl mewn oed pan ganwyd y gerdd, rhydd y stori hon gyd-destun i gerdd ddiolch o'r cyfnod sy'n awgrymu nad confensiynau sychlyd o seremonïol a oedd yn gyfrifol bob tro am y farddoniaeth, hyd yn oed gan fardd wrth broffes fel Dafydd Epynt. Gallai Dafydd ganu weithiau yn ddidwyll a heb lygad ar y geiniog.

At ei gilydd, fodd bynnag, adlewyrchu ei swydd broffesiynol y mae natur ei gerddi o safbwynt eu pynciau a'u themâu. Ni chanodd yr un cywydd serch na dychan, a hyd yn oed yng nghyswllt ei ganu crefyddol gellir synhwyro mai swyddogaeth broffesiynol a gyflawnai gan amlaf.² O ran ei grefft, hefyd, synhwyrir mai bardd wrth broffes yn canu am gynhafiaeth ydoedd: nid torri cwys newydd oedd ei nod ond gosod ei noddwyr yn anrhydeddus yn llinach cewri'r gorffennol. Dyrchafu'r Herbertiaid, yr Hafardiaid ac eraill yn barchus o anrhydeddus oedd amcan Dafydd Epynt.

Y mae mwyafrif y cerddi a gadwyd wrth ei enw yn ei law ei hun, a gwelir mai fel *Dauid Epynt*, neu weithiau'n syml fel *Epynt*, y cofnodai ef ei enw wrth droed ei gerddi, a dyma'r ffurfiau a geir gan amlaf gan gopiwyr diweddarach ei waith. Eithriad yw'r ffurf *Dafydd ap Epynt* a geir gan Siôn

¹ Gw. Teitl/Rhaglith cerdd 15 isod a gw. ymhellach y nodyn cefndir.

² Gw. cerddi 1–3; y mae naws mwy personol i'r cywydd 'I Gathen Sant' (cerdd 4) gan fod y bardd yn eiriol ar i'r sant ei wella o'i salwch.

Dafydd Rhys yn Llst 55,³ ac y mae'n amhosibl gwybod a oes unrhyw arwyddocâd i'r ffurf honno ai peidio.

Y mae cyfenw Dafydd yn ei gysylltu â'r fro o gwmpas mynydd Epynt ym Mrycheiniog,⁴ a chadarnhau'r cysylltiad â'r fro a'r sir honno y mae'r nifer helaeth o gerddi a ganwyd ganddo i noddwyr o Frycheiniog, yn arbennig i noddwyr o'r ardal o gwmpas Aberhonddu. Mewn rhestr yn dwyn y teitl 'Beirdd a Phrydyddion' yn Pen 49, y mae Dr John Davies, Mallwyd, yn cysylltu Dafydd â Merthyr Cynog, sef plwyf oddeutu 10 km i'r gogledd-orllewin o Aberhonddu, wrth droed Mynydd Epynt.⁵ Wrth gwrs, nid oes modd gwybod a oedd Dafydd yn hanu o'r ardal hon neu ai symud yno'n ddiweddarach yn ei yrfa a wnaeth. Ar y llaw arall, honnodd F.G. Payne ei fod yn hanu o Lywel ym Mrycheiniog, sef pentref bychan rhwng Llanymddyfri a Phontsenni,⁶ ond ni lwyddwyd i gadarnhau'r honiad hwnnw.

Prin, fel y dywedwyd, yw'r manylion bywgraffyddol y gellir eu cywain o'i gerddi. Cyfeiria ato'i hun unwaith fel Dafydd (19.51) ac unwaith fel *edn Epynt* (22.36). Dysgwn o'i gywydd i Gathen Sant (cerdd 4) iddo ddiodef am gyfnod o'r ddeirton neu'r wrach, sef math o falaria y tybid ei fod yn cael ei achosi gan ymosodiad gan widdon neu wrach. Gan fod y cywydd hwn wedi ei gofnodi yn gynnar yn Pen 54, sef y gynharaf o'r tair llawysgrif y cofnododd Dafydd Epynt ei gerddi ynddynt,⁷ gallwn fod yn weddol sicr ei fod wedi gwella o'r afiechyd hwnnw. Dyfynnwyd eisoes y rhaglith i gerdd 15 yn Llst 118 sy'n awgrymu bod Dafydd Epynt yn ddyn sylweddol, a dysgwn ymhellach ei fod yn ŵr talach na'r cyffredin. Dywed y bardd yn ei gywydd yn gofyn am fantell gan Risiart Herbert (cerdd 11)—neu *Rhisiart hir* (11.1), fel y'i gelwir yn y gerdd, am ei fod yntau hefyd yn ŵr tal—fod y mentyll a dderbyniasai gan noddwyr eraill yn rhy fyr iddo (*Mi a gawn ŵn ... / Rhy fyr er rhoi fy araith*, 11.35–6), ond y bydd y fantell y gobeithia ei derbyn gan Risiart yn gorchuddio *dyn i gyd* (11.32). At hynny, mentyll yn cyrraedd hyd at ei draed y mae Dafydd yn eu hoffi, ac nid rhai *hanner hir* y mae'n rhaid gwisgo *hosan* gyda hwy (11.37–40): dyma awgrym, felly, o'i chwaeth o ran dillad!

Ffaith bwysig arall am Ddafydd Epynt yw ei fod yn fardd llythrennog, fel rhai o'i gyfoeswyr megis Huw Cae Llwyd a Hywel Dafï a ganai yn yr un ardal. Awgrymodd J. Gwenogvryn Evans⁸—a chadarnhawyd hyn gan Mr

³ Gw. priodoliadau cerdd 2.

⁴ Am enghraifft arall o gyfenw bardd yn awgrymu cyswllt â bro arbennig, cf. yr enw Dafydd Gorlech, a gw. GDGor 1.

⁵ Pen 49, 173^r *Dafydd Epynt ... Brecheinog p[]h mthyr knog*. (Derbynnir awgrym petrus J. Gwenogvryn Evans mai Dr John Davies, Mallwyd, a gofnododd y rhestr hon, gw. RWM i, 382.) Ar leoliad Merthyr Cynog, gw. WATU 156 ac E. Davies, *Rhestr o Enwau Lleoedd* (Caerdydd, 1957), 79.

⁶ CSF i, 34.

⁷ Trafodir y llawysgrifau hyn isod.

⁸ Meddai, wrth drafod Pen 55 yn RWM i, 421, 'The poems of Dd. Epynt are all in the same hand in this MS. and in MS. 54'; ac *ib.* 409, wrth drafod Pen 54, 'the poems of Dd: Epynt are (in this and

Daniel Huws⁹—fod holl gerddi Dafydd Epynt yn llawysgrifau Pen 54, Pen 55 a Pen 60 yn ei law ei hun.¹⁰ Y mae'r tair llawysgrif bwysig hyn, ynghyd â Pen 67, yn cynrychioli'r casgliadau cynharaf sydd wedi goroesi o waith y Cywyddwyr.¹¹

O edrych yn fanylach ar law Dafydd Epynt, gwelir ei bod, at ei gilydd, yn llaw brofiadol, reolaidd a thaclus, ac o ran orgraff yn gyson a braidd yn geidwadol: er enghraifft, ceir sawl esiampl ganddo o *-t* am 'd' ar ddiwedd gair.¹² Gwelir hefyd duedd ganddo i beidio â dangos gwyriad mewn geiriau megis *dauddyn* (20.54), *airiau* (20.48), *llaihau* (20.25, 38), *Mairionnydd* (5.74), *tairiaith* (5.79), *gwraiddyn* (9.43), a thuedd bellach i drawsosod cytseiniaid mewn geiriau fel *pryffraith* (15.40), *Tarhaearn* (20.40, 21.14), *cyrnho* (13.45) a *tarhaus* (21.44).¹³ Ni welir ôl dysg Ladinaidd ar ei waith, ac ni ddefnyddir ganddo ychwaith fyrfoddau o'r traddodiad Lladinaidd. Y tebyg yw, felly, iddo dderbyn ei addysg mewn canolfan neu ganolfannau diwylliannol, megis cartrefi rhai o'r noddwyr y canodd iddynt. Y mae'n debygol iawn fod y tair llawysgrif y cyfeiriwyd atynt uchod—Pen 54, 55 a 60—yn tarddu o gartref noddwr o ardal Aberhonddu: deil Mr Daniel Huws mai'r un noddwr sydd i'r tair a bod y noddwr hwnnw wedi cofnodi peth deunydd a sylwadau ynddynt.¹⁴ Awgrymodd ymhellach fod lle i gredu bod cysylltiad agos rhwng Pen 54 a'r Peutyn, ac y mae'n bosibl, os nad yn debygol, felly, mai dyma darddle'r tair llawysgrif. Tybed ai yma y derbyniodd Dafydd Epynt ei addysg, neu beth ohoni? Tybed nad cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith mai i noddwr o'r Peutyn y canodd Dafydd Epynt y gerdd gynharaf y gallwn ei dyddio o'i waith (sef cerdd 5)?

O edrych yn fanylach ar gynnwys y tair llawysgrif, cawn syniad o'r math o ddeunydd a oedd yn mynd â bryd y noddwr hwn yn ogystal â'r beirdd a'r copïwyr a fu'n copïo, a hefyd syniad o natur eu dysg. Yn ogystal â'r

MS. 60) all in one hand'; ac ymhellach wrth drafod Pen 60, *ib.* 437, 'The poems which have a prefixed to the authors' names have the characteristics of holographs' (yn cynnwys cerdd 21 isod (y mae cerdd 18 yn ddienn yn y llgr.).

⁹ MWM 95.

¹⁰ Yr unig eithriad yw'r testun anghyflawn o farwnad i ryw Forgan a godwyd i Pen 60 gan law arall: gw. Atodiad i isod.

¹¹ MWM 291; am y cynharaf o'r rhain, medd Daniel Huws ymhellach, *ib.* 95–6, 'Peniarth 54 seems to be witness ... to a striking transition. Until about 1450 the work of the *cywyddwyr* is, as we have seen, virtually absent from the surviving manuscript tradition. Here, a generation later, we meet not only retrospective collections of their work but collections also of poems of contemporaries, in autograph. A barrier, a taboo almost, seems to have been broken. The written text has suddenly come to be taken for granted—at least, in south Wales.'

¹² Y mae hon yn nodwedd weddol gyffredin gan gopïwyr eraill yn yr un cylch, cf. arfer Gwilym Tew yn Pen 51 a ddisgrifir yn Gwilym Tew: Gw 61.

¹³ Cymerir mai nodwedd orgraffyddol yw'r diffyg gwyriad, a diweddarwyd yr orgraff heb nodi'r ffurfiau llawysgrifol yn yr Amrywiadau; fodd bynnag, cymerir mai nodwedd ar iaith Dafydd Epynt yw'r trawsosod, a chan hynny cadwyd y ffurfiau ansafonol hynny yn y testun.

¹⁴ Cf. RWM i, 409n. Diolchir i Mr Daniel Huws am rannu ei syniadau am y llawysgrifau hyn gyda mi.

farddoniaeth gyfoes, a rhai o gerddi Dafydd ap Gwilym a Madog Benfras a geir yn Pen 54, ceir, er enghraifft, ddefnydd brudiol (e.e. testun o broffwyd-oliaeth fer Myrddin, cerddi gan y Taliesin diweddar, barddoniaeth frudiol Rhys Fardd a fersiwn o gywydd o freuddwyd Gronw Ddu); diarhebbion; meddyginiaethau; disgrifiad o'r Tri Thlws ar Ddeg; disgrifiadau o fydrau; calendr Cymraeg; achau; geirfâu; cyfieithiadau i'r Saesneg o ymadroddion Cymraeg ac ambell gerdd o gyfnod Beirdd y Tywysogion ymysg pethau eraill.¹⁵

O ran yr ychydig ddeunydd ychwanegol a gofnododd Dafydd Epynt yn y llawysgrifau hyn, y mae'n anodd gwybod ai codi deunydd o ddiddordeb arbennig iddo ef ei hun a wnaeth, ynteu bodloni cais ei noddwyr.¹⁶ Anodd, hefyd, yw penderfynu ai copïo o lyfr ynteu codi'r deunydd o ffynhonnell lafar a wnaeth.

Yn Pen 54, i, 131, cofnododd yr englyn anghyflawn canlynol (dilynir trefn y llawysgrif o ran rhannu llinellau):

Patter amwyait a uynych grodo
A gano rac eneit hyt angav
Gorav gorddyfnait.

Daw'r englyn hwn o'r gyfres englynion crefyddol 'Cysul Addaon' y ceir testunau cynnar ohoni yn Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Coch Talgarth a Llyfr Coch Hergest.¹⁷ Er bod fersiwn Dafydd Epynt o'r englyn yn nes at fersiwn Llyfr Du Caerfyrddin na'r ddwy lawysgrif arall,¹⁸ y mae'n ddiddorol sylwi bod Llyfr Coch Hergest a Llyfr Coch Talgarth mewn cartrefi lle y derbyniodd Dafydd Epynt nawdd yn y cyfnod hwn. Erbyn y bymthegfed ganrif yr oedd Llyfr Coch Hergest ym meddiant Fychaniaid Tretŵr, cyn mynd i Hergest yn ddiweddarach;¹⁹ mwy niwlog yw hanes cynnar Llyfr Coch Talgarth, ond erbyn y bymthegfed ganrif, tybia Dr Prys Morgan i'r gyfrol fod ym Mhorth-aml, un arall o gartrefi'r Fychaniaid, nid nepell o Dretŵr a Thalgarth.²⁰ Ymddengys, felly, fod hwn yn destun a oedd yn hysbys yn yr ardal hon yng nghyfnod Dafydd Epynt.

Yn Pen 54, i, 133–8, cofnododd restr o tua 90 dihareb yn dechrau â'r llythyren *A* (gan arwyddo ei enw, *Dauid*, ar frig td. 133). Dyma'r chwe dihareb gyntaf yn y rhestr:

¹⁵ Am ddisgrifiad llawn o gynnwys y tair llsgr., gw. RWM i, 409–25, 437–40.

¹⁶ Ceir crynodeb o'r deunydd a gododd Dafydd Epynt i'r tair llsgr. hyn, isod tt. 22–3.

¹⁷ Gw. Ifor Williams, 'Dwy gân o Lyfr Coch Talgarth', B ii (1923–5), 118–30; LIDC 58 (27.4–6); BI BGCC 288 (28.4–6), 293 (29.4–6).

¹⁸ LIDC 58 (27.4–6) *Pader a buyeid a bendiceid creto. / ae canho rac eneit. / hid wraud goreu gortyweid.*

¹⁹ Ymhellach ar hanes Llyfr Coch Hergest, gw. Christine James, 'Llwyr Wybodau, Llên a Llyfrau' yn *Cwm Tawe*, gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul, 1993), 8; Prys Morgan, 'Glamorgan and the Red Book', *Morgannwg*, xxii (1978), 52–3.

²⁰ *Ib.* 53.

A vynno duw ys dir
 Achub maes mawr a dryc varch
 Adfyw kell i gi mynych i dda iddi
 Anoc dy gi ac na ddos gantto
 Adne keheryn gan gatt
 Ar na ffortho i gath porthet y llygoden, &c.

Y mae bron yr holl ddjarhebbion a welir yn y rhestr i'w gweld hefyd yn Pen 17²¹ ac yn y casgliad o ddjarhebbion a geir yn Llyfr Coch Hergest. O ran trefn, hefyd, y maent yn hynod gyson â threfn y ddwy lawysgrif hyn: dosbarthwyd y ddjarhebbion yn ôl llythrennau'r wyddor, ond ni restrwyd mōhonynt yn nhrefn yr wyddor (e.e. daw *Anoc dy gi ac na ddos gantto* o flaen *Adne keheryn gan gatt*). Ar sail hyn, awgrymodd Mr Richard Glyn Roberts wrthyf, 'Ni welaf fod modd egluro'r cysondeb hwn ond drwy ragdybio bodolaeth traddodiad llawysgrifol o gasglu a chopio ddjarhebbion. Roedd cnewyllyn cyffredin yn sail i'r casgliadau hyn ac ychwanegai'r amryfal gopiwyr ddjarhebbion eraill at y cnewyllyn gwreiddiol.'²² Dichon, felly, mai codi'r casgliad o ffynhonnell ysgrifenedig a wnaeth Dafydd Epynt, a chan fod ei destun braidd yn llwgr y mae'n rhaid nad oedd yn gyfarwydd iawn â'r hyn a gopiai, neu fod ei ffynhonnell yn llygredig.

Yn Pen 55, 188–90 ceir testun yn llaw Dafydd Epynt o naw englyn marwnad Bleddyn Fardd i Lywelyn ap Gruffudd, y Llyw Olaf, ac ynghlwm wrthynt ceir rhannau o farwnad enwog Gruffudd ab yr Ynad Coch i'r un tywysog, tt. 190–5;²³ priodolir y cyfan i Lywarch Offeiriad. Saith llinell yn unig o englynion Bleddyn Fardd sydd wedi goroesi yn Llawysgrif Hendregadredd, ac oherwydd hynny defnyddiwyd testun Dafydd Epynt yn sail i'r golygiad o'r englynion yng Nghyffres Beirdd y Tywysogion.²⁴ Ceir copi o farwnad Gruffudd ab yr Ynad Coch yn Llyfr Coch Hergest, ond nid dyna oedd ffynhonnell Dafydd Epynt.²⁵ Y mae'r ffaith fod cynifer o gopiau o'r ddwy gerdd hyn wedi goroesi yn awgrymu eu bod yn destunau poblogaidd iawn yn y cyfnod hwn a'r ddwy ganrif ddilynol: ai codi'r testunau ar gais ei noddwr o ryw ffynhonnell ysgrifenedig sydd bellach wedi ei cholli a wnaeth Dafydd, ynteu a wyddai'r cerddi ar ei gof? Y mae'n bosibl iddo eu dysgu yn rhan o'i addysg farddol.

Yn dilyn y ddwy gerdd hyn ar d. 196–9 ceir yr unig gopi yn llaw Dafydd Epynt o gerdd gan un o'i gyfoeswyr, sef testun o gywydd i ferch gan Lawdden.²⁶

²¹ Am ddjarhebbion Pen 17, gw. H. Lewis, 'Djarhebbion ym Mheniarth 17', B iv (1927–9), 1–17.

²² Diolchir yn arbennig i Mr Richard Glyn Roberts am ei sylwadau gwerthfawr ar restr ddjarhebbion Dafydd Epynt mewn llythyr ataf.

²³ Gw. GBF td. 417; ceir rhannau o'r un gerdd yn Pen 54, i, 99–103, ond nid yn llaw Dafydd Epynt nac ychwaith o'r un ffynhonnell, ond o ffynhonnell gysylltiedig, gw. GBF td. 419.

²⁴ *Ib.* cerdd 51.

²⁵ *Ib.* cerdd 36 ac yn arbennig td. 419.

²⁶ Gw. Llawdden, &c.: Gw 105–7 (cerdd 34).

O edrych, felly, ar yr hyn a gopiwyd gan Ddafydd ac eraill yn y llawysgrifau hyn, cawn syniad o'r math o ddeunydd yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddo. Y mae'n bosibl, er enghraifft, fod y diddordeb a amlygir ynddynt mewn deunydd brudiol cysylltiedig ag enwau Taliesin a Myrddin yn esbonio'r themâu brudiol a welir yn achlysurol yng nghanu Dafydd Epynt. At hynny, y mae'n bosibl yr adlewyrchir y diddordeb mewn patrymau mydryddol yn rhai o awdlau Dafydd, lle y defnyddiodd fesurau braidd yn anarferol fel clogyrnach (cerdd 5) a thrybedd y mynaich (cerdd 14). Gwelir hefyd iddo ddefnyddio rhai hen eiriau sy'n dod o eirfa debyg i'r un a geir yn Pen 55, 199–202a²⁷ er mwyn llunio englyn yn rhoi cyfystyron geiriau.²⁸

Dyddiadau

1460 yw'r dyddiad a roddir ar gyfer Dafydd Epynt gan John Davies, a dilynwyd ef gan *Y Bywgraffiadur Cymreig*.²⁹ Ni wyddys pryd y cafodd ei eni na phryd y bu farw, ac felly y mae'n rhaid defnyddio tystiolaeth ei gerddi a'r llawysgrifau y cofnododd ef ei gerddi ynddynt er mwyn bwrw bras amcan ynglŷn â chyfnod ei flodeuo.

Prin, ysywaeth, yw'r cerddi y gellir cynnig dyddiad pendant ar eu cyfer. Ymddengys mai un o'r cynharaf a gadwyd yw'r awdl farwnad i Forgan ap Syr Dafydd Gam, gŵr a fu farw c. 1456–60 (cerdd 5);³⁰ hon hefyd yw'r gerdd gyntaf i Ddafydd Epynt ei chodi i lawysgrif Pen 54, sef y gynharaf o'r tair llawysgrif y credir iddo godi ei waith iddynt. Y gerdd ddiweddaraf y gellir bod yn weddol sicr o'i dyddiad yw'r gerdd fawl i Siôn Morgan (cerdd 18), gŵr a fu'n esgob Tyddewi o 1496 hyd ei farwolaeth yn 1504. Yn y gerdd hon cyfeirir yn benodol at Siôn fel esgob, a chadarnheir y cyswllt â Thyddewi gan y datganiad ei fod yn [f]rawd a châr ... / *Ar y ddaear i Ddewi* (18.13–14). Hon hefyd yw'r gerdd olaf i Ddafydd Epynt ei chodi i lawysgrif Pen 60, sef y ddiweddaraf o'r tair llawysgrif y cofnododd ei waith ynddynt.

Tystiolaeth bwysig arall yw dyddiadau'r tair llawysgrif hyn, sef Pen 54, a ddyddir gan Mr Daniel Huws c. 1480; Pen 55 a ddyddir ganddo c. 1500; a Pen 60 a ddyddir 1510 × 1515.

Ar sail tystiolaeth fewnol y cerddi a thystiolaeth y llawysgrifau, felly, cynigir bod Dafydd Epynt yn ei flodau rhwng c. 1456–60 a c. 1510–15.

²⁷ Codwyd yr eirfa hon yn RWM i, 424.

²⁸ Gw. ymhellach gerdd 23.

²⁹ Gw. rhestr John Davies, Mallwyd, o feirdd a'u dyddiadau yng nghefn D; dyna hefyd a roddir ganddo wrth droed ei destun yn Pen 100 o gerdd 7 isod; yr un dyddiad a geir gan law anh. wrth droed cerdd 2 yn J 101 [= RWM 17]; gw. hefyd ByCy 92.

³⁰ Ceir trafodaeth bellach ar ddyddiadau'r cerddi y cyfeirir atynt yma yn y nodiadau cefndir a geir ar gyfer pob cerdd.

Y cerddi a'u noddwyr

Fel y gwelwyd uchod, credir bod cyswllt rhwng y tair llawysgrif y cofnododd Dafydd Epynt ei waith ynddynt, sef Pen 54, Pen 55 a Pen 60, a'r Peutyn ger Aberhonddu. Gan fod mwyafrif y cerddi o waith Dafydd Epynt a gynhwysir ynddynt wedi eu canu i noddwyr o'r ardal honno, y mae'n demtasiwn defnyddio'r 'dystiolaeth' hon i brofi bod Dafydd yn fardd lleol a ganodd yn bennaf i amrywiol ganghennau o'r un teulu ac na chrwydrodd fawr pellach na'i filltir sgwâr i geisio nawdd. Wrth gwrs, gall hyn fod yn wir, ond y mae'n bosibl hefyd fod cerddi eraill a ganodd wedi eu colli. Wrth ddisgrifio cylch noddwyr Dafydd Epynt, felly, y mae'n rhaid cofio ein bod bron yn llwyr ddibynnol ar dystiolaeth gyfyng y tair llawysgrif hyn.

Yr oedd Brycheiniog yn y cyfnod hwn yn ardal hynod gyffrous o safbwynt diwylliant Cymraeg; yn wir, cyfeiriodd Ieuan ap Huw Cae Llwyd at ei phrif dref, Aberhonddu, fel *Continobl Cymru bobloedd*.³¹ Tueddir i feddwl heddiw, o leiaf o safbwynt y Gymru Gymraeg lenyddol, mai tir diffaith a hesb yw Brycheiniog drwyddi draw, ac o safbwynt y Gymru Seisnigedig, darlun o '[d]dieithrwech, arwahanrwydd, odrwydd, y teimlad bod hanes wedi mynd y tu arall heibio i'r parthau hyn' a geir.³² Ond yn ystod cyfnod Dafydd Epynt ar ddiwedd y bymthegfed ganrif yr oedd de Brycheiniog a'r ardaloedd cyfagos yn fath o Feca i feirdd Cymru,³³ fel y dadleuodd Dr Marged Haycock:

Deuai beirdd o bob cwr o Gymru i glera yma, rhai fel Huw Cae Llwyd a Llawdden i aros am gyfnodau hir, ac eraill fel Lewys Glyn Cothi o sir Gâr, a Dafydd Benwyn o Forgannwg, ar aml i ymweliad. Yn eu tro, âi beirdd y fro, fel Morgan Elfael o Ddiserth, ar deithiau clera i rannau eraill o Gymru.³⁴

Yr oedd ym Mrycheiniog, felly, nifer mawr o deuluoedd diwylliedig a oedd yn barod i noddi barddoniaeth Gymraeg: teuluoedd megis yr Herbertiaid, y Gambiaid, y Fychaniaid a'r Rhoseiriaid yr oedd eu cartrefi yn gyrcfannau poblogaidd ac atyniadol i feirdd o bob cwr o'r wlad.³⁵ Gwelir bod Dafydd Epynt, yntau, wedi derbyn nawdd a chroeso ar aelwydydd y teuluoedd hyn.

Fel y dywedwyd, uchelwyr ac uchelwragedd o Frycheiniog, ac yn fwyaf penodol o'r fro o gwmpas Aberhonddu, oedd prif noddwyr Dafydd Epynt yn ôl tystiolaeth y cerddi a gadwyd, a thrawiadol iawn yw'r cysylltiadau sydd rhwng y noddwyr hyn.

³¹ Marged Haycock, *Am y Ffin â'r Gorffennol: Golwg ar Lenyddiaeth Gynnar rhwng Wysg a Thefeidiad* (Llanelwedd, 1993), 13.

³² *Ib.* 4.

³³ NBSBM i–v.

³⁴ Marged Haycock, *op.cit.* 12.

³⁵ Trafodir noddwyr y beirdd ym Mrycheiniog gan Tegwen Llwyd yn NBSBM.

Y gerdd gynharaf o'i waith y gallwn ei dyddio yw'r gerdd gyntaf a gofnododd yn Pen 54, sef awdl farwnad i Forgan ap Syr Dafydd Gam (cerdd 5) o'r Peutyn-du, gŵr y credir iddo farw mewn oedran teg rhwng 1456 a 1460.³⁶ Yn yr un llawysgrif hefyd ceir cywydd ganddo i Hywel ap Gwilym Dew (cerdd 6), sef wŷr i Hywel ap Llywelyn a oedd yn frawd i Syr Dafydd Gam.

Disgynnai nifer o deuluoedd pwysig Brycheiniog o Syr Dafydd Gam, trwy ei ferch Gwladus.³⁷ Gŵr cyntaf Gwladus Gam oedd Syr Rhosier Fychan, Brodorddyn, a fu farw yn 1415 ym mrwydr Agincourt. O'r briodas hon ganwyd nifer o blant, gan gynnwys Syr Rhosier Fychan, Tretŵr, a ddiennyddiwyd yn 1471. Mab i Syr Rhosier, drwy ei briodas gyntaf â Denys ferch Tomas ap Phylib Fychan, oedd Syr Tomas Fychan, y canodd Dafydd Epynt gywydd iddo'n moli ei filwriaeth (cerdd 13). Ar sail cyfeiriad yn y gerdd honno at Domas fel *Syr*, fe'i dyddir rhwng 1483/4, sef adeg ei urddo, a'i farwolaeth yn 1494. Priododd Syr Tomas â Sisil ferch Morgan a mab iddynt hwy oedd Siôn Fychan o Dretŵr, gŵr y canodd Dafydd iddo awdl fawl ysblennydd (cerdd 14). Yr oedd Sisil yn chwaer i Siôn Morgan a oedd, fe ymddengys, yn esgob Tyddewi pan ganodd Dafydd gywydd mawl iddo rhwng 1496 a 1504: tybed ai ar aelwyd Sisil y canodd Dafydd Epynt y cywydd hwnnw? Tybed, hefyd, ai marwnad i Forgan ap Siencyn, tad Siôn Morgan a Sisil, yw'r gerdd anghyflawn (Atodiad i) a briodolir i Ddafydd Epynt ac a ychwanegwyd gan law arall yn Pen 60 yn dilyn copi Dafydd Epynt o'i gywydd i'r Esgob Siôn Morgan?

Mab arall i Syr Rhosier Fychan a Gwladus Gam oedd Tomas Fychan o Hergest, tad Watgyn Fychan. Er na chadwyd canu gan Ddafydd Epynt i ddisgynyddion y gangen hon o'r teulu, cadwyd ganddo gywydd yn diolch i Ddafydd ap Hywel, bardd Watgyn Fychan, am farch, ffrwyn a chyfrwy (cerdd 15). Dichon mai ar sail gweld copi o'r gerdd hon y disgrifiodd Dr John Davies, Mallwyd, y bardd fel a ganlyn: *Dafydd Epynt a gant i Ddafydd ap Howel y prydydd*.³⁸ (Diddorol, er hynny, yw'r ffaith na oroesodd copi yn llaw Dr Davies o'r gerdd hon. Ni oroesodd ychwaith gopi ohoni yn llaw Dafydd Epynt, ond dichon y byddai ef wedi ei chopio i lawysgrif yn Hergest, a bod y llawysgrif honno wedi diflannu.)

Wedi marwolaeth ei gŵr cyntaf, Syr Rhosier Fychan, yn 1415, priododd Gwladus Gam â Syr Wiliam ap Tomas, a fu cyn hynny'n briod ag Elizabeth, merch Syr John Bluet. O'r briodas hon rhwng Gwladus a Syr Wiliam y ganwyd un o wŷr mwyaf dylanwadol ei ddydd, sef Syr Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro o'r greadigaeth gyntaf. Brawd iau i Wiliam oedd Syr Rhisiart Herbert o Golbrwg ger y Fenni, a thrwy ei briodas ef â Marged, merch

³⁶ Ceir trafodaeth bellach ar gefndir y cerddi a grybwyllir yma yn nodiadau cefndir pob cerdd.

³⁷ Gw. y tablau achau hwylus yn D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r Beirdd', YB xxiv (1998), 92–3.

³⁸ Pen 49, 173f.

Tomas ap Gruffudd ap Nicolas, y ganwyd y ddau frawd y canodd Dafydd Epynt iddynt, sef Wiliam a Rhisiart Herbert (cerddi 9–11). Ifanc iawn oedd y ddau frawd hyn pan fu farw eu tad ym Manbri yn 1469; cyfeiria Dafydd Epynt, fel y gwnaeth Ieuan Deulwyn yntau, at y ffaith fod Wiliam yn dal yn ei grud ar y pryd. Credir mai yn ystod wythdegau neu nawdegau'r bymthegfed ganrif y canodd Dafydd Epynt i'r ddeuddyn hyn.

Dichon mai i'r cyfnod hwn, hefyd, y perthyn cywydd mawl Dafydd Epynt i'w hewythr, Syr Rhys ap Tomas (cerdd 12), gŵr hynod ddylanwadol yn ei ddydd a brawd i Farged, mam Wiliam a Rhisiart Herbert. Cysylltir Syr Rhys â chartrefi yn siroedd Penfro a Chaerfyrddin (megis Abermarlais a Chaeriw), ac er ei bod yn bosibl fod Dafydd Epynt wedi derbyn nawdd Syr Rhys ar un o'r aelwydydd hynny, tybed nad ar aelwyd Marged a'i meibion yng Ngholbrwg y canwyd y cywydd hwn? Bu Syr Rhys yn ffigur dylanwadol iawn ym mywyd Wiliam, a gwelir i'r nai ymuno â byddin ei ewythr ar sawl achlysur yn ystod ei yrfa. Gan hynny, tybed a gymerodd Syr Rhys ei nai bychan dan ei adain pan fu farw ei dad?

Teulu arall a roes nawdd i Ddafydd Epynt yw'r Hafardiaid, a chadwyd ganddo gywydd yn moli Wiliam Hafard ap Tomas o Aberbrân (cerdd 7) ac awdl foliant faith i Lewys Hafard a'i wraig Isbel (cerdd 8) o *lys yr Hafart*, nas enwir. Y mae peth amheuaeth ynglŷn â phwy'n union oedd Lewys Hafard, ond y tebyg yw mai Lewys ap Tomas, wŷr Wiliam Hafard ap Tomas, ydoedd. Ategir hynny, o bosibl, gan y ffaith y cysylltir y Lewys hwn yn yr achau ag Aelfannog yn Llan-faes ger Aberhonddu. Y mae'n debygol fod Dafydd Epynt wedi canu i'r ddeuddyn hyn cyn 1469, os cywir mai hwy yw'r Lewys a Wiliam Hafard o Frycheiniog a restrir gyda Chymry amlwg eraill a fu farw ym mrwydr Banbri yn y flwyddyn honno.

Yn Llanfrynach ger Aberhonddu y trigai Siôn ap Rhosier a'i wraig Mawd ferch Morgan Awbrai a folwyd mewn cywydd gan Ddafydd (cerdd 16). Yr oedd Marged, mam Siôn, yn ferch i Siencyn Gwnter Hen, a thrwy ei mam Gwenllïan gallai olrhain ei hach i Einion Sais, cyndad i Syr Dafydd Gam. Yr oedd hi hefyd yn chwaer i Isbel, sef mam Hywel Amhadog ap Trahaearn y canodd Dafydd Epynt gywydd marwnad iddo (cerdd 21). Ni wyddys beth oedd enw gwraig Hywel Amhadog, ond yr oedd hi'n chwaer i Wenllïan, mam Hopgyn Awbrai o Abercynfrig, ym mhlwyf Llanfrynach, a folwyd mewn awdl gan Ddafydd Epynt (cerdd 17). Yr oedd Gwenllïan a mam Hywel Amhadog yn ferched i Fawd, merch Morgan ap Syr Dafydd Gam, a dyna llyn cyswllt rhwng y cerddi hyn a'r gerdd gynharaf a gadwyd gan Ddafydd Epynt, sef ei awdl i Forgan ap Syr Dafydd Gam (cerdd 5).

Ni ellir bod yn sicr pwy yn union oedd Morgan ab Owain a Sisli ei wraig, y disgrifiwyd eu hangladdau gan Ddafydd Epynt mewn marwnad gofiadwy (cerdd 20). Y tebyg yw mai Morgan ab Owain ap Rhys Llwyd o linach Bleddyn ap Maenyrch ydoedd, gŵr a drigai yn Llanfihangel Nant Brân oddeutu 10 km i'r gogledd-orllewin o Aberhonddu. Yr oedd eglwys Merthyr

Cynog tua 4 km o'i gartref, a dichon mai dyma'r Merthyr y cyfeirir ato yn y gerdd ac mai yno y claddwyd ef a'i wraig.

Ni wyddom ychwaith pwy oedd Siancyn ap Rhys, y masnachwr (*marsiant*) y canodd Dafydd Epynt gywydd yn gofyn iddo am ffaling, sef math o glogyn Gwyddelig trwm (cerdd 19). Sonnir yn y gerdd am Ddinbych, sef Dinbych-y-pysgod yn ôl pob tebyg, a dichon mai drwy'r porthladd hwn y byddai Siancyn ap Rhys yn mewnforio ei ffalingod. Cysylltir Siancyn yn y gerdd â llinach Brychan, sef sylfaenydd traddodiadol teyrnas Brycheiniog, a chan hynny dichon ei fod yntau'n perthyn i un o deuluoedd mawr y sir.

Yn ogystal â'r cerddi hyn i noddwyr, cadwyd hefyd gywydd marwnad gan Ddafydd i Hywel Dafï a Huw Cae Llwyd. Y tebyg yw fod Hywel Dafï wedi trengi pan ganwyd y gerdd, ond bod Huw Cae Llwyd yn dal ar dir y byw. Nid oes ond rhaid edrych ar gynnwys y tair llawysgrif y bu Dafydd Epynt yn cofnodi ei waith ynddynt i weld bod y tri bardd hyn yn troi yn yr un cylchoedd: yr oedd y tri yn feirdd a ganai yn yr ardal hon ac a fu'n cofnodi eu cerddi yn yr un llawysgrifau. Gwelir ôl dylanwad Hywel Dafï yn arbennig ar ganu Dafydd Epynt—tynnir sylw yn y nodiadau isod at nifer o adleisiau o'i waith ef.

Yr unig gerdd sy'n sicr yn ein dwyn allan o'r ardal hon ym Mrycheiniog yw'r gerdd i Gathen, nawddsant Llangathen yng nghwmwd Cethiniog yn y Cantref Mawr yn sir Gaerfyrddin (cerdd 4). Cofnodwyd hon gan Ddafydd Epynt gyda'i gywydd i Gynog yn Pen 54, ac felly y mae'n gerdd a ganwyd yn weddol gynnar yn ei yrfa. Er ei bod o bosibl yn anghyflawn, y mae'n gerdd ddiddorol iawn; ynddi cyferchir y sant a gofynnir am iachâd o'r ddeirton.

Ei waith

Priodolir pedair cerdd grefyddol i Ddafydd Epynt, yn gywyddau i gyd, sef 'I Grist' (cerdd 1), 'I Fair' (cerdd 2), 'I Gynog Sant' (cerdd 3) ac 'I Gathen Sant' (cerdd 4). Fel y nodwyd uchod, canwyd tair o'r rhain (sef 1, 3–4) cyn c. 1480, os cywir y dyddiad a roddir ar gyfer llawysgrif Pen 54, lle y ceir yr unig gopi ohonynt. O safbwynt tystiolaeth y copïo a fu arni, y gerdd fwyaf poblogaidd, yn sicr, o blith holl gerddi Dafydd Epynt yw'r cywydd 'I Fair': ceir 17 copi llawysgrif o'r gerdd hon, ond nid oes yr un ohonynt yn llaw'r bardd ei hun.

Y mae'r ddwy gerdd gyntaf yn y gyfrol hon yn gwbl nodweddiadol o gerddi crefyddol y cyfnod hwn.³⁹ Cerdd wedi ei hysbrydoli gan ddelw o Grist ar y grog yn Aberhonddu yw'r gyntaf. Ynddi molir Crist am Ei wroldeb ac fel Creawdwr, gan gyfeirio at elfennau yn Ei fywyd, megis Ei ymgawdoliad a'i eni o Fair a'i erledigaeth gan yr Iddewon pan oedd yn

³⁹ Ceir trafodaeth bellach ar y cerddi hyn yn y nodiadau cefndir arnynt.

blentyn; yna disgrifir ac ystyrir marwolaeth Crist ar y Groes cyn terfynu drwy ddatgan yn gwbl hyderus y bydd ef, Dafydd Epynt, yn cael dilyn Crist ar Ddydd y Farn:

Ar D'ôl, ir yw Dy weli,
Yn Nydd y Farn ydd af i. (1.53–4)

Yn y cywydd i Fair, fe'i portreedir fel *Arglwyddes* (2.3) a *Brenhines* (2.47) a chanddi rym ac awdurdod dros fôr a thir. Pwysleisir ei goruchafiaeth ar y saint eraill (2.7–8) yn ogystal â'i harddwch a'i morwyndod (2.9). Sonnir am Gabriel, yr *angel penfelyn*, yn dod â'r gair iddi am ei beichiogrwydd (2.13–16); am y modd y cariodd Grist yn ei [g]wasgwen (2.19) ac amdani'n Ei fwydo o'i bronau (2.37). Fe'i gelwir yn [*f*]am y *Tad mawr* (2.16), gan gyfeirio at natur baradocsaid y berthynas rhyngddi a'i mab, sydd hefyd yn dad iddi (2.16n). Yna sonnir am y gwewyr a deimlodd wrth weld ei mab yn dioddef ar y groes (2.23–4) a'r modd yr wylodd ddagrau o waed a gydredai â'i waed yntau (2.31–2). Yn nhraean olaf y gerdd try'r bardd ei olygon at Ddydd y Farn, ac ymbilia ar Fair, ar sail ei pherthynas agos â Christ, i'w warchod rhag tân uffern:

Am ryw bechod mawr, bychan,
Mair, n'ad ti 'y mwrw 'n y tân! (2.49–50)

Y mae'r ddwy gerdd i saint, sef 'I Gynog Sant' (cerdd 3) ac 'I Gathen Sant' (cerdd 4), yn gerddi gwahanol iawn i'w gilydd. Yn ôl traddodiad, yr oedd Cynog yn fab i Frychan Brycheiniog, sylfaenydd Brycheiniog, a chan hynny ef oedd sant pwysicaf y dalaith honno. Bwriad y cywydd yw dyrchafu bri Cynog, drwy gyfeirio at hanesion amdano sy'n dangos ei rym arbennig fel sant a'i gysylltiad â'r fro. Ar ôl moli crair arbennig Cynog, sef ei dorch wyrthiol, hydera'r bardd y bydd y sant yn defnyddio'r dorch honno i'w warchod ef rhag y diafol ar Ddydd y Farn.

Cywydd Dafydd Epynt yw'r unig gerdd a gadwyd i Gathen Sant ac, yn wir, ni chanfuwyd unrhyw draddodiadau amdano mewn unrhyw ffynhonnell arall. Honna'r bardd ei fod yn canu'r gerdd hon ar gwr bedd Cathen, ac felly y mae'n debygol mai yn Llangathen yn y Cantref Mawr, sir Gaerfyrddin, y'i canwyd. Er bod elfen o foli'r sant yn y cywydd hwn, a hynny drwy gyfeirio at rym ei wyrthiau, prif nod y bardd yw cyflwyno cais ar i'r sant ei iacháu o'r ddeirton.

O ran gweddill y cerddi a gadwyd, sef y cerddi secwlar, ceir tair awdl fawl (cerddi 8, 14, 17), wyth cywydd mawl (cerddi 6, 7, 9, 10, 12, 13, 16, 18), un awdl farwnad (cerdd 5), tri chywydd marwnad (cerddi 20, 21 a 22, sydd o bosibl yn ffug-farwnad), dwy gerdd ofyn (cerddi 11, 19), un cywydd diolch (cerdd 15) a dau englyn gorchest (cerddi 23 a 24). Cyfyng, at ei gilydd, yw ystod ei ddulliau llenyddol, ac ni chadwyd ar ei enw yr un cywydd serch na chywydd dychan, nac ychwaith unrhyw gerdd ymryson â bardd arall.

Traddodiadol hefyd yw sylwedd mawl Dafydd Epynt i'w noddwyr: bron na ellir dweud ei fod ym mhob un gerdd yn rhoi sylw i ach y noddwr, i'w alluoedd fel milwr neu bennaeth, ac i'w haelioni yn ei lys neu ei gartref. Ond annheg fyddai honni bod y cerddi yn unffurf; y mae'r pwyslais gwahanol a geir ynddynt yn adlewyrchu, y mae'n siŵr, natur yr unigolyn y canai'r bardd iddo a'i adnabyddiaeth ef ohono. Er enghraifft, yn y gerdd farwnad i Forgan ap Syr Dafydd Gam (cerdd 5), pwysleisir bod y gwrthrych yn dad i deulu hynod ffyniannus. Y mae'n sicr fod hyn yn adlewyrchu adnabyddiaeth Dafydd o Forgan, a oedd yn hen ŵr pan oedd y bardd yn cychwyn ar ei yrfa ym mhumdegau'r bymthegfed ganrif, a cherdd yn dathlu llwyddiant Morgan yn sefydlu teulu amlganghennog yn y Peutyn yw'r awdl farwnad hon. Gwahanol yw naws y gerdd fawl i nai Morgan, Hywel ap Gwilym Dew (cerdd 6), a folir am ei ddoethineb fel barnwr (*brawdwr*) ac fel un a weinyddai heddwch a chyfiawnder ac a allai beri i ddihirod gywiro eu ffyrdd (6.39–46). Ar y llaw arall, cerdd yn dathlu buddugoliaeth Syr Rhys ap Tomas fel pennaeth milwrol yw'r cywydd mawl iddo ef (cerdd 12), ac er bod cyfeiriadau ynddo at ei ach a'i ddoethineb, y mae'r pwyslais y tro hwn ar allu Syr Rhys i arwain ei bobl ac i drin cleddyf yn effeithiol. Diddorol yw'r modd y mae'r bardd yn gwau themâu brudiol i'r cywydd hwn, gan awgrymu bod dyfodiad Syr Rhys yn bennaeth yn ateb y math o ddyheadau a fynegid yn y canu hwnnw. At hynny, awgrymir dyled Syr Rhys i'r canu brud drwy honni na fyddai wedi ei urddo'n farchog pe na bai wedi rhoi'r sylw dyladwy i'r cynghorion a geid ynddo:

Nid eurid yn y dyrys

Heb wers yr âb war Syr Rhys. (12.29–30)

Gan nad oedd Dafydd Epynt yn rhoi teitlau i'w gerddi, y cyfeiriadau a geir ynddynt at achau'r noddwr yw'n prif sail dros ddyfalu i bwy yn union y canai, ac fel y gwelir o'r nodiadau cefndir, erys peth amheuaeth ynghylch gwrthrych ambell gerdd. Cyfeirir yn aml at y tad a'r taid, ac yna at gyn-deidiau pellach, megis Rhys ap Gruffudd, Urien Rheged neu Frychan Brycheiniog, ac awgryma hyn fod gan Ddafydd Epynt gryn wybodaeth am achau'r noddwyr y canai iddynt. Cyfeirir yn achlysurol hefyd at y fam, gan fanylu ar ei hach hithau.

Yn aml, hefyd, y mae Dafydd Epynt yn arddangos cryn wybodaeth am draddodiadau teuluol ei noddwyr: yn y cerddi i'r Fychaniaid, er enghraifft, cyfeirir at Foreiddig Warwyn fab Drymbenog ac at y neidr a fabwysiadwyd yn symbol gan y teulu.⁴⁰ Yn y canu i Syr Rhys ap Tewdwr, cyfeirir at y frân (9.16n), ac wrth ganu i'w nai ef, Rhisiart Herbert, sonnir am ei *gorff, du a gwyn* (11.46), sef cyfeiriad at y ffaith mai tri llew gwyn a oedd ar arfbais y teulu ar ochr ei dad ac mai tair brân ddu a oedd ar arfbais teulu ei fam.

⁴⁰ Gw., e.e., 13.13n, 42n, 14.12n, 15.43n.

Wrth gyfeirio at linach ac epil ei noddwyr gwna Dafydd Epynt ddefnydd helaeth o ddelweddau o fyd coed, gan ddisgrifio ffrwythlondeb toreithiog ei noddwyr yn aml yn nhermau dail a changhennau lluosog yn tyfu o gyff coeden. Er gwaethaf y twf mewn masnach yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif, gwlad wledig â'i phoblogaeth yn denau iawn oedd Cymru a bro wledig oedd Brycheiniog y bymthegfed ganrif.⁴¹ Un o nodweddion amlycaf y wlad oedd ei mynyddoedd a'i choedwigoedd trwchus a niferus.⁴² Os Llywel neu Ferthyr Cynog oedd bro mebyd Dafydd Epynt, byddai wedi sylwi ar Fforest Fawr a Fforest Fach ar ei ddeheulaw wrth deithio dros yr ucheldir coediog i gyrchu un o gartrefi ei noddwyr cefnog yn nwyrain y sir.⁴³ Nid yw'n syndod, gan hynny, fod dail a choed yn rhan mor ganolog o batrymwaith delweddu'r bardd hwn.

Yn un o'i gerddi cynharaf sydd ar glawr, sef ei awdl farwnad i Forgan ap Syr Dafydd Gam (cerdd 5), disgrifir nythaid plant ei noddwr fel arwydd o ffrwythlondeb toreithiog Morgan:

Dyn o'i waed a wnaï adail,
Llyna ddyn yn llawn o ddail. (5.19–20)

Mynegir hyder y bardd ynghylch dyfodol y teulu ar ôl marw'r tad drwy gyfeirio at y disgynyddion fel gwaiail a fyddai'n tyfu dan oruchwyliaeth Duw a Mair (5.17–18 *Weithian ni wywan', ei wiail—a dyf, / Duw a'i fam a'u harail*). Yn wir, yng ngolwg Dafydd Epynt, yr oedd twf teulu Morgan mor naturiol â thwf y coedwigoedd o'u cwmpas, *A'r wyrion oedd yr irwydd* (5.28).

Gwelir yr un ddelwedd yn ei gywydd i'r Rhisiart Herbert ifanc pan ddywed:

Deilog wyt ti fal gwaiail,
Ni allai ddyn well ei ddail. (11.43–4)

Bron na fyddai modd cyfnewid y gair 'ddail' am 'blant' ac 'epilgar' am 'deilog' heb golli gormod ar yr ystyr. Wrth gwrs, nid oes rhaid mai plant a anwyd drwy briodas oedd y rhain i gyd, a thybed nad cyd-ddigwyddiad llwyr yw fod yr ymadrodd 'plant y dail', a glywir o hyd ar lafar yn ne Cymru, yn golygu 'plant anghyfreithlon'?⁴⁴

Rhoes delwedd y goedwig gyfle i Ddafydd Epynt ddarlunio prifant unigolion yn ogystal â disgynyddion niferus noddwr:

Ac ni ddaw egin o ddyn
Well ei hil no Llywelyn:

⁴¹ R.R. Davies, *The Revolt of Owain Glyndŵr* (Oxford, 1995), 28 a 30; gw. hefyd Robert Richards, *Cymru'r Oesau Canol* (Wrecsam, 1933), 60–1.

⁴² R.R. Davies, *op.cit.* 21.

⁴³ *Ib.* 18.

⁴⁴ GPC 2818.

Epil ddwyfil o Ddafydd
A dyf yn goed fwy no gwŷdd. (11.7–10)

Os oedd delwedd y goedwig bron yn gyfystyr â ffrwythlondeb y ddynoliaeth, yr oedd hefyd yn cynnig cyfle i'r bardd roi gair o gyngor i'r disgybyddion:

Ni bu un pren byw yn parhau
Na bai lydain eu blodau. (21.33–4)

Y mae adar, hefyd, yn chwarae rhan amlwg yn ei farddoniaeth. Weithiau nid yw *adar* neu *ederyn* ond gair sy'n gyfystyr ag 'unigolyn' neu 'bobl' (e.e., 5.23). Gall fagu grym dihareb ar dro:

Ederyn gwyllt a'r un gwâr,
Mae 'n y diwedd mewn daear. (20.7–8)

Dro arall, yr oedd adar a beirdd yn gyfystyr â'i gilydd. Geilw Dafydd ei hun yn *edn Epynt* (22.36), a'i gyfaill, Dafydd ap Hywel, bardd Watgyn Fychan o Herast, yn *edn, Ederyn Duw o Herast*, ac yn *Eos Powys* (15.1–4).⁴⁵ Datblygir y ddelwedd hon ymhellach wrth i'r bardd gyfeirio at gynhaliaeth a magwraeth arbennig Watgyn Fychan i'w fardd yn nhermau nyth mewn derwen, coeden sy'n symbol traddodiadol o gadernid di-syfl:

Ni fagwyd ar fwyd un fodd
Eos megis y magodd;
Ederyn llwyd ar un llyn,
Ar ei ddesgl aur a ddisgyn.
Ni thyn ei nyth, hwn, yn ôl
O'r un dderwen ddaearol. (15.47–52)

Yn ei gerdd farwnad, neu ffug-farwnad, i'r ddau fardd Hywel Dafi a Huw Cae Llwyd, gofynnir yn daer:

Oes un eos yn Nwywent
Nac oes un agos i Went? (22.23–4)

a disgrifir y ddau ymhellach fel beirdd a chanddynt nythle cadarn:

Adar oedd â derw iddun. (22.9)

Gall delwedd yr adar weithiau gynnig cyfle i Ddafydd Epynt dynnu sylw at ragoriaeth aderyn ar ddyn. Wrth erchi mantell gan Risiart Herbert, medd Dafydd:

Edn a wedd adain iddaw,
Ond ar ddyn y dŵr a ddaw. (11.27–8)

Efallai mai'r defnydd mwyaf annisgwyl o'r ddelwedd hon yw'r disgrifiad o Grist fel *Ederyn ... ar y nef* (1.2).

⁴⁵ Gw. 15.1n.

Daeth Dafydd Epynt hefyd o hyd i ddeunydd delweddd ym myd mytholeg. Yn ei fawl i Syr Rhys ap Tomas dywed:

Llai awch gaiff Adar Llwch Gwin
No nâd brân yn iad brenin. (12.25–6)

Y mae *eryr* yn hen drosiad am arwr mewn barddoniaeth Gymraeg, ac fe'i defnyddiwyd gan Ddafydd Epynt i gyfarch ei noddwyr (fel y galwodd hwynt hefyd yn *llew*, *blaidd*, *tarw*, &c.). Er enghraifft, cyfarchodd Risiart Herbert fel *eryr Gwent* (11.14), a'i frawd, Wiliam, fel *eryr eglur o Raglan* (9.36). Yr *eryr* hefyd yw dewis drosiad Dafydd Epynt yn ei agoriad urddasol i'w awdl foliant i Siôn Fychan o Dretŵr:

Eryr y sawdwyr â'r sidan—a'r aur,
Ŵyr i Roser Fychan. (14.1–2)

Mewn cyd-destun llai milwrol, cysylltir *eryr* ag aur unwaith eto pan ddisgrifir yr Esgob Siôn Morgan fel *eryr goreuraid* (18.28).

Yr un swyddogaeth a gyflawna'r hebog yn y farddoniaeth. Cynrychioli pennaeth ei ddsbarth a wna yn nhrefn Cadwyn Bod,⁴⁶ a dyna paham y caiff Siôn ap Rhosier o Lanfrynach ei alw'n *hebog* (16.14). O gofio mai syniadaeth Cadwyn Bod sy'n garn i'r trosiadau hyn, nid yw'n syndod gweld lliaws o anifeiliaid eraill yn cyflawni'r un swyddogaeth â'r *eryr* a'r hebog yng ngwaith Dafydd Epynt. *Y carw ifanc o'r Hafart* yw Wiliam Hafard ap Tomas o Aberbrân (7.1); *Llew garw Gwent* yw Wiliam Herbert o Golbrwg (10.12); [*t*]arw mawr yw eu tad, Syr Rhisiart Herbert (9.9); *blaidd cad* neu [*d*]arw o *Went* yw Syr Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Dretŵr (13.5, 55); *llewpart benllad* yw Lewys Hafard (8.66); ac y mae Wiliam Herbert o Golbrwg yn gyfuniad o darw ac *eryr*:

Dau enw gŵr i dan y grog,
Tarw ac *eryr* trugarog. (10.21–2)

Chwaraeai dŵr hefyd ran ganolog yn nelweddaeth Dafydd Epynt. Yr oedd grym dŵr yn un o ryfeddodau byd natur, ac wrth foli Wiliam Herbert o Golbrwg honnir na allai na dŵr na dyn ei drechu:

Argae dur ac ederyn
Nis tyr dŵr, nis tery dyn. (9.49–50)

Molir Syr Rhys ap Tomas yntau fel un a chanddo awdurdod dros ddyfroedd:
Rhyw Niclas hir yn cloi sydd
Yr holl fôr ... (12.1–2)

Ac yn ei awdl foliant i Siôn Fychan o Dretŵr honnir bod y noddwr yn rhagori ar y môr o ran ei ddigofaint:

⁴⁶ Am ymdriniaeth fras â Chadwyn Bod, gw. Ceri W. Lewis, 'The Content of Poetry and the Crisis in the Bardic Tradition', yn *GWL* ii² 72–5.

Trwy ei ddigofaint ar ddygyfor
Mwy yw ei ragor no môr eigion. (14.67–8)

Ond gallai dŵr, ac yn arbennig *dŵr llygaid* (13.20), hefyd fod yn ddelwedd o ofid a galar. Wrth alaru ar ôl Morgan ab Owain a'i wraig Sisli, disgrifia Dafydd Epynt y dagrau'n llifo'n ffrydlifoedd o lygaid y galarwyr:

Llu'n wylo lliw ni wylen',
Llifddwr pell a fydd o'r pen. (20.15–16)

Er bod y math hwn o ormodiaith bron yn chwerthinllyd i ni, y mae'n gwbl nodweddiadol o ganu'r cyfnod; cymharer y modd y disgrifiodd Huw Cae Llwyd yr wylo ar ôl Morgan ap Syr Dafydd Gam:

Mae'r aelwyd am yr wylo
Mal pe bai'r tai heb y to.
Llai yw hindda yn Llanddwy,
Ac i Lanfaes y glaw'n fwy.⁴⁷

Yma y mae'r dagrau llifeiriol a'r glaw y tu allan i gyd yn dwysáu'r gofid, ac yn yr un modd ym marwnad Dafydd Epynt i Forgan ymddengys fod byd natur yn uniaethu â galar dwys y gymdeithas:

Du yw'r manod ar y mynydd
Yn yr heulwen a'r heolydd;
Deigr ffrwd o gyrff rhai, o'r iad a redai,
A fynnai afonydd. (5.49–52)

Er na chanodd Dafydd Epynt yr un gân serch na cherdd o fawl i ferch, y mae'n rhoi sylw i wragedd ei noddwyr mewn pedair cerdd. Yn ei awdl foliant i Lewys Hafard a'i wraig Isbel, cyflwyno'r bardd enwau'r ddau ym mhaladr ac esgyll yr englyn agoriadol:

Ymwanwyr a dyr dan darian—Lewys
A'i luoedd ym mhobman;
Isbel a roes i bobl ran
O'i llyn â'i llaw ei hunan. (8.1–4)

Yma molir Lewys am ei alluoedd fel pennaeth milwrol effeithiol a'i wraig am ei haelioni yn ei llys. Yng nghorff y gerdd molir llinach Lewys, ei ddoethineb, ei allu fel rhyfelwr, ond yn bennaf oll molir ei lys lle y mae beirdd yn derbyn mentyll a gwesteiwyr yn cael eu dilladu. Molir Isbel, y *wraig orau* yr ymserchodd Lewys ynddi (8.49), yn benodol fel meistres y llys hwn: pwy bynnag a fydd yn cyrchu ei thai hi ag ochenaid, bydd yn ymadael â chwerthiniad ar ei fin (8.53–4). At hynny, ni welwyd ym Mrych-einiog gyfan *Iarlles neu ddugies un ymddygiad* â hi (8.63–4); ac yn ogystal â bod yn hael, *Ni wedda 'n ei bron eudduw na brad* (8.62). Fel ei gŵr, yr oedd yn uchel ei thras ac wrth gwrs yr oedd hithau, fel ei gŵr, yn gyfrifol am

⁴⁷ HCL1 57 (XIII.23–6).

barhad y llinach (*hithau yw'r had*, 8.58). Daw'r awdl i ben â dymuniad ar i'r ddau ffynnu *heb wahaniad yn llys yr Hafart* (8.66–8).

Yr un yn ei hanfod yw sylwedd mawl Dafydd Epynt i wraig Siôn ap Rhosier o Lanfrynach, sef Mawd ferch Morgan Awbrai (cerdd 16). Ar ôl neilltuo rhan gyntaf y cywydd i foli Siôn am ei filwriaeth a'i achau aruchel (a hynny ar ochr ei fam yn ogystal â'i dad), try'r bardd ei sylw o linell 36 ymlaen at ei wraig, gan gynnig ei hanrhydeddu am ei haelioni yn rhoi cynhaliaeth i feirdd yn ei llys. Molir ei llinach hithau a nodweddid gan haelioni: *Ni bu frig neb o Forgan / Awbrai o'i rhyw heb roi rhan* (16.39–40), a chyfeirir at ei thras Normanaidd, gan sôn am y modd y trôï'n hawdd yng nghwmni dugiaid (16.41–2). Cydnabyddir hefyd, fel y gwnaed wrth ganu i Isbel wraig Lewys, ran Mawd yn y gwaith o gynhyrchu etifedd: *Ni chad dy had di ei hau*, medd y bardd wrth gyfarch ei gŵr, *Heb beth o'i hwyneb hithau* (16.45–6). Ond er gwaethaf tras estron Mawd, honna'r bardd fod awdl foliant yn gyfrwng cwbl briodol i'w moli hi, ac at hynny gallai hithau werthfawrogi'r hyn a genid iddi (16.47–8).

Y drydedd gerdd a ganwyd i wŷr a gwraig ynghyd yw'r cywydd marwnad i Forgan ab Owain a'i wraig Sisli (cerdd 20). Yn rhan gyntaf y gerdd hon, ceir mynegiant o golled chwerw'r bardd a'r gymdeithas ar ôl colli Morgan, a fu farw, fe gesglir, yn sgil afiechyd. Disgrifir ei angladd ym Merthyr, gan fanylu ar y modd y cludwyd ei gorff i'r eglwys ar elor, a'r meirch yn yr orymdaith yn gwisgo mentyll (20.11–14); sonnir am osod ei gorff yn y ddaear *dan grwys Duw*, am gau amdo o gylch ei gorff a rhoi *dŵr swyn* ar ei enau (20.30–2). Yna, yn llinell 39, try'r bardd ei sylw at Sisli, gwraig Morgan, gan honni bod marwolaeth y ddau wedi peri awch hiraeth iddo yn ogystal â cholled ariannol (*Morgan ym a'i wraig a wnaeth, / Yn iach arian, awch hiraeth*, 20.41–2). Honna ymhellach mai dial Duw ar dlodion oedd ei dwyn hi ymaith (20.45–6) a dysgwn i Sisli farw cyn ei gŵr, a hynny, y mae'n debyg, yn sgil yr un afiechyd. Sonnir am ei hangladd hithau a'i cheraint yn gwrando ar eiriau Duw wrth ymyl ei bedd (20.47–50). Dyfala'r bardd mai er mwyn *llanw y iau* yn y nefoedd y dygasai Duw Sisli o flaen ei gŵr (20.52), a bellach fe'u ceir ill dau yn *[D]deuddyn ... dda 'n y nef* (20.54).

Wrth fynd heibio, bron, y cyfeiria Dafydd Epynt at Siân ferch Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, gwraig Wiliam Herbert, yn yr ail gywydd mawl a ganodd iddo (cerdd 10). Cyfeirir yn unig at uno'r ddau a'r ffaith fod yr uniad yn un priodol, gan ei bod hi'n *rhiain o waed rheial* (10.40):

Rhoi Siân, hiroes i Wynedd,
At iarll Gwent i'r lle y gwedd. (10.37–8)

Y mae'n bosibl i'r gerdd hon gael ei chanu yn fuan wedi i'r ddau briodi, gan fod y bardd yn holi ynddi *Pwy fydd epil Syr Wiliam, / Etifedd gwaed Dafydd Gam?* (10.41–2), sef cyfeiriad at ei thad hi, Syr Wiliam Gruffudd, ac un o hynafiaid ei gŵr, Syr Dafydd Gam.

Mydr, cynghanedd ac ieithwedd

Cywyddau yw 18 o'r 24 cerdd o waith Dafydd Epynt a olygir yn y gyfrol hon, sef cerddi 1–4, 6–7, 9–13, 15–16, 18–22. Y maent fel arfer rhwng 50 a 60 llinell o hyd, ac y mae'n debygol fod cerdd 4, na cheir ynddi ond 40 llinell, yn anghyflawn. Canodd Dafydd hefyd bedair awdl foliant faith, sef cerdd 5 (ei gerdd hwyaf ac ynddi 84 ll., sef 5 englyn unodl union yn cael eu dilyn gan 16 pennill ar fesur clogyrnach); cerdd 8 (68 ll., sef 5 englyn unodl union yn cael eu dilyn gan 12 pennill o wawdodyn); cerdd 14 (6 englyn unodl union yn cael eu dilyn gan 8 pennill o drybedd y mynaich), a cherdd 17 (sef 6 englyn, 5 ohonynt yn unodl union ac un yn unodl crwca, yn cael eu dilyn gan 8 pennill o wawdodyn hir). Gwelir bod patrwm rheolaidd i'r awdlau, felly, sef cyfres o 5/6 englyn i agor ac yna gyfres o benillion unodl ar fesur arall. Cadwyd hefyd ddau englyn unigol (cerddi 23 a 24).

Yr oedd Dafydd yn feistr cadarn ar gynghanedd a gwelir mai'r gynghanedd groes sy'n digwydd fynychaf yn ei gywyddau (a hynny mewn 85–95 y cant o'r llinellau), a bod dros hanner y rheini yn gynganeddion croes o gyswllt.⁴⁸ Ceir ambell linell hefyd o gynghanedd lusg a sain, ond prinnach yw'r gynghanedd draws.

Fel y gellid disgwyl, ceir cyfartaledd uwch o gynganeddion sain yn yr awdlau nag yn y cywyddau,⁴⁹ a gwelir mai'r gynghanedd sain a geir yn rheolaidd yn llinell gyntaf y toddaid, gyda'r ail odl yn syrthio'n rheolaidd bob tro ar y bumed sillaf. Yn yr awdl gelfydd i Lewys Hafard a'i wraig Isbel (cerdd 8), ceir naill ai cynghanedd groes neu sain yn ail linell pob toddaid hir, a'r gair cyrch yn llunio cynghanedd sain â'r naill a chynghanedd sain deirodl â'r llall: e.e.

Ei air, aur a gair, yw'r agoriad—gwir
Ar glo i gywir gael ei gaead. (8.39–40)

Ef a fydd llywydd y lleuad—o Went,
Yn fwyfwy ei rent a'i stent a'i stad. (8.51–2)

Gwelir bod Dafydd yn feistr ar y gynghanedd sain erbyn canu ei awdl i Hoppyn Awbrai (cerdd 17), a cheir yn y gerdd honno nifer o linellau lle y mae ail a thrydydd traean y gynghanedd yn cytseinio'n llawn: e.e.

Ar hyd yr holl fyd ieirll a fydd—o Sedd,
Ni wedd dy fonedd hyd Fefenydd. (17.41–2)

⁴⁸ Wrth gyfrif, trafodwyd llinellau megis 8.40 *Ar glo i gywir gael ei gaead* fel llinellau croes o gyswllt yn hytrach na chroes gyda *m n, r* neu *f* wreiddgoll; felly hefyd linellau lle y defnyddir y gytsain o flaen yr acen yn yr orffwysfa er mwyn cyflawni'r gyfatebiaeth, e.e. 1.9 *Mae ardymer hyd yma*, 13.20 *Dŵr llygaid ieirll a gwaed ir*, 15.51 *Ni thyn ei nyth, hwn, yn ôl*, 15.52 *O'r un dderwen ddaearol*.

⁴⁹ Cf. Eurys Rowlands, 'Dadansoddiad o gynghanedd Lewys Môn', LICy iv (1956–7), 142.

Fel yng ngwaith cyfoeswyr megis Lewys Môn,⁵⁰ ceir nifer o linellau ac ynddynt gytseiniaid gwreiddgoll, perfeddgoll neu ganolgoll, ac ni thynnwyd sylw at y rhain fel arfer yn y nodiadau. Rhestrir yma rai enghreifftiau:

n wreiddgoll

Yn ôl ei wŷr a'i law wen (10.18)
Ni saif un trais, ofn nid rhaid (18.27)
Na thyn fyth hwnnw o'i fedd (18.48)

r wreiddgoll

I'r corff dudedd, crefft Iddew (19.46)

n ganolgoll

Och hyd nef na chaid yn wâr (1.27)
I'th dir a wnaeth Duw erod (4.28)
Llyna ddyn yn llawn o ddail (5.20)
Dan Agla yn d'enw eglur (18.12)
Eich rhoi'n gâr, ni chair un gwan (18.39)

r ganolgoll

Dial ydiw ar dlodion (20.45)

n berfeddgoll

Ewch o nerth honno yn chwerthiniad (8.54)
Ni bu ddwrn heb wayw neu ddau (10.3)
Neidio neu redeg a wnei'n drydydd (17.45)

f berfeddgoll

Oddi fry o ddŵr a iâ (1.10)
Minnau a fŷm yn wannaf (4.13)

r berfeddgoll

Nerthu'r goron wrth geyrydd (10.14)
Uchel yw'r gwraidd a chael gras (13.3)
Wrth rym y dur aeth am d'ais (13.21)
Lliw'r brethyn o'r llwybr eithaf (19.35)
Dôr warchae yw'r dywarchen. (21.17)

ac nid atebir *r* dan yr acen yn

I roi llef ar y llyfrau. (21.20)

Cymharol gyffredin hefyd yw'r llinellau lle y mae dwy gytsain yn ateb un, neu dair yn ateb dwy; e.e. dwy *r* neu *n* yn ateb un:

No dynion y byd yn d'enw bedydd (17.48)
Ac ni nacéi a gano cywydd (17.52)
Un irder â'r mwyn ar dir mynydd (17.61)
Ar grair eryr goreuraid (18.28)
Ef a fu'r gof farw o'r gis (18.32)
Y marsiant mawr ei reso (19.1)

⁵⁰ Gw. *ib.* 135–61.

tair *n* yn ateb dwy:

Ni wn yn sant un un sud (18.7)

dwy *dd* yn ateb un:

Lladd bonedd lle 'dd oedd bennaf (20.26)

Diwedd oedd y dydd ydd aeth (22.45)

dwy *d* yn ateb un:

Odid un dyn o dân da (15.5)

a cheir un llinell lle y mae tair *dd* yn ateb un:

Llaw Dduw a'i lladdodd â'i ddart. (20.23)

Cymharol gyffredin yn ei ganu yw'r llinellau lle y ceir crych a llyfn mewn cynghanedd groes.⁵¹

Ofn y corn, wyf yn crynu (2.39)

Ef a'i dyrchaif drwy achau (9.38)

A wnâi burdan i'n bradwyr (10.6)

Dau enw gŵr i dan y grog (10.21)

O wreiddiau rhyw Iwerddon (10.36)

Lliw brethyn lle bu Arthur (11.48)

On'd Siarls nid oes ŵr haelach (13.26)

Holl Gernyw a Lloegr unwaith (13.46)

Siôn, ni bu wers yn y brud (16.5)

Ni bu frig neb o Forgan (16.39)

Allai Farchell i Frychan (18.40)

Yn meirw weithian ym Merthyr (20.10)

Hŷn fo'r egin o Forgant (20.56)

Pum merched, pwy mor uchel? (21.41)

a digwydd hefyd yn achlysurol mewn llinellau o gynghanedd sain:

Rhoi'r gynau gorau o Gred (9.23)

Ei fron a'r galon yn gled (11.29)

Ni chaf yn olaf un elfydd—i'th fron. (17.65)

Ceir twyll gynghanedd neu gamosodiad hefyd yn achlysurol: e.e.

Nid erys un, Syr Rhys hael (12.14)

Lle ni chaid gwell no chost gwin (16.44)

A chloi 'n ei gylch, hyn a gaid (20.33)

Ac er nad ydynt yn wallus, fel y cyfryw, ceir ambell linell lle y mae'r acen yn disgyn ar sillaf ddiacen, gan greu llinell wan ei chynghanedd: e.e.

Yr holl fyd hefyd a'r rhod. (1.13)

⁵¹ Cymharol brin yw'r bai hwn yng ngwaith Lewys Môn, gyda dim ond dwy enghraifft sicr, gw. Eurys Rowlands, *art.cit.* 151; er hynny y mae'n dra rheolaidd yng ngwaith Lewys Glyn Cothi. Y mae'r bai hwn yn awgrymu mai wrth y glust y cyfansoddai Dafydd Epynt a Lewys Glyn Cothi, er i'r naill fel y llall gofnodi ei ganu.

Gan fod y mwyafrif o gerddi Dafydd Epynt wedi eu diogelu yn ei law ei hun yn y llawysgrifau, a chan nad oes problemau testunol amlwg o ran y gweddill, gallwn fod yn hyderus fod y testunau a gyflwynir yn y gyfrol hon yn destunau da. Cadarnheir hyn i raddau gan y ffaith fod y cerddi mor gyson eu cynganeddiad. Nid diffyg o ran trosglwyddiad testunol, felly, sydd i gyfrif am y darnau tywyll a geir yn ymron pob un ohonynt, ac yn hyn o beth ni ellir dweud bod yr awdlau yn fwy astrus na'r cywyddau. Yr esboniad amlycaf, bid sicr, yw'r bwlch o bum can mlynedd sydd rhyngom a'r canu hwn, a'n diffyg dealltwriaeth ni o'r cyd-destun: hynny yw, y mae'n sicr y byddai cynulleidfa'r bardd yn deall llawer mwy nag a wnawn ni heddiw. Ceir cyfeiriadau at themâu brudiol, ac at draddodiadau am gyndeidiau rhai o'r noddwyr, themâu y byddai'r gwrandawyr yn gyfarwydd â hwy ac yn deall eu harwyddocâd ar unwaith. Y mae'n rhaid cyfaddef mai hollol dywyll, er enghraifft, yw'r pennill hwn o glogyrnach yn awdl farwnad Morgan ap Syr Dafydd Gam:

Paid â'r alfach, pedwar elfydd,
Ceidw â'r sidan Cadair Sidydd;
Enw a fu 'n ei fin at lais Taliesin
Yn wyn i'n awenydd. (5.65–8)

Y mae'n amlwg fod y bardd yma'n cyfeirio at ryw draddodiad sydd bellach wedi diflannu.

Ond nid yw'r bwlch o ran amser a lle yn ddigonol bob tro i esbonio paham y mae rhannau mor dywyll yn rhai o gerddi Dafydd Epynt, gan fod yr un bwlch rhyngom a'i gyfoeswyr a bod canu rhai o'r rheini, at ei gilydd, yn llawer goleuach. Er enghraifft, y mae cerdd Hywel Daf i Gynog yn llawer haws i'w dilyn na cherdd Dafydd Epynt; yn wir, bu'r naill yn gymorth mawr i daflu goleuni ar y llall.⁵² Tybed, yn hytrach, nad diffyg ysbeidiol yng ngallu Dafydd Epynt i gyflwyno ei syniadau yn eglur sydd wrth wraidd y broblem? A oedd cywirdeb cynghanedd yn bwysicach iddo ar brydiau nag eglurder ystyr (e.e. yn rhai o'r penillion o wawdodyn hir yng ngherdd 8, lle y mae'r cynghanedd yn arbennig o gyfoethog)? Ceisiwyd tynnu sylw yn y golygiad at linellau sydd wedi profi'n drech na'r golygydd presennol, ond y mae'n dra phosibl y bydd nifer o'r rhain yn ildio eu hystyr fel y daw gwaith y bardd a'i gyfoeswyr ym Mrycheiniog yn fwy cyfarwydd i ni.

Y testunau a dilysrwydd y cerddi

Fel y gwelwyd, y mae mwyafrif cerddi Dafydd Epynt wedi eu cofnodi ganddo ef ei hun yn llawysgrifau Pen 54, 55 a 60, ac ym mron pob achos ymddengys ei enw ef fel awdur ar y diwedd. Nid oes unrhyw amheuaeth,

⁵² Gw. nodiadau cerdd 3.

felly, ynglŷn â'u dilysrwydd. Yn ei law ef, hefyd, y mae'r cywyddau 'I Gathen Sant' (cerdd 4), 'I Hywel ap Gwilym Dew' (cerdd 6) ac 'I Siôn Morgan, esgob Tyddewi' (cerdd 18), ond ni cheir priodoliad wrthynt; er hynny, nid oes unrhyw sail dros eu gwrthod o'i ganon, ac o safbwynt cerddi 6 a 18 gwelir bod cysylltiadau teuluol cryf rhwng y noddwyr ac eraill o noddwyr Dafydd Epynt.⁵³

Rhestrir yma er hwylustod y cerddi (ynghyd â'r deunydd ychwanegol) a gofnododd Dafydd Epynt yn llawysgrifau Pen 54, 55 a 60.

Peniarth 54

- i, 115–20 'Marwnad Morgan ap Syr Dafydd Gam' (cerdd 5)
- i, 121–4 'I Grist' (cerdd 1)
- i, 124–7 'I Gathen Sant' (cerdd 4)
- i, 127 'I Gynog Sant' (cerdd 3, testun anghyflawn, ond gw. Pen 54, i, 333–6)
- i, 131 'Pater amwyait a mynych grodo' (englyn anghyflawn o'r gyfres englynion gynnar 'Cysul Addaon', gw. td. 4)
- i, 131–2 'I Hywel ap Gwilym Dew' (cerdd 6)
- i, 133–8 diarhebion yn dechrau â'r llythyren *A* (arwyddodd y bardd ei enw, *Dauid*, ar frig td. 133)
- i, 321–5 'Awdl foliant Siôn Fychan o Dretŵr' (cerdd 14)
- i, 333–6 'I Gynog Sant' (cerdd 3, fersiwn cyflawn; cf. Pen 54, i, 127)

Peniarth 55

- tt. 17–20 'Marwnad Hywel Dafi a Huw Cae Llwyd' (cerdd 22)
- tt. 65–8 'I ofyn ffaling gan Siancyn ap Rhys' (cerdd 19)
- tt. 88–91 'I Syr Rhys ap Tomas' (cerdd 12)
- tt. 92–6 'I Syr Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Dretŵr' (cerdd 13)
- tt. 156–9 'I Siôn ap Rhosier o Lanfrynach a'i wraig Mawd ferch Morgan Awbrai' (cerdd 16)
- tt. 188–95 Darnau o ddwy gerdd i'r tywysog Llywelyn ap Gruffudd wedi eu priodoli i Lywarch Offeiriad (gw. td. 5)
- tt. 196–9 Cywydd gan Lawdden i ferch (gw. td. 5)
- tt. 202b–6 'Awdl foliant Lewys Hafard a'i wraig Isbel' (cerdd 8)
- tt. 207–11 'Awdl foliant Hopgyn Awbrai o Abercynfrig' (cerdd 17)
- tt. 212–16 'Marwnad Morgan ab Owain a'i wraig Sisli' (cerdd 20)
- tt. 216–19 'I ofyn gŵn gan Risiart Herbert' (cerdd 11)
- tt. 220–3 'I Wiliam Herbert o Golbrwg' (cerdd 9)

⁵³ Gw. ymhellach y nodiadau cefndir.

Peniarth 60

td. 13 ‘Marwnad Hywel Amhadog ap Trahaearn’ (cerdd 21)

tt. 77–8 ‘I Siôn Morgan, esgob Tyddewi’ (cerdd 18).

Codwyd y ddwy gerdd olaf hyn gan John Jones, Gellilyfdy, o lawysgrif Pen 60 i lawysgrif Pen 312: ni cheir ail gopi o’r un o’r cerddi a gadwyd yn Pen 54 a Pen 55. Hefyd yn Pen 60, 80, ond mewn llaw wahanol, ceir dryll o gerdd sy’n ymddangos yn farwnad i ryw Forgan ac a briodolir i Ddafydd Epynt.⁵⁴

Y mae chwe cherdd nad oes copi ohonynt yn llaw Dafydd Epynt yn yr un o’r tair llawysgrif hyn, sef ‘I Fair’ (cerdd 2), ‘I Wiliam Hafard ap Tomas o Aberbrân’ (cerdd 7), ‘I Wiliam Herbert o Golbrwg’ (cerdd 10; er bod copi o gerdd arall a ganodd i’r noddwr hwn yn Pen 55), ‘I ddiolch i Ddafydd ap Hywel am farch, ffrwyn a chyfrwy’ (cerdd 15) a’r ddau englyn gorchest (cerddi 23, 24). O’r rhain y mae cerddi 7 a 10 yn dilyn ei gilydd yn llawysgrifau BL Add 14991, LIGC 2023B [= Pant 56], Llst 133 a Pen 100. Priodolir y pedwar cywydd ym mhob achos i Ddafydd Epynt yn unig, ac felly nid oes amheuaeth ynghylch eu dilysrwydd; y maent yn cydymffurfio â gweddill ei ganu o ran ieithwedd a mydryddiaeth. Y mae’n debygol iawn fod y bardd wedi codi’r pedair cerdd hyn, ynghyd â cherddi eraill, i lawysgrifau sydd bellach ar goll. O ran yr englynion gorchest, priodolir y cyntaf (cerdd 23) mewn chwe llawysgrif i Ddafydd Epynt, ac mewn un yn unig i Forgan ap Rhys; priodolir yr ail gerdd (cerdd 24) i Ddafydd Epynt yn y chwe chopi llawysgrif ohoni, ond gan nodi bob tro bod eraill yn honni mai Dafydd ap Siencyn Fynglwyd a’i canodd. Gwelir hefyd yn Atodiad ii–iv linellau o dair cerdd wedi eu priodoli i Ddafydd Epynt nad oes gennym destun cyflawn ohonynt ac a geir yn llaw Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55; at y rheini gellir ychwanegu’r cwpled canlynol a welir yn CM 3, 102 a LIGC 9176A, 32:

Gwari rag y ddor gyriawg

Gwair ryg rodd y gwr yrawg.⁵⁵

Gallwn fod yn bur sicr, felly, mai cyfran yn unig o ganu’r bardd hwn a ddiogelwyd i ni. Fodd bynnag, cesglir nad gwaith dilys Dafydd Epynt yw’r cerddi canlynol a restrir yn y Mynegeion, ac nis cynhwysir yn y gyfrol hon:

Ar ddeuddeg gofeg gwiw gofiant a dawn

Cedwir yr englyn hwn mewn pum llawysgrif, ac y mae’n rhan o gyfres englynion, pob un wedi ei briodoli i fardd gwahanol, yn nodi’r flwyddyn y coronwyd pob brenin a brenhines yn Lloegr er y Goncwest. Yn yr englyn hwn dethlir coroni Harri V yn 1413, flynyddoedd lawer cyn dyddiadau blodeuo Dafydd Epynt.

⁵⁴ Gw. Atodiad i.

⁵⁵ Codwyd y cwpled o CM 3, 102.

Efô a feio fawai,—fo efô

Dau englyn gorchest yw'r rhain wedi eu canu gan ddefnyddio'r gytsain *f* yn unig. Fe'u cysylltwyd ar gam ag englyn gorchest cyffelyb a ganodd Dafydd Epynt gan ddefnyddio'r gytsain *dd* yn unig. Gweler ymhellach nodyn cefndir cerdd 24; ceir testun o'r ddau englyn hyn wedi eu priodoli i Siôn Ceri a Hywel ap Syr Mathau yn GSC 164 (cerdd 59).

Modwaledd llaredd llwry llyrion—mysb

Cyfres o dri englyn sy'n rhagflaenu cerdd 23 yn Llŷst 120, 6^v, Pen 230, 1^v, Pen 313, 10 a Wy 1, 222. Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng y gyfres hon a cherdd Dafydd Epynt (ac y mae'r trydydd englyn yn cyrchu dechrau'r englyn cyntaf, gan awgrymu bod y gyfres yn gyflawn), ond gan nad oes priodoliad iddi cymerodd rhai copiŵyr mai gwaith Dafydd Epynt ydoedd.

Yr eogwas o'r eigiawn

Yn ôl Thomas Parry, y mae awduriaeth y cywydd poblogaidd hwn yn bur ansicr, ac ar sail ei arddull a natur ei gynghanedd gwrthododd ef o ganon Dafydd ap Gwilym, gan dybio ei fod yn perthyn i gyfnod diweddarach na'r bedwaredd ganrif ar ddeg.⁵⁶ Fe'i priodolir yn y llawysgrifau i nifer o feirdd, gan gynnwys Dafydd ap Gwilym, Dafydd Epynt, Gwilym Tew, Ieuan Tew Brydydd Hen o Gydweli a Lewys Môn.⁵⁷ Ni cheir yr un copi o'r cywydd yn llaw Dafydd Epynt, ac y mae ei arddull a'i bwnc hefyd yn awgrymu nad ei waith ef ydyw. Llawysgrifau Llywelyn Siôn yn bennaf sy'n priodoli'r cywydd hwn i Ddafydd Epynt ac ni ellir pwyso ar y dystiolaeth honno'n ormodol. Gwell fyddai dilyn Stowe 959 [= RWM 48], Card 2.114 [= RWM 7], Card 3.2 [= RWM 27] a Pen 67 sy'n ei dadogi ar Ieuan Tew Brydydd Hen o Gydweli neu BL Add 14870, 223^r, Bangor 6, 431 a Llŷst 133, 976 *inter alia*, sy'n ei dadogi ar Ddafydd ap Gwilym.

⁵⁶ GDG exc.

⁵⁷ Nis trafodir yn GLM.

I
I Grist

Oen Duw oedd yn dioddef,
Ederyn wyd ar y nef.
Dy waith ar fyd, dieithr fu,
4 Dodi enaid a'i dynnu;
Rhoi adar i ehedeg,
Rheoli dŵr a haul deg
8 A rhoi'r lleuad trwy'r holl ewyn,
Atal y gwynt, Duw hael gwyn.
Mae ardymer hyd yma
Oddi fry o ddŵr a iâ:
Ni fedd dyn a fydd danaw,
12 Nid estyn blewyn heb law;
Yr holl fyd hefyd a'r rhod,
Hyn o ddynion oedd ynod.
Rhan fawr, o rannu, yn fud,
16 Rhai 'n Dy wydr yn dywedyd.
Ti a roaist y traean
Yt i'r byd ar y tair ban.
Dyn oeddud, o un weddi,
20 Ym mru Ei fam erof i.
Cyn D'eni Di y bu'r do
Yn darogan Dy rwygo:
Yn Fab bychan anianol,
24 Iddewon, Duw, oedd yn D'ôl.
Yn flwydd i'th gyfarwyddaw
Y seirff â dros o'r Aifft draw.
Och hyd nef na chaid yn wâr
28 D'orddiwes Di ar ddaear!
Dod Dy draed eto i redeg
Ar graig o dir y grog deg;
Llawer hyd dyn lle 'rwyf Ti,
32 Holl Brydain, lle beirw Hodni.
Ni roes un i'r Iesu hed
Yn ei chwyr na châi wared.
Aberth wyd o wybr a tân
36 Wrth enwi yr wyth anian;

Rhan y tir, un yw y tes,
 Rhan y dŵr, hon a dorres.
 Doeth, Iesu, waed o'th asen,
 40 Ffrydo praff ar hyd y pren;
 Yn y drain a dur ynod,
 Mair Dy fam a wŵyr Dy fod;
 Llawer twyll ar y iad Tau,
 44 Llai 'n y rhidyll neu'r rhwydau.
 Duw, dryllio wyd o drallawd:
 Felly gwnâi afall i gnawd.
 Mwyn oeddud pan fynnod fedd,
 48 Myned erom yn D'orwedd.
 Troi f'wyneb, cyn terfynwyf,
 Tydi Dduw, atad ydd wyf;
 Pan ddangoser, fal seren,
 52 Ei waith i bawb wrth ei ben,
 Ar D'ôl, ir yw Dy weli,
 Yn Nydd y Farn ydd af i.

Ffynhonnell
 Pen 54, i, 121

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Darlleniad y llawysgrif
 29 [i]. 34 nai wared.

Priodoliad
 David Epynt.

2
I Fair

Mair Forwyn, mae ar foroedd
A thir dy nerth, rhaid ynn oedd;
4 Arglwyddes, a santes wyd,
Yr holl fyd a'r llif ydwyd.
Seren nid oes, aur yn dân,
Yn iad dyn ond dy hunan.
Lliw ynod a llawenydd
8 Yr holl saint eraill y sydd;
Dy wrid teg, diwair wyt ti,
Yw'r glanaf o'r goleuni.
Diwair oedd d'w'r a'i addef,
12 D'wyrion yw daear a nef.
Wrth air angel penfelyng,
O'th radau doeth rhydid ynn.
Trown oll at yr un allawr,
16 Tydi yw mam y Tad mawr.
Mair, ni chad morwyn i'ch ôl
Mwy o'r ddaear mor dduwiol;
Yn dy wasg wen, da wisg oedd,
20 Y rhoed Naf a rhad nefoedd.
Duw aeth hefyd i'th ofyn,
On'd hen Dduw a wnaed yn ddyd?
Mawr o alar marwolaeth
24 I'th fron wen wyrthfawr a wnaeth.
Ni bu rhad iawn heb roi da,
Hawl yr afal ar Efa.
Gwŷydd i'r grog, agwedd o'r gro,
28 O fedd Addaf oedd iddo.
Iesu ymroes a Mair wen
Iddo, Ieuan, â'i ddwyen.
Gwaed o'r iad a gydredodd
32 Â gwaed y wraig gwedy'r rhodd.
Gwedy'r corff roi gwaed er caith,
Gwaed âi yng ngolwg dyn eilwaith.
D'olwg a roer, dilwgr wyd,
36 Ar greadur, gwyr ydwyd.

- Er y llaeth a'r holl wythi
 Âi i ben dy Fab, na ad fi.
 Ofn y corn, wyf yn crynu,
 40 Â drwy ddŵr a daear ddu.
 Yr holl fyd, ennyd unawr,
 O farw â'n fyw 'n y Farn fawr.
 Ni chwarrdd dyn â cherydd dwys,
 44 Rhag pryder gau paradwys.
 Saf ar y drws i fwrw'r drem,
 Croesa hil Caerysalem;
 Brenhines, 'mynwes mynydd
 48 Barn dy fab ar enaid fydd.
 Am ryw bechod mawr, bychan,
 Mair, n'ad ti 'y mwrw 'n y tân!
 Nertha ddwyn yr ieithoedd oll
 52 Ym mherchen y pum harcholl.

Ffynonellau

A—BL Add 15016, 21^r B—BL Add 31058, 99^v C—Bodley Welsh f 4, 97
 D—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 405 E—Card 5.44, 21^r F—J 101 [= RWM
 17], 536 G—LIGC 16B, 101 H—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 39 I—
 LIGC 2692B, 156 J—LIGC 3487E, 102 K—LIGC 13071B, 22 L—Llst
 47, 112 M—Llst 55, 91 (*rhai llau. digyswllt a rhai ohonynt yn anghyflawn*)
 N—Llst 118, 210 O—Llst 134, 27 P—Pen 198, 173 Q—Stowe 959 [=
 RWM 48], 19

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–9.

Amrywiadau

1 *Q* mawr ar. 2–8 [*M*]. 2 *G* iraid im; *ACK* ym. 4 *C* wyd; *EGHKLOQ* llef, *J*
 nef. 5 *G* nerth oes; *ACEH–LO* air; *J* [yn]. 8 *CEFHKLO* a sydd. 9 *M* gwrdd
 teg; *Q* da wraidd wyti. 10–22 [*M*]. 10 *A A* glanaf, *DFGN* Fu'r glanaf, *I* Fu
 glanaf, *J* a sy glanaf, *P* Fai'r glanaf. 11–12 [*Q*]. 11 *DF* [oedd]; *A* dy air,
CHO dy wr, *F* ddwr, *IJ* d'air; *AGP* oi addef; *E* aeddef. 12 *K* diwyrio. 13 *C*
 Wrth yr Angel. 14 *C* Oth raddau oll rydid yn, *ADFIJNP* Oth raddau doeth
 rhyddid ynn, *G* Oth radd du doeth rhyddid ynn; *B* raddau i doeth ryddydd; *H*
 i daüth rydddid, *ELO* rydddid, *K* ryddidid. 16 *ABDIJN* mab. 17 *Q* nych ad
 nir morwyn; *ABDFGJNP* chair, *I* cheir; *A* i ei chol, *J* o'i hôl. 18 *Q* [*Mwy*];
DG ddwywol. 19–52 [*Q*]. 19 *A* [*Yn*]; *P* wasog. 20 *DFG* I roed nef, *P* Yn
 rhoid naf; *H* roed nwyf, *J* rhoed y nâf; *CEKLNO* ar hyd nefoedd. 22 *A* wnait;
BE–JNOP wnait ti'n; *D* wnaüt 'n ddyn. 24–35 [*M*]. 24 *F* [wen]; *ABD–LNOP*
 wrthfawr; *I* [a]. 25 *J* wrth roi. 26 *A* er Efa. 27 *G* Gywydd ir grog; *I* Dduw a'r
 gro, *P* Duw or gro. 28 *ABJ* A fedd; *P* Adda. 29 *ABI* a 'mroes, *DFGN* am

roes, *P* a roes. 30 *CEHKL* Yddo y fan, *J* I dduw Ieuan; *EH* aü ddienn, *O* o ddienn. 32 *ABDFGINP* gwedi rodd, *C* gwaedu'r oedd, *EHKLO* gwedyr oedd, *J* gwedi a rodd. 33 *DFGINP* roi i waed; *J* gwaed kaith, *CEHKLO* gwaed ir caith. 34 *ABDFGJ* ai'n olwg, *P* ai ynwlg. 35 *ABCEFHIKLNO* roes, *P* roet. 36 *CEHKLO* I greadur, *P* O greadyr; *M* ar gwadyr gwry ydwyd; *AB* gwir ydwyd, *J* gwyr ydwyd. 37–42 [*M*]. 37 *DG* or holl. 38 *A–GI–LNOP* Ai benn dy fab; *A* nada fi; *BIJ* nado fi, *DFGN* na ado fi, *P* boen nad fi; *H* [ad fi]. 39 *H* [Ofn y corn]; *CEHKLO* 'r wyf. 40 *H* [Â]; *CFGKLO* y ddaear, *P* ar ddaear. 41 *H* [Yr]. 42 *H* [O]; *ABDGIJNP* Yn fairw; *E* O farw'n fyw; *AB* ai'n fyw y farn fawr, *IJ* ai yn fûw y farn fawr; *H* [â'n]. 43 *H* [Ni]; *M* choerydh; *CK* [dyn]. 44 *CEHKLO* pryder rhag colli paradwys, *M* rhag pryder rad paradwys. 45 *CEHOKLM* Af ar; *ABEHIO* i fwrw y drem, *DFGJMN* i fwrw drem, *P* y wyru drem. 46–8 [*M*]. 46 *B* Koroesa hil; *P* Groesu hil Gaerau Salem; *AB* Caeriwsalem. 47 *J* Brenhines y mynwes. 48 *I* ae enaid, *CEHKLO* ar f'enaid. 49 *J* amryw. 50 *B* na ad fi y mwrw'n, *D* na ad ti mwrw; *AFI* na ad ti 'mwrw'n tân, *MN* nad ti 'mwrw'n y tan, *P* nad ti mwrw yn tân; *CJ* y mwrw ir tan. 51–2 [*M*]. 51 *IJP* nertha i ddwyn; *CEHKLO* yr ieithydd; *A* iaith oedd. 52 *C* Ein perchen y pump archoll, *EHKL* Em perchen y pum archoll, *O* Om perchen y pump archoll; *AJP* archoll.

Teitl

ACJ Cywydd i Fair; *B* Cywydd i Fair o waith dd hepynt; *F C*: Mair; *G K* i Fair Forwyn; *I* Cowydd arall i Fair a wnaeth Dd Hepynt; *O* llyma gywydd arall i Vair; *P* Cowydd i Fair Forwyn Arglwyddes.

Priodoliad

A–EGHJKLNOP Dafydd Eppynt ai cant; *F* Davydd Eppynt ai kant AD 1460; *M* Dafydd ap Epynt.

Trefn y llinellau

A–LNOP 1–52.

M 1, [2–8], 9, [10–22], 23, [24–35], 36, [37–42], 43–5, [46–8], 49–50, [51–2].

Q 1–10, [11–12], 13–18, [19–52].

I Gynog Sant

Y sant a las, hwnt, a'i lin,
 Ar war bryn, wŷyr i'r brenin;
 Ei ben a'i gorff, bu un gynt
 4 Gyda'i wddwg, dau oeddynt;
 Ei fysedd ef y sydd wâl
 Gan Gynog yn ei gynnal.
 Ar ôl dur o law a dwrn,
 8 Aur a wisg ar ei asgwrn.
 Nychdod dyn o chaid y tir
 Ar ei fedd a orfyddir;
 Un ai'i boen heb ei enaid
 12 Yn farw a wna neu fwrw naid.
 Nid rhaid i ddyn tri dydd Iau
 Fod anaf hyd ei enau;
 Golwg deg i lygaid un,
 16 Rhoi i fyddar, a fu iddun.
 Dwyn ei lythr dan law athro
 Â bwa'n fab a wnâi fo;
 Llad a wnaeth saeth y saethydd
 20 Leisiad a hwyad a hydd.
 Ni allai bîn a llaw byth
 Enwi hael un wehelyth.
 Hyn, Cynog enwog, a gaf,
 24 Hen Frychan, hwn fu'r uchaf;
 Câr yw, o Farchell, bellach
 I Fair o nef o'r iawn ach.
 Brenin ar bawb i rannu,
 28 Iwerddon fawr, iddun fu;
 Newidio hon â Duw hael
 Am nef, mwyaf fu'i afael;
 Ffo, ar ei gorff aur a gaid,
 32 Rhag ei ddaly o'r Gwyddelaid;
 Dŵr, o'i henwaed y hanoedd,
 Dan ei draed yn dir a oedd:
 Yr Ysgêr a wasgarodd,
 36 Arno 'n y môr yn un modd.

- Clywed a wnaeth a rhedeg,
 Llef ar y tir, llafar teg;
 Athrywyn am ei ginio,
 40 Y mab a'i fam, y bu fo;
 Rhoes dan yr ais o'i donnen
 Fwyd i'r pryf, do, ar y pren;
 Ni chaid ei ddieneidiaw
 44 Â'r annwyl aur yn ei law;
 Cennad oedd, cyn dioddef,
 Â thorch a wnaeth eurych nef;
 Lladd diawl allodd duwoliaeth,
 48 Rhod fal aur hyd ei wefl aeth;
 Llun olwyn, llyna eli,
 A fu 'n y nef i nyini;
 Cylch o haul yn cael iacháu
 52 Croen cannyn o'r cranc gwniau;
 Dan nef wen nid anfoned
 Y rhyw grair i wŕ o gred!
 Enw Gair yw y Gröeg
 56 O, fal un Duw, felen deg.
 Arf, a laddodd ryw flwyddyn
 Flaidd, a gaf o law Dduw gwyn.
 Cynog a fo 'n y canawl
 60 Â'i arf, o daw, rhof a diawl.

Ffynonellau

A¹—Pen 54, i, 127 A²—Pen 54, i, 333

Ceir y ddau fersiwn hyn yn llaw Dafydd Epynt. Yn A¹ codwyd llinellau 1–4, yna y mae'r tair llinell sy'n dilyn yn cynnwys gair, neu eiriau, o ddechrau'r llinellau canlynol (yn y drefn yr ymddangosant): 5, 9, 10, 6, 7, 8, 33, 34, 35, 36. Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Darlleniadau'r llawysgrif

13 A² trydd iau. 16 A² [i]. 54 A² rry.

Priodoliad

A² Epynt.

40

Gwres o fewn, gwae'r ais a fu
Gan y croen ac yn crynu.
Gyr, ni allaf yn glafach,
Gathen wyn, y gwythi'n iach.

Ffynhonnell
Pen 54, i, 124

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Darlleniad y llawysgrif
27 yr ot.

Marwnad Morgan ap Syr Dafydd Gam

- 4 Dragywydd y rhydd y rhod—wenwynig
 I minnau ei dyrnod;
 Mae pawb yn wan, mae pob nod
 Yn oed arfau yn darfod.
- 8 Darfod mae'r hyddod a rhuddyn—deri
 O diroedd y Peutyn;
 Darfod amser ederyn,
 Darfu'r glod ar ferw o'r glyn.
- 12 Nid amddiffyn glyn ar glawr—y ddaear
 Heb ddial gan Dduw mawr;
 Wrth ei alw yr aeth elawr
 Yni fo llawn nef a llawr.
- 16 Duw, gwawr nef a llawr, yn Llan—Dyfaelog
 Da filwr fu Forgan;
 Ei feibion ef, o bu'n wan,
 Er pan aeth yw'r pen weithian.
- 20 Weithian ni wywan', ei wiail—a dyf,
 Duw a'i fam a'u harail;
 Dyn o'i waed a wnâi adail,
 Llyna ddyn yn llawn o ddail.
- 24 Adail y byd i lu bedydd,
 Aros geni'i oresgynydd;
 Ado i adar ar ddeau'r ddaear
 Ar dalar a dolydd.
- 28 Da yw'r tyfiad ar waed Dafydd
 Neu Forgan, swm o'i frigyn sydd;
 Derw'r byd ar ei fôn a gaiff o'i gyffion,
 A'r wyrion yw'r irwydd.

32 Ni ddaw dyfyn i Dduw Dofydd
 Nad êl â'i ran, dial a rydd;
 Anodd iawn oedd ddwyn, yn y fron ei frwyn,
 Llai wenwyn, llawenydd.

36 Rhai a dynnir eu hadenydd,
 Ni edir hen i oed yr hydd;
 Oer a byr yw'r byd ar y gwŷr i gyd
 Ac ennyd ei gynnydd.

40 Lle bu ennill a hau beunydd
 Y rhoid adar a diodydd;
 Darfod ei derfyn a wna dwyn y dyn
 Fal ewyn fu lywydd.

44 Dewis blaned o ysblennydd
 Ar ben dwyawr y bu'n dywydd;
 Rhan y sêr nos lau a'r Gwener gwinau,
 Ein teidiau nid dedwydd.

48 Gwayw treigledig trwy y gwledydd
 A wna dafnau ynn a'u defnydd;
 Tynnu at henaint holl ferw llifeiraint
 Ym mhen naint ymennydd.

52 Du yw'r manod ar y mynydd
 Yn yr heulwen a'r heolydd;
 Deigr ffrwd o gyrff rhai, o'r iad a redai,
 A fynnai afonydd.

56 Ni chair annerch na cherennydd,
 Nid un galon dyn â'i gilydd;
 Nid aeth ond weithian neuadd anniddan
 Fal anian aflonydd.

60 Ei dŷ'n gaead a wnâi gywydd,
 Grwn a geibiwyd, gran a'i gwybydd;
 Da yw'i gred i'r grog, ond Duw nid diog,
 Ac arfog a orfydd.

64 Maen o'i gwrrwm yn ei geyrydd,
 Dan y bwneid yn obennydd;
 Â'i draed i rodio nid âi ond yno
 I wrando yr undydd.

- Paid â'r alfach, pedwar elfydd,
 Ceidw â'r sidan Cadair Sidydd;
 68 Enw a fu 'n ei fin at lais Taliesin
 Yn wyn i'n awenydd.
- Deall y brud allai brydydd,
 Anos weithian eisiau ieithydd;
 72 Ni ddilyn ei ddelw, un milain am elw,
 Neu Gynddelw na Gwenddydd.
- Ei gŵyn a fag a'i enw a fydd
 Ym mro Wynedd a Meirionnydd;
 76 O du y deau y soniais innau
 Ym mlaenau Maelienydd.
- Ni allaf rif yn llyfr Ofydd
 Ennill o'i farw un lleferydd;
 80 Teiriaith at wirion a fu frau o'i fron
 Gyda'r ffon i gadw'r ffydd.
- Ef âi'r cedyrn i frig coedydd
 Ar ei hyder, a'r ehedydd,
 84 Ef a'r dref ar dro, ac un a gano
 Drwy Gaeo dragywydd.
- Dragywydd y rhydd y rhod—wenwynig
 I minnau ei dyrnod.

Ffynhonnell
 Pen 54, i, 115

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Darlleniadau'r llawysgrif
 22 geni oressgennydd. 41 o esblennydd. 48 ymhennydd. 59 yw gret.

Priodoliad
 Dauid Epynt.

I Wiliam Hafard ap Tomas o Aberbrân

- Y carw ifanc o'r Hafart
 A ofnai ddug fin ei ddart,
 Dewr nid âi i dir na dŵr,
 4 O bai gynnull, heb gannwr.
 Glyn Tawy, galont heol,
 Glyn Wysg a wyl galw 'n ei ôl.
 Mae o wŷr draw ym ar draws
 8 Had Hafardiaid hyd Fwrddiaws;
 Ei fonedd ef a wnâi i ddyd
 I fry addef ei wreiddyn.
 Mwyn yw Gwilym i'n golwg
 12 Oni bai ar neb ei wg,
 Ac ar hafog a rhyfel
 Tanllyd yw atyn' lle y dêl.
 Maen bychan glân o'r gloywnaint,
 16 Llyna faen yn well no'i faint.
 Cyfarwydd ar swydd neu sias
 Ym mhob dim yw mab Domas,
 Ond yn ei fin y daw'n faith,
 20 Hafart araf, o'r teiriaith.
 Yn iarll main, i'r lle mynnai,
 Gyda'i ddysg a'i waed, ydd âi.
 Ei farn ef a rôl yn fau,
 24 Da i'r enaid roi'i ynau.
 Mwy fydd gan brydydd o'r brud
 I enw Gwilym no golud.
 Irder oedd ar dir iddaw,
 28 Tyfed ei rent fwyfwy draw.
 Ei air da am roi diawd,
 A wnaeth le i wan a thlawd.
 Llyma roi naid lle mae'r nos
 32 (Lle mae eraill, ymaros!)
 Ni welas un olau sydd
 Barodach lwybr i brydydd;
 Ni bu'r tir na bort orau
 36 Yn Aberbrân heb ŵr brau.

I bawb o'i dai, i bob dyn,
 Y daw'r bragod o'r brigyn:
 Gwledd i holl Wynedd nid llai,
 40 Mae gan Wiliam a'i gwnelai!
 Llyna dri llawn hyd yr ên:
 Llaw frau a llyfr a'i awen.
 Awr ni fyn arno ef fod
 44 Na bo'i arian yn barod:
 Rhoi a wnaeth, mab maeth y medd,
 Aur o fesur ei fysedd.
 Nid anhaws ym o'i doniau
 48 Lenwi llaw hael na'i lleihau.
 Hael yw heb gael o neb gam,
 Os hael, einioes i Wiliam.

Ffynonellau

A—BL Add 14991, 267^r B—LIGC 2023B [= Pant 56], 295 C—Llst 133, rhif 16 D—Pen 100, 46

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–9.

Amrywiadau

1 *AB* ieuanc. 6 *A* glaw'r, *BC* glaw n, *D* glaw yn. 22 *A* Gyda ddysg. 23 *D* ym.
 28 *D* went. 33 *C* fydd. 35 *AB* Ni bai'r tir. 37 *AB* [i]. 39–40 [*A*]. 41 *A–C* dre.
 50 *CD* enioes.

Teitl

ABD Mawl Wiliam Hafart o Aberbrân; *C* Cywydd.

Priodoliad

A Dafydd Epynt; *BC* Dafydd Epynt a'i cant; *D* Dafydd Epynt a'i k. floruit
 A.D. 1460.

Awdl foliant Lewys Hafard a'i wraig Isbel

- Ymwanwyr a dyr dan darian—Lewys
 A'i luoedd ym mhobman;
 Isbel a roes i bobl ran
 4 O'i llyn â'i llaw ei hunan.
- My hunan a gân â'm genau—iddo
 Ddeuddeg o gywyddau;
 Llawer un oll er yn iau
 8 Aeth â'i wenith a'i ynau.
- Ni thau 'n ei ynau un awenydd—gwyllt,
 Na gwalltan ar fynydd;
 Dra fo'r haf, ar dref y rhydd,
 12 Dra fo'r ôd, w'yr Feredydd.
- Ni bydd o F'redydd fredych—ar filwr,
 Ef elwir yn was gwych:
 Mewn ei wydr y mae'n edrych,
 16 A fynno'r dref, hwn yw'r drych.
- Edrych ar yr ych yr ys—a'r wennol
 Ar Wynedd a Phowys:
 Llyma ennill ym ynys,
 20 Mwy ennill ym yw un llys.
- Af i lys felys ei dyfaliad,
 I'r lle y gwelir allo gwyliad;
 Yno bydd newydd wniad—ar sidan
 24 A'i euro 'mhob rhan ar y mab rhad.
- Llawer o'r gwestwyr i'r llawr gwastad
 A archai yno eu harchenad,
 A chlod am ddyfod amddifad—a fyn,
 28 Am hyn ym Mhrydyn y mae rhediad.

Ennill y nefoedd yn lle nofiad,
 A gŵraidd ydyw ei gerddediad;
 32 Ni cherddodd o'i fodd neb ar wad—lle bu,
 Ond, er y Iesu, yn ei drwsiad.

Ei dir a'i olud, aur a welad
 Hyd y mae'r dynion, Duw, mawr danad.
 36 Ni fu heb rannu, bryniad—ar dyddyn
 Na fai'n ei erbyn, er hyn, yn rhad.

Ei fin a glywaf yn goleuad
 Ar yr holl ddaear â'i llai ddyad:
 40 Ei air, aur a gair, yw'r agoriad—gwir
 Ar glo i gywir gael ei gaead.

Efô yn haelaf yn neheuwlad
 Ond Efrog gadarn, da fu'r ceidwad;
 44 Ef a wnâi ban gâi yn y gad—ymwan
 Â'i faneg allan fwy no gwilliad.

Ni wyl olygon haul â'i lygad,
 W'r lanach ei wŷr a'i lu ni chad,
 48 Neiaint, gogymaint, i geimiad—diriaid,
 Haid o hebogiaid yw y bagad.

Ar y wraig orau y rhô'i'i gariad
 A llawer o'r aur oll ar yr iad;
 52 Ef a fydd llywydd y lleuad—o Went,
 Yn fwyfwy ei rent a'i stent a'i stad.

Êl i dai Isbel â diasbad,
 Ewch o nerth honno yn chwerthiniad:
 56 Y llyn, liw ewyn, a lewad—a'i bwyd,
 Ac yno'u canwyd ugain caniad.

Ni allai undyn well ei hendad,
 Ni waethëir hon, hithau yw'r had;
 60 Siôn a rô'i'i rhoddion, arweddiad—Ewas
 A gafas urddas Domas ei dad.

Ni ddaw ach rhiaun un ddechreuad,
 Ni wedda 'n ei bron eudduw na brad,
 64 Ni welir o'r sir, er siarad,—yn nes
 Iarlles neu ddugies un ymddygiad.

Mae ar ei dwylo, a mawr o daliad,
Yn llys yr Hafart, llewpart benllad;
Hyd y bo enw gro neu gread—arno,
Yno y bo honno heb wahaniad.

68

Ffynhonnell
Pen 55, 202

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Darlleniad y llawysgrif
32 o bosibl ym.

Priodoliad
Epynt.

I Wiliam Herbert o Golbrwg

Mae ofn at rym fyned draw,
 Maestr Wiliam, oes, drwy wylaw.
 4 Llew ni bu well un â'i bêl,
 Llaw gref yn Lloegr i ryfel.
 Angau yw'r dur yng ngwar dart,
 Ail yw trwbl aelod Herbart.
 8 O daw'r gwaed o ryw Godwin,
 Llai bywyd rhai lle bo trin.
 Mae ar darw mawr a'i darian,
 Syr Rhisiart, oes, wres o'r tân.
 12 Dau'n un ydyw'n ei ennyn,
 Dewrder i gyd â'r dur gwyn:
 Neitio o'r blaen, natur blaidd,
 Neu fal Urien filwriaidd.
 16 Hwn sy o ryw hen Syr Rhys,
 Nai'r frân a orfu'r ynys.
 Maen a gâi rym yn ei grud,
 Mwyfwy, Wiliam, fo'i olud.
 20 Yn y drin, da w'r ei rodd
 Yn y tefyrn, y tyfodd;
 Haearn neu ddu a wnâi'n ddau,
 Hael anianol i ninnau.
 24 Rhoi'r gynau gorau o Gred,
 Rhoi'i feirch a'i aur i ferched.
 Sêr a droes ar ei drwsiad,
 Syr Rhisiart Herbart a'i had.
 28 Ei goler teg, êl o'r tŵr,
 Yn aur melyn i'r milwr.
 Lliw'r haul a'r lloer a hwylia
 Ar fil o'i wŷr fal y iâ.
 32 Daear hyd Wy a Rheidiol
 Deau a roed ar ei ôl.
 Bwa yw'r mab i wŷr Môn
 A dwy Wynedd a'u dynion.
 36 Dau enw briod, un yw brân,
 Eryr eglur o Raglan.

Ei radd yn aur oedd yn iau,
 Ef a'i dyrchaif drwy achau.
 Hwn a ddaw â'i henw ddwywaith
 40 At Ynyr Gwent a wna'r gwaith.
 Nerth glân o wrthiau ei gledd,
 North a fyn wrth ei fonedd.
 Gwreiddyn yw a gyrraidd nef
 44 Y sy addas ei oddef.
 Un brigyn byw a'i ragor
 O'r derw mawr ar dir a môr.
 Afon o'r ffynnon a'i phen
 48 Hyd Dofr yn neutu Hafren.
 Argae dur ac ederyn
 Nis tyr dŵr, nis tery dyn.
 Iesu a wnêl i'n oes ni
 52 Barhau hedn Aberhodni.

Ffynhonnell
 Pen 55, 220

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Priodoliad
 Dauid Epynt.

I Wiliam Herbert o Golbrwg

Pwy a rôl gwymyp i wŷr gant?
 Mastr Wiliam o said Rholant!
 Ni bu ddwrn heb wayw neu ddau
 4 O bai i Raglan beryglau.
 Dofi'r byd, ef a'i air byr
 A wnâi burdan i'n bradwyr;
 8 Rheoli dewr, hael a dig,
 Ac unioni gwenwynig;
 Rhannu'i aur hen a'i arian,
 Rhannu'r gwir i'r hen a'r gwan:
 Haelaf unllaw dan awyr
 12 Llew garw Gwent, Lloegr a'i gwŷr.
 Y nerth o fewn arth a fydd,
 Nerthu'r goron wrth geyrydd.
 Nid oes o ran dau Syr Rhys
 16 Wŷr o'i flaen i'r Fêl Ynys.
 Y mae wylo ym Mwlen
 Yn ôl ei wŷr a'i law wen.
 Na bo'i ewin heb ohir,
 20 Fab Brân ap Dyfnan, heb dir.
 Dau enw gŵr i dan y grog,
 Tarw ac eryr trugarog.
 Bonedd Wiliam, ban ddelont,
 24 Yn nesa' i ben ynys bônt;
 Mawr yw'r llwyth ym o'r iarll hen,
 Mwy bâr y mab o Urien;
 O bwrir llew, byr yw'r llin,
 28 O Garadog 'r âi i Odwin;
 Epil Einion yn blaenu,
 Dynion oedd waed Annun Ddu.
 Tewach ei phryd, da uwch Ffrainc,
 32 No'r graean, yw'r gwŷr ieuainc.
 Rhwymo'r tir a'r môr a'r tân,
 Iawn a wnaeth yn un weithian.
 Caeriw a fag rhan o Fôn
 36 O wreiddiau rhyw Iwerddon.

Rhoi Siân, hiroes i Wynedd,
 At iarll Gwent i'r lle y gwedd;
 Ni chafas urddas o Iâl
 40 Ond rhiain o waed rheial.
 Pwy fydd epil Syr Wiliam,
 Etifedd gwaed Dafydd Gam?
 Mae enw Wiliam yn Nulyn
 44 Ar finiau gwŷr, fwy nog un.
 Ef a fyn, fwyfwy ennyd,
 Herbart ar bawb, air trwy'r byd.
 Gradd oedd, o gorddiweddir,
 48 Yn uwch i hwn no Chai Hir;
 Na bo is, mab Syr Rhisiart,
 No marchog eurog o'r art!

Ffynonellau

A—BL Add 14991, 266^v B—LIGC 2023B [= Pant 56], 292 C—Llst 133, rhif 15 D—Pen 100, 43

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–9.

Amrywiadau

2 C master. 5 D wyr byr. 27 A llaw. 28 C Edwin. 35 D keriw. 37 A Siar. 40 ABC rhial.

Teitl

ABD Mawl i Wiliam Herbert o Raglan; C Cywydd.

Priodoliad

A Dafydd Eppynt; BCD Dafydd Eppynt a'i k.

I ofyn gŵn gan Risiart Herbert

- Rhisiart hir a'r asur teg
 O gylch mwnwgl a'ch maneg,
 Henwaith gof, hyn a'th gyfyd,
 4 A'th enwi byth yn y byd:
 Wŷr i filwr, a'i foliant,
 Forgan deg, a feirw gan dant;
 Ac ni ddaw egin o ddyn
 8 Well ei hil no Llywelyn:
 Epil ddwyfil o Ddafydd
 A dyf yn goed fwy no gwŷdd;
 Dy wŷr hefyd, o rhifir,
 12 Rhif y dail ar wiail ir.
 Mawr y cred y cyffredin
 Yt, eryr Gwent, a roi'r gwin.
 Aeth y wlad oll i'th law di,
 16 Llaw rwydd, llawer â iddi.
 Ennill a'u dwyn a wnai 'll dau
 Air Bedwyr a'i wybodau.
 Myned i gerdded ag onn,
 20 Marcu'r llu, maer Caerllion.
 Yfed gwin dan fedw Gwynedd
 A charu merch a rhoi medd.
 Rhy fychan, cyfan y cad,
 24 A fu dros of o drwsiad.
 Cadw y mae y coed mwyaf,
 Cyd yw rhisg â'r coed yr haf.
 Edn a wedd adain iddaw,
 28 Ond ar ddyn y dŵr a ddaw,
 Ei fron a'r galon yn gled,
 Yn oer o hyn i waered.
 Dy arrau di o wryd,
 32 Dy ŵn a gudd dyn i gyd.
 Dyro am wawd ar 'y min,
 Y mab hael, ym y pilyn.
 Mi a gawn ŵn amgen waith,
 36 Rhy fyr er rhoi fy araith;

Ni chefais i fal rhain,
 Yn hanner hir, un o'r rhain:
 Gwell yw no mantell am wan
 40 Gŵn llaes ac yn lle hosan;
 Gwisg yw i gysgu a wedd,
 A'r wisg ar yr esgeiredd.
 Deilog wyt ti fal gwial,
 44 Ni allai ddyn well ei ddail.
 Iarll dewr â lliw ederyn,
 Hoff yw dy gorff, du a gwyn.
 Llyna beth da heb waith dur,
 48 Lliw brethyn lle bu Arthur.
 Gwyn ei fyd a gâi un ferch
 I'th rith unwaith wrth annerch;
 Nid af dan fantell celli
 52 Fyth onid af i'th ŵn di.

Ffynhonnell

Pen 55, 216

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Darlleniadau'r llawysgrif

36 er rroi v araith. 41 [i].

Priodoliad

Epynt.

I Syr Rhys ap Tomas

Rhyw Niclas hir yn cloi sydd
 Yr holl fôr â'r lleferydd:
 Deall a dawn, Duw, ill dau,
 4 A'r synnwyr sy o'i enau.
 Lleu a fu well o'i wayw fo,
 Llaw ddewr allodd ei euro.
 Os am ynys ymwanai
 8 Tomas gynt, y maes a gâi;
 Lladd, ennil y ddwy ynys
 Lloegr a Ffrainc allai gorff Rhys.
 Da yw'r aelod â'r olwg,
 12 A'r ail, da 'muail a dwg.
 Ei rym ef ar ymafael
 Nid erys un, Syr Rhys hael.
 Llai o aur, llai o werin,
 16 Llai gan ieirll a gawn o win.
 Deau 'n ei law dan haul aeth
 Ac a drig, da rywiogaeth.
 Had hëir hyd Wlad yr Haf,
 20 Had tadidad hyd Eudaf;
 Câr a nerth coron Arthur,
 Cefnder pob cyfiawnder pur.
 Difa'r chwyn, difrychau oedd,
 24 Difa'r coed i fwrw cadoedd.
 Llai awch gaiff Adar Llwch Gwin
 No nâd brân yn iad brenin.
 Darogan i'r Brytaniaid
 28 Y llyfrau oll a fu raid;
 Nid eurid yn y dyrys
 Heb wers yr âb war Syr Rhys.
 Nid âi ar ddyn, dŵr a ddaw,
 32 Fôn ei balf wen heb wylaw.
 Ni chyffrôi, gan awch a phren,
 Fraich gŵr, farchog o Urien.
 Manaw a glyw min ei gledd,
 36 Mynyw, Dofr, Môn a'i dyfredd.

Daeaf erydr Eryri
 A Llëyn oll â i ni.
 Coron Lundain fain neu fwy
 40 A wisg Gwynedd Is Conwy.
 Ofn brân ef â 'n eu bronau
 Dros ben coed yr Ýsbaen cau;
 Dwyn a wna, llid yn un llu,
 44 Gwÿr Syr Rhys, groes yr Iesu;
 Cyn a llais, cewri 'n y llaw,
 Clariwns yn cael ei euraw.
 Tri enw y dout ar un dyn:
 48 Iarll a milwr, llew melyn.
 Dwy rodd a gedwir iddo,
 Â'r fwyall fawr felly fo:
 Ennill Duw yn lle dien,
 52 Ennill gair, ar iawn, Lloegr wen.

Ffynhonnell

Pen 55, 88

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

*Darlleniadau'r llawysgrif*12 Ar ar ail (*gyda bwlch rhwng y ddau air cyntaf*). 34 gvr varch o urienn.*Priodoliad*

Dauidd Epynt.

I Syr Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Dretŵr

Y marchog o rywiogaeth
 Marchogion aur, Mair a'ch gwnaeth;
 Uchel yw'r gwraidd a chael gras
 4 O had Noe hyd Eneas.
 Dydi yw'r blaidd cad o'r blaen
 Sy Brutus i Brytaen;
 Cnawd a drig, henyw dy dras
 8 Yn dy ddwyfron hyd Ddefras.
 Natur tân ytiw o'r tad,
 Natur soriant Rhoseriad.
 Ni beiddiai neb i ddwyn iau
 12 Syr Tomas erioed d'amau.
 Neidr yw d'enw, na'd i'r dynion
 Na'th ofnhau na'th feio 'n hon.
 Hir yw'r dŵr ir ar dir aeth,
 16 Cyd â'r haul cadw rheolaeth,
 Gair aeth â phren ac wrth Ffranc
 I ti gryfed dy grafanc.
 Dau a'th ŵyl, o'u detholir:
 20 Dŵr llygaid ieirll a gwaed ir.
 Wrth rym y dur aeth am d'ais,
 Wrth filwr y'th ddyfelais.
 Tydi ar Gent aud â'r gair
 24 Dan wŷdd asglod yn ddisglair.
 Dewraf wyd, Rhôn, a iach,
 On'd Siarls nid oes ŵr haelach.
 Pwyso 'dd wyd, hapus oedd wan,
 28 Da amerodr am arian;
 Sidan am ais, dyn a'i medd,
 Ac aur Groeg, wŷr a gwragedd.
 Gorau un gŵr a aned
 32 Yn Lloegr, ei win, a holl Gred.
 Ni chaid, iawnach yw d'enwi,
 I'th luoedd dai i'th wledd di;
 Ni ddaw diwedd aweddwr
 36 Na derw i'r tân o Dre'rtŵr.

Mae gwŷr dalm i Gaer Dulun,
 I chwy-chwi mae chwech am un:
 Hwyr y gwelir ar Galan
 40 I emprwr fwy 'mhob rhyw fan.
 Am frân darogan a drig,
 Mwy ferw oedd am Foriddig!
 Drwy frwydr, o darfu'r oedran,
 44 Dy fâr a wna Deifr yn wan;
 Crynu a wnân', cynho'n iaith,
 Holl Gernyw a Lloegr unwaith.
 Er hau yno rhai enwir
 48 I Gymry teg y mae'r tir.
 Ni wŷr un er ei enaid
 Pwy biau'r hap pe bai rhaid.
 Pob rhòl o'r broffwydoliaeth
 52 Fal ar ddŵr, filwr, ydd aeth;
 Ba ddrwg, o bai ddarogan
 Y neidr o lif neidio i'r lan?
 Un tarw o Went a eurwyd,
 56 Yr ail pen i roi help wyd.

Ffynhonnell
 Pen 55, 92

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Darlleniad y llawysgrif
 7 hen yw dras.

Priodoliad
 Daid Epynt.

Awdl foliant Siôn Fychan o Dretwŵr

- 4 Eryr y sawdwyr â'r sidan—a'r aur,
 Ŵyr i Roser Fychan,
 Ni wn roi un yn y rhan
 Heb drin o'i bedwar anian.
- 8 Un anian o'r tân a'r tonnau—yw'r ail
 I reoli'r deau,
 Awyr a thir aeth i'w hau,
 I Siôn hir a'i synhwyrâu.
- 12 Synnwyr pawb a wŵyr, pob orig—a gawn,
 Eginyn bonheddig,
 Arf a dyr ar a fo dig,
 Arfer oedd ar Foriddig.
- 16 Ei ddig oedd ysig i ddwysir—neu dair,
 Nid ery anghywir;
 Ni bu well dim, ni ellir,
 No barn hwn a bery'n hir.
- 20 Yn hir â dŵr ir pan dorrer—allan,
 I wylliaid yw'r pryder;
 Euro'r ffon a'r war a'r ffêr,
 Aur a fyn ar ei faner.
- 24 Cryfder ei faner a fynnai—sefyll
 Ar draws Afon Fenai;
 Â phâr dur, ni phryderai
 Na llu na thrin, llanw a thrai.
- 28 At rai i fyned trwy afonydd
 I guro ceyrydd, gerrig geirwon;
 Ei ran yw ymwan ar ei emys
 Ar gost yr ynys rhag estronion;
 Ni bydd cywilydd lle bo calon—hael
 A'i gael aelýnael â'i elynion.

- 32 Cymry a fu gaeth, camryfyg oedd,
Er yn oes oesoedd yn nwrn Saeson;
I ddwyn y diwedd un a dywys,
Oes mwy ar Ynys y Morynion?
36 Nerth gwewyr a gwŷr i'r Goron—a rydd
Hydd ac esillydd i Gaswallon.
- 40 O fonedd Gwynedd fwy nog unwaith
Af â'r iach chwegwaith i farchogion;
Yr arian heb aur ar ŵn neu bais,
Asur a enwais ar ryw Einion;
44 Aur ar dras Defras, dwyfron—Syr Rhoser,
Eurer a gaffer ar ei gyffion.
- 48 Hen o ddarogan oedd i'r egin
O enau Myrddin am Iwerddon:
Ef allai delai fwyauill Dulun
A gwaed ir danun gyda'r dynion.
48 Tynged a rodded, arwyddion—lawer,
O rymuster sêr ar y meist'r Siôn.
- 52 Y dwyrain i gyd a ran â gwns,
Troi pawb o aliwns Tŵr Pabilon;
Nid ery llaw ddyn y neidr lle 'dd êl
Na dur o ryfel na dŵr afon:
Ef a yrr, f'eryr, rif aeron—ar gil,
Ganmil, o Sisil, gwna mal Siason.
- 56 Ar ucha'i awmler, o châi ymlid,
Ei dwrf a glywid, arfau gloywon;
Y pren â'i law wen o linon fyr
A dyr, onis gyr, yn ysgyriion;
60 Ei ddwrn a'i adain o ddur neu wydr,
Y dur am wylad yr emylon.
- 64 Aeth am yr asau wrth ymryson
Dur, yw ei belydr, a'i ebolion;
Y tir a gyfyd, tarw a'i gofyn,
Yntau a ennyn etewynion;
64 Llawer prif aber, feibion—Siarmania,
Â gyda'i fwa i gadfaon.

68 Trwy ei ddigofaint ar ddygyfor
 Mwy yw ei ragor no môr eigion;
 At ryfel Edwart i rif wledydd
 Naw ynys y sydd, einioes i Siôn!
 72 Adar y ddaear, Iddewon—yn llwyr,
 Yr wybr a'r awyr a'r beryon.

Ffynhonnell
 Pen 54, i, 321

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Darlleniadau'r llawysgrif
 5 aian. 56 yn dilyn y ll. hon ceir dau symbol a ddefnyddir mewn man arall gan y llaw (td. 322) i nodi lle y dylid mewnddodi ll. 57–8 Y prenn ai lav wen o linon nev / vyrr a dyrr onis gyrr yn ysgyryon. 60 ceir croes uwchben am, ond nid yw ei harwyddocâd yn amlwg; emylau.

Priodoliad
 Daid Epynt.

I ddiolch i Ddafydd ap Hywel am farch, ffrwyn a chyfrwy

- Adwaen un edn yn ei wast,
 Ederyn Duw o Herast:
 Dafydd, am wawd a fydd mêl,
 4 Eos Powys, ab Hywel.
 Odid un dyn o dân da
 Ond wŷr Ieuan o Droea:
 Bonedd y ddwy Wynedd wen
 8 A'i gwnaethodd fel gwenithen.
 Uchel yw ei ach o'i lin,
 Ucha' cyff ach y cyffin;
 Penaig ar imp yn ei grys
 12 O fab Ieuaf o Bowys;
 O ryw Dewdwr y dwedwn,
 O Arwystl hir ystil hwn.
 Pwy a wŷr hau, pe aur rhudd,
 16 Ar win tefyrn ond Dafudd?
 Nid mawr enaid morynion,
 A'i law mor hael, mawr yw hon.
 Un rhin o fin rhiain fydd
 20 Erchi annerch awenydd;
 Breuder byd, brawd i'r Bedo
 Brwynllys gerdd felys yw fo.
 Da y gweai dŷ gwiall,
 24 Dafydd oedd Ofydd, i ddail.
 Os hir einioes rhianedd,
 Bywyd yw'r mab i dai'r medd.
 Gair o ferw ac arferoedd,
 28 Diod o win da, da oedd.
 Os march a roes, mawr a chryf,
 Nid o eisiau na deisyf:
 Rhoi'r ffrwyn o'r ffair ar unwaith
 32 A'i gyfrwy teg i fwrw taith;
 Tebyg am ei fenyg fydd
 I rodd Ifor i Ddafydd.
 Dyn o Waith-foed ni thau'i fin,
 36 Yndo lais hen Daliesin.

- Sêr ar awyr y dwyrain,
 Ef a wŷr rhif ar y rhain.
 Ei feddwl ef o Dduw lwyd
 40 Aeth yn bryffaith yn broffwyd.
 Er henwi gwŷr hŷn ac iau
 Nid â'r un neidr o'i enau:
 Hwn yw Myrddin Moriddig,
 44 Hen baladr onn blodau'r wig,
 Oen i'r delyn a'r dolydd,
 Organ Watgyn Fychan fydd.
 Ni fagwyd ar fwyd un fodd
 48 Eos megis y magodd;
 Ederyn llwyd ar un llyn,
 Ar ei ddesgl aur a ddisgyn.
 Ni thyn ei nyth, hwn, yn ôl
 52 O'r un dderwen ddaearol.
 Nefawl yw ei fawl efô,
 Nef i ddyn a fydd yno.

Ffynonellau

A—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 405^v B—J 101 [= RWM 17], 537 C—Llst 118, 220

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–9.

Amrywiadau

9 B o lin. 35 C thav fin. 46 C gwatkin.

Rhaglith / Teitl

B Moli: David ab Howel o Bowys; C k. Davydd epynt i ddiolch march i dd ap holl prydydd watkyn fychan o hergest canys Dd epynt a ddaeth i glera rhwng gwy a hafren ar i draed, a dd ap holl ai gwelas yn glairch trwm, ag a ddisgynodd i lawr oddiar i farch ag a roes y march ar ffrwyn ar ysbardynau ar bwysgyns i dd epynt.

Priodoliad

A–C Davydd epynt ai kant.

I Siôn ap Rhosier o Lanfrynach a'i wraig Mawd ferch Morgan Awbrai

Ysgwier, gwisg aerwy gwyn,
 Arian filwr â'n felyn,
 4 Mab Roser, mae berw eisoes
 Y deuir i'r gred i roi'r groes.
 Siôn, ni bu wers yn y brud
 Yt na weddai, tân oeddud;
 8 Ffon wayw, a phwy un ewin,
 Ffyrff dy gorff, ar fwyd a gwin?
 Digio a wnaud, ac ni wedd
 Yn dy groen ond gwirionedd;
 12 Un drwg a wna dŵr eigion,
 A'th war sy waeth o'i fwrw, Siôn.
 Tri anian ytiw'r annwyd,
 Rhubi ac aur, hebog wyd.
 16 Ni wn ba rai âi'n un bris,
 Ni thau awen i'th ddewis.
 Ni welais er a geisiodd
 Ffaelu'n hir hawl, ffwyl o'u rhodd.
 20 Lle 'dd wyd, llaw Dduw a adaf,
 Llawn o dda, allan ydd af.
 Pwy i ar bawb piau'r bêl?
 Brynachad a brain uchel.
 24 Ni bu dwrn enbyd arnun
 Betai 'n Iorc na baut ti'n un;
 Eu dwyno 'r wyd yno'r haf,
 Dy nerth aeth hyd North eithiaf.
 28 Os tarw â dros y tir draw,
 Rhyw'r Gwnter, a'r hur gantaw,
 Deuryw'n cael diwyro'u cam,
 Rhyw Dudur a had Adam,
 32 Drych aur ar dir a charreg,
 Gleindid dyn a gloen Duw teg.
 Os cad a droes, cadw dy ran,
 Â'r gwýdd fyr i'r gwddf arian;
 36 Aur glân hen i'r glun honno
 Ac ar dy wraig, aur o dro.

Mêl a gawn mal y gwenyn,
 Afall o nef a'i lliw'n wyn.
 Ni bu frig neb o Forgan
 40 Awbrai o'i rhyw heb roi rhan.
 At ddugiaid hi a ddygir,
 Normant wen orau man tir;
 Ys da dygaist di d'egin
 44 Lle ni chaid gwell no chost gwin.
 Ni chad dy had di ei hau
 Heb beth o'i hwyneb hithau.
 Da le oedd i awdl iddi,
 48 Da gan Fawd a ganwyf i;
 Chwy-chi'ch dau i'ch iechyd aeth,
 I'r gaer dderw â'r gerddwriaeth;
 Nid â'r gair ond i'r gorau,
 52 Nid êl brad yn dy dâl brau.
 Wrth weled aur o'th law di,
 A'th lawned o'th haelioni,
 Gwayw dan y fron, gwydn fu rai,
 56 A than iad a'th newidiai.

Ffynhonnell
 Pen 55, 156

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Darlleniad y llawysgrif
 18 hawllf wyl. 26 dy n nerth.

Priodoliad
 Epynt.

Awdl foliant Hopgyn Awbrai o Abercynfrig

- Am y ffydd i'n dydd o lyn diol—hwnt
 Hwyttau oedd i'th ganmol;
 Pell y cair d'air daearol,
 4 Hopcyn deg, pwy a'i câi'n d'ôl?
- Dolur a wnâi'r dur ar daith—a wnelud
 Yn aelod anghyfiaith;
 D'enau ni ddywaid weniaith,
 8 Dy wayw yn y gad wna gwaith.
- Llawnwaith un o'n iaith a wnêl—y terfysg,
 Tarfu Sais a Gwyddel;
 Dy ryw, hefyd, o ryfel,
 12 Awbrai, ar bawb, âi â'r bêl.
- Uchel yw'r bêl uwchlaw'r byd,
 Uwch yw'ch gair o chwech gwryd;
 O'r achau gorau i gyd—y tyfaist,
 16 Etifedd cedernyd.
- Cedernyd gennyd i'r gynnen—y sydd
 A swyddau llwyth Urien;
 Iaith a chyfraith uwch Hafren,
 20 Enaid y byd, yn dy ben.
- Taro'n ben y tir neu baid—yn arab
 Yn arwain Brytaniaid;
 A fo dewraf a diriaid,
 24 Yn eirth a drôn' wrth dy raid.
- Er nad rhaid ofn, arnad, rhyw Dafydd,
 Dur ar y bwned a roir beunydd;
 Dau goler arian sidan y sydd,
 28 Duw a ro newid o aur newydd.
 Dy weywyr a'r gwŷr ar geyrydd—caead
 Ym yw agoriad eu magwrydd.

32 Pennaeth rheolaeth yr heolydd,
 Pennaf un wyt ti pan fai'n oed dydd;
 Penaig a ofyn pen gwayw efydd,
 Pennaf wyd lanaf pan faud lonydd.
 36 Pob chwedl i'th genedl a'th gynydd—a gaf,
 Yr haf grymusaf a gâi'r mesydd.

Un aeth hyd Einion o'th adenydd,
 Un arall Owain, araf llywydd,
 40 Dau ar hyd daear, od o'r tywydd,
 Had, ac a lenwid hyd y glennydd.
 Ar hyd yr holl fyd ieirll a fydd—o Sedd,
 Ni wedd dy fonedd hyd Fefenydd.

Dy hendar a'r tad, erioed dedwydd,
 44 Dau a foliannwyd o Faelienydd;
 Neidio neu redeg a wnei'n drydydd,
 Oni baud araf, yn bedwerydd.
 48 Uwch erod yw'r glod o'r gwledydd—i gyd
 No dynion y byd yn d'enw bedydd.

Mwyn yw dy galon, min digelwydd,
 Awbrai, a'th wyneb wrth awenydd;
 Anodd yw d'oedi, Nudd diodydd,
 52 Ac ni nacéi a gano cywydd.
 Dy daid, o bai raid i brydydd—wrth dda,
 A rôl'r aur Afia, eryr ufydd.

Daear a golud ar ei gilydd,
 56 Dy dai a lenwid o lawenydd;
 Nid rhaid i ninnau trwy dân onwydd
 Ofn y daw'r gaeaf yn dragywydd.
 60 Dy bêl rhag oerfel y gorfydd—ei ddwyn
 Yni fo'r gwanwyn, naf i'r gwinwydd.

Un irder â'r mwyn ar dir mynydd,
 Un natur â'r gwynt yn torri'r gwýdd,
 Tydi a fynnod hyd afonydd
 64 I bawb dy ofni o bob defnydd.
 Ni chaf yn olaf un elfydd—i'th fron,
 Ni bo i'th galon byth gywilydd.

68 Gwylia ar ddifiau galw, ar Ddofydd,
 Nid awn yn y rhwyd, ein dwyn yn rhydd;
 Ef a welir haf o alw ar hydd,
 Naint a llifeiriaint a lleferydd.

72 Mae gobaith unwaith, ddihenydd—Saeson,
 Neu ddwyn Iddewon â'r ffon i'r ffydd.

Am y ffydd i'n dydd o lyn diol—hwnt, &c.

Ffynhonnell

Pen 55, 207

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Priodoliad

Dauid Epynt.

I Siôn Morgan, esgob Tyddewi

Yr esgob aur wisg ei ben
 Hyd ei war, o had Urien;
 Ucha' gradd ach a gwreiddyn
 4 Wyd di dan Dduw Tad yn ddyn.
 Derw ir erioed ar yr yw
 Oedd dy fonedd hyd Fynyw.
 Ni wn yn sant un un sud,
 8 O'r crefyddwyr cryf oeddud.
 Doctor o hyd Ector hen
 Fab Briaf, pur ei awen,
 Pwy ond y pab, henwaed pur,
 12 Dan Agla yn d'enw eglur?
 Brawd a châr brau ydywch chwi
 Ar y ddaear i Ddewi.
 Dwyn i Dduw y dyn a ddêl,
 16 Dileu pechod, help uchel.
 Doethaf dan y ffurfafen,
 Doeth o iaith byd aeth i'th ben.
 Dydi a'th had a edwyn
 20 Gwrs y sêr, grasus yw hyn.
 D'arfau a gad rif y gwÿdd
 I gadw'r byd gyda'r bedydd;
 Dy blaid a gâi'r eneidiau
 24 A ddyco ffydd a'u coffâu.
 Chwi a rennwch wirionedd
 Yn yr oes hon o ryw sedd.
 Ni saif un trais, ofn nid rhaid,
 28 Ar grair eryr goreuraid.
 Arf, nid dur, a fu 'n y tân
 Yn ei daro âi'n deiran;
 Gwae ef, tra gof a'i trewis,
 32 Ef a fu'r gof farw o'r gis;
 Mae 'n ei ymyl, le gwÿl gwÿr,
 Ôl y mwrthwl ym Merthyr.
 Nis tyn Cynog wyn o'i gôr
 36 Er parhâu o'r prior.

Na chymer fâr dy geraint,
 Doctor Siôn, na dicter saint;
 Eich rhoi'n gâr, ni chair un gwan,
 40 Allai Farchell i Frychan.
 Rho'n grwn o'r hen gerennydd
 Nerth ar dy farn wrth raid fydd.
 Gwybydd di, Dewi, nad aeth
 44 O'i law'r fagl a'i arfogaeth.
 Duw ni thyn, dawn aeth ynod,
 Oleuni'r haul wen a'r rhod;
 Haul yw'r annwyl ar Wynedd,
 48 Na thyn fyth hwnnw o'i fedd.
 Nis cafas un o'i nasiwn
 O'i fynwes ef yn oes hwn.
 Gwedy bod y gwaed o'i ben,
 52 Gad i'r dorch gadw'r dywarchen.

Ffynonellau

A—Pen 60, 77 B—Pen 312, 77

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. td. 209.

Amrywiadau

9 B [o]. 19 AB Tydi; A a thad, B oi curt. 22 A gadw y byt. 46 B oleuni yr; B o òod. 47 A annwl. 52 B Gad iò.

I ofyn ffaling gan Siancyn ap Rhys

Y marsiant mawr ei reso
 O Gent i Roeg a wna tro;
 D'aur fu olud ar Faelawr,
 4 Ar dir y mae i'r dŵr mawr.
 Ni fenno cwm neu faen cau
 Ar dâl angor dy longau.
 Undyn, glân wyd, a wna gwledd,
 8 Yn rhoi d'arian ar diredd.
 Nid âi heb win hyd y bych,
 Ni ddôï, unben o Ddinbych:
 Difa, yna'i dyfynnwyd,
 12 Ffrwythau'r Eifft a'i pherthi'r wyd.
 Ti a wyddud, da oedden',
 Siancyn ap Rhys, enw can pren.
 Dyn a dynn dy win i dir,
 16 Llai no thunnell ni thynnir.
 Hen o Frychan fu'r achau,
 Uniawn eu dawn yno'n dau.
 Mae 'n y sias, rif y glaswellt,
 20 O'r Bledri mawr, baladr mellit;
 Enynnu tân a wnaut ti
 Yn y dur neu ei dorri.
 D'air a red i Dir yr Iâ
 24 A'th drwsiad aeth drwy Asia.
 Llef tant a wellâf i ti,
 Llais i ofyn lliw syfi,
 Ffelfed yw, a phlu daear,
 28 Ffaling hoff o law 'y nghâr;
 Ffenigl, o'i gyff y henyw,
 Ffris hir a pharhäus yw.
 Ni fu 'n ei grwyn fewn y Gred,
 32 Ysgîn dewis, gyn dewed:
 Nid â glaw neu ôd y glyn,
 Nid â durew 'n dy doryn!
 Lliw'r brethyn o'r llwybr eithaf
 36 Y sy 'n y rhos hanner haf;

Lliw tân, gwell ytiw no gŵn,
 Lliw grug aur Lloegr a garwn;
 Gwe Wyddelig o Ddulun,
 40 Ac eurad teg ar y tun.
 Defni gwaed a fu 'n y gwŷdd
 Drwy'r brwyd a roir ar brydydd.
 Adar o goed a wŷr gwau,
 44 Ar ôl adar êl edau.
 Dyro, rhag y dŵr a'r rhew,
 I'r corff dudedd, crefft Iddew.
 Undyn a brŷn wyd yn brid,
 48 Un â thelyn a'th ddilid.
 Ni wisgaf, od af ar d'ôl,
 Wn rhyir yn yr heol;
 Mantell a wisgaf, Ddafydd,
 52 Os mab Rhys, o'm hap, a'i rhydd.

Ffynhonnell

Pen 55, 65

Darlleniad y llawysgrif

48 a thilit.

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Priodoliad

Dauid Epynt.

Marwnad Morgan ab Owain a'i wraig Sisli

- 4 Trabluddus y try blwyddyn
 Dan law ac ôd a niwl gwyn.
 Dyn sy heddiw'n dwyn swyddau,
 Damwain o saif dim nos Iau:
 Gwenwyn yn dwyn fal y dêl
 A dur hefyd a rhyfel.
- 8 Ederyn gwyllt a'r un gwâr,
 Mae 'n y diwedd mewn daear.
 Mae'r gwragedd, lle gorwedd gwŷr,
 Yn meirw weithian ym Merthyr.
 Llyna feirch yn llennau fydd,
 12 Sy alarus elorwydd.
 Morgan, drem ar gnawd a red
 Ar ei elor ei weled;
 Llu'n wylo lliw ni wylen',
 16 Llifddwr pell a fydd o'r pen.
 Duo'r blaned i'r blaenawr,
 Du fu'r wlad o'i fwrw i lawr.
 Dyn a wywo dan weywyr,
 20 Gwres a'i dwg a'r ais a dyr;
 Arf o bu ar fab Owain,
 Ni bu ôl un byw â'i lain:
 24 Llaw Dduw a'i lladdodd â'i ddart,
 Lithro eisoes llwyth Risiart.
 Lleihau rhwysg llawer yr haf,
 Lladd bonedd lle 'dd oedd bennaf.
 Ni chollai'n iach ei allu
 28 Neu dir ar far, un dewr fu.
 A fu ddewraf o'i ddirio
 Sy dan grwys Duw yn y gro.
 Amdo a gaem wedy'i gau
 32 A dŵr swyn dros ei enau,
 A chloi 'n ei gylch, hyn a gaid,
 Olew, un eli, enaid.
 Dagrau o waed a gâi rudd
 36 Ar frodyr wŷr Feredudd.

Llef oer mawr, llif ar y main,
 Lleihau deall, had Owain.
 Llu'n fwy yn llenwi 'n y Farn,
 40 Llu'n treio llin Tarhaearn.
 Morgan ym a'i wraig a wnaeth,
 Yn iach arian, awch hiraeth.
 Och i Iesu na chasoedd
 44 I Sisli oes, os hael oedd.
 Dial ydiw ar dlodion
 Ar waelod tir weled hon!
 Aml y bu emyl ei bedd
 48 Eiriau Duw ar ei diwedd;
 Llu, ac arall, o geraint,
 Crwys a sens, cares y saint.
 Duw a wnaeth ei dwyn hithau
 52 O'i flaen ef i lanw y iau:
 Da oeddyn' cyn dioddef,
 Deuddyn, un oed, dda 'n y nef.
 Hen oedd Noe yn niwedd nant,
 56 Hÿn fo'r egin o Forgant.

Ffynhonnell
 Pen 55, 212

Darlleniad y llawysgrif
 2 [a]. 52 O flaen ef.

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Priodoliad
 Epynt.

Marwnad Hywel Amhadog ap Trahaearn

Mae i'n gwlad, Hywel Amhadog,
 Milwr grym, alw ar y grog;
 Doe y byriwyd y barwn,
 4 Doeth a hael, Duw aeth â hwn.
 Hywel, ni bu hawl na barn
 Na chadwai wan a chadarn;
 Aur ar far yw'r arferoedd,
 8 Araf a dewr hefyd oedd.
 Dydd diwedd bonedd a bwyd
 Oedd y dydd y diweddwyd:
 Ef aeth i'r llawr fyth roi llyn,
 12 E fu'r gwin farw a'r gwenyn.
 Tri un gwyn, truan ei gael,
 Wyr Tarhaearn, â'r Triael!
 Nid â'n ei orwedd heddiw
 16 O dŷ San Ffred iesin ffriw:
 Dôr warchae yw'r dywarchen,
 Daear y byd ar ei ben.
 Cwyr neu saint, ceirw yn nesáu
 20 I roi llef ar y llyfrau;
 Galw Duw, gwely o dywod,
 A chanu clych a wna clod.
 Gwynedd wen a gwynai'i ddydd
 24 Ac yn flin gan Faelienydd;
 Glan Wysg a luniai wisgoedd
 O'r du o Lir, dial oedd;
 Troi'n breuddwyd draw yn briddyn,
 28 Tynnu dant o enau dyn.
 Torres, nant a roes ei naid,
 Argae'n tir o'r Gwnteriaid;
 Mae coed Adam cadwedig
 32 Yn meirw o'u bron, mawr eu brig;
 Ni bu un pren byw yn parhau
 Na bai lydain eu blodau;
 Tylwyth Owain ac Einiawn,
 36 Teg yw ei blant ac abl iawn:

- Madog ym o'i waed a gaf
 I ddwyn bonedd yn bennaf;
 Ef a roid haf ar y tir
 40 A'i fab ieuaf heb ohir;
 Pum merched, pwy mor uchel?
 Pumcant neu ddegcant a ddêl.
 Synnwyr adar y barwn,
 44 Siôn, nid tarhaus natur hwn.
 Ni wnaeth y neb aeth i'r bedd
 Eithr hiraeth o hir orwedd;
 Ei feibion ef, byw, â'n wŷr,
 48 Ef aeth Mair fyth â'm eryr.

Ffynonellau

A—Pen 60, 13 B—Pen 312, ii, 70

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. td. 209.

Amrywiadau

1 *A* gwat (*gydag arwydd i fewniddodi llythyren o bosibl uwch yr w*); *B* am Madog. 6 *B* cadarn. 14 *B* Trahaearn. 16 *B* Sanffraid. 19 *AB* keirw nessav. 26 *B* O. 36 *AB* yw blant. 42 *A* pum kant. 43 *ailadroddir y ll. hon yn A*.

Priodoliad

A David Epynt; *B* Dafyã Epynt: ai c.~.

Marwnad Hywel Dafî a Huw Cae Llwyd

- Mud yw'r byd ym mhedwar ban
 Am ddiweddu ymddiddan.
 Os marw Huw (oes mwy i'r haf?)
 4 Ni chân edn, ucheneidiaf;
 Ni adai ddyn wedy'i ddydd,
 Hywel, farw ei leferydd.
 Ni fu, wedy grëu'r gro,
 8 Frycheiniog, freuach honno.
 Adar oedd â derw iddun,
 Colli dau, Cae Llwyd yw un;
 Hywel Dafî, ail Dafydd,
 12 Os marw fu, eisiau mawr fydd;
 Pêr o ungwr pur angerdd,
 Pwy wedy'r cwmp a dyr cerdd?
 Dolur gordd daly o'r ge[]
 16 Dafî yn fwy hyd []
 Megis tynnu gwŷr duon
 Talbod yw'r rhod yr awr hon.
 O dri i ddau draw ydd aeth,
 20 O ddau'n hwyr i ddwyn hiraeth;
 Ni welaf un, wylo fydd,
 Yn ôl Cae a wnêl cywydd.
 Oes un eos yn Nwywent
 24 Nac oes un agos i Went?
 Ôl dau Hywel, deheuwr,
 Engylion byw, englyn byr.
 Ynt-wy'n un, tyn yn y iau,
 28 Gwae fî, unig wyf innau.
 []ynwyd yr awenydd,
 []ddau'r fud iawn a fydd.
 Dial oedd oed Iolo ei ddwyn:
 32 Mwy ddialedd am Ddeulwyn.
 O dyry i lawr, daw ail wŷs,
 Ef â'r unllaf o Frwynllys.
 Oed ar goed y daw'r gwynt
 36 A adnapo edn Epynt.

- Nid âi'r Cân o dir Cynog
 Ond i'r grwn o dir y grog.
 Rhoes ar aur, wers, ar ei war,
 40 Bardd i Dduw, bridd y ddaear;
 Llyfrau a gyll fry o'u gwart
 Llaw a thrysor llwyth Risiart.
 Llai ddeall i weddio
 44 Ar ôl i Fair ei alw fo.
 Diwedd oedd y dydd ydd aeth
 Ar bader a'i wybodaeth.
 Dyn a farnai dan frenin,
 48 Pe bai fyw, heb hybu'i fin;
 Nef a gaiff ef a'i goffâu
 Fry'n aros y farn orau.

Ffynhonnell

Pen 55, 17

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Darlleniad y llawysgrif

31 [Dial]. 32 [Mwy]. 33 [i].

Priodoliad

Dauid Epynt.

Englyn gorchest

Beth fydd hefelydd? Heulwen—yw honno,
 Henw ar wllith yw arien;
 Blist yw midlan, man yw men,
 Allwest yw lle os dien.

4

Ffynonellau

A—CM 3, 102 B—Gwyn 7, 79 C—LIGC 5262A [= Dingestow 2], 80^v
 D—LIGC 9176A, 32 E—Llst 120, 6^v F—Pen 230, 1^v G¹—Pen 313, 10
 G²—Pen 313, 75 H—Wy 1, 222

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–9.

Amrywiadau

1 *F* vyth; *ABD* huvelydd. 3 *C* Maes.

Priodoliad

B Morgan ap Rhys; *CF* Dd hepynt; *EG*¹ Dd hepynt ai cant y diwaethaf; *G*²
 Dafydd hypynt a k; *H* Da[]d hepynt a gant hwn.

Englyn gorchest

O, Ddewi, eiddi i addaw—ydd oedd
 A eiddoedd o’i eiddaw;
 Oedd wedd, o ddiwedd a ddaw,
 I wŷdd ddeuddydd i ddyddiaw.

12

Ffynonellau

A—BL Add 31055 [= RWM 32], 88^v B—Card 2.615 C—LIGC 3029B [= Mos 110], 188 D—Llst 9, 9 E—Pen 147, 205 F—Wy 1, 219

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–9.

Amrywiadau

1 *BDE* i eddaw. 2 *ACF* o eidhaw

Teitl

AF Englyn heb un gydsein ynddaw ond dd drwyddaw.

Priodoliad

AC Davydh Hepynt ai cant, neu *D*: ap Jencyn Fynlwyd yd y dywedant eraill; *B* Dafydd Hupynt/ ai cant./ Dafydd ap Siankyn Vaughan medd eraill ai cant; *D* dd hupynt ai cant dda ap Jankin Fychan medd eraill; *E* da hepynt ay kant dafyd ap sankin fychan me+d rhai eraill; *F* David Hepynt neu David ap Jenkyn Fynglwyd yd y dywaid eraill.

*Atodiad i
Marwnad Morgan*

4 death deigr
dygyfor fal
ay ellyngir
mavr yvr rif
morgan ayth
ayth hen afyayth
8 hen gyff yv hvnn
yddoydd olyoydd
kyn ylleidfa
grawn gvyn
12 yvch noc vynt
kydvynt ar hyn
avdyr byd ay gvyr
nyad ei gan yadar
un ddichvein
16 lle na bei na llv argaydid
ef y gaf assyassen
yhenv aydal
dechreyad
20 dyv or nef dayar
efa []orff
ef yvn ei doyfyn edyd
ir ydayar
24 grvn yw y geir
arf yvolev ar vilvr
da gorff yv

Ffynhonnell
Pen 60, 80

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Priodoliad
dafydd epyn[].

Atodiad ii
Llinellau o farwnad

- 1 Ef aeth yma fyth yn fais.
- 2 llawer ai bwll ar i ben
- 3 llyna orphwyll anorphenn.
- 4 anap oer ym pwy ired
- 5 a marw yn gwr ymron gwared.
- 6 och am was gwyh yn oes gwiw.

Ffynhonnell
Llst 55, 13

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Priodoliad
dd Epynt.

Atodiad iii
Llinellau o gerdd foliant i Wallter Hafart

- 1 Pennabh yw gwalther habhart
- 2 lhwybyr a chanwyllh fydo dynion
- 3 da yw'r gwr i gyraidh
- 4 enilh y gawn yn lhaw gwr
- 5 er lhidio'r holh aweddwr

Ffynhonnell
Llst 55, 155

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Priodoliad
dd Epynt

Atodiad iv
Llinellau o gerdd foliant i swyddog

- 1 y swyddog calonog clan
- 2 chwi biau achub wahodh
- 3 craig wenn bhal cyrrau gwaneg
- 4 cwrt yn dwyn cariad duw'n deg

Ffynhonnell
Llst 55, 155

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 209.

Priodoliad
dd Epynt

Nodiadau

I

Cywydd o fawl i Grist yw hwn, wedi ei ysbrydoli efallai gan ddelw o Grist ar y grog yn Aberhonddu. Egyr y bardd drwy gyfarch Crist, gan gyfeirio at Ei swyddogaeth aberthol yn y llinell gyntaf ac yna at Ei waith fel Creawdwr yn y llinellau dilynol (llau. 3–14), cyn mynd rhagddo i gyfeirio at elfennau yn Ei fywyd, megis Ei ymgnawdoliad a'i eni o Fair, a'i erlid gan yr Iddewon pan oedd yn blentyn bychan. Yna erfynnir ar Grist, *Dod Dy draed eto i redeg / Ar graig o dir y grog deg* (llau. 29–30). Sonnir (yn astrus braidd) am leoliad y grog cyn troi i fyfyrion ar farwolaeth Crist ar y Groes, gan gyfeirio at y gwaed yn llifo, y goron ddrain a roddwyd ar Ei ben a'r waywffon ddrur a hyrddiwyd i'w ochr (llau. 40–1), a gofid Ei fam, Mair, a'i gwelai yn dioddef (ll. 42). Wrth dynnu tua therfyn y gerdd y mae'r bardd yn cyfarch Duw, gan nodi ei fwriad i droi ei olygon tuag ato *Ef cyn terfynwyf* (ll. 49). Yn y ddau gwpled olaf cyfeiria at Ddydd y Farn, pan ddangosir gweithredoedd pob dyn yn eglur fel seren *wrth ei ben*, ac y bydd Crist yn bresennol yn arddangos y clwyfau a ddiodeffodd ar y Groes: sail feiblaidd sydd i'r thema gyntaf ond daw'r ail, thema'r 'Man of Sorrows', o draddodiadau apocryffaidd a litwrgïol.¹ Terfyna'r gerdd a'r bardd yn datgan yn hyderus mai canlyn Crist, yn hytrach na'r llu gwrthodedig, y bydd ef ar Ddydd y Farn.

Y mae'r erfyniad a geir yn y gerdd ar i Grist ddodi Ei draed eto i *redeg ar dir y grog deg* (llau. 29–30), a'r cyfeiriad pellach at y lluoedd sy'n heidio i'r man *lle beirw Hodni* (llau. 31–2), yn awgrymu'n gryf mai'r ddelw o Grist ar y grog ym mhriordy Sant Ioan yn Aberhonddu sydd wedi ysbrydoli'r myfyrdod a geir yn y gerdd hon.²

Ceir yr unig destun o'r cywydd hwn yn Pen 54, i, 121, wedi ei gofnodi gan Ddafydd Epynt ei hun. Pen 54 yw'r gynharaf o'r tair llawysgrif y cofnododd ef ei gerddi ynddynt, ac fe'i dyddir yn weddol gadarn gan Mr Daniel Huws c. 1480.³ Y mae'n rhaid gochel, felly, rhag dehongli dymuniad y bardd i droi at Dduw *cyn terfynwyf* (ll. 49) fel awgrym mai cerdd a ganwyd ar ddiwedd oes yw hon.

Fel sy'n nodweddiadol o waith Dafydd Epynt yn gyffredinol, ceir rhai cwpledi go dywyll yn y cywydd hwn, a hynny o bosibl am nad yw'r cyd-

¹ Gw. llau. 52n a 53n.

² Gw. ymhellach llau. 30n, 32n.

³ Gw. ymhellach td. 209.

destun wedi ei esbonio yn ddigonol ar ein cyfer ni heddiw (e.e. llau. 31–8): y mae'n debygol y byddai'r cyfan yn eglur ddigon i gynulleidfia'r bardd.

- 1 **Oen Duw** Sef Crist, *agnus Dei*; gw. GPhE 11.22n.
- 7 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf.
- 8 **atal y gwynt** Cf. Math viii.23–7; Marc iv.35–41; Luc viii.22–5.
- 9 Ceir cynghanedd groes o gyswllt yma a'r gytsain o flaen yr acen yn yr orffwysfa yn cyflawni'r gyfatebiaeth, gw. td. 18n50 am enghreifftiau pellach.
- 10 Cryfheid y gynghanedd o ddarllen *o ddwfr* yma.
- 12 **Nid estyn blewyn heb law** Deellir *law* yma'n ffurf dreigledig *glaw*, gan fod y bardd eisoes wedi cyfeirio yn llau. 9–10 at dywydd gwlyb; gellid aralleirio'r cwpled yn fras: 'Nid yw dyn yn meddu ar ddim sydd dano, / Nid yw glaswelltyn yn tyfu heb law.' Fodd bynnag, digwydd y cyfuniad *heb law* hefyd yn yr ystyr 'heb gymorth neu nawdd', gw. GPC 2104, a chan hynny gall mai'r ystyr yw nad oes hyd yn oed glaswelltyn yn tyfu heb Ei gymorth Ef. Pa un bynnag, cyfeiriad sydd yma at natur hollalluog Duw.
- 13 Trwsogl yw cynganeddiad y ll. hon gan y disgwylir i'r acen bwys yn rhan gyntaf y ll. ddisgyn ar *fyd*, ond yn lle hynny myn y gynghanedd draws iddi ddisgyn ar *holl*. Ond ai cynghanedd sain a fwriedir?
- 15–16 **Rhan fawr, o rannu, yn fud, / Rhai 'n Dy wydr yn dywedyd** Cymerir mai ystyr y cwpled hwn yw: o rannu'r ddynoliaeth, y mae rhan yn fud, a rhan yn siarad yng 'ngwydr' Duw, hynny yw, yn ei ganfyddiad.
- 17 **traean** Deellir hwn yn gyfeiriad at Grist, un o'r Drindod.
- 18 **tair ban** Cyfeiriad at begynnau'r groes. Y mae GPC 253 yn dosbarthu *ban* fel eg.b.: eb. yw yma, ond gthg. 22.1 lle y mae'n eg.
- 26 **Y seirff â dros o'r Aiff draw** Ll. dywyll ei hystyr. Tybed a geid gwell ystyr a chystrawen o ddiwygio *dros* yn *droes*, ffurf 3 un.grff.myn. y f. *troi*, a darllen *Y seirff a droes o'r Aiff draw?* Ai cyfeiriad sydd yma at wialen Moses (a ystyrid yn deip o Grist yn nelweddaeth y cyfnod) a lyncodd wiail-seirff dewiniaid Pharo, Ecs vii.8–13? Posibilrwydd arall yw mai cyfeiriad cyffredinol at elynion yw seirff yma, cf. Luc x.19.
- 28 **gorddiwes** Amrywiad ar y be. *goddiweddyd*; cymerir mai'r ystyr yma yw 'dal (... weithiau [am] fendith neu ddaioni yn dod i ran dyn)'; gellid aralleirio'r cwpled yn fras: 'Och hyd nef na chaid yn dirion / Dy fendith di ar ddaear.'
- 30 **Ar graig o dir y grog** Gan fod y bardd yn cyfeirio at Afon Hodni sy'n llifo drwy Aberhonddu yn ll. 32, dichon mai cyfeirio at y grog enwog yn

eglwys Sant Ioan yn y dref honno a wneir yma. Cf. 22.38n ac ar leoliad y grog ar graig, gw. GIBH 12.8–10 ... *draw ar y Strowiaid / Lle mae uwch gwar y garreg / Croes Duw* ... Ymhellach ar y grog hon, gw. GIBH cerdd 12 a M.P. Bryant-Quinn, ‘“Enaid y Gwir Oleuni”: y Grog yn Aberhonddu’, *Dwned*, ii (1996), 51–93.

- 31 **llawer hyd dyn** Cf. isod llau. 33–4n.
- 32 **Hodni** Sef yr afon sy’n llifo drwy Aberhonddu. Y mae cystrawen y cwpled hwn braidd yn astrus, ond cymerir mai cyfeirio a wneir at y llu o bererinion sy’n cyrchu at y grog enwog yn eglwys Aberhonddu; gellid aralleirio’r cwpled fel a ganlyn: ‘Llawer [un], [sef] Prydain oll, [a ddaw] hyd at dŷ [i.e. eglwys] lle ’rwy Ti, lle y beirw [Afon] Hoddni’. Ymhellach ar y grog, gw. ll. 30n.
- 33–4 **Ni roes un i’r Iesu hed / Yn ei chwyr na châi wared** Cwpled arall aneglur. Diwygiwyd ll. 34 (llsgr. *yn y chwyr nai wared*) ar sail ystyr, cynghanedd a hyd y ll. Am *hed*, amrywiad ar *hyd*, gw. GPC 1832 d.g. *hed*³ ac *ib.* 1948–51 d.g. *hyd*; o’i ddeall yn e. yma, cf. o bosibl GIBH 11.9–10 *Mae ‘mryd rhoi fy hyd i hon / O gŵyr lliw hyd Gaer Leon*, ac *ib.n.*, lle yr awgrymir bod y bardd ‘yn dymuno cynnig ei gyhyd o ganhwylau drud i’r ddelw o Grist yng Nghaer yn offrwm er adfer ei iechyd’. Ai cyfeiriad at gannwyll neu ganhwylau yn eglwys y grog yn Aberhonddu yw *ei chwyr*, ll. 34? (Ceir *chwyr* eto mewn cyswllt eglwysig yn 21.19.)
- 35 **wybr a thân** Fe’i deallir yn gyfeiriad at gannwyll gŵyr yn llosgi ac at ddŵr swyn.
- 36 **wyth anian** Ai cyfeiriad at y Gwynfydau, gw. Math v.3–12 a Luc vi.20–6? Cf. GPC (i ymddangos) d.g. *wyth obrwy’r enaid*.
- 37–8 **Rhan y tir ... / Rhan y dŵr ...** Nid yw ystyr y cwpled yn eglur, ond tybed a gyfeirir yma at elfennau’r cymun, sef y bara (*Rhan y tir*) a’r gwin (*Rhan y dŵr*)?
- 40 **ffrydo praff** Cyfeiriad at y gwaed yn llifo o ystlys Crist ar y Groes ar ôl iddo gael ei drywanu yn ei ystlys â gwaywffon gan filwr Rhufeinig, gw. Io xix.34 ac ymhellach GIBH 7.45n.
- 41 **drain a dur** Cyfeiriad at y goron ddrain a roddwyd ar ben Crist ar y Groes er mwyn ei wawdio, ac at y waywffon ddur y gwanwyd Ef yn Ei ystlys â hi (gw. ll. 40n). Ar *dur* ‘arf neu waywffon ddur’, cf. 3.7 a 14.52, &c.
- 43–4 **Llawer twyll ar y iad Tau, / Llai ’n y rhidyll neu’r rhwydau** Nid yw’r ystyr yma’n amlwg. Tybed ai cyfeirio a wneir at y goron ddrain fel *llawer twyll* (efallai fod paent du yn cael ei ddefnyddio i ddangos y clwyfau), sef patrwm dwysach nag a welir mewn rhidyll neu rwydau.

- 46 **afall** Cyfeiriad at fwyta ffrwyth o'r pren gwybodau, y temtiwyd Efa gan sarff i fwyta ffrwyth ohono, gw. Gen ii.17, iii.6. Gw. GIBH 8.2n.
- 52 **wrth ei ben** Cymerir mai ystyr y cwpled yw fod gweithredoedd dyn yn cael eu dangos yn eglur (*fal seren*) ar ei ben ar Ddydd y Farn. Yn Dat vii.3 cyfeirir at 'selio gwasanaethwyr ein Duw ni yn eu talcennau' ac yn ei awdl i Dduw dywed Gruffudd ab yr Ynad Coch, *Ac yn tal pob sant y galander*, gw. GBF 38.18n. Gw. E. Rowlands, 'Dydd Brawd a Thâl', LICy iv (1956–7), 80–9. Posibilrwydd arall yw fod i'r cyfuniad yr ystyr 'one by one, singly', gw. GPC (i ymddangos) d.g. *wrth ei ben*, ond sylwer na cheir enghraifft yn yr ystyr hwnnw cyn 1588.
- 53 **ir yw Dy weli** Yr oedd ymddangosiad Crist yn Ei glwyfau ar Ddydd y Farn yn thema gyffredin yng nghanu'r Oesoedd Canol, cf. GBF 43.15 *A'r gbaet yn giret ar dyd y croget*. Gw. MWRL 88 *et passim*. Cf. hefyd isod 2.43n. Credid bod y clwyfau yn ymddangos yn hynod real a ffres i'r sawl a'u gwelai: cf. cerdd Ieuan Brydydd Hir 'I'r grog yn Aberhonddu', GIBH 12.10–14 *et passim*.

2

Rhwng y ganrif gyntaf a'r wythfed edmygid duwioldeb Mair a'i safle fel Mam Duw a Christnogaeth, ond erbyn y bymthegfed ganrif rhoddid mwy o bwyslais ar ei swyddogaeth fel brenhines, mam ysbrydol ac eiriolwraig rymus. Daeth y swyddogaethau hyn ynghyd yn y syniad o 'Fantell Mair'. O dan ei mantell câi dyn—boed wrêng neu fonedd—bob gofal.

Yr oedd gan gwl't y Forwyn Fair gystal gafael ar Gymru'r Oesoedd Canol ag ar weddill Ewrop ac o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen canai nifer cynyddol o feirdd gerddi iddi yng Nghymru.¹ Bu'r ddelw o Fair ym Mhenrhys yn boblogaidd iawn gan feirdd y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg:² er enghraifft, canodd Gwilym Tew ddwy awdl iddi,³ a molodd Lewys Morgannwg hi ddwywaith ar gywydd.⁴ Y mae nifer o destunau rhyddiaith grefyddol Gymraeg y cyfnod yn ymdrin â Mair, megis 'Buchedd Anna', 'Buchedd Mair Wryr', 'Llyna Fabinogi Iesu Grist', 'Rhybudd Gabriel at Fair', 'Gwyrthiau'r Wynfydedig Fair', 'Y modd ydd aeth Mair i

¹ Gw. J. Cartwright: ForF 23, 24, 30, 51, 58, 59, 63, 65, 70, 71. Ceir sôn am y Forwyn yn y cerddi crefyddol cynnar ac yng ngherddi Beirdd y Tywysogion, gw. BI BGCC 114; Ann Parry Owen, 'Mynegai i Enwau Priod ym Marddoniaeth Beirdd y Tywysogion', LICy xx (1997), 34, d.g. *Mair*. Efallai mai'r ddwy gyfres o englynion a ganodd Casnodyn a'r ddau englyn dienw a olygwyd yn GLIBH yw'r cerddi Cymraeg cynharaf ar glawr i Fair, gw. GC cerddi 9 a 10 a GLIBH cerdd 11. Erbyn y 15g. yr oedd nifer y cerddi a ganwyd iddi yn bur niferus, gw., e.e., GIF 96 (cerdd 44) a chyfeiriadau niferus Jane Cartwright uchod.

² T. Charles Edwards, 'Pen-rhys, y cefndir hanesyddol', *Efrydiau Catholig*, v (1951), 24–45.

³ Am gyfeiriadau at y ddwy gerdd hyn, gw. *ib.* 40–1.

⁴ Gw., e.e., Llst 134, 25 a 26. Am gyfeiriadau pellach at y ddwy gerdd hyn, gw. G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 337–8.

nef' a 'Gwasanaeth Mair'.⁵ Yn fersiwn Pen 20 o 'Ramadeg' Einion Offeiriad eglurir paham y dylai'r beirdd fynd ati i'w moli:

Meir y vam a volir o achaws y morwynawl weryndawt, a'y santeidrwyd, a'y gleindyt buched, ac o'y bot yn vam y drwgared, ac yn vrenhines nef a dayar ac vffern, a haydu ohonei ymdwyn yn y gwerynawl groth kreadwyr hollgyuoethawc y kreaduryeit oll, a'y bot yn wry kynn esgor a gwedy esgor.⁶

Ar ddechrau ei gywydd cyfeiria Dafydd Epynt at awdurdod Mair dros *foroedd* / *A thir* (llau. 1–2), gan ei galw ymhellach yn *Arglwyddes ...* / *Yr holl fyd a'r llif* (llau. 3–4). Cynrychiolai Mair hefyd safon prydfferthwch delfrydol i ferched yn y canu serch⁷ ac er bod ambell gyfeiriad at ei phrydfferthwch yng nghorff y cywydd hwn (e.e. ll. 9), tueddu i bwysleisio ei duwioldeb, ei grym, ei gallu fel eiriolwraig yn ogystal â'i pherthynas â'i mab a wna'r bardd.

Er mai cywydd o fawl i'r Forwyn Fair yw hwn yn anad dim, rhoddir ynddo sylw hefyd i ddiodefaint Crist ar y groes a phathos Ei ddiodefaint drwy bwysleisio Ei ddynoliaeth sydd, wrth gwrs, yn gysylltiedig â chroth Ei fam.

- 1 **moroedd** Cysylltid Mair yn aml â'r môr; e.e. ceir sôn amdani yn dal tonnau'r môr yn ôl er mwyn i wraig feichiog esgor ar blentyn tra oedd hi ar bererindod i Mont Saint Michel, gw. J. Cartwright: ForF 67. Gw. ymhellach ll. 5n a GHS 21.29–30n.
- 3–4 **Arglwyddes ... / Yr holl fyd ...** Yn fersiwn Pen 20 o'r Gramadegau, galwyd Mair yn *vrenhines nef a dayar ac vffern*, gw. GP 55 (ll. 16); gw. y nodyn cefndir uchod.
- 5 **seren** Ffurf Hebraeg ar enw Mair oedd *Miriam*, a'r ffurf Roeg oedd *Mariam*. Ystyr elfen gyntaf y gair Hebraeg (*mar*) yw 'defny'n' (neu *stilla* mewn Lladin) ac ystyr yr ail elfen (*iam*) yw 'môr'. Camgyfieithodd Sierôm y cyfuniad fel *stella maris* 'seren y môr'. Cf. GHS 21.29–30 *seren* / *Yn y môr yw enw Mair wen*, a gw. *ib.n.* Caiff Mair ei chyfarch fel *Maris Stella* mewn emyn enwog yng 'Ngwasanaeth Mair', gw. ymhellach J. Cartwright: ForF 165. Cyfeirir hefyd at wraig a deuddeg seren yn goron am ei phen yn Dat xii.1–16. Cysylltid hon â Mair yn yr Oesoedd Canol, gw. ll. 10n isod.
- 7 **llawenydd** Cyfeiriad at bum llawenydd Mair, gw. Andrew Breeze, 'The Blessed Virgin's Joys and Sorrows', CMCS xix (Summer 1990), 41–54.

⁵ J. Cartwright: ForF 15.

⁶ GP 55, llau. 14–18.

⁷ Gilbert Ruddock, 'Rhai Agweddu ar Gywyddau Serch y Bymthegfed Ganrif', yn *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol*, gol. J. Rowlands (Caerdydd, 1975), 98–102.

- 9–10 **Dy wrid teg ... / Yw'r glanaf o'r goleuni** Y mae'r Forwyn Fair hyd yn oed yn fwy prydferth na'r gwragedd uchelwrol a folir gan feirdd Cymraeg yr Oesoedd Canol. Portreedid hi yn aml a'i chorff wedi ei amgylchynu gan olau sanctaidd ac fe'i cysylltid â'r haul, gw. J. Cartwright: ForF 51–3.
- 10 **goleuni** Yn Dat xii.1–16 sonnir am wraig feichiog a fydd yn esgor ar waredwr. Y mae'n gwisgo'r haul fel dilledyn ac y mae ganddi ddeuddeg seren yn coroni ei phen. Yn yr Oesoedd Canol cysylltid y wraig hon â Mair Forwyn ac ym 'Muchedd Mair Wry' cysylltir y Forwyn a'r Iesu â goleuni, gw. J. Cartwright: ForF 51–2. Yn ei 'Awdl i Fair' dywed Iolo Goch fod yr Ysbryd Glân wedi treiddio i'w chorff fel y tywynno pelydryn trwy ffenestr, gan ddefnyddio'r ddelwedd i esbonio gwryfydod Mair, gw. *ib.* 61–2; GSRh 6.61n; ac Andrew Breeze, 'The Blessed Virgin and the Sunbeam through the glass', *Celtica*, xxiii (1999), 19–29; NCE ix, 380.
- 11 **d'ŵr** Joseff. Yn ôl rhai traddodiadau yn yr Oesoedd Canol yr oedd Joseff yn hen ŵr y bu rhaid ei berswadio i briodi Mair, gw. D. Simon Evans, *Medieval Welsh Religious Literature* (Cardiff, 1986), 16–18.
- 13 **gair angel penfelyn** Ceir hanes dyfodiad Gabriel at Fair yn Luc i.26–38. Gallai *gair* gyfeirio at gyfarchiad Gabriel, yr ymgorfforiad o'r gair yng nghroth y Forwyn a'r Gair ganedig, sef Crist, gw. GSRh td. 187.
- 14 **doeth** Sef ffurf 3 un.grff.myn. y f. *dyfod* (cf. 1.39) yn hytrach na'r a.
- 16 **mam y Tad mawr** Cf. isod 5.18 *Duw a'i fam*. Byddai'r beirdd yn aml yn ystyried ac yn archwilio'r berthynas baradoesaidd rhwng Mair Forwyn a'i phlentyn, a oedd ar yr un pryd yn fab ac yn dad iddi, gan fod Crist a Duw yn Un; gw. J. Cartwright: ForF 48–9 ac ymhellach Andrew Breeze, 'The Virgin Mary, daughter of her son', *Études* xxvii (1990), 267–83.
- 18 **mor dduwiol** Yr oedd Mair yn batrwm o dduwioldeb, yn batrwm i leianod ei efelychu: *Morwyn bennaf wyd, Mair unbennes... / Prydlyfr gweryddon wyd a'u priodles*, meddai Iolo Goch amdani, gw. GIG 139 (XXXI.14, 18).
- 26 **Efa** Mewn llenyddiaeth Gymraeg ganoloesol ceir sawl enghraifft o wrthgyferbynnu Mair ac Efa. Mair oedd y wraig a ddeuai â gwaredigaeth i'r byd wedi i Efa ddwyn pechod ac angau. Yr oedd y math hwn o begynnu yn nodweddiadol o feddylfryd yr Oesoedd Canol: pechadures felltgedig oedd Efa tra oedd Mair yn wynfydedig o ddilychwin. Ers dyddiau Tadau'r Eglwys Fore Efa a oedd yn gyfrifol am y Cwmp a Mair oedd ei gwrthdeip, a hoffai'r beirdd y ffaith fod *Afe*, sef gair cyntaf cyfarchiad yr Archangel i Fair, yr un ag *Efa* wedi ei droi o chwith; gw. J. Cartwright: ForF 29–37.

- 27–8 **Gwŷdd i'r grog ... / O fedd Addaf ...** Credid mai o fedd Addaf y tyfodd y pren a ddefnyddiwyd ar gyfer croes Crist, gw. D. Simon Evans, *op.cit.* 44–5.
- 29–30 Y mae'r gystrawen yn glogyrnaidd ac ystyr y cwpled, felly, braidd yn dywyll. Cyfeiriad sydd yma, y mae'n debyg, at yr hyn a ddywedodd Iesu ar y Groes wrth y Forwyn Fair ac wrth Ieuan, gw. Io xix.26–7.
- 30 Ceir proest i'r odl yn y ll. hon.
Ieuan Gw. llau. 29–30n.
â'i ddwyen 'Â'i enau', 'â'i dafod'; ar *dwyen*, gw. GPC 1108. Efallai y byddai darllen *dien* yn rhoi gwell ystyr yma.
- 32 **gwaed y wraig** Dichon mai cyfeirio a wneir at y ddelwedd o Fair yn wylo dagrau gwaed wrth wyllo Iesu yn cael ei groeshoelio. Y ffynhonnell gynharaf i grybwyll dagrau gwaed Mair yw 'Vita Beatae Mariae Virginis et Salvatoris rhythmica', a ysgrifennwyd c. 1200. Cyfeirir at y dagrau hyn gan Ieuan Deulwyn, Guto'r Glyn, Dafydd Llwyd a Gutun Owain yn ogystal. Gw. ymhellach Andrew Breeze, 'The Virgin's Tears of Blood', *Celtica*, xx (1988), 110–14; J. Cartwright: ForF 66.
- 34 Cywesgir *ying ngolwg* yn ddeusill rhag tor mesur. Sylwer hefyd fod *ng* yn ateb *n* yn ail ran y ll.
dyn Cyfeiriad at y dyn dall y disgynnodd diferion o waed Crist ar ei lygaid ac yr adferwyd ei olwg iddo; gelwir y dyn hwn yn Longinus mewn rhai ffynonellau. Cf. GIBH 7.45n.
- 35–6 **D'olwg a roer ... / Ar greadur** Defnyddir ffurf amhrs.pres.dib. y f. *rhoi* yma i gyfleu erfyniad: 'Boed i'th ystyriaeth gael ei roi ... / Ar greadur'. Ar *golwg* 'edmygedd, serch, hoffter; ystyriaeth, sylw', &c., gw. GPC 1453 a cf. GCBM i, 3.103–4 *A uo gŷyl ... / Golŷc Duŷ arnaŷ a dodir*.
- 37 **llaeth** Portreedir mamolaeth Mair yn aml yn y farddoniaeth, yn ogystal ag yng nghelfyddyd yr oes, drwy ei disgrifio yn bwydo Iesu o'r fron; gw. J. Cartwright: ForF 50, lle y nodir: 'Yr unig swyddogaeth gorfforol a rannai Mair â'r fam gyffredin oedd bwydo'i baban â llaeth ei bronnau'.
- 38 **âi i ben** Cymerir bod darlleniad llsgrau. A–GI–LNOP *Ai benn* yn cynrychioli cywasgiad o *âi i* a yngenir yma'n unsill er mwyn osgoi tor mesur.
- 39 Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
corn Yr offeryn a fydd yn datgan dyfodiad Dydd y Farn, gw. Dat viii.6.

- 43 **â cherydd dwys** Credid yn yr Oesoedd Canol y byddai Crist yn ymddangos ar Ddydd y Farn gan arddangos Ei glwyfau i'r ddynoliaeth a'u dannod iddi. Gw. 1.53n.
- 45–6 Cyfeirir yn aml at y Forwyn Fair fel eiriolwraig effeithiol dros eneidiau ar Ddydd y Farn. Ganwyd Iesu o groth Mair ac yn union fel y cyfryngai'r Forwyn Fair rhwng y ddaear a'r nef credid y byddai'n sefyll rhwng y ddynolryw a'r byd ysbrydol ac y gallai'r rhai ffyddiog ddibynnu arni i'w tynnu o'r byd amherffraith a sicrhau lle iddynt yn y nef; gw. J. Cartwright: ForF 65–6 *et passim*, GIBH 5.4n a cf. ll. 50n.
- 46 **croesa hil Caerysaem** Dichon mai 'bendithio; amddiffyn, diogelu' yw ystyr y f. yma, gw. GPC 605, a bod *hil Caerysaem* yn gyfeiriad at Gristnogion yn gyffredinol.
- 47 **brenhines** Ystyrir Mair yn frenhines mewn dau ystyr: yn gyntaf, yn y modd y mae'n rhagori ar y saint eraill oll, ac yn ail yn y modd y mae'n rhannu awdurdod Crist, gw. NCE ix, 386; J. Cartwright: ForF 40, 41, 50 *et passim*. Cf. llau. 3–4n uchod a gw. y nodyn cefndir.
- mynydd** Gan fod y bardd yn y llinellau hyn yn sôn am Ddydd y Farn, dichon mai at fynydd yr Olewydd y cyfeirir yma, sef man esgyniad Crist i'r nefoedd; credid hefyd y byddai Crist yn dychwelyd i fynydd yr Olewydd ar Ddydd y Farn; cf. GIBH 6.77n.
- 50 **Mair, na'd ti 'y mwrw 'n y tân** Credid y byddai Mair yn eiriolwraig effeithiol iawn ar ran y ddynoliaeth ar Ddydd y Farn, gan ei hachub rhag tân uffern, cf. llau. 45–6n.
- 52 **Ym mherchen y pum harcholl** Y *pum harcholl* yw'r pum clwyf a ddiodefodd Crist ar y Groes. (Ar yr anadliad caled *h-* o flaen llafariad yn dilyn y rhifol *pum*, gw. Treigladau 137.) Dichon mai 'perchnogaeth, meddiant' yw ystyr *perchen* yma, gw. GPC 2768. Yn y weddi breifat *Anima Christi* meddir, *Intra tua vulnera absconde me*, a gyfieithwyd yn Pen 78, 94 fel a ganlyn: *Yn dy archollion kuddia fi*. Gw. ymhellach GIBH td. 12.

3

Yn ôl traddodiad hagiograffaid, Cynog oedd mab hynaf Brychan Brycheiniog.¹ Mewn cywydd gan Hywel Dafî—yr unig gywydd arall ar glawr i'r sant—fe'i disgrifir fel *kynog o wlad vrekania a perchen a mab brychan*.² Yn ôl yr hanes a gofnodir yn 'De Situ Brecheniauc', pan oedd Brychan yn ifanc fe'i rhoddwyd gan ei dad, Anlach, yn wystl i Banadl, sef

¹ LBS ii, 264; TWS 178.

² Iolo MSS 302. Ceir testun o'r cywydd hwn *ib.* 302–4, ac wrth ddyfynnu ohono yma nodir unrhyw ddiwygiadau mewn bachau petryal. (Sylwer bod Elissa R. Henken, TWS *l.c.*, yn cyfeirio at gywydd Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys ('Hywel Dafî') fel yr unig gywydd a gadwyd i Gynog.)

brenin Powys. Treisiodd Brychan ferch y brenin, Banadlwedd, ac o ganlyniad ganwyd Cynog.³

Y mae mwyafrif yr eglwysi a gysylltir ag enw Cynog ym Mrycheiniog, gan gynnwys Merthyr Cynog, lle y claddwyd y sant, Defynnog, Ystradgynlais, Penderyn, y Batel a Llangynog; ond ceir eglwysi eraill wedi eu cysegru iddo yn siroedd Maesyfed a Threfaldwyn ac yn swydd Henffordd.⁴ Dethlid ei wyl, yn ôl y calendrau, ar yr wythfed neu'r nawfed o Hydref, neu ar yr ail ddydd Iau yn y mis hwnnw.⁵ Ac ystyried cysylltiad agos Cynog â Brycheiniog, ac yn arbennig felly â Merthyr Cynog, nid yw'n syndod fod Dafydd Epynt wedi canu iddo.

Cyfeiria Dafydd a Hywel Dafï at gysylltiadau Cynog ag Iwerddon.⁶ Deellir o gywydd Hywel fod Cynog wedi etifeddu brenhiniaeth y wlad honno, ond ei fod wedi ei gwrthod er mwyn mynd yn feudwy: *dygais[t] ... / yn iwerddon goron gynt / gwrthodaist ... / o gariad diiw dad dy dir / gwrtho[d] koron ffrwythlon ffra[e]th / a dewis [y] vaüdwyath.*⁷ Yn yr un modd, dywed Dafydd Epynt i Gynog gyfnewid Iwerddon â Duw am y nefoedd, *Newidio hon â Duw hael / Am nef ...* (llau. 29–30). Ond ymddengys fod hyn wedi gwylltio'r Gwyddelod a bod y sant wedi gorfod ffoi am ei fywyd rhagddynt (llau. 31–2).

Fel y saint yn gyffredinol, yr oedd gan Gynog grair arbennig, sef torch rymus, yn ei achos ef. Meddai Huw Cae Llwyd amdani, *Torch Gynog, trycha gynnen, / Torr y sis ar bob trais hen.*⁸ Nid oes cytundeb yn y ffynonellau ynglŷn â tharddiad y dorch hon: yn ôl Hywel Dafï daeth o'r nefoedd, *yno i daiüth enaid ethawl / arf i ti i ofod diawl / torch o nêf trychu a wnaeth,*⁹ ac ymddengys fod Dafydd Epynt yntau'n dilyn y traddodiad hwn.¹⁰ Yn ôl yr hanes a gafodd Hugh Thomas gan bobl leol yn 1702, Cynog Sant a weithiodd y dorch ei hun,¹¹ ond yn ôl 'De Situ Brecheniauc' anrheg gan ei dad oedd hi.¹² Disgrifir y dorch gan Gerallt Gymro fel a ganlyn:

... o ran pwysau a natur, yn ogystal â lliw, y mae'n debyg iawn i aur; cysylltwyd hi ynghyd yn gywrain o bedwar darn, fel y mae'n eglur oddi wrth yr holltiadau, wedi eu hasio wrth ei gilydd i ffurfio cylch, a chaeir

³ Am grynodeb o'r traddodiadau ynglŷn â Chynog, gw. LBS ii, 264–71 a TWS 178–84. Ymhellach ar hanes cynnar Brycheiniog, gw. Charles Thomas, 'The Brychan Documents', *And Shall These Mute Stones Speak?* (Cardiff, 1994), 131–62.

⁴ LBS ii, 265.

⁵ *Ib.* 271.

⁶ Gw. hefyd ll. 25n. Trafodir ymhellach gysylltiadau Cynog ag Iwerddon yn TWS 179.

⁷ Iolo MSS 302.

⁸ HCL1 105 (XLIII.45–6).

⁹ Iolo MSS 303.

¹⁰ Gw. llau. 43–56n, ac yn arbennig lau. 46 [*t*]orch a wnaeth eurych nef, 47, 49.

¹¹ LBS ii, 266.

¹² TWS 181.

hi yn y canol â delw pen ci gyda'r dannedd ysgymycllyd yn ymwithio allan fry ac obry.¹³

Un o'r hanesion a grybwyllir gan Hywel Dafî am Gynog yw'r hanes amdano yn cael gwared ar gawr (*gormes*) canibalaidd a fu'n bwyta *o bob ty ddÿn*.¹⁴ Edrydd y bardd fel y ceisiodd Cynog arbed bywyd mab i wraig weddw drwy dwyllo'r cawr a gosod celain yn lle'r mab. Canfu'r cawr y twyll a phrysuro at y grocbren lle y bu'r corff yn crogi, ond erbyn iddo gyrraedd yr oedd Cynog wedi ei osod ei hun yn lle'r corff marw. Torrodd y cawr gig o'i forddwyd i'w fwyta, ond pan geisiodd dorri darn pellach daeth gwaredigaeth o'r nef i Gynog ar lun torch, a threchodd y cawr â'r arf hwnnw.¹⁵ Y mae Dafydd Epynt yntau yn crybwyll yr hanes hwn, ond nid mewn modd eglur iawn.¹⁶ Sonnir am y sant yn cyfryngu am ei ginio yng nghartref *mab a'i fam* (llau. 39–40) ac amdano'n rhoi bwyd i'r anghenfil o groen islaw ei asennau tra ei fod ef ar y grocbren: *Rhoes dan yr ais o'i donnen / Fwyd i'r pryf, do, ar y pren* (llau. 41–2). Fel yng ngherdd Hywel Dafî, daeth gwaredigaeth i Gynog ar lun torch *a wnaeth eurych nef*, a thrwy wthio'r dorch hon hyd weflau'r cawr llwyddodd y sant i'w ladd (llau. 43–8).

Ceir amrywiol draddodiadau hefyd ynglŷn â marwolaeth Cynog. Yn ôl traddodiad a gofnodwyd gan Hugh Thomas ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif,¹⁷ ymunodd Cynog â chell o feudwyaid ar ben bryn a elwir y Fan, oddeutu 6 km o Aberhonddu. Yr oedd yn rhaid i bob un o'r meudwyaid gyrchu dŵr o'r afon ar waelod y bryn ond penderfynodd Cynog na fyddai'n ymuno â hwy. Yn y man, darparodd Duw ddŵr iddo ef drwy graig uwchben ei gell, ond ffromodd y meudwyaid eraill pan welsant hyn a chynllwynio i'w lofruddio. Un bore, tra oedd Cynog wrthi'n gweddïo, torrodd y meudwyaid ei wddf a disgynnodd ei ben i ffynnon. Diflannodd y dŵr ar unwaith a chododd Cynog ei ben ei hun o waelod y ffynnon a'i gludo i lawr y mynydd a'i osod o dan lwyn drysi. Yn y fan honno y sefydlwyd eglwys Merthyr Cynog yn ddiweddarach.

Y mae'r hanes hwn yn taflu cryn oleuni ar rai o'r cyfeiriadau yng ngherddi Hywel Dafî a Dafydd Epynt. Yn ôl Dafydd Epynt, lladdwyd Cynog *Ar war bryn*; fe'i trawyd gan *dur o law a dwrn* a thorwyd ei ben nes bod ei gorff yn ddau; yna cododd ei ben â'i fysedd ei hun (llau. 1–8); ac awgrymir ei fod yn gwisgo'i dorch aur pan ddigwyddodd hyn (ll. 8). Canol-bwyntia Hywel Dafî ar y weithred wyrthiol ar ôl torri pen y sant ymaith: *bann dorred dy benn dewrwyh ... / kerddaist ath benn wrth dennyn / wrth*

¹³ Thomas Jones, *Gerallt Gymro: Hanes y daith trwy Gymru; Disgrifiad o Gymru* (Caerdydd, 1938), 24.

¹⁴ Iolo MSS 303; trafodir yr hanes yn TWS 179–80. Am fersiwn llawn Hugh Thomas o'r hanes hwn, gw. LBS ii, 266–8.

¹⁵ Dyfynnir y llau. perthnasol yn TWS l.c.

¹⁶ Gw. llau. 37–48.

¹⁷ Gw. LBS ii, 267–8; TWS 183–4.

*dy gorff o wyrth diw gwyn.*¹⁸ Unwaith eto dywedir bod y sant ar y pryd yn gwisgo ei *grair* o dan ei grys.¹⁹

Ceir ambell gyfeiriad yn y gerdd hon at draddodiadau a oedd yn amlwg yn hysbys am Gynog ond na chyfeirir atynt mewn unrhyw ffynhonnell arall: sonnir am ddwyn llythyr *dan law athro* â bwa pan oedd yn blentyn (llau. 17–18), ac am y modd y lladdodd y sant leisiad, hwyad a hydd â'i saeth (llau. 19–20). Manylir hefyd (fel y gwelwyd uchod) ar y modd y ffoes o Iwerddon rhag dicter y Gwyddelod, ac fel y troes dŵr y môr yn dir o dan ei draed (llau. 27–36).

Yn y cywydd hwn y mae Dafydd Epynt yn cyfuno'r elfen storïol â mawl i Gynog. Prif ddiben y manylion naratif yw dyrchafu bri'r sant, a thrwy danlinellu'r ffaith ei fod yn fab i sylfaenydd traddodiadol Brycheiniog, sef Brychan Brycheiniog, y mae'n ei wreiddio'n gadarn yn y fro honno. Y mae'r cyfeiriadau at afonydd Ysgyr Fawr ac Ysgyr Fechan yn awgrymu hefyd mai ar gyfer cynulleidfa leol ym Mrycheiniog y bwriadwyd y gerdd.

Ceir yr unig destun o'r gerdd hon yn llaw Dafydd Epynt yn Pen 54, i, 333; ar d. 127 o'r un llawysgrif ceir fersiwn anghyflawn ohoni, eto yn llaw y bardd.²⁰ Dyddir y llawysgrif hon c. 1480.

- 1–2 **Y sant a las ... / Ar war bryn** Ymhellach ar lofruddio Cynog, gw. y nodyn cefndir.
- 2 **wyr i'r brenin** Yn y cyfnod hwn gall *wyr* olygu 'disgynnydd' yn gyffredinol yn ogystal â pherthynas rhwng dyn a'i daid, ac felly anodd yw gwybod a gyfeirir at Anlach, taid Cynog, neu at ei dad, Brychan Brycheiniog, neu at ryw frenin arall. Cyfeirir at Anlach yn 'De Situ Brecheniauc' fel *Anlac* fab *Coronac*, brenin Iwerddon;²¹ ystyrir Brychan Brycheiniog yn frenin-sylfaenydd Brycheiniog, gw. ll. 24n.
- 3–4 **Ei ben a'i gorff ... / ... dau oeddynt** Nid yw'r ffynonellau'n unfryd ynglŷn â phwy a dorrodd ben Cynog, pa un ai Gwyddelod, Saeson paganaid neu fynaich eiddigeddus, gan fod y ffynonellau i gyd yn tueddu i ganolbwyntio ar y wyrth a ddigwyddodd ar ôl hynny wrth iddo godi ei ben a'i gludo i'w fan claddu. Gw. ymhellach y nodyn cefndir.
- 8 **aur a wisg** Cyfeiriad, y mae'n debyg, at y dorch euraid yr oedd Cynog yn ei gwisgo pan gyflawnodd y wyrth; yn ôl Hywel Dafi, fe'i gwisgai o dan ei grys, gw. y nodyn cefndir. Medd Elissa R. Henken, TWS 183, 'The torque also plays a role in Cynog's death, being the talisman which keeps life from leaving the saint's beheaded body.'

¹⁸ Gw. Iolo MSS 304 a TWS 183.

¹⁹ *L.c.*

²⁰ Gw. uchod td. 31.

²¹ EWGT 7.

- 9–10 **Nychdod dyn ... / Ar ei fedd a orfyddir** Ar fedd Cynog y codwyd eglwys Merthyr Cynog, gw. LBS ii, 268. Ai cyfeiriad sydd yma at rym y sant yn gwella salwch y pererinion a ymwelai â'r eglwys hon?
- 13 **tri dydd Iau** Llsgr. *trydd iau*; o gadw ffurf y llawysgrif, gellid awgrymu darllen *tryddiau* (yn deirsill) a'i ddeall yn unig enghraifft o ffurf amrywiol ar *tridiau*, yn gyfansawdd o *try-* 'tri' (gw. GPC 3634) a *diau* 'dyddiau' (*ib.* 953); cf. *trywyr* 'tri gŵr' < *try-* + *gwŷr*. Fodd bynnag, disgwylir ffurf acennog dan yr odl, a chan fod darllen *tryddiau* hefyd yn gadael *d* berfeddgoll yn hanner cyntaf y ll., awgrymir diwygio. Yr ystyr yw fod Cynog yn gwella'r dioddefwr o'i glefyd mewn llai na phythefnos.
- 17–20 **Dwyn ei lythr ... / Â bwa ...** Ni cheir sôn am Gynog yn dwyn llythyr â bwa dan law ei athro tra oedd yn blentyn (*'n fab*) mewn unrhyw ffynhonnell arall, nac ychwaith amdano'n saethu gleisiad, hwyad a hydd â'i saeth.
- 21–2 Cymerir mai dweud a wna'r bardd yma na allai neb a chanddo bin ysgrifennu fyth gofnodi enw gŵr bonheddig (*hael*) a chanddo gystal ach neu linach.
- 24 **Brychan** Sef Brychan Brycheiniog fab Anlach, tad Cynog, a sylfaenydd teyrnas Brycheiniog a enwyd ar ei ôl: *Brecheniavc primum a Brachano nomen accepit*, EWGT 14. Mam Brychan oedd Marchell, a enwir yn y ll. nesaf. Yr oedd ganddo lawer o blant—gw. *ib.* 15–16—a daeth nifer ohonynt yn seintiau. Ymhellach arno, gw. J.E. Lloyd: HW³ 270–1 a TYP² 288–9.
- 25 **Marchell** Marchell ferch Tewdrig oedd mam Brychan. Cofnodir ei hanes yn 'De Situ Brecheniauc', lle y dywedir i'w thad ei danfon i Iwerddon oherwydd annwyd neu ryw anhwylder arall ac iddi briodi Anlach, sef tad Brychan, yno. Ceir lle o'r enw Caerfarchell ym mhlwyf Tyddewi hyd heddiw, gw. EWGT 14 (2), WCD 453–4.
- 26 **Mair** Y Forwyn Fair.
- 28 **Iwerddon** Gwrthododd Cynog frenhiniaeth Iwerddon er mwyn mynd yn feudwy ym Mrycheiniog: cf. llau. 29–30 lle yr esbonia'r bardd fod Cynog wedi cyfnewid Iwerddon (*Newidio hon*) â Duw am y nefoedd.
- 33–4 Ymddengys fod dŵr wedi troi yn dir o dan draed Cynog wrth iddo ffoi rhag y Gwyddelod blin. Ni sonnir am hyn mewn unrhyw ffynhonnell arall. At beth y cyfeiria *o'i henwaed y hanoedd*? Ai at y dŵr, neu ynteu at dras Cynog ei hun?
- 35 **yr Ysgêr** Ymddengys fod Dafydd Epynt yn honni bod Cynog wedi creu tir ar ganol afon (a rhannu'r afon felly yn ddwy) yn yr un modd ag y troes dŵr yn dir wrth iddo ddianc rhag y Gwyddelod. Saif Merthyr Cynog ar ben mynydd rhwng y ddwy afon, sef Ysgyr Fawr ac Ysgyr

Fechan. Ymhellach ar yr enw, gw. R. Morgan & R.F. Peter Powell, *A Study of Breconshire Place-Names* (Llanrwst, 1999), 36.

- 43–56 Ceir yma ddisgrifiad o Gynog yn trechu'r cawr â'r dorch euraid a dderbyniodd gan Dduw o'r nefoedd; gw. ymhellach y nodyn cefndir.
- 46 **torch** Torch wyrthiol Cynog, gw. y nodyn cefndir.
- 47 **diawl** Enw arall ar y cawr o Gaerwedros a drechwyd gan Gynog; cyfeirir ato hefyd fel *pryf* (ll. 42) a *blaidd* (ll. 58n): gw. ymhellach y nodyn cefndir. Meddai Hywel Dafî, *kawr dros blwyfkaer wedros blant / a leddaist rag aflwyddiant / blaidd ne ryw ddiawlaidd elyn / bwyta ddoedd o bob ty ddÿn*, gw. Iolo MSS 303.
- 52 **cranc gwniau** Cymerir mai ffurf ar *gwyniau* (ll. *gwÿn* 'poen, artaith', &c., gw. GPC 1770) yw *gwniau*; cf. 4.24 a 9.41 *gwrthiau*, ll. *gwyrth*. Yng nghyswllt croen dyn, dichon mai ystyr *cranc* yma yw 'cancr; dafad wyllt', &c. (*ib.* 579). Deellir y cwpled yn gyfeiriad at rym iachaol y dorch a allai 'iacháu croen cant o ddynion' o'r *cranc gw[y]niau* (cf. ll. 49 *llyna eli*).
- 55–6 **Enw Gair yw y Gröeg / O ...** 'Enw[']r] Gair [= Crist] yw y Roeg O[mega] ...'. Yn y llau. blaenorol dyfalwyd torch Cynog fel *Rhod fal aur* (ll. 48), *Cylch o haul* (ll. 51), *Llun olwyn* (ll. 49), ac yma cysylltir y dorch ag un o enwau Crist mewn Groeg, sef O[mega] *felen deg*. Y mae'n rhaid cymryd bod *enw* yn ddeusill yn y ll. hon er mwyn osgoi tor mesur, er mai unsill yw pob enghraifft arall yng ngwaith y bardd, e.e. 5.67, 73, 7.26, 8.67, 9.35, &c.
- 55 **y Gröeg** Cymerir mai cyfeiriad at yr iaith Roeg sydd yma, er bod GPC 1533 yn nodi mai fel eb. y digwydd yr enw mewn cyswllt â'r iaith honno (ond gthg. *Groeg Diweddar*, &c.). Anos o ran y gynghanedd fyddai darllen 'yng Ngröeg'; ond cf. GLGC 1 (1.15) *Alffa yw Fo yng Ngröeg*.
- 58 **blaidd** Enw arall ar y cawr a drechwyd gan Gynog; gw. ll. 47n.
- 59–60 **Cynog a fo'n y canawl / Â'i arf ... rhof a diawl** Yn yr un modd ag y trechodd *arf* Cynog y cawr daearol (llau. 57–8), hydera'r bardd y bydd Cynog a'i arf yn ei warchod a'i amddiffyn ef rhag y diafol ar Ddydd y Farn.

4

Cathen neu Gathan oedd nawddsant Llangathen yng nghwmwd Cathiniog, yn y Cantref Mawr yn sir Gaerfyrddin.¹ Mewn fersiynau lled ddiweddar o 'Fonedd y Saint', cofnodir ei fod yn fab i Gawrdaf ap Caradog Freichfras,² a

¹ WATU 126, 250.

² EWGT 66 ('Bonedd y Saint' 89) *Kathan ab Kowrda ab Kriadoc vreichvras ab Llyr merini*. Gw. hefyd LBS ii, 91 ac ymhellach ar Gawrdaf fab Caradog Freichfras, gw. hefyd TYP² 303 lle y cyfeirir

chadarnheir hynny gan Ddafydd Epynt yn y cywydd hwn: *Cathen, filwr hen yrhawg*, / *Fab Cawrdaf ab Caradawg* (llau. 19–20).

Prin yw'n gwybodaeth am Gathen, ac ni restrir ei wyl yn y calendrau Cymraeg.³ Hyd y gwyddys, hwn yw'r unig gywydd a gadwyd iddo, ac efallai mai'r rheswm am hyn yw mai sant lleol iawn ei apêl ydoedd, yn gyfyngedig, o bosibl, i gyffiniau Llangathen. Os oedd traddodiad fod y sant wedi ei gladdu yn eglwys Llangathen, dichon mai yn yr eglwys honno y canwyd y cywydd hwn: *Gwarded fi*, medd y bardd, *ar gwr dy fedd* (ll. 6). Cesglir bod y bardd wedi dod ar bererindod i'r eglwys i geisio iachâd, a neilltuir deunaw llinell gyntaf y gerdd i ddisgrifio ei anhwylderau: y mae ei war a'i gïau yn oerllyd (ll. 2) a'i ddannedd wedi cloi (ll. 5); y mae gwres tanllyd yng nghorun ei ben sy'n ymestyn i'w freichiau (ll. 7); teimla fel petai ei fron yn hollti, wedi ei 'dorri' gan *ddant deirton ddu* (llau. 9–10); ac y mae'n wan ac yn rhylllyd ar ganol haf (llau. 13–14). Sonnir ymhellach ar ddiwedd y gerdd am wres a chryndod (llau. 37–8) a therfynir y cywydd drwy gyfarch y sant a gofyn iddo yrru ei *wythi'n iach* unwaith eto.

Ymddengys fod Dafydd Epynt yn dioddef o afiechyd y cyfeiria ato fel *deirton* neu'r *wrach* (llau. 10, 11), sef math o falaria a oedd yn weddol gyffredin yng Nghymru yn ystod yr Oesoedd Canol, yn enwedig mewn ardaloedd gwlyb a chorsio.⁴ Y mae'n debyg fod hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg wedi bod yn gynhesach nag arfer ac i'r ddeirton ledu drwy holl wledydd Prydain. Er enghraifft, yn Lloegr yn ystod y cyfnod hwn dioddefai trigolion trefi megis Upchurch ar lan Afon Medway yn enbyd gan fod corsydd gerllaw lle y trigai'r mosgito *Anopheles atroparvus*.⁵

Credid gynt, fel y gwna Dafydd Epynt yn y gerdd hon, yr achosid yr afiechyd hwn gan widdon neu wrach:⁶ *Ni châi sant*, medd, *Un hun yn ei hewinedd* ac ymddengys iddi ei boenydio yn ei asennau (llau. 15–18). Teimla ei bod hefyd wedi ei frathu â'i dant (ll. 10) ac wedi ymosod arno â phicelli blaenllym (ll. 11). Dywed y bardd ymhellach ei fod yn ffoi rhagddi dan nawdd Cathen *dan y ffrwd* a'r *Nant a dynn haint* (llau. 32, 34).

Tywyll braidd yw'r cyfeiriadau at y sant (llau. 19–30), ond ymddengys ei fod wedi bod yn filwr (ll. 19), ei fod yn enwog am ei wyrthiau (llau. 23–4), a bod llawer un bonheddig wedi mynd i'w *fywes* (llau. 21–2), sef wedi eu claddu yn ei eglwys, y mae'n debyg. Yn wahanol i Gynog, sef gwrthrych y

at draddodiad yn honni ei fod yn dad i Fedrawd ac Iddawg Cordd Prydain, dau gymeriad sy'n ymddangos ym 'Mreuddwyd Rhonabwy'.

³ Gw. LBS ii, 92; WCD 110–11.

⁴ Cf. GPC 1696 d.g. *gwra*, '... cryd neu gryndod, a oedd gynt yn dra chyffredin mewn lleoedd gwlybion neu gorslyd (yn sir Gaerf. ac yn enw. yn ardal Cors Fochno yng ngogledd Cered.) ac y credid ei achosi gan widdon, y ddeirton'. Gw. *ib.* 924 d.g. *deirton*.

⁵ Ymhellach ar y gwahanol fathau o'r ddeirton, gw. M.J. Dobson, 'Malaria in England: a geographical and historical perspective', *Parassitologia*, xxxvi (1994), 35–60; *id.*, *Contours of death and disease in early modern England* (Cambridge, 1997), 287–367.

⁶ Gw. GPC 1696 d.g. *gwra*.

gerdd flaenorol, ni chadwyd mewn unrhyw ffynhonnell arall unrhyw draddodiadau amdano a allai ein goleuo, ond y mae'n sicr y byddai traddodiadau o'r fath yn hysbys i gynulleidfa'r bardd. Rhaid cofio nad dweud hanes y sant oedd bwriad y bardd, ond yn hytrach atgoffa'r gynulleidfa o elfennau yn ei fuchedd. Yr oedd y gerdd hon hefyd yn wahanol o ran ei bwriad i'r cywydd i Gynog. Dyrchafu bri'r sant drwy gyfeirio at ryfeddodau ynglŷn ag ef oedd nod y cywydd i Gynog a gofyn am ei nawdd ar Ddydd y Farn, ond er bod elfen o ddyrchafu bri Cathen yn y gerdd hon, prif fwriad y bardd yw cyflwyno cais personol ar i'r sant ei iacháu o'i afiechyd.

Un copi a gadwyd o'r testun, a hwnnw yn llaw Dafydd Epynt ei hun yn Pen 54, i, 124, llawysgrif a ddyddir c. 1480.⁷ Ni cheir priodoliad yn y llawysgrif, ond digwydd mewn bloc o gerddi gan Ddafydd Epynt ac nid oes unrhyw sail dros amau ei dilysrwydd. Y mae'r gerdd braidd yn fyr o'i chymharu â chywyddau eraill y bardd: gwelir bod o leiaf un llinell yn eisiau ar ôl llinell 7 (ceir bwloch ar gyfer un ll. yn y llawysgrif), ond fel arall y mae'r diwedd yn ymddangos yn derfynol.⁸

- 6 **ar gwr dy fedd** Y mae'n debygol i'r gerdd hon gael ei chanu mewn eglwys wedi ei chysegru i Gathen Sant ac a godwyd uwch ei fedd; dichon mai eglwys Llangathen oedd honno. Gw. ymhellach y nodyn cefndir.
- 10 **dan ddant deirton ddu** Ar y *ddeirton* 'cryd neu dwymyn ysbeidiol, math o falaria sydd â chyrch y cryd yn digwydd bob yn eilddydd, cryd (â) mwyth, y wrach', gw. GPC 924. A oedd y *ddeirton ddu* yn fath penodol ar yr afiechyd? Enw arall ar yr afiechyd yw'r *wrach*, a phersonolir ef yn y gerdd drwy gyfeirio at ei ymosodiad fel brathiad dant neu grafiad ewinedd (ll. 16). Gw. ymhellach y nodyn cefndir.
- 11 **gwrach** E. arall ar y *ddeirton* (ll. 10n) oedd y *wrach*; gw. GPC 1696, 'afiechyd, sef cryd neu gryndod, a oedd gynt yn dra chyffredin mewn lleoedd gwlybion neu gorslyd ... ac y credid ei achosi gan widdon, y *ddeirton*'.
- 19 **Cathen, filwr** Ffurf Wydd. gyfochrog â'r e.p. *Cadan* yw *Cathan*. Yr un yw'r elfen *Cath-* â'r e. Gwydd. *cath* sy'n gytras â'r Gym. *cad* 'brwydr, byddin', gw. EANC 51. Efallai nad yw'n rhyfedd, felly, fod Cathen yn cael ei gysylltu â milwriaeth. Gw. ymhellach lau. 21–2n.
- 20 Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.

⁷ Gw. td. 209.

⁸ Ond gw. sylw J. Gwenogvryn Evans yn RWM i, 412, 'Whether this poem ends here is not evident.' Ar hyd arferol cywyddau Dafydd Epynt, gw. y Rhagymadrodd, td. 18.

Cawrdaf ab Caradawg Sef Cawrdaf ap Caradog Freichfras, tad Cathen yn ôl ‘Bonedd y Saint’, gw. y nodyn cefndir, ac ymhellach TYP² 303.

- 21–2 **Llawer yn dwyn lloer neu des / Aeth o fonedd i’th fynwes** Ymddengys fod y cwpled yn cyfeirio at y rhai hynny a aeth dan nawdd y sant, naill ai drwy dderbyn iachâd ganddo neu drwy gael eu claddu yn ei eglwys. Amwys yw ystyr *lloer neu des* yma: gellid cynnig mai ‘dan leuad neu haul’ yw’r ystyr, hynny yw, yn y nos neu yn y dydd; neu o bosibl fod yma gyfeiriad astrolegol, ‘dan ddylanwad lleuad neu haul’. Ond sylwir hefyd fod *lloer* yn digwydd mewn ystyron trosiadol megis ‘bwcled, cleddyf’ (gw. GPC 2198 2(a), lle y dyfynnir disgrifiad Gutun Owain o gleddyf fel *lloer y drin*); ond ni chofnodir ystyron tebyg i *tes* yn *ib.* 3487. Ai milwyr a olygir, ac a oedd Cathen (yn sgil ei enw, efallai, gw. ll. 19n) yn cael ei ystyried yn nawddsant milwyr, ac yn enwog am iacháu’r rhai a glwyfwyd mewn ymladd? Yn ogystal â chyfeirio at y sant fel milwr (ll. 19), dywedir ei fod yn *wr a garai helynt* (ll. 25), gan dynnu sylw at y ffaith ei fod yn berthynas gwaed i Arthur (ll. 24). O gymryd hyn gam ymhellach, tybed a yw’r bardd yn troi at Gathen am ei fod wedi ei glwyfo ar ôl ymosodiad gan y ‘wrach’ (sef yr afiechyd)? Gw. ymhellach y nodyn cefndir.
- 24 **Arthur** Yr arwr traddodiadol a ystyrir yn ddefnydd o filwriaeth ddewr, gw. TYP² 274–7. Yr oedd taid Cathen, Caradog Freichfras, yn gefndir i Arthur, gw. *ib.* 299.
- 27 **dan y rhod** Llsg. *dan yr ot*. Cymerir bod yma enghraifft o gamrannu, er nad yw *dan yr od* ‘dan yr eira’ yn gwbl amhosibl. Am yr ymadrodd *tan y rhod* ‘under the sun’, gw. GPC 3084.
- 28 **i’th dir** ‘Yn dy dir’. Am *i’th* ‘yn dy’, gw. GPC 1993 d.g. *i*³ a cf. 17.35, 65.
- a wnaeth** Y mae grym rhagenwol i’r rh.pth. yma: *Ond ni wŷr un dan y rhod / I’th dir a wnaeth Duw erod*, ‘Ond ni wŷr neb dan yr haul / Yr hyn a wnaeth Duw drosot yn dy dir.’
- 29–30 Cyfeirir, y mae’n debyg, at hanesyn ym mywyd Cathen, ond gan nad oes ar glawr unrhyw ffynonellau gwybodaeth eraill amdano, y mae’r cyfeiriad hwn a nifer o rai eraill yn y gerdd hon yn parhau yn dywyll.
- 30 **dŵr ... o waed ir** Gwelir yr un trawiad yn 13.20 *Dŵr llygaid ieirll a gwaed ir*, a cheir enghraifft bellach o *gwaed ir* yn 14.46 a *dŵr ir* yn 13.15, 14.17.
- 32 Ceir awgrym yn y ll. hon ac yn ll. 34 fod ffynnon iachaol i’w chael yn Llangathen.

- 33 **gwythen** Amrywiad ar *gwythien*, gw. GPC 1791. Dichon mai ‘ffynnon’ neu ‘lednant’ (gw. *ib.* (2)) yw’r ystyr yma, sef y *nant* y cyfeirir ati yn ll. 34; gthg. ll. 40 *gwythi* sy’n gyfeiriad at wythiennau’r bardd.

5

Er bod hon yn awdl farwnad ac iddi dros bedwar ugain o linellau, cymharol brin yw’r cyfeiriadau penodol ynddi at y gwrthrych: cyfeirir ato fel *Morgan* (llau. 14, 26), cyfeirir at *waed Dafydd* (ll. 25), a chysylltir y gwrthrych â Pheutyn (ll. 6) a Llandyfaelog (ll. 13). Cesglir ymhellach fod Morgan yn hen ŵr ar fin marw, a bod ei feibion a’i wyrion yn lluosog erbyn hynny (llau. 15–28 *et passim*). Ar sail yr wybodaeth brin hon cynigir mai marwnad yw hi i Forgan ap Syr Dafydd Gam,¹ gŵr a drigai yn y Peutyn-du, rhwng Llanddew a Llandyfaelog, rhyw 2 km i’r gogledd o Aberhonddu.² Fodd bynnag, erys y posibilrwydd mai marwnad ydyw i ryw Forgan arall o’r un teulu a drigai yn y Peutyn.

Esbonnir gan yr Athro D.J. Bowen fod Llywelyn, tad Syr Dafydd Gam, wedi prynu’r ‘Peutun-gwyn a’r Peutun-glas, yn Llandyfaelog Fach, a’r Peutun-du, yn Llan-ddew, gan aelod o’r teulu Normanaidd Peyton, y tri eiddo felly ychydig i’r gogledd o fwrdeistref Aberhonddu’, a chan y cysylltid Morgan ei hun â’r Peutyn-du, ei bod yn debygol felly mai dyma’r cartref a etifeddodd ei dad, Syr Dafydd Gam, gan ei dad yntau.³

Cadwyd tair cerdd arall yn y llawysgrifau i Forgan ap Syr Dafydd Gam: un gerdd fawl gan Huw Cae Llwyd, a dwy gerdd farwnad, y naill gan Huw Cae Llwyd a’r llall gan Lewys Glyn Cothi.⁴ Wrth drafod dyddiad cerdd farwnad Huw Cae Llwyd, awgrymodd Leslie Harries ei bod yn debygol mai rhwng 1456 a 1460 y bu farw Morgan.⁵ Ceir cyfeiriad at Forgan a’i dad fel ysgweriaid y brenin yn Ebrill 1400,⁶ ac os cymerir bod Morgan oddeutu 20 oed bryd hynny (cf. cynnig petrus Harries ei fod yn 35 pan fu farw ei dad ym mrwydr Agincourt, 1415⁷), yna y mae’n amlwg ei fod mewn oedran teg yn marw. Ategr hynny gan Huw Cae Llwyd sy’n cyfeirio at ei *oes hir* yn ei farwnad iddo.⁸

¹ Sylwer, fodd bynnag, nad yw Tegwen Llwyd yn rhestru’r gerdd hon gyda’r cerddi eraill a gadwyd i Forgan Gam, NBSBM 142–5.

² Arno, gw. D.J. Bowen, ‘Gwladus Gam a’r Beirdd’, YB xxiv (1998), 61.

³ *Ib.* Ymhellach ar y cartrefi hyn, gw. NBSBM 137ff.

⁴ HCL1 55 (XII) a 56 (XIII); GLGC 303–4 (cerdd 134) ac am ymdriniaeth â’r cerddi hyn, gw. NBSBM 142–5.

⁵ HCL1 14–15.

⁶ Gw. D.J. Bowen, *l.c.* a NBSBM 138.

⁷ HCL1 15.

⁸ *Ib.* 57 (XIII.39).

Yn ôl yr achau yr oedd gan Forgan un ar ddeg o blant o'i ddwy wraig,⁹ ac y mae Dafydd Epynt yn y farwnad hon yn cyfeirio'n fynych at ei dylwyth niferus:¹⁰ *Llyna ddyn yn llawn o ddail* (ll. 20), medd, gan gyfeirio'n ffigurol ato fel derw amlganhennog a'i *wyrion yw'r irwydd* (llau. 27–8). Gall y cyfeiriad ato'n *Aros geni'i oresgynydd* (ll. 22) fod yn arwyddocaol: gall *goresgynydd* olygu 'disgynydd[ion]' yn gyffredinol, ond yn fwy penodol, gall olygu 'wyr i orwyr' (sef disgynydd yn y bumed radd).¹¹ A oedd Morgan wedi byw yn ddigon hen i weld geni wŷr i'w orwyr?

Yn annisgwyl, efallai, er cyfeirio'n aml at ddisgynyddion Morgan, ni chyfeirir yn y gerdd at Farged, ei ail wraig, er iddi oroesi ei gŵr, yn ôl tystiolaeth Huw Cae Llwyd: *Bwriwyd daear ar farwn, / Bwriwyd hud ar briod hwn. / Margred, y blaned heb liw, / Hil Adam heb haul ydyw*.¹²

Y mae hon yn awdl gelfydd iawn o ran ei mydryddiaeth. Egyr â chadwyn o bum englyn unodl union, wedi eu cysylltu â'i gilydd â chyrch-gymeriad. Yna ceir 64 llinell ar yr un brifodl -ydd ar fesur clogyrnach, sef cwpled o gyhydedd fer yn cael ei ddilyn gan draeanog; enw arall ar y mesur hwn yw byr a thraeanog.¹³ Y mae hwn yn hen fesur a gysylltir yn y Gramadegau ag enw Cynddelw Brydydd Mawr a'i defnyddiodd yn rhai o'i awdlau;¹⁴ ond ceir enghreifftiau ohono hefyd gan feirdd diweddarach, megis Gutun Owain a Guto'r Glyn, ond gyda'r tri thraean yn y traeanog yn cynganeddu'n llawn, fel yn y farwnad hon gan Dafydd Epynt.¹⁵ Tybed a yw hi'n arwyddocaol fod Dafydd Epynt yn cyfeirio yn y gerdd hon at Gynddelw (ll. 72), er nad yw union ergyd y llinell honno'n eglur? Cloir yr awdl drwy ailadrodd y toddaid byr agoriadol.

O gymryd, felly, i'r gerdd hon gael ei chanu rhwng 1456 a 1460, dyma'r gerdd gynharaf o ganon Dafydd Epynt y gallwn roi dyddiad iddi. Gan ei bod yn anodd credu darfod cyfansoddi cerdd mor gelfydd ei mydryddiaeth gan fardd ifanc iawn, y mae'n bosibl iddo ddechrau ar ei yrfa fel bardd rai blynyddoedd ynghynt.¹⁶ At hynny, gellid ychwanegu bod y math hwn o fyfyrdd ar derfynoldeb angau a seithugrwydd uchelgais dyn ar y ddaear (cf., e.e., lau. 1–4, 35–6, 39–40, &c.) yn nodweddiadol o fardd go aeddfed.

Un copi a gadwyd o'r testun, a hwnnw yn llaw Dafydd Epynt ei hun yn Pen 54, i, 115, llawysgrif a ddyddir c. 1480.¹⁷

⁹ P.C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 20(C1).

¹⁰ Cyfeiriodd Lewys Glyn Cothi yntau at ddisgynyddion niferus Morgan yn ei farwnad iddo, gw., e.e. GLGC 303–4 (134.33–48).

¹¹ Gw. ll. 22n.

¹² HCL1 57 (XIII.31–4). Ymhellach ar gyfeirio at wragedd noddwyr yng ngherddi Dafydd Epynt, gw. y Rhagymadrodd, tt. 16–17.

¹³ Gw. J. Morris-Jones: CD 336.

¹⁴ E.e., cyfeirir ato fel *dull Kyndelw* yn GP 11; gw. hefyd GCBM i, xliv.

¹⁵ J. Morris-Jones, *l.c.*

¹⁶ Am drafodaeth ar ddyddiadau Dafydd Epynt, gw. uchod td. 6.

¹⁷ Gw. td. 209.

- 4 **oed arfau** Sef ‘adeg ymladd’; ar *oed* ‘amser penodedig, dyddiad (a bennir i wneud rhywbeth)’, gw. GPC 2621. Dywed y bardd yn y cwpled hwn fod rhyfela yn rhoi terfyn ar bob *nod*, sef ‘bwriad’ neu efallai ‘enwogrwydd, bri’, gw. *ib.* 2587–8.
- 5 **rhuddyn—deri** Deellir *rhuddyn* yma’n ffurf amrywiol ar *rhuddin*, GPC 3101, lle y cyfieithir *rhuddin*, &c., *derw* (*dâr*, *deri*) gan ‘*heart(wood) of oak, also in comparisons denoting strength, toughness, &c.*’.
- 6 **y Peutyn** Sef y Peutyn-du, y mae’n debyg, lle y trigai Morgan; gw. y nodyn cefndir.
- 8 **ar ferw** Yma ‘yn gythryblus, terfysglyd’ yn hytrach nag ‘*at the boil*’ a roddir yn unig yn GPC 275.
- 11 **ei alw** Gallai’r rh. *ei* yma gyfeirio at Dduw neu at Forgan (ond yr un yw’r ystyr, sef bod Duw wedi galw Morgan ato).
- 13 **Llan—Dyfaellog** Yn Llandyfaellog Fach yr oedd Morgan yn byw, gw. y nodyn cefndir.
- 17 **ei wiail—a dyf** Y mae’r bardd hwn yn cyfeirio’n aml at ddisgynyddion niferus ei noddwyr yn nhermau tyfiant coed; ar y defnydd ffigurol o *gwaiail* yma, cf. 11.43–4 *Deilog wyt ti fal gwaiail, / Ni allai ddyn well ei ddail*; gw. hefyd isod ll. 20n a’r Rhagymadrodd, tt. 13–14.
- 18 **Duw a’i fam** Cf. 2.16 *mam y Tad mawr* a gw. *ib.n.*
- 20 **Llyna ddyn yn llawn o ddail** Cf. 11.43–4 *Deilog wyt ti fal gwaiail, / Ni allai ddyn well ei ddail* a cf. ll. 17n.
- 22 **geni’i oresgynydd** Llsg. *geni oresgennydd*. Ni chofnodir y ffurf *goresgennydd* yn GPC 1474, a chymerir, felly, mai amrywiad orgraffyddol neu ffonolegol ar *goresgynydd* ydyw, sef ‘wyr i wyr, neu blentyn gorwyr, gororwyr, disgynydd yn y bumed radd’, neu’n fwy cyffredinol ‘disgynydd neu ddisgynyddion’, GPC 1475. Er mwyn esbonio’r treigladd meddal i’r enw sy’n dilyn, cymerir bod *geni* y llsg. yma’n gywasgiad o *geni ei*; cf. yn arbennig TA 24 (IV.137–8) *Ys da ryw bennaeth i stôr beunydd, / I aros geni’i oresgynydd*. Fel y gwelir o’r nodyn cefndir, yr oedd Morgan mewn oedran mawr yn marw, ac nid yw’n amhosibl, felly, iddo weld *geni ei ddisgynydd* yn y bumed radd.
- 23 **ado i adar** Ai’r e. *ado* ‘?lloches, cysgod’ a restrir yn GPC 25 (ond y daw’r unig enghraifft a roddir yno o ganu Taliesin)? Dichon mai’r lloches yw’r *adail* ffigurol (llau. 19, 21) y mae Morgan yn ei chodi *o’i waed*. Cf. 15.49, 51–2 lle y disgrifir lloches y bardd Dafydd ap Hywel dan nawdd ei noddwr, Watgyn Fychan, yn nhermau aderyn a’i nyth mewn derwen: *Ederyn llwyd ... / Ni thyn ei nyth ... / O’r un dderwen ddaearol*.
- 25 **Dafydd** Sef Syr Dafydd Gam, tad Morgan.

- 26 **brigyn** Disgrifiad o epil niferus Morgan yn nhermau tyfiant ar frigyn; cf. ll. 17n.
- 28 **A'r wyrion yw'r irwydd** Cf. disgrifiad Lewys Glyn Cothi o ddisgynyddion Morgan, fel *irgoed o frig Morgan*, GLGC 303 (134.29), a gw. ll. 26n.
- 32 **llai wenwyn** Am y treigladd meddal i'r enw yn dilyn *llai*, gw. Treigladau 48–51. Fodd bynnag, nid yw ystyr y cyfuniad yma'n amlwg, ac efallai mai cywasgiad o *lle i wenwyn* a olygir, yn ddisgrifiad o'r galon ddolurus yn sgil colli Morgan.
- 34 **oed yr hydd** Sef 'oedran teg iawn', cf. GPC 1956 d.g. *hydd*¹, a cf. GST 141 (33.84) *Hir oes megis einioes hydd*.
- 37 **hau** Defnyddid y f. *hau*, yn enwedig yn y canu brud, yn drosiadol am baratoi ar gyfer ymgyrch filwrol, gw. GDGor 61, ac y mae'n bosibl mai dyna'r ystyr yma; gw. GPC 1862 am bosibiliadau eraill.
- 38 **y rhoid adar** A gyfeirir yn ffigurol yma at ddyinion (milwyr, efallai), fel *adar*? Cf. ll. 33 *Rhai a dynnir eu hadenydd*.
- 39–40 **Darfod ei derfyn ... / ... fu lywydd** Gellid aralleirio'n fras: 'Dyfod ei farwolaeth a bair fod y dyn a fu'n arweinydd yn cael ei gipio ymaith fel ewyn.'
- 41–2 **Dewis blaned o ysblennydd / Ar ben dwyawr y bu'n dywydd** Disgrifiad ffigurol o Forgan a geir yn y cwpled hwn: y mae fel *planed* (gw. GPC 2816) dethol a thra rhagorol (*go ysblennydd*) a droes yn dywydd [gwael] mewn cyn lleied â dwyawr; dichon mai cyfeirio at gipio'r noddwr trwy farwolaeth annisgwyl a wneir. (Cf. HCL1 57 (XIII.33) lle y disgrifir gwraig Morgan, yn sgil marwolaeth ei gŵr, fel y *blaned heb liw*.) Ar *tywydd* 'tywydd gwael, storm', weithiau'n ffigurol, gw. GPC (proflen heb ei golygu). Cyfeiriodd Huw Cae Llwyd yntau at y ddrycin a fu ar ôl marw Morgan—HCL1 57 (XIII.25–6) *Llai yw hindda yn Llanddwy, / Ac i Lanfaes y glaw'n fwy*—ond gall mai at ddrycin ffigurol y cyfeiria'r ddau fardd.
- 43 **nos Iau a'r Gwener gwinau** Cyfeirir at y ddeuddydd ynghyd eto yn 4.23–4, *Ni wnaî'r un, Wener a Iau, / O waed Arthur, dy wrthiau*, ond nid yw'r arwyddocâd yn eglur yma, oni bai fod Morgan wedi marw ar nos Iau. Ar *gwinau* am dywydd 'cymysg, cymylog', gw. GPC 1662.
- 45–6 **Gwayw treigledig ... / A wna dafnau ynn a'u defnydd** Cymerir mai'r ystyr yw fod gwaywffyn hyrddiedig (h.y. mewn rhyfel) yn achosi dagrau (*dafnau*) i'r bardd a'i gyfeillion a rheswm (*defnydd*) drostynt. Derbynnir yma'r ystyr 'wedi ei daflu' ar gyfer *treigledig*, ystyr a nodir gyda gofynnod yn GPC 3581.
- 48 **ymennydd** Llsgr. *ymhennydd*; ai *ymennydd*, S. 'brain', sydd yma? Ai disgrifiad o'r dagrau'n llifo'n nant o'r pen a welir yn y cwpled hwn (gw.

y nodyn blaenorol)? Cf. llau. 51–2 *Deigr ffrwd ... o'r iad a redai, / A fynnai afonydd*, a 20.15–16 *Llu'n wyllo ... / Llifddwr pell a fydd o'r pen*, a hefyd Huw Cae Llwyd yn ei farwnad i Forgan, HCLI 57 (XIII.21–4), *Plas mawr fal pei law es mis, / Dŵr eigion hyd ei wregys. / Mae'r aelwyd am yr wyllo / Mal pe bai'r tai heb y to*. Posibilrwydd arall fyddai darllen *ym mhennydd*, ond ni restrir *pennydd* yn GPC 2756 (ac eithrio croesgyfeiriad at *pennydd* fel amrywiad ar *panydd*, sy'n digwydd mewn testun geiriadurol o'r 18g.). Gellid hefyd ystyried adffurfiad o'r gair *gobennydd* yn yr ystyr 'cynheiliad', GPC 1417 (ond gthg. ll. 62).

49–50 **Du yw'r manod ... / Yn yr heulwen a'r heolydd** Er bod yr eira mân yn orchudd ar y mynydd a'r heolydd a'r haul yn disgleirio, ymddengys pobman yn ddu oherwydd marwolaeth Morgan; cf. 20.17–18 *Duo'r blaned i'r blaenawr, / Du fu'r wlad o'i fwrw i lawr* (yn sgil marw Morgan ab Owain). Ys dywed Huw Cae Llwyd yn ei farwnad yntau i Forgan, HCLI 57 (XIII.17–18) *Llen ddu uwch Llanddwy a wedd, / Arall wen oedd erllynedd*.

51 **Deigr ffrwd ... o'r iad a redai** Cyfeiriad at y dagrau'n llifo'n rhydd o lygaid y galarwyr; cf. ll. 48n.

58 **grwn** Sef bedd Morgan; gw. GPC 1538 a cf. 22.38.

gran a'i gwybydd 'Y mae grudd yn gwybod hyn'; cyfeiriad at y gruddiau (*gran*) sy'n amlygu'r golled.

61 **Maen o'i gwrrwm yn ei geirydd** Ar *cwrrwm* 'crymedd; crymedd cefn; cefn; yn *dros.* am berson cefngwrwm, ... &c.', gw. GPC 648. Ai disgrifiad o feddrod Morgan sydd yma, a cherflun arno o bosibl?

62 **bwned** 'Penwisg' neu 'ben' yma, gw. 17.26n.

65 **paid â'r alfach** Deallir *alfach* yn amrywiad (symleiddiad) ar yr e. *alfarch* 'gwaywffon', gw. GPC 75 d.g. *alfarch*¹; sylwer bod yr enghraifft gynharaf a ddyfynnir yno yn dod o hen eirfa, gw. T. Gwynn Jones, 'The Welsh Bardic Vocabulary', B i (1921–3), 317, '*alfarch*: gwaiw'. Ymddengys fod Dafydd Epynt eto yn defnyddio geiriau a gawsai mewn hen eirfâu yng ngherdd 23 isod. Ystyr yr ymadrodd yma yw 'y mae ef yn rhoi heibio ei waywffon'.

pedwar elfydd Ar *elfydd* 'bro, gwlad', gw. GPC 1205. A yw *pedwar elfydd* yma'n gyfystyr â *phedwar ban*, ac felly'n golygu 'ledled y byd'? Fodd bynnag, dichon mai cyfeiriad sydd yma at bedair elfen Aristotles, ac mai ystyr y cyfuniad yma yw 'popeth dan haul'. Fodd bynnag, diddorol yng nghyswllt y cyfeiriad yn y llinell ganlynol at Gadair Sidydd yw'r cwpled hwn o 'Gadair Aur Taliesin' lle y datgenir gan Daliesin: *Mae im gadair aur yng Nghaer Sidydd, / Mewn gwenrod yn troi rhwng tri elfydd*, gw. Gruffydd Fôn Gruffydd, 'Cerddi Taliesin Ben Beirdd y Gorllewin' (Ph.D. Cymru [Bangor], 1997), 158. Awgrymir gan Dr

Gruffydd, *ib.* 581, fod *elfydd* yn golygu ‘cyffelyb’ yno, ac mai ystyr y cwpled yw fod cadair lonydd Taliesin yn troi mewn gwenrod sy’n troelli y tu mewn i dair olwyn gyffelyb.

- 66 **sidan** Ceir pedair enghraifft arall o’r gair gan Ddafydd Epynt (gw. 8.23, 13.29, 14.1, 17.27), yn cyfeirio bob tro at wisg sy’n arwyddo statws aruchel y gwisgwr. Y mae ystyr y pennill hwn yn dywyll, ond a yw’r bardd yn awgrymu bod rhywun sy’n gwisgo sidan, sef y person a farwnedir, yn amddiffyn Cadair Sidydd?

Cadair Sidydd Cf. GGH 202 (63.57–8) *Awdur fu ddoeth dra fu’i ddydd / Dros awdur Cadair Sidydd* (mewn marwnad i Siôn Brwynog), ac *ib.* 513 lle y cynigir mai’r Taliesin chwedlonol yw *awdur Cadair Sidydd*. Amrywiad yw *Sidydd* ar *Sidi*, gw. GPC 3271 d.g. *Caer Sidi*; cyfeirir at y gaer honno mewn dwy gerdd yn Llyfr Taliesin. Cf. hefyd IGE² 335 (ll. 14) *Cadair Sidi*. Yr oedd traddodiad fod Taliesin wedi byw deirgwaith ar y ddaear a’i fod bellach yn trigo yng Nghaer Sidydd hyd oni ddelai’r amser i wireddu’r daroganau, gw. Gruffydd Fôn Gruffydd, *op.cit.* 451 d.g. [t]eirgwaith. Ymhellach ar *sidi*, &c., gw. Patrick Sims-Williams, ‘The evidence for vernacular Irish literary influence on early mediaeval Welsh literature’, *Ireland in Early Mediaeval Europe*, ed. D. Whitelock *et al.* (Cambridge, 1982), 243–8 ac yn arbennig tt. 69–75. Benthyciad yw o’r H.Wydd. *side*, ffurf draws ar *sid*, sy’n ymddangos yn gyffredin mewn dywediadau megis *aés side*, ‘pobl y síd’, ‘tylwyth teg’.

- 67 **Taliesin** Gw. ll. 66n am gysylltiad y Taliesin chwedlonol â Chadair Sidydd neu Gaer Sidi.

- 69–70 **Deall y brud allai brydydd, / Anos weithian eisiau ieithydd** Awgrymir bod ystyr y canu brud bellach yn dywyll yn sgil colli ei ddehonglwr (*ieithydd*). Cymerir mai Morgan Gam yw’r prydydd hwnnw; dichon mai ef hefyd yw’r *awenydd* y cyfeirir ato yn llau. 67–8. Ond fe eill mai cyfeirio ato’i hun a wna Dafydd Epynt fel bardd Morgan (os felly, darlener *allai’i brydydd*); os felly, cf. isod llau. 77–8 lle y dywed fod marwolaeth ei noddwr wedi achosi iddo golli ei leferydd. (Gyda ll. 69, cf. 6.30 *Dyall brud allai brydydd*.)

- 72 **Cynddelw** Sef Cynddelw Brydydd Mawr (*fl.* 1155–95), y mae’n debyg; y mae’r modd y cyplysyr ei enw gyda Gwenddydd yma yng nghyswllt canu brud yn awgrymu mai fel brudiwr y meddyliai Dafydd Epynt amdano. Gellid aralleirio’r cwpled yn fras: ‘Ni ddilyn neb tebyg iddo, yn chwantus am elw, / Neu un tebyg i Gynddelw na Gwenddydd.’ Ai cyd-ddigwyddiad yw’r ffaith fod ail ran yr awdl hon wedi ei chanu ar glogyrnach a elwid hefyd yn ‘fesur Cynddelw’ (gw. y nodyn cefndir)?

Gwenddydd Sef chwaer neu gariad Myrddin, gw. G 659 ac ymhellach TYP² 470, GGL1 13.44n. Ni wyddys pahan y cysylltir ei henw â Chyn-

ddelw yma (gw. y nodyn blaenorol), ond gwyddys bod cysylltiad clòs rhwng Myrddin a'r Taliesin chwedlonol a grybwyllir yn ll. 67.

- 73 **cwyn** 'Galar, gofid', GPC 653, neu hyd yn oed 'galarnad' yma (cf. yr Wydd. *caoineadh*, gw. Patrick S. Dineen, *An Irish-English Dictionary* (Dublin, 1927), 161).
- 74 **bro Wynedd a Meirionnydd** Dichon mai awgrymu a wna'r bardd y bydd clod Morgan a'r galar ar ei ôl yn ymledu hyd at ogledd Cymru yn sgil ei farwnad; cf. ll. 76n.
- 76 **Maelienydd** Cantref ac un o arglwyddiaethau Iorc yn nwyrain y Gororau. Ym marwnad Hywel Amhadog cyfosodir Gwynedd a Maelienydd eto wrth gyfeirio at faint y golled ar ei ôl yntau, 21.23–4 *Gwynedd wen a gwynai'i ddydd / Ac yn flin gan Faelienydd*, a gw. *ib.* 24n.
- 77 **llyfr Ofydd** Bardd serch Lladin oedd Ofydd a gyfunai themâu serch cwrtais a phoblogaidd. Defnyddiwyd llawer o'i drosiadau gan drwbadwriaid y 12g. a bu ei waith yn ddylanwad ar farddoniaeth Gymraeg drwy gyfrwng gwaith Dafydd ap Gwilym, gw. Helen Fulton, *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (Cardiff, 1989), 27–30, 214–15; Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1986), 2; DGIA 159–60. Ymhellach ar *lyfr Ofydd*, gw. GSRh 11.55n.
- Gellid cynnig yr aralleiriad bras canlynol ar gyfer y pennill anodd hwn, 'Ni allaf i, sy'n hyddysg yn Llyfr Ofydd, / Feddiannu ar gyfer ei farwnad un dull ymadroddi priodol; / [Byddai'n dda cael] tair iaith i foli un diniwed a fu'n gadarn ei galon / I amddiffyn y ffydd drwy rym.'
- 80 **ffon i gadw'r ffydd** Cf. 17.71–2 *Mae gobraith unwaith, ddihenydd—Saeson, / Neu ddwyn Iddewon â'r ffon i'r ffydd*. Yr awgrym yma yw fod Morgan ap Syr Dafydd Gam yn Gristion cadarn.
- 81–4 Gellid aralleirio'n fras, 'Byddai'r cedym yn cilio i frig coedydd / Yn ganlyniad i'w ddewrder, a'r ehedydd, / Gyda'r gymdogaeth ar ei sgowt, / Yn un a fo'n canu / Am byth drwy Gaeo.' Tybed a oes arwyddocâd yn y ffaith mai yng nghwmwd Caoe y mae Llangathen (gw. nodyn cefndir cerdd 3)?

6


Nid oes na theitl na phriodoliad i'r gerdd hon yn yr unig gopi ohoni yn Pen 54, ond gan ei bod yn llaw Dafydd Epynt ei hun, a chan nad oes unrhyw sail o ran arddull na chynghanedd i'w gwrthod, cymerir mai ei waith dilys ef ydyw.¹

¹ Ymhellach ar ddilysrwydd y cerddi, gw. tt. 21–4.

Egyr y cywydd drwy gyfarch y noddwr fel *Mab Wilym Dew* (ll. 1) a dysgwn mai *Hywel* yw ei enw (llau. 20, 42). Cyferchir *Wil, mab llwyd Llŷr* (ll. 37), a chyfeirir at Wilym yng nghyswllt ei haelfrydedd ef a Hywel (ll. 28).² Cyfeirir hefyd at *ach Einion* (ll. 4), *Noe hen* ac *Urien* (llau. 5–6), ac *Elidir* (ll. 34) a dysgwn fod Hywel yn dal swydd gyfreithiol o ryw fath, wrth i'r bardd ei foli'n benodol fel barnwr, fel ysgwïer cadarn i'r bar (llau. 39–40), ac fel un sy'n gweinyddu heddwch a chyfiawnder ac sy'n gallu peri i ddihirod ddiwygio eu ffyrdd (llau. 43–6).

Ar sail y cyfeiriadau hyn, cynigir mai cywydd yw hwn i Hywel ap Gwilym Dew ap Hywel ap Llywelyn. Yr oedd ei daid, Hywel ap Llywelyn, yn frawd i Syr Dafydd Gam, a chan hynny yr oedd ei dad, Gwilym Dew, yn gefnder i Forgan ap Syr Dafydd Gam, gwrthrych y gerdd flaenorol.³ Gwelir o'r achau fod gan Hywel ap Gwilym Dew fab o'r enw Gwilym, ac felly gall mai cyfarch y mab mewn cywydd i'w dad a wna'r bardd yn llinell 37 (ac o bosibl ll. 28). Gallai Hywel olrhain ei ach drwy Syr Dafydd Gam i Einion Sais (ll. 4) ac ar ochr ei nain, Marged, o linach 'Einion ap Llywarch', yn ôl drwy Elidir Ddu (ll. 34) ac Urien Rheged (ll. 6) i Llŷr Marini (y cyfeirir o bosibl ato yn ll. 37).⁴ Cysylltir Gwilym Dew a'i deulu yn yr achau â Llanfihangel Fechan ger Merthyr Cynog, sef yr ardal y cysylltir Dafydd Epynt yn bennaf â hi.⁵

Achau Hywel ap Gwilym Dew



² Ar ddefnyddio'r ffurfiau *Gwilym* a *Wiliam* yn yr un gerdd am yr un noddwr, gw. isod 7.11n.

³ P.C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 20(B); P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 20.

⁴ Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Einion ap Llywarch' 8, 7, 6, 4, 1 a td. 51.

⁵ Gw. y Rhagymadrodd, tt. 2, 7–10.

Yn Pen 67 cedwir cywydd mawl gan Hywel Dafï i Wilym Dew, a dau gywydd, y naill yn fawl a'r llall yn farwnad, i Hywel ap Gwilym, er nad oes modd bod yn gwbl bendant ai cerddi ydynt i Hywel ap Gwilym Dew.⁶ Diddorol yw sylwi bod Hywel Dafï yn tynnu sylw at ddysg Gwilym Dew ac yn benodol at ei uchafiaeth mewn dadl (e.e. *Golev mewn dadl ych gwelir / gwilim dew yn galw am dir, ac eto, ath eiriav am na thorrynt / a saif val gair sifil gynt / ni thyrr dyn ddim oth air da*⁷), ac o gofio'r cyfeiriadau yng ngherdd Dafydd Epynt at alluoedd Hywel fel barnwr a gweinyddwr heddwch a chyfiawnder, y mae'n bosibl eu bod ill dau wedi dal swyddi cyfreithiol o ryw fath.

Nid oes modd dyddio cerdd Dafydd Epynt ar sail unrhyw gyfeiriad ynddi, ond gwyddys iddi gael ei chodi i lawysgrif Pen 54 erbyn c. 1480.⁸ At hynny, os yr un yw ei noddwr â'r Hywel ap Gwilym y canodd Hywel Dafï ei farwnad, gallwn nodi bod y bardd hwnnw, yn ôl pob tebyg, wedi tewi erbyn c. 1480.⁹

Y mae darnau go astrus yn y cywydd hwn a chan hynny y mae'n weddol nodweddiadol o waith Dafydd Epynt yn gyffredinol. Dylid nodi, fodd bynnag, fod llawysgrifen Dafydd yn llawer mwy blêr na'r arfer yma, a'i fod hefyd wedi colli o leiaf ddwy linell mewn un man, heb nodi hynny (llau. 48–9). (Collwyd llinell arall, ll. 23, wrth docio'r ddalen.)

- 2 **clwydau f'ais** 'Esgym y ddwyfron', gw. GPC 513 d.g. *chwyd ais*.
- 4 **Einion** Einion Sais, yn fwy na thebyg, sef un o gyndeidiau Hywel; gw. y nodyn cefndir uchod ac ymhellach, gw. 10.29n.
- 5 **Noe hen** Sef Noa, a ystyrïd yn gyndad traddodiadol, gw. 13.4n a cf. 20.55. Mewn cyd-destun ychydig yn wahanol dywed Hywel Dafï am Wilym Dew, *enwi pob oes o voessen / a wney hyd veibion noe hen*, gw. Peniarth 67, 88 (LX.37–8).
- 6 **Urien** Gallai nain Hywel ap Gwilym Dew, Marged ferch Gwilym, olrhain ei llinach i Urien Rheged, brenin yn yr Hen Ogledd yn y 6g., gw. y nodyn cefndir.
- 7 **Ni ddilynwn ddalennau** Cymerir bod y bardd yma'n cyfeirio at ddalennau mewn llyfr achau. Fodd bynnag, o gofio bod i *ddalen* hefyd yr ystyr 'deilen', gw. GPC 880, gellid hefyd ddeall *dalennau* yn ffigurol yma am 'ddisgynyddion', cf. 5.20n a 11.43–4n.
- 8 Nid atebir yr *r(h)* yn *parhau*; tybed ai *llin pren* yw'r darlleniad cywir yn hanner cyntaf y ll.?

⁶ Peniarth 67, 46–7 (XXXII), 87–9 (LX), 93–5 (LXIII).

⁷ *Ib.* 87 (LX.1–2), 88 (LX.41–3).

⁸ Ymhellach ar Pen 54, gw. isod td. 209.

⁹ Ymhellach ar Hywel Dafï, gw. nodyn cefndir cerdd 22.

- 9–10 **Diferaf wyd ... / Yn d'eginyn ...** Yn fras, 'Y mwyaf ystrywgar ydwyd ... / Yn dy wehelyth'. Cymerir bod grym amheronol i'r rhagenw *ef* yn ll. 9, yn cyfeirio ymlaen at y gwŷr yn ll. 11: *Ef a fydd ... digynnydd ... Gwŷr ...*
- 12 **gwillaid** Ffurf l. *gwill(i)ad* (gw. isod ll. 45) 'herwr, ysbeiliwr, ... dihiryn', &c., gw. GPC 1765 d.g. *gwylliad*² a cf. 8.44 *gwilliad*. Gellid aralleirio'r cwpled yn fras fel a ganlyn: 'Yr oedd gwŷr, ryw ddydd, yn erlid, / Gwell wyt ti na'r dihirod hyn.'
- 13 **gor-ffwys** Y mae'r gynghanedd yn gofyn am ffurf acennog yma (a cheir bwlch rhwng y ddwy elfen yn y llawysgrif); gellid esbonio'r ffurf yn amrywiad ar *gorffowys*, GPC 1484.
- deigr a ffon** Ymddengys mai ffurf l. *deigr* yw *deigr* gan y bardd fel arfer, cf. 5.51 ac Atod.i.1, ond tybed ai ffurf l. *dagr* (S. 'dagger') yw yma—er na chofnodir y ffurf honno yn GPC 879—yn enwedig gan fod *ffon* yn digwydd bob tro gan y bardd yng nghyswllt ymladd? (Cf. 5.80, 14.19, 16.7, 17.72.) A yw'n cyfeirio yn y cwpled at gyfnod heddychlun yn dilyn cyfnod o ymladd, hynny yw, cyfnod pryd y câi Hywel gyfle i drin aradr yn hytrach na thrin arfau rhyfel?
- 15 **rhoddais** Ai gwall am *rhoddaist* yw hwn?
- 17 **dw y Wynedd** Sef Gwynedd Is Conwy a Gwynedd Uwch Conwy, gw. 9.34n.
- 18 **para 'm awr** Llsgr. *bara mawr*; fe'i deallir yn gywasgiad o *bara am awr*, ond y mae'r ll. yn dal yn hir o sillaf oni ellir cywasgu'r ymadrodd yn ddeusill. Am y syniad, cf. o bosibl 7.43–4 *Awr ni fyn arno ef fod / Na bo'i arian yn barod*. Posibilrwydd arall fyddai darllen yma *O ry bara mawr ...*
- 19–20 **Nid anos no haid wenyn, / Hywel, i'th du lithio dyn** Deallir *tu* yma i olygu 'plaid, tylwyth', gan aralleirio'n fras, 'Y mae mor hawdd i'th dylwyth di ddenu dyn, Hywel, ag yw i haid wenyn [gyda'i mêl].'
- 23 Ymddengys fod ll. 23 wedi ei thocio o frig td. 132 y llawysgrif.
- 28 **Gwilym** Dichon mai cyfeirio at dad Hywel, Gwilym Dew, a wneir yma yn hytrach nag at ei fab. Ar y mab, Gwilym, gw. ll. 37n.
- i'n gweled** 'Yn ein golwg'.
- 29 **es** Ffurf ar y cyplad *ys*, a ddefnyddir yma o flaen e. yn dynodi cyfnod o amser ac yn cyfleu'r S. 'since', gw. GMW 142.
- 30 Cf. 5.69 *Deall y brud allai brydydd*.
- 31 Cf. 13.53 *Ba ddrwg, o bai ddarogan ...*
- 32 **atail** Ai ffurf 3 un.pres.myn. y f. *atal* (drwy gymathiad: *eteil* > *etail* > *atail*), gw. GMW 116? (Ni restrir *atail* yn amrywiad ar y be. yn GPC

225.) Yn llau. 30–2 honnir mai darogan drwg yw darogan atal haelioni a meddiannu'r wlad gan bobl grintachlyd.

- 34 **rhyw Elidir** Cyferchir Hywel yma fel un o linach Elidir. Meddai yntau, Hywel Dafi, wrth gyfarch Gwilym Dew, *hannwyd o lwyth brenhinol / lidir dec maer wlad ar dol*, gw. Peniarth 67, 87 (LX.9–10). Gallai nain Hywel, Marged ferch Gwilym, olrhain ei hach i Elidir Ddu; gw. y nodyn cefndir uchod.
- 35 **deuto dŵr** Tybed ai tŵr â dau do, sef tŵr arbennig o gadarn, neu tŵr a chanddo ddau lawr?
- 36 **eferwr** Ni restrir y ffurf hon yn GPC 1172, ond dichon mai ffurf amrywiol ydyw ar *oferwr* 'segurwr ... bardd crwydr', gw. GPC 2631.
- 37 **Wil, mab llwyd Llŷr** Ai cyfarch Gwilym, mab Hywel, a wneir yma gan ei ddisgrifio fel *mab* (sef 'disgynnydd', cf. 10.26n) Llŷr? Gallai nain Hywel, Marged ferch Gwilym, olrhain ei llinach drwy Urien Rheged (gw. ll. 6n) i Lŷr Marini, ac wrth foli Wiliam ap Morgan ap Syr Dafydd Gam, meddai Huw Cae Llwyd: *Ach Bleddyn ei hun awn â hi—ymhellach / Lle'r aem â'r iawnach Llŷr Merini*, gw. HCLl 34 (I.37–8); arno, gw. ymhellach TYP² 430. Sylwer bod Hywel Dafi, yntau, wedi defnyddio'r epithet *mab llwyd llyr*, Peniarth 67, 125 (LXXXII.16) mewn cerdd yn moli Gwilym ap Tomas ap Gwilym o Gydweli.

Ond y mae'n rhaid nodi petruster ynglŷn â'r ffurf *Wil* (llsgr. *wil*), gan mai eithriadol iawn yw'r ffurf honno ar Gwilym neu Wiliam ym marddoniaeth y 15g. Tybed gan hynny a ddylid darllen *Tyner wyd ŵyl* 'Yr wyt yn un tyner ar adeg gŵyl' neu ddiwygio a darllen *Tyner wyd ail mab llwyd Llŷr?* Os felly, cyferbynnir y tynerwch â'r creulondeb wrth elyn yn y ll. nesaf.

- 39–40 **Os brawdwr, ... / Ysgwier braisg i'r bar wyd** Ar *bar* 'llys barn, brawdlys', gw. GPC 256 a cf. *ar far 'in judgement, at the bar'* isod 20.28n. Ceir awgrym cryf yn y cwpled hwn fod Hywel yn dal rhyw fath o swydd gyfreithiol, a molir ef ymhellach yn llau. 43–6 fel un sy'n gweinyddu heddwch a chosb ac yn dofi dihirod.
- 44 **byd ar y bwch** Rhoddir i *bwch* yn GPC 351 yr ystyr ffig. '[p]erson sarrug' a dichon mai cyfeirio at ddrwgweithredwr a wna'r bardd yma, gan honni bod *rhoddiad yr heddwch* (ll. 43, sef Hywel) yn dwyn trafferth neu helbul (gw. GPC 361 d.g. *byd^l*) ar y *bwch* hwnnw. Cf. llau. 39–40n.
- 45 **gwillad** Gw. ll. 12n.
- 46 **tyfiad nant** Sangiad yn disgrifio'r dyn gwyllt neu'r dihiryn 'hir ei gylllell' fel un sydd â'i darddiad mewn ceunant; h.y. nid dyn gwaraidd yn trigo mewn cymdeithas mohono.
- 48–9 Y mae o leiaf ddwy l. yn eisiau yma, er na cheir bwlch yn y llsgr. i ddyodi hynny.

Cywydd moliant i Wiliam Hafard ap Tomas ap Gwilym Hafard yw'r gerdd hon, y gerdd gynharaf ar glawr i noddwr o Aberbrân.¹ Cyfeirir at y noddwr fel *Wiliam* (llau. 40, 50) a *Gwilym* (llau. 11, 26)² ac fel mab i *Domas* (ll. 18); cyfeirir ymhellach at yr enw teuluol *Hafart* (llau. 1, 8) a chysylltir Wiliam ag Aberbrân (ll. 36).

Lleolir plasty Aberbrân ar lawr dyffryn Wysg, tua 6 km i'r gorllewin o Aberhonddu.³ Daeth i feddiant teulu'r Hafardiaid—teulu a ddaeth i Frycheiniog yn sgil y goncwest Normanaidd⁴—pan briododd wyres i Einion Sais⁵ â Madog Hafard, a bu ym meddiant yr Hafardiaid hyd nes i Sioned, merch Wiliam Hafard, gwrthrych y gerdd hon, etifeddu'r cartref gan ei thad oddeutu 1471, a hynny er bod brodyr a chwirydd eraill ganddi.⁶ Priododd Sioned â Siôn Gam, gorwyr i Syr Dafydd Gam,⁷ a chyda hynny aeth Aberbrân o afael yr Hafardiaid ac i feddiant teulu'r Gambiaid.

Ni cheir unrhyw gyfeiriadau yn y gerdd hon a allai fod yn gymorth i'w dyddio, ond y mae'r disgrifiad o Wiliam fel *carw ifanc* yng nghwpled agoriadol y gerdd yn awgrymu ei fod yn ŵr cymharol ifanc pan ganwyd hi. At hynny, os etifeddwyd cartref Aberbrân gan ferch Wiliam oddeutu 1471 oherwydd ei farwolaeth ef, rhydd hynny *terminus ante quem* inni ar gyfer ei chanu. Hefyd, os gwrthrych y gerdd hon yw'r *William Havard de Brekenok* a restrir ynghyd â Lewys a Tomas Hafard ymhlith y Cymry amlwg a laddwyd ym mrwydr Banbri, gellir gwthio'r dyddiad yn ôl cyn 1469.⁸

Y mae'r darlun a gyflwynir o Wiliam Hafard yn y gerdd yn ddarlun o'r uchelwr delfrydol. Molir yn arbennig ei filwriaeth: yr oedd pob dug yn ofni min ei ddart a phan âi i ryfel ar dir neu fôr byddai ganddo fintai gref i'w

¹ Trafodir y cywydd hefyd gan Tegwen Llwyd yn NBSBM 1–3. Ymhellach ar ach Wiliam Hafard, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Havard' 3.

² Nid yw'n anghyffredin i fardd ddefnyddio dwy ffurf ar enw noddwr mewn cerdd, yn enwedig at ddibenion cynghanedd. Ar sail y ffaith fod Dafydd Epynt yn defnyddio'r ffurf Wiliam yn ll. 40, lle y gallai fod wedi dewis *Wilym* heb effeithio dim ar y gynghanedd, penderfynwyd defnyddio'r ffurf honno wrth drafod y noddwr.

³ Gw. Richard Haslam, *Powys (Montgomeryshire, Radnorshire, Breconshire)* (Harmondsworth, 1979), 279.

⁴ Gw., e.e., DWH i, 267. Dadleuir i enw'r Hafardiaid darddu o De Havre neu Havre-deGrace, sef enw porthladd ar lan Afon Seine yng ngogledd Ffrainc; L. Dwnn: HV ii, 20n8. Er mai mewnfwydwy'r gormesol oedd yr Hafardiaid yn y lle cyntaf buan iawn y troesant yn Gymry pybyr. Priodasant â theuluoedd Cymraeg a Chymreig a mabwysiadu hen draddodiadau'r Cymry, gan gynnwys noddi beirdd. Mor amlwg oedd eu dylanwad yn eu hardal fel yr oedd coffadwriaeth amdanynt yn eglwys Aberhonddu a gelwir un o gapeli'r eglwys honno yn Gapel yr Hafardiaid hyd heddiw, gw. Richard Haslam, *op.cit.* 289.

⁵ Ymhellach ar Einion Sais, un o hynafiaid yr Herbertiaid a'r Fychaniaid, gw. 10.29n.

⁶ NBSBM 1.

⁷ P.C. Bartrum: WG2 'Havard' 3; gw. hefyd Theophilus Jones, *History of the County of Brecknock* (Brecknock, 1898), 230 a NBSBM 1, 690.

⁸ Gw. John H. Harvey, *William Worcester: Itineraries* (Oxford, 1969), 340; WWR² 108; a gw. nodyn cefndir cerdd 8.

ganlyn (llau. 3–4). Molir deuoliaeth ei gymeriad: y mae'n fwyn a chwrtais tuag at ei ddeiliaid ei hun, ond y mae ei ddieter at ei elyn mewn rhyfel yn danllyd (llau. 11–14). Cyfeirir hefyd at ei gyfoeth a'i haelioni: rhydd ei ynau yn rhoddion (ll. 24), yn ogystal â'i aur (ll. 46); at hynny y mae'n un a chanddo *air da am roi diawd* ac y mae'r [g]wan a thlawd ar eu hennill o'i herwydd (llau. 29–30); y mae'n arbennig o hael wrth brydyddion (llau. 33–4) a chymaint yw ei haelioni o ran bwyd a llyn fel y gallai'n hawdd ddarparu *Gwledd i holl Wynedd, nid llai* (llau. 39–40).

Ceir awgrym yn llinell 17—*Cyfarwydd ar swydd neu sias*—fod Wiliam yn dal swydd dan y Goron, er nad yw'r ffynonellau sydd ar gael yn cadarnhau hynny.⁹ At hynny, gall y cyfeiriadau yn y gerdd at ei ddysg a'i farn awgrymu ei fod, fel gwrthrych y gerdd flaenorol, yn ymwneud rhyw gymaint â byd y gyfraith, ond y mae'n anodd dweud ag unrhyw fath o sicrwydd p'un a oedd ef yn fân swyddog neu'n cymrodeddu carfanau *cecrus sub rosa in camera* neu'n wir yn gweinyddu cyfiawnder yn ei lys ei hun.¹⁰

1 **carw ifanc** Ymddengys fod Wiliam Hafard yn ŵr ifanc pan ganwyd y cywydd hwn.

Hafart Ar deulu'r Hafardiaid, gw. y nodyn cefndir.

2 **A ofnai ddug fin ei ddart** Naill ai 'Yr arswydai dug rhag min ei ddart' gyda *dug* yn oddrych; neu 'Y parai min ei ddart ofn i ddug', gyda *min ei ddart* yn oddrych.

5 **galont heol** Sangiad yn cyfeirio, o bosibl, at harddwch llif Afon Tawe, neu fe all fod yn ddisgrifiad o Wiliam Hafard ei hun fel gŵr gwych ei gwrs neu ei yrfa.

6 **Glyn Wysg a wyl galw 'n ei ôl** Lleolid Aberbrân ar lawr dyffryn Wysg, tua 6 km i'r gorllewin o Aberhonddu, gw. y nodyn cefndir. Ni chredir mai marwnad yw'r gerdd hon (cf., e.e., lau. 11–12), ond tybed a yw'r berfau amhff. yn llau. 2–4 yn awgrymu bod Wiliam yn absennol o'i lys pan ganwyd hi ac ai mynegi hiraeth amdano a wneir yn y ll. hon? Sylwer mai darlleniad y llawysgrifau yw *a wyl glaw*, y gellid ei ddehongli fel *a wyl glaw* 'sy'n wylo glaw'; ond ar sail ystyr, a chan fod enghreifftiau eraill yng ngwaith y bardd hwn o drawsosod llythrennau (a chymryd mai fersiwn coll Dafydd Epynt yw cynsail y llsgrau. y diogelwyd y cywydd ynddynt), diwygir y darlleniad hwnnw.

8 **had** Digwydd y gair yn fynych ym marddoniaeth Dafydd Epynt a'i gyfoeswyr mewn ystyron megis 'llinach, hil', 'etifeddion' neu 'ddisgynyddion', gw. GPC 1799 a gw. yr Eirfa am enghreifftiau pellach gan Ddafydd Epynt. Estynnir y trosiad yn 12.19 drwy gyfeirio at hau had, *Had hëir hyd Wlad yr Haf*.

⁹ Gw. NBSBM 2 a ll. 17n isod.

¹⁰ Gw. yn arbennig lau. 17n, 19n a 20n.

- Bwrdiaws** Ffurf Gym. ar y Ffr. *Bordeaux*, cf. GLGC 667. Honnir yn y cwpled fod gwŷr o *had Hafardiaid* yn ymosod ar elyn (*traws*) hyd at bellafoedd Bordeaux.
- 9 Cywesgir *wnâi i* yn unsill er mwyn osgoi tor mesur.
- 11 **Gwilym** Sef Wiliam Hafard, cf. ll. 26 lle y mae'r gynghanedd eto'n mynnu'r ffurf *Gwilym*; gthg. y ffurf *Wiliam* yn llau. 40, 50, a gw. ymhellach y nodyn cefndir.
- 14 Cywesgir *lle y dêl* yn ddeusill er mwyn osgoi tor mesur.
- 15–16 **Maen bychan ... / Llyna faen yn well no'i faint** Cyfeiriad ffigurol at Wiliam Hafard. Ymddengys ei fod yn ŵr bychan o gorff, cf. ll. 21 *iarll main*, ac *ib.n.* Am enghraifft arall gan y bardd o gyfeirio'n ffigurol at noddwr fel *maen*, cf. 9.17 *Maen a gâi rym yn ei grud*.
- 17 **cyfarwydd ar swydd** Ar sail y ll. hon awgryma Tegwen Llwyd yn NBSBM 2 ei bod yn bosibl fod Wiliam Hafard wedi dal swyddi dan y Goron; ond ni cheir unrhyw dystiolaeth i ategu hynny yn R.A. Griffiths: PW i, er bod nifer o aelodau eraill o'r teulu wedi dal swyddi o'r fath, gw. *ib.* 592. Ond fel y dywed yr Athro R.R. Davies, 'Everyone who had pretension to lordship claimed powers of justice over his men', gw. R.R. Davies: LSMW 149—ac y mae'n debygol mai yn y cyd-destun hwn y dylid dehongli'r cyfeiriadau yn y gerdd hon at ddysg a barn Wiliam (gw., e.e., lau. 19–20, 22, 23, 42), er nad yw'n amhosibl ei fod wedi derbyn hyfforddiant cyfreithiol, cf. ll. 20n.
- sias** Yn GDG³ 512–13 awgrymir y gall fod yn gyfystyr â'r S. *chase* 'hela, erlid, helwriaeth', ond mai mwy cyffredin yn y Gym. yw'r ystyr 'brwydr' neu 'byddin', gw. GPC 3265.
- 18 **mab Domas** Tomas ap Gwilym Hafard oedd tad Wiliam, gw. y nodyn cefndir. Am y treigladd meddal yn dilyn *mab*, gw. Treigladau 108–9.
- 19 **yn ei fin** Dichon mai 'yn ei enau', sef 'o ran ei leferydd', yw'r ystyr yma, gw. GPC 2460 a cf. 5.67 *Enw a fu 'n ei fin at lais Taliesin*, a GSC 39.37 *Chwerthin yn ei fin a fydd*, a GSH 3.34. Molir yma huoddedd Wiliam, gan foli ymhellach ei ddysg (ll. 22) a'i farn (ll. 23). Gw. ymhellach ll. 17n.
- 20 **teiriaith** Gall mai moli Wiliam Hafard a wneir yma am ei allu i siarad tair iaith, sef Cymraeg, Saesneg a Lladin, yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, os cywir yr awgrym fod Wiliam yn ymhél â byd y gyfraith, gw. ll. 17n, yna y mae'n bosibl mai cyfeiriad mwy penodol at dair iaith y gyfraith sydd yma. Yn ôl Sypyn Cyfeiliog yr oedd Dafydd ap Cadwaladr yn *gwybod teiriaith a chlaws y gyfraith*, gw. GSCyf 1.23, a sonia Gutun Owain, yntau, am *Tair iaith o gyfraith*, GO (XLII.29–30), 233. Yr oedd y syniad o dair cyfraith yn ddigon cyffredin yn yr Oesoedd Canol, ac awgryma'r Athro Dafydd Jenkins mai Cyfraith Hywel, Cyfraith yr

Eglwys a Chyfraith Rhufain yw'r tair iaith hynny mewn cyd-destun Cymraeg, gw. LIC 137 a hefyd P. MacCana, 'The Three Languages and the Three Laws', SC v (1970), 62–79, lle yr awgrymir bod cysylltiad rhwng y cyfeiriadau Cymraeg at dair iaith cyfraith â chyfeiriadau tebyg yn yr Wyddeleg.

- 21 **iarll main** Dichon mai 'tenau' yw ystyr *main* yma, ac awgrymwyd eisoes nad oedd Wiliam yn ŵr mawr o gorff (ll. 16 *Llyna faen yn well no'i faint*). Posibilrwydd arall fyddai deall *main* yn a. i olygu 'craff ... astud, manwl, ... cyflym, chwim', &c. (gw. GPC 2323), neu hyd yn oed yn ffurf l. *maen* (a chymryd bod *main* yn ffigurol am 'wŷr'). Y mae'n ddigon tebygol fod yma amwysedd bwriadol o gofio i'r bardd gyfeirio'n ffigurol at Wiliam fel *maen* yn llau. 15–16.
- 22 **gwaed** Yn benodol yn yr ystyr 'bonedd' yma, cf. GPC 1544.
- 23 **yn fau** 'Yn eiddof i', gw. GPC 2377 d.g. *mau*; tybir mai 'i mi' a olygir yma.
- 24 **gynau** Molir yma haelioni Gwilym wrth iddo roi ei fentyll yn rhoddion (cf. y ddwy gerdd i ofyn mentyll, cerddi 11 a 19). Os cywir y dyb fod gan Wiliam gefndir cyfreithiol, gw. ll. 17n, y mae'n bosibl fod ei fentyll yn rhai go arbennig (gw. GPC 1688).
- 25–6 Dichon fod Dafydd Epynt yn cyfeirio ato'i hun yma fel prydydd brud, gan ddweud bod gan Wilym gynneddf bwysicach yn ei olwg ef na golud: byddai dweud hyn yn sicr yn dwyn i gof y ddihareb *Gwell clod na golud*.
- 30 **a wnaeth** Cymerir bod gryn rhagenwol i'r rh.pth. yma: 'Ei enw da am roi diod, / Yr hwn a wnaeth le i wan a thlawd.'
- 31–2 Dywed y bardd yn y cwpled hwn y gall ddwyn cyrch ar Aberbrân hyd yn oed pan fo'n nos, ond yn achos tai eraill, gwell yw iddo ymbwyllo (*ymaros*).
- 33 **gwelas** Ai camgymeriad am *gwelais*?
- 35 **bort** Ffurf amrywiol ar *bord*, yma'n ffigurol am 'arlwy o fwyd a diod, lletygarwch, cynhaliath', gw. GPC 301.
- 36 **Aberbrân** Cartref Wiliam Hafard, gw. ll. 6n uchod.
- 38 **brigyn** Cyfeiriad ffigurol at Wiliam: gellid ei ddehongli i olygu 'person neu beth a fo'n rhagori', gw. GPC 325, neu hyd yn oed 'disgynnydd'. (Ar ddefnydd geiriau megis *brigyn*, *dail*, &c. mewn cyswllt â llinach a thras ym marddoniaeth Dafydd Epynt, gw. tt. 13–14.)
- 41 **llawn hyd yr ên** Ni chafwyd goleuni ar yr ymadrodd hwn yn GPC 1391 (d.g. *gên*), 2112–13 (d.g. *llawn*), ond dichon ei fod yn golygu 'gorlawn, llawn iawn' yma. Cf. o bosibl *hyd y fyl* 'to the brim', GPC

363. Y *tri* y cyfeirir atynt yn y ll. yw'r *llaw*, y *llyfr* a'r *awen* a restrir yn ll. 42.

Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.

- 45 **mab maeth y medd** Hen drawiad yw hwn: cf., e.e., GMB 25.18 (Einion ap Gwalchmai ap Meilyr) a GBF 2.4 (y Prydydd Bychan); a cf. *milwyr y medd*, GGI² 130 (XLVIII.31).
- 46 **Aur o fesur ei fysedd** Tybir mai cymharu a wna'r bardd fesur yr aur a rydd ei noddwr â thrwch neu hyd bysedd: cf. LII 2 *Sarhaet brenhyn Aberfrav ual hyn y telyr: can muw vrth pob kantref a uo ydav ... a guyalen eur gyhyt ac ef ehun a chyn urasset a'y vys y bychan*.

8

Cesglir mai awdl o fawl yw'r gerdd hon i ŵr o'r enw Lewys Hafard a'i wraig Isbel: enwir y ddau yn yr englyn cyntaf a chyfeirir ymhellach at Isbel fel y *wraig orau* (ll. 49); enwir Tomas, tad Lewys (ll. 60) a chyfeirir at Lewys fel *wyr Feredydd* (ll. 12). Cyfeirir ymhellach at wraig Lewys fel y *lleuad—o Went* (ll. 51) ac fel *arweddiad Ewas* (ll. 59); ac yn y gwawdodyn clo cyfeirir at *lys yr Hafart* lle y dymuna'r bardd weld y ddeuddyn *heb wahaniad* (ll. 68).

Ni lwyddwyd i ddod o hyd i unrhyw Lewys Hafard a chanddo wraig o'r enw Isbel yn yr achau. Fodd bynnag, ceir yno ŵr o'r enw Lewys ap Tomas a oedd yn ŵyr i Wiliam Hafard (gwrthrych cerdd 7), ac yn orwyr i Faredudd ar ochr ei fam (ll. 12).¹ At hynny, ymddengys fod Lewys yn trigo yn Aelfannog yn Llan-faes ger Aberhonddu, ac felly yn yr ardal y cysylltir Dafydd Epynt yn bennaf â hi.² Fodd bynnag, Angharad ferch Maredudd yn unig a roddir fel gwraig i Lewys ap Tomas yn achau P.C. Bartrum,³ ac felly, os ef yw noddwr y gerdd hon, y mae'n rhaid tybio naill ai fod ffynhonnell Bartrum yn anghywir ac mai Isbel oedd gwir enw'r wraig, neu ynteu fod Lewys wedi priodi fwy nag unwaith. Y dyddiad a roddir yn yr achau hynny ar gyfer marw Lewys ap Tomas yw 1569, ond gan mai un ffynhonnell ddiweddar sydd ar gyfer y dyddiad hwn (ac ar gyfer enw'r wraig yn ogystal), ni ellir rhoi gormod o bwys ar hynny (ond ai camgymeriad am 1469 yw'r dyddiad, tybed?).⁴ Rhestrir enw un *Lewis Havard* o Frycheiniog ymhlith y Cymry amlwg a laddwyd ym mrwydr Banbri (ynghyd â Tomas a

¹ Gw. P.C. Bartrum: WG2 'Havard' 3, a ll. 12n. Ceid hefyd Maredudd ap Madog ap Siencyn Hafard yn un o gyndeidiau'r Hafardiaid, gw. *ib.* 'Havard' 1.

² Gw. P.C. Bartrum *l.c.* a gw. y Rhagymadrodd uchod, tt. 7–10.

³ P.C. Bartrum, *l.c.* a 'Bleddyn ap Maenyrch' 4(C).

⁴ Hugh Thomas, *hynafiaethydd o'r 18g.*, a fu'n gyfrifol am y cart achau a geir yn Harley 2289, 280.

William Havard de Brekenok):⁵ ai Lewys ap Tomas ab Wiliam Hafard, wŷyr i noddwr y gerdd flaenorol, yw hwn? Os felly y mae'n rhaid tybio bod y gerdd hon wedi ei chanu o leiaf ugain mlynedd cyn dyddiad canu'r cerddi eraill gan Ddafydd Epynt y gellir eu dyddio yn Pen 55, a chan hynny, y mae'n rhaid bod yn dra gochelgar.

Canodd Hywel Dafï neu Huw Cae Llwyd awdl i Lewys Hafard ond ni ellir bod yn sicr mai'r un Lewys ydyw.⁶ Cyfeirir at ddau Einion a dau Faredudd yn yr awdl honno ac at Rys ap Tewdwr, ond deil Tegwen Llwyd hithau ei bod yn anodd cysoni'r manylion a roddir yn y gerdd â'r wybodaeth yn yr achau.⁷ At hynny, ni cheir odid ddim gwybodaeth am gefndir Lewys ynddi.

Yn englyn agoriadol yr awdl hon y mae Dafydd Epynt yn moli gwrthryddi Lewys a haelioni ei wraig, Isbel,⁸ cyn mynd rhagddo yn yr ail a'r trydydd englyn i honni iddo ganu i Lewys yn y gorffennol, a bod beirdd eraill, hwythau, wedi elwa o'i haelioni. Ceir cyfeiriadau o'r canu brud yn y pedwerydd a'r pumed englyn cyn dychwelyd at brif thema'r awdl, sef haelioni Lewys a'i hawl i reoli yn *neheuwlad*, ac yna, o linell 49 ymlaen, rhestrir rhinweddau ei wraig. Y mae nifer o linellau anodd eu deall yn yr awdl hon ac, fel yn achos rhai o gerddi eraill Dafydd Epynt, y mae'n anodd penderfynu a yw hynny i'w briodoli i'r gyfeiriadaeth dywyll neu ynteu i'r cystrawennu astrus.

Egyr y gerdd â chyfres o bum englyn unodl union, a gysylltir â chyrchgymeriad, a'u dilyn gan ddeuddeg pennill o wawdodyn, i gyd ar y brifodl *-ad*.⁹ Cysylltir diwedd y gyfres englynion â llinell gyntaf y gwawdodynau â chyrch-gymeriad a cheir cyrch-gymeriad synhwyrol rhwng diwedd yr awdl a'i dechrau wrth i'r bardd gyfeirio yn y ddeule at Lewys ac Isbel.

3 **Isbel** Ceir cyfeiriad arall ati yn ll. 53, a dywed y bardd fod Lewys, wrth ymserchu yn hon, wedi dewis y *wraig orau* (ll. 49). Yn ôl achau Bartrum, enw gwraig Lewys ap Tomas ab Wiliam Hafard oedd Angharad ferch Maredudd o Abersygyr, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 4(C). Os cywir uniaethu gwrthrych y gerdd hon â'r Lewys hwnnw, y mae'n rhaid tybio, fel y nodir uchod, naill ai fod ffynhonnell Bartrum yn anghywir neu ynteu fod Lewys wedi priodi fwy nag unwaith, a bod y ffaith honno heb ei chofnodi yn yr achau.

5–6 Tystia'r cwpled hwn fod Dafydd Epynt wedi canu cywyddau i Lewys yn y gorffennol, er mai dyma'r unig gerdd a gadwyd. Diddorol yw'r ffaith fod Dafydd yn honni canu'r cywyddau hynny *a'm genau*, gan ei bod yn tystio bod y bardd hwn yn datgan ei gerddi ei hun.

⁵ Gw. John H. Harvey, *William Worcester: Itineraries* (Oxford, 1969), 340 a WWR² 108 a gw. nodyn cefndir cerdd 7.

⁶ Gw. Pen 101, 320; trafodir y gerdd yn NBSBM 165–7.

⁷ *Ib.* 166.

⁸ Am gerddi eraill lle y mae Dafydd Epynt yn moli gwŷr a gwragedd ynghyd, gw. y Rhagymadrodd, tt. 16–17.

⁹ J. Morris-Jones: CD 340–1.

- 8 **gynau** Y mae rhoddion o fentyll neu ynau yn cael lle amlwg yng ngherddi Dafydd Epynt, fel y gwelir yn nodyn cefndir cerddi 11 a 19, hefyd 9.23.
- 10 **gwalltan ar fynydd** ‘Tân mawr difaol’, &c. yw ystyr *gwalltan*, gw. GPC 1569; anodd, fodd bynnag, yw gweld cyswllt rhesymegol rhwng y ll. hon a’r un flaenorol, oni ddeellir ‘[mwy] na gwalltan ar fynydd’.
- 11–12 **Dra fo’r haf ... / Dra fo’r ôd ...** Honnir yma fod haelioni’r noddwr wrth roi mentyll i’w feirdd yr un drwy gydol y flwyddyn, boed hi’n haf neu’n eira.
- 11 **tref** Cyfeirir ymhellach at drigolion y *dref* yn ll. 16. Ai cyfeiriad ydyw at gartref y noddwr, neu ynteu at dref benodol (Aberhonddu, o bosibl, os cywir mai cerdd i Lewys ap Tomas ab Wiliam o Aelfannog, ger Aberhonddu yw hon, gw. y nodyn cefndir). Ar amrywiol ystyron *tref* a all olygu ‘trigfan, preswylfa, annedd, cartref’, &c. yn y cyfnod hwn yn ogystal â’r ystyr diweddar ‘*town*’, gw. GPC 3572.
- 12 **wyr Feredydd** Gw. y nodyn cefndir uchod. Ymhellach ar *wyr*, a all olygu ‘disgynnydd’ yn gyffredinol yn ogystal â’r berthynas rhwng dyn a’i daid, cf. 3.2n.
- 13 **bredych** ‘Brad, ... annheyrngarwch, twyll, dichell’ neu ‘ofn, braw’, &c., gw. GPC 314: y mae’r ddau ystyr yn addas yng nghyd-destun y ll. hon.
- 14 **gwas gwyh** Am enghreifftiau pellach o’r cyfuniad hwn sy’n golygu ‘*bold, daring fellow, brave, dauntless man, hero, swaggerer, hector*’, gw. GPC 1590.
- 15–16 **Mewn ei wydr y mae’n edrych, / A fynno’r dref, hwn yw’r drych** Dichon mai ystyr y cwpled yw fod Lewys, o edrych yn ei ddrych (*gwydr*), yn gweld adlewyrchiad (*drych*) o’r sawl y dymuna trigolion y *dref* (gw. ll. 11n) ei gael yn bennaeth arnynt, sef Lewys ei hun. Dichon mai arwydd o gyfoeth Lewys oedd y ffaith ei fod yn meddu ar wydr. Hyd yn oed yn yr 17g. nid oedd cynhyrchu gwydr yn digwydd ar raddfa eang yn Lloegr a mewnforid llawer o wydr o Fenis. Deuai’r drychau gorau, yr oedd eu gwneuthuriad yn gyfuniad o ddrur ac arian byw, bob cam o’r ddinas honno, gw. Dan Klein & Ward Lloyd, *The History of Glass* (London, 1984), 105 a 120; *Encyclopedia Britannica* (London, 1967), xv, 567; Paul E. Szarmach, M. Teresa Tavormina & Joel T. Rosenthal, *Medieval England: An Encyclopedia* (New York & London, 1998), 711.
- 17 **yr ych** Digwydd yr *ych* yn fynych yn y canu brud, ac yn aml yn ddelwedd am Siasbar Tudur, gw. GDL1 192; gw. hefyd GWL ii² 267 a GDGor 3.61n. Y mae’n bosibl, er hynny, mai cyfeiriad cyffredinol at wrthrychau canu brud sydd yma, ac nad oes i’r cyfeiriad, felly, arwyddocâd penodol. Cf. ar *gwennol* isod.

- gwennol** Cf. y nodyn ar *yr ych* uchod. Yn y canu brud digwydd *gwennol* yn symbol am Owain Tudur, ac yna, ar ôl ei farw ef, am ei fab, Siasbar Tudur; gw. GDGor 1.86n, lle yr esbonnir ymhellach ei fod hefyd yn symbol sy'n digwydd am aelodau'r teulu hwnnw yn gyffredinol. Gw. hefyd R. Wallis Evans, 'Prophetic Poetry', GWL ii² 266.
- 22 **I'r lle y gwelir allo gwyliad** Cymerir bod *allo* yma'n gywasgiad o *a allo*: 'I'r lle [h.y. y llys] lle y gwelir yr hyn y gallo'r sawl sy'n gwylio ei weld.' Ceir enghraifft bellach o gywasgiad tebyg yn ll. 53.
- 23–4 Cymerir bod Dafydd Epynt yn hyderu gweld coler Lewys wedi ei heuro y tro nesaf y bydd yn mynd i'w lys, gan y bydd Lewys wedi ei urddo'n farchog. Am fynegiant o ddymuniad cyffelyb, cf. 9.27–8n.
- 28 **Am hyn ym Mhrydyn y mae rhediad** Cynigir mai ystyr y ll. yw fod tyrru (*rhediad*) i lys Lewys Hafart hyd yn oed o'r Alban. Ar *Prydyn* 'Pictland' ac yn fwy cyffredinol 'Yr Alban', gw., e.e., GLGC 672.
- 31–2 **Ni cherddodd o'i fodd neb ar wad ... / Ond, er y Iesu, yn ei drwsiad** Deellir *ar wad* yn ymadrodd adferfol yn golygu 'yn wrthodedig'. Ystyr y cwpled anodd hwn, yn fras, yw: 'Ni cherddodd neb o'i gyfoeth, drwy ei gydsyniad ef, wedi cael ei wrthod ond yn hytrach yn ei wisg [h.y. wedi ei wisgo o'r newydd] er mwyn Iesu.'
- 35 **pryniad—ar dyddyn** Ar *pryniad* 'pwrnasiad', &c., gw. GPC 2924. Moli haelioni Lewys a wneir yn y cwpled hwn gan honni na fu pwrnasiad ar dir (*pryniad ar dyddyn*) na fuasai Lewys yn ei dderbyn (*erbyn*) ac yn ei rannu yn rhad.
- 37 **yn goleuad** Dehonglir *goleuad* yn fe. er nas rhestrir yn ffurf ar y be. *goleuo* yn GPC 1449. Posibilrwydd arall fyddai darllen *ynn goleuad* 'yn llewyrch i ni', ond dichon y disgwyliad treigladau, *ynn oleuad*.
- 38 **llai ddyad** Am y treigladau meddal, cf. 5.32 *llai wenwyn*, 22.43 *llai ddeall* a gw. *ib.n*, ac ar amrywiol ystyron *dyad*, 'ymddangosiad, golwg, ... gosgedd; taldra, maintioli; ffurf neu ddull ymddygiad', &c., gw. GPC 1113. Tywyll braidd yw ystyr y pennill hwn, ac yn betrus cynigir arall-eirio'n fras: 'Clywaf ei leferydd yn goleuo'r holl ddaear a'r ardal lai yr oedd ef [sef Lewys Hafart] yn gyfrifol amdani: y mae ei air anrhydeddus sy'n eiddo inni yn agoriad cyfiawnder ac wedi tewi fe gafwyd ganddo'r dehongliad terfynol cyfiawn.' Posibilrwydd arall yw dehongli ll. 38 fel a ganlyn, *Ar yr holl ddaear âi llai dduad*, hynny yw, ciliai tywyllwch o'r ddaear yn sgil y ddysg a ddeuai o *fin* Lewys i'w *goleuad* (ll. 37); fodd bynnag, daw'r enghraifft gynharaf o *duad* 'tywylliad' o'r 18g. yn ôl tystiolaeth GPC 1097 d.g. *duad*¹.
- 42 **Efrog gadarn** Sef Efrog Iarll, tad Peredur fab Efrog, gw. TYP² 489–90, a GSRh 4.69 lle y cyfeirir ymhellach gan Risierdyn at gadernid

- Efrog Iarll. Tybed ai cyfeiriad ffigurol sydd yma at arweinydd cyfoes i Lewys yn y Deheubarth, megis Syr Rhys ap Tomas neu Wiliam Herbert?
- 44 **gwilliad** Am y ffurf, cf. GHS 31.1–2 *Gorau swydd fal gyrru saeth, / Williad hoyw, yw llateiaeth*, a gw. 6.12n.
- 47 **Neiaint, gogymaint, i geimiad—diriaid** Ar yr a. *gogymaint* ‘cymaint, yr un faint’, &c., gw. GPC 1442–3, lle y gwelir o’r enghreifftiau fod gwrthrych y gymhariaeth naill ai yn enidol neu dan reolaeth yr ardd. *a* ac nid *i*. Cymerir, felly, fod *gogymaint* yma’n adf., ac aralleirir y cwpled fel a ganlyn: ‘Neiaint, cymaint ohonynt, i filwr dewr [yn erbyn] dihiryn’.
- 51 **y lleuad—o Went** Sef cyfeiriad at wraig Lewys, yn ôl pob tebyg; cf. ll. 59n.
- 52 **stent** E. yn cyfateb i’r S. *extent* ‘ystad’ sy’n gweddu yma, gw. GGI² 250 (XCVI.7) a GPC 3331.
- 53–4 **Êl i dai Isbel ... / Ewch ...** Cymerir bod yma gywasgiad o *A êl i dai Isbel*, er mwyn hyd y ll. (cf. ll. 22n), er bod y newid o’r 3 prs.un. i’r 2 brs.ll. yn ll. 54 yn annisgwyl: ‘Pwy bynnag a êl i dai Isbel â gwaedd / Fe ewch [oddi yno] trwy rinwedd honno yn chwerthin.’ Ymhellach ar Isbel, gwraig Lewys, gw. ll. 3n.
- 55 **lliw ewyn** Deallir hwn yn sangiad yn disgrifio Isbel.
- 59 **Ewas** Ffurf amrywiol ar *Euas*, *Ewias*, arglwyddiaeth yn union i’r gogledd o Fynwy ac Aberhonddu, gw. R.R. Davies: CCC 393. Yng ngoleuni ll. 51, cymerir mai disgrifio Isbel a wneir yma fel *arweddiad—Ewas*.
- 60 **Tomas** Ai cyfeiriad at Domas ab Wiliam, tad Lewys Hafard? Gw. y nodyn cefndir.
- 66 **llewpart benllad** Digwydd yr eg. *llewpart* yma’n ffigurol am wrthrych y gerdd. Er mwyn esbonio’r treigladd meddal i *benllad*, cymerir bod *llewpart* yma’n ddibynnol arno, ‘daioni pennaf yr arwr’, a bod y cyfuniad yn ddisgrifiad o wŷr Isbel. Ar amrywiol ystyron *penllad*, gw. GPC 2751.
- 68 Gellid cywasgu *Yno y bo* er mwyn hyd y ll.

Er na cheir teitl i’r gerdd hon yn y llawysgrifau, nid oes fawr o amheuaeth nad cerdd o fawl yw hi i Wiliam Herbert, mab hynaf ac etifedd Syr Rhisiart Herbert o Golbrwg ger y Fenni a Marged, merch Tomas ap Gruffudd ap

Nicolas.¹ Cyfeirir ddwywaith at Wiliam wrth ei enw (llau. 2, 18), cyfeirir at ei dad, Syr Rhisiart Herbert (llau. 10, 26), gelwir Wiliam yn *Nai'r frân* (y *frân* yw ei ewythr Syr Rhys ap Tomas, ll. 16n), a chysylltir ef, fel yn y gerdd ddilynol, â Rhaglan (ll. 36), ond hefyd ag Aberhonddu (ll. 52), ryw 30 km o Golbrwg.

Er nad oedd Wiliam fawr mwy na baban pan ddienyddiwyd ei dad, Syr Rhisiart Herbert, yn Northampton yn 1469 ar ôl brwydr Banbri, ef a etifeddodd Golbrwg.² Bu'n briod ddwywaith: ei wraig gyntaf oedd Siân, merch Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, a ganwyd iddynt nifer o blant.³ Priododd ei ail wraig, Emma, merch i Thomas Champneys (y bu farw ei gŵr cyntaf yn 1509), rywbryd cyn 1522.⁴ Cyfeirir yn benodol yn y gerdd ddilynol at roi Siân iddo'n wraig (10.37–8), ond ni chrybwyllir na gwraig nac etifedd yn y cywydd hwn, a chan hynny gall fod wedi ei ganu pan oedd Wiliam yn ddibriod.

Yr oedd Wiliam Herbert a'i frawd iau, Rhisiart (gw. cerdd 11), yn ffrwyth uniad priodasol rhwng dau deulu pwysig: hanai eu tad o linach yr Herbertiaid a pherthynai eu mam, Marged ferch Tomas ap Gruffudd ap Nicolas, chwaer Syr Rhys ap Tomas, i linach Dinefwr, a gallai olrhain ei llinach ar ochr ei mam, Elsbeth, drwy Syr Rhys ap Gruffudd (*ob.* 1356) i Ednyfed Fychan,⁵ ac ar ochr ei thad i Urien Rheged.⁶ Amlygid y ddwy linach bwysig hyn ar arfbais Wiliam Herbert a'i frawd Rhisiart, gyda thri llew gwyn yn cynrychioli llinach yr Herbertiaid a thair brân ddu yn cynrychioli teulu Dinefwr.⁷ Nodwedd arbennig ar ganu Dafydd Epynt i Wiliam Herbert a'i frawd Rhisiart (cerddi 9, 10, 11) yw'r cyfeiriadau at yr arfbais hon; yn wir, y mae hyn yn nodwedd ar ganu'r beirdd yn gyffredinol i'r ddau frawd hyn, fel yr esbonia Dr W. Gwyn Lewis, 'Wrth ganu mawl i Wiliam a Rhisiart, cydiodd y beirdd yn arfbeisiau'r ddau deulu, sef llewod a brain, gan eu plethu ynghyd a'u delweddu.'⁸

¹ Ceir golygiad o'r cywydd hwn yn CH i, 224–5, ii, 231–2. Ar ach Wiliam Herbert ar ochr ei dad, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Godwin' 8(B1), P.C. Bartrum: WG1 'Godwin' 8, ac ar ochr ei fam, Marged, gw. *ib.* 'Einion ap Llywarch' 7(A1).

² Canodd Ieuan Deulwyn gywydd i Wiliam Herbert yn fuan ar ôl marwolaeth ei dad, a chyfeiriodd ato fel plentyn yn ei grud newydd ei ddiddyfnu: CH i, 206 (53.47–9, 53–4) *Mab dioed ymhob dwedyd, / Mwy no gŵr yw mewn ei grud. / Doe 'dd oedd yn oed ei ddiddwyn ... / Mair fo eli marfolaeth, / Llaw Mair fo lle mae ar faeth.* Ganwyd ei frawd, Rhisiart, yn 1468, felly blwydd oed oedd ef pan laddwyd ei dad, gw. nodyn cefndir cerdd 11.

³ P.C. Bartrum: WG2 'Godwin' 8(B1) a 'Marchudd' 6(B3).


⁴ Gw. M.P. Siddons, *Visitations by the Heralds in Wales* (London, 1996), 82–3.

⁵ P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 14, 15.

⁶ Gw. isod ll. 14n.

⁷ Disgrifiwyd arfbais Wiliam a Rhisiart Herbert gan William Fellow yn 1531: 'Qu. 1 + 4 Per pale Azure and Gules, three lions rampant Argent (Herbert); 2 Argent, a chevron Sable between three ravens proper (black); Sable, a chevron Argent between three spear-heads Argent embued P. (Bleddyn ap Maenyrch)', gw. M.P. Siddons, *op.cit.* 82, a cf. DWH ii, 228.

⁸ CH i, lxiv.

Achau Wiliam Herbert, Rhisiart Herbert a Syr Rhys ap Tomas

^a Gŵr cyntaf Gwladus oedd Syr Rhosier Fychan (ob. 1415).

^b Gwraig gyntaf Syr Wiliam ap Tomas oedd Elizabeth ferch Syr John Bluet.

Bu Wiliam Herbert mewn ffafr â'r brenhinoedd Edward IV a Rhisiart III ac ymelwodd yn fawr ar hynny.⁹ Yr oedd yn gefnogwr brwd i Harri Tudur yntau pan ddaeth i'r orsedd—ac y mae'n debyg iddo ymuno â byddin ei ewythr, Syr Rhys ap Tomas, i drechu gwrthryfel Lambert Simnel a'i gefnogwyr yn Nulyn yn 1487, yn ogystal ag i roi gwarchae ar Fwlen yn Ffrainc yn 1492 ac ym mrwydr Blackheath yn 1497 yn erbyn gwrthryfelwyr o Gernyw.¹⁰ Cyfeirir at Wiliam fel marchog mewn dogfen ddyddiedig 15 Chwefror 1499, ac awgrymodd W.R.B. Robinson mai yn sgil ei frwydro dewr ym mrwydr Blackheath y derbyniodd yr anrhydedd hwnnw.¹¹ Bu farw Wiliam oddeutu 1536–7 a'i gladdu yn Eglwys y Fenni.¹²

Dadluedd Dr W.G. Lewis mai cerdd farwnad yw hon ac fe'i dyddia felly yn fuan ar ôl marwolaeth Wiliam yn 1536–7,¹³ ac o blaid hynny y mae'r sôn am *wylaw* ac *angau* (llau. 1–2, 5) ac am waed yn llifo *o ryw Godwin* (ll. 7). Ond y mae'r dyddiad hwn yn ymddangos braidd yn ddiweddar o safbwynt

⁹ Am grynodedeb o'i yrfâ, gw. CH ii, 206–7 ac R.A. Griffiths: PW i, 156.

¹⁰ Gw. 10.17n, 43n; disgrifiodd Lewys Môn fel y bu i Wiliam ymuno â byddin Syr Rhys ap Tomas i ymladd yn erbyn y gwrthryfelwyr o Gernyw yn CH i, 221 (59.39–46), a'r nodiadau *ib.* ii, 228.

¹¹ Gw. W.R.B. Robinson, 'Knighted Welsh Landowners, 1485–1558: A provisional List', Cylchg HC xiii (1986–7), 295.

¹² Gw. CH ii, 207.

¹³ *Ib.* i, 224–5 a ii, 231.

dyddiadau Dafydd Epynt,¹⁴ ac at hynny dyddir llawysgrif Pen 55, yr unig lawysgrif y ceir testun o'r cywydd hwn ynnddi, tua 1500 gan Mr Daniel Huws.¹⁵ Y mae'n ddiau y trafodir marwolaeth yn llinellau agoriadol y gerdd hon ond nid marwolaeth Wiliam Herbert o Golbrwg ydyw, ond yn hytrach marwolaeth ei dad, Syr Rhisiart Herbert, a ddiennyddiwyd yn 1469 pan oedd Wiliam ei hun yn fachgen ifanc iawn.¹⁶ Ar ôl disgrifio cynysgaeddiad milwrol Wiliam (llau. 11–16), sonnir am y modd yr etifeddodd rym ac yntau yn ei grud (ll. 17) cyn datblygu'n uchelwr cyflawn a oedd yn filwr effeithiol mewn brwydr ac eto, ar yr un pryd, yn hael at ei bobl ei hun (llau. 19, 21–2). Y mae ugain llinell olaf y gerdd fel petaent yn cyflwyno breuddwyd y bardd ar gyfer Wiliam, y *brigyn byw ... / O'r derw mawr* (llau. 45–6), a diweddir y gerdd trwy ofyn i Iesu barhau ei einioes.

Ni ellir dod i gasgliad pendant ynglŷn â dyddiad canu'r gerdd hon ond y mae'r ffaith fod y bardd yn cyfarch y noddwr fel *Maestr Wiliam* yn awgrymu nad oedd wedi ei urddo'n farchog pan ganwyd hi (gw. ll. 2n), ac felly iddi gael ei chanu cyn 1497; at hynny, y mae'r cyfeiriad at Syr Rhys ap Tomas fel un a *orfu'r ynys* (ll. 16) yn awgrymu dyddiad ar ôl brwydr Bosworth, 1485. Ni sonnir am Siân, gwraig Wiliam Herbert, a gall hynny awgrymu i'r gerdd gael ei chanu cyn iddynt briodi; byddai hynny'n cydfynd â'r argraff gref a geir mai cerdd i ŵr ifanc iawn sydd yma, gŵr sydd, efallai, newydd ddod i oed a newydd ddechrau ei brofi ei hun yn filwr a noddwr effeithiol. Gan fod Wiliam yn briod erbyn canu'r gerdd ddilynol, a chan y tybir, ar sail y cyfeiriad yno at Fwlen, i'r gerdd honno gael ei chanu ar ôl 1492, gellir cynnig yn betrus i'r gerdd hon gael ei chanu rhwng 1485 a 1492.

Er bod Wiliam Herbert yn aelod o un o'r teuluoedd Iorcaidd mwyaf dylanwadol yng Nghymru'r bymthegfed ganrif ac er iddo gymryd rhan flaenllaw ym materion gwleidyddol ei ddydd, ni chafodd yr un sylw a bri ag a gafodd rhai o aelodau hŷn ei deulu. Erbyn diwedd y bymthegfed ganrif nid oedd Rhaglan na Cholbrwg bellach ym mhrif ffrwd gwleidyddiaeth Cymru a Lloegr, fel y buont yng nghanol y ganrif gythryblus honno. Yn sgil coroni Harri Tudur a sefydlogrwydd ei deyrnasiad o'i gymharu â chythrwfl canol y ganrif, yr oedd llai o gyfle i uchelwyr uchelgeisiol fel yr Herbertiaid ymelwa mor gyflym.

Er hynny, ni ddarfu canu'r beirdd i'r Herbertiaid, un o'r teuluoedd mwyaf nodedig eu nawdd i feirdd yn y bymthegfed ganrif, a gwelir bod Wiliam ei hun, fel ei frawd, wedi parhau'r traddodiad hwnnw.¹⁷

¹⁴ Gw. y Rhagymadrodd, td. 6.

¹⁵ MWM 63.

¹⁶ Cf. ll. 17n.

¹⁷ Am drafodaeth bellach ar y canu a gadwyd i Wiliam, gw. CH i, lxiv–lxx.

- 1–10 Cyfeirir yn y llau. hyn at y galar a deimlwyd yn sgil dienyddio Syr Rhisiart Herbert, tad Wiliam, yn 1469; gw. y nodyn cefndir uchod a ll. 10n.
- 2 **maestr** Ceid hefyd y ffurfiau *meistr* a *mastr*, gw. GPC 2414, a cf. 10.2, 14.48. Y mae'r ffaith fod Wiliam yma'n cael ei gyfarch fel *Maestr Wiliam* yn awgrymu nad oedd wedi ei urddo pan ganwyd y gerdd hon (cf. y sylwadau yn GHS 2.6n). Os cywir hyn, yna canwyd y gerdd cyn 1497 pan urddwyd ef yn farchog (gw. y nodyn cefndir). Cyfarchodd Ieuan Deulwyn yntau Wiliam fel *Mastr Wiliam ... / Herbert* pan oedd yn faban yn ei grud, gw. CH i, 205 (53.31–2).
- 3 **pêl** Fe'i deallir yma yn yr ystyr ffigurol 'gwobr, camp, anrhydedd, clod', &c., gw. GPC 2721.
- 4 **Lloegr** Cyfeiriad at ran Syr Rhisiart Herbert o Golbrwg, tad Wiliam, yng ngwleidyddiaeth a milwriaeth Lloegr yng nghanol y 15g.: gw. y nodyn cefndir a ll. 10n.
- 6 Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
- 7 **Godwin** Sef Godwin, Iarll Cernyw, un o gyndeidiau'r Herbertiaid, cf. 10.25n, 28, a gw. ymhellach P.C. Bartrum: WG1 'Godwin' 1, 2, 5, 10. Ai dweud y mae'r bardd y bydd bywydau'n cael eu cwtogi ar faes y gad os yw gwaed rhyfelwr yn tarddu o rywogaeth Godwin (h.y. y mae gwŷr o linach Godwin yn rhyfelwyr effeithiol)?
- 9–10 **Mae ar darw mawr a'i darian, / Syr Rhisiart, oes, wres o'r tân** Nid yw'r arwyddocâd yn eglur: ai cyfeiriad sydd yma at liw coch (?*Gules*) ar darian Syr Rhisiart? Ymhellach ar ei arfbais, gw. y nodyn cefndir uchod. Ymddengys *tarw mawr* yn drosiad am Syr Rhisiart; cyfeirir at Wiliam Herbert, ei fab, fel *tarw* yn 10.22. Cymerir mai cyfleu natur arwrol Rhisiart a wna *tarw* yma, yn hytrach na bod iddo unrhyw arwyddocâd herodrol neu frudiol, cf. y disgrifiad o Syr Tomas ap Syr Rhosier Fychan fel *tarw o Went*, 13.55. Ar *tarw* yn y canu brud, gw. GDGor 9.57–8n.
- 10 **Syr Rhisiart** Tad Wiliam Herbert, a thrydydd mab Syr Wiliam ap Tomas a Gwladus Gam; ar Syr Rhisiart a'r canu iddo, gw. CH i, xxxix–xlvi ac *ib.* ii, 115–16; D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r Beirdd', YB xxiv (1998), 93. Priododd Syr Rhisiart â Marged, merch Tomas ap Gruffudd ap Nicolas a chwaer Syr Rhys ap Tomas. Urddwyd Rhisiart yn farchog o Urdd y Badd a chysylltir ei enw â Cholbrwg, ei gartref godidog ychydig o'r de o'r Fenni. Cydweithiodd yn agos iawn â'i frawd, Wiliam, i ddileu'r gwrthwynebiad Lancastraidd yng Nghymru, a bu'n deyrngar i Edward IV hyd at ei ddienyddiad ar ôl brwydr Banbri (neu Edgecote fel y'i gelwir gan Saeson) ym mis Gorffennaf 1469.

- 12 **dur gwyn** Cf. CH i, 217 (58.19) *Â dur gwyn y doi ar gant a'r nodyn ib.* ii, 221 lle yr awgrymir mai at arfogaeth dur disglair y cyfeirir; cf. hefyd GHD 17.24 *Dur gwyn yw dy wŷr i gyd.* Ar yr e. *dur* 'arf(au) dur', gw. GPC 1099.
- 13 **blaidd** Dichon mai cyfleu ffyrnigrwydd a dewrder yn syml yw bwriad yr e., cf. ll. 9–10n ar *tarw*.
- 14 **Urien** Urien Rheged, brenin yn yr Hen Ogledd yn y 6g. Gallai mam Wiliam, Marged ferch Tomas ap Gruffudd ap Nicolas, chwaer Syr Rhys ap Tomas (cerdd 12), olrhain ei hach drwy ei thad i Urien Rheged: gw. P.C. Bartrum: WG2 'Einion ap Llywarch' 7 (A1), P.C. Bartrum: WG1 'Einion ap Llywarch' 7, 6, 4, 1 ac *ib.* tt. 51, 11. Disgrifir Wiliam yn 10.26 fel *mab o Urien*. Fodd bynnag, oherwydd anghysonderau yn yr ach, awgryma'r Athro Ralph Griffiths y gall mai creadigaeth gan deulu Gruffudd ap Nicolas yn y 15g., neu gan ei gyndad ef, Elidir Ddu, yn y ganrif flaenorol, oedd y ddisgynyddiaeth hon, er mwyn codi statws y teulu, gw. R.A. Griffiths: RhT 8–9.
- 15 **o ryw hen Syr Rhys** Goleddfu Syr Rhys, yn hytrach na *rhyw*, a wna *hen* yma, cf. Ieuan Deulwyn yn ei gerdd i Wiliam Herbert, CH i, 206 (53.41–2), *Hyd ei ragwan at ei wregys, / Hyn sy ar with hen Syr Rhys*, a gw. *ib.* ii, 209, lle yr awgrymir mai cyfeirio a wneir at Syr Rhys Hen ap Gruffudd (*ob.* 1356), un o gyndeidiau Wiliam ar ochr ei nain, Elsbeth, gwraig Tomas ap Gruffudd ap Nicolas, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 14 a gw. 10.15n.
- 16 **nai'r frân** Y frân yma yw Syr Rhys ap Tomas (brawd Marged, mam Wiliam Herbert), a olrheiniai ei ach i Urien Rheged drwy ei dad (gw. ll. 14n), a chan hynny mabwysiadodd y teulu frain Urien ar eu harfbais. Ys dywed M.P. Siddons, DWH ii, 561, 'the words *brân* ... and *brain* ... are used by the poets to refer to members of this family, particularly to Sir Rhys ap Thomas'. Dichon mai cyfeirio at ran Syr Rhys ap Tomas ym muddugoliaeth Bosworth, 1485, a wneir yn y ll. hon. (Ymhellach ar yrfa Syr Rhys, gw. nodyn cefndir cerdd 12.)
- 17 **Maen a gâi rym yn ei grud** Am enghraifft arall o gyfeirio'n ffigurol at noddwr fel *maen*, cf. 7.15–16 *Maen bychan glân o'r gloywnaint, / Lllyna faen yn well no'i faint.* Yr oedd Wiliam Herbert, mab hynaf ac etifedd ei dad, yn faban tua dwyflwydd oed pan ddienyddiwyd ei dad ym mrwydr Banbri yn 1469, gw. y nodyn cefndir uchod.
- 20 **tefyrn** Yr oedd mwy nag un math o dafarn i'w gael yn ystod yr Oesoedd Canol, yn amrywio o'r neuadd groeso (*S. inn*), lle y cynigid llety ac adloniant ar gyfer fforddoliaeth a chrwydriaid, i dafarn (*S. tavern*), lle y ceid adloniant ysgafn fel hapchwarae, canu a phuteinio ar gyfer aelodau haenau uchaf cymdeithas, a thai cwrw (*S. alehouses*) lle y gwerthid y ddiod gadarn i'r gwrêng a'r difonedd. Yn anaml iawn y

cynigiai tafarnau lety neu wleddoedd mawr fel y ceid mewn gwestai. Yn y trefydd mwyaf byddai'r tafarnwyr blaenllaw yn fasnachwyr gwin yn ogystal. Yng nghyswllt y ll. hon, y mae'n debyg mai cyfeiriad at dafarnau fel man cyhoeddus i foneddigion sydd yma. Cymerir bod dau ymadrodd cyfochrog yn llau. 19–20: *Yn y drin ... / ... y tyfodd a da wr ei rodd / Yn y tefyrn*. Ymhellach ar dafarnau yn yr Oesoedd Canol, gw. Heather Swanson, *Medieval British Towns* (London, 1999), 13; A.C. Reeves, *Pleasures and Pastimes in Medieval England* (Stroud, 1995), 151–5.

23 **gynau** Gw. 8.8n.

25 **Sêr ... ar ei drwsiad** Ai awgrym yw hwn fod y wisg wedi ei haddurno ag aur, am fod ei gwisgwr wedi ei urddo'n farchog? Os felly, dichon mai cyfeirio a wneir at dad Wiliam, Syr Rhisiart Herbert, a enwir yn y ll. ganlynol.

26 **Syr Rhisiart Herbert** Gw. ll. 10n.

had Gw. 7.8n.

27–8 **Ei goler teg, êl o'r tŵr, / Yn aur melyn i'r milwr** Deellir y cwpled yn fynegiant o ddymuniad y bardd i weld Wiliam yn cael ei urddo (ai yn y Tŵr Gwyn?), ac felly'n cael gwisgo coler aur (cf. GPC 1257 d.g. *euro* '... urddo'n farchog trwy addurno â choler aur, &c.'). Cf. 8.23–4n, a cf. disgrifiad Hywel Dafï o'i noddwr yntau, Peniarth 67, 126 (LXXXII.41–2) *koler aur is kil yr en / a wisc hwnnw n is kennen*. Ar y coleri amrywiol a dderbynai marchogion wrth gael eu hurddo, gw. Boutell 192–204 ac yn arbennig tt. 193–4 lle y disgrifir coler aur Urdd y Gardys. Os dymuniad i weld ei noddwr yn cael ei urddo â'r goler aur honno a geir yma, cf. 10.50n. Defnyddir y f. 3 un.pres.dib. *êl* yma i fynegi dymuniad.

29 **lliw'r haul a'r lloer ...** Ai cyfeiriad sydd yma at yr haul fel symbol Iorcaidd? Mabwysiadwyd yr haul gan Edward IV ar gyfer ei fathodyn yn sgil brwydr fuddugoliaethus Mortimer's Cross, pan ymddangosodd tri haul yn yr awyr, gw. R.A. Griffiths and Roger S. Thomas, *The Making of the Tudor Dynasty* (Stroud, 1985), 52 ac *ib.* 157 lle y ceir llun o groes ac arni heuliau Iorcaidd y credir i filwyr Rhisiart III ei chludo i faes Bosworth. Yr oedd coler Iorcaidd yn cynnwys patrwm o heuliau a rhosynnau gwynion bob yn ail, gw. Boutell 192; a hwyrach fod *lliw'r ... lloer* yma'n gyfeiriad at wynder y rhosynnau.

30 **fel y iâ** Er mai y yw ffurf arferol y fannod gan y bardd o flaen i-gytsain, ceir yr weithiau, cf. 19.23 *yr Iâ*; hefyd 1.43 *y iad*, ond 8.50 *yr iad*; 8.32 *y Iesu*, ond 12.44 *yr Iesu*. Cymerir bod y bardd yma'n cyfeirio at rymuster arglwyddiaeth Wiliam: cf. *maen dros ia(en)* 'stone over ice, also fig. of a lord', GPC 2308.

- 31 **hyd Wy a Rheidiol** Cyfeiriad at ehangder awdurdod Wiliam Herbert. Sylwer bod yr orffwysfa'n disgyn ar yr ardd. *hyd* yma; cf. 11.42n. (Ond tybed a ddylid dehongli *daear hyd* i olygu 'hyd y ddaear'.)
- 33 **Môn** Gallai mam Wiliam, Marged, olrhain ei llinach i Ednyfed Fychan, sylfaenydd llinach Tuduriaid Môn, gw. td. 118.
- 34 **dwy Wynedd** Gwynedd Uwch Conwy a Gwynedd Is Conwy, cf. 15.7.
- 35–6 **Dau enw briod, un yw brân, / Eryr ...** Dichon mai 'addas, cymwys', &c., yw ystyr *priod* yma (sy'n treiglo ar ôl e. yn dilyn y rhif *dau*, gw. Treigladau 130), gw. GPC 2893. Cymerir bod y bardd yma'n rhoi dau enw symbolaidd ar Wiliam, drwy ei alw'n *frân* ac yn *eryr*: am gysylltiad Wiliam Herbert â brain Dinefwr, gw. ll. 16n a chyda'r ll., cf. 10.21–2 *Dau enw gŵr i dan y grog, / Tarw ac eryr trugarog, ac ib.n.*
- 36 **Rhaglan** Prif gartref teulu'r Herbertiaid yng Ngwent a ddaeth i'w meddiant drwy briodas gyntaf Syr Wiliam ap Tomas ag Elisabeth, merch Syr John Bluet, yn gynnar yn y 15g., gw. W.G. Lewis, 'Herbertiaid Rhaglan fel noddwyr beirdd', THSC, 1986, 35 *et passim*. Â Cholbrwg ger y Fenni (gw. ll. 52n), yn hytrach nag â Rhaglan, y cysylltir Wiliam Herbert a'i dad, Syr Rhisiart Herbert o Golbrwg (gw. y nodyn cefndir), a chan hynny y mae'n bosibl mai bwriad y cyfeiriad at Raglan (cf. 10.4) yw pwysleisio cysylltiad Wiliam â changen amlycaf y teulu a drigai yn y fan honno.
- 38 Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
- 39 **henw** Amrywiad ar *enw*, gydag *h-* anorganig, gw. Treigladau 464 a cf. 23.2, &c.; gthg. ll. 35 *enw*. Ai ar gyfer y gytseinedd y ceir *henw* yma, cf. ll. 52n? Er hynny, nid yw'r bardd bob tro yn ateb *h*.
- 40 **Ynyr Gwent** Un o reolwyr cynnar Gwent—gw. TYP² 412 a LBS iv, 363–6. A yw'r cwpled yn awgrymu bod Wiliam yn gallu olrhain ei ach ddwywaith at Ynyr Gwent?
- 41 **gwrthiau** Ffurf amrywiol ar *gwyर्थiau*, gw. GPC 1786.
- 42 **North** Sef yr Hen Ogledd neu ogledd Lloegr. Cyfeiriai *gwŷr y Nordd* at drigolion Lloegr i'r gogledd o Afon Trent, a cheid y term yn fynych am Saeson yn y daroganau, gw. GDL1 195. Cysylltir marwolaeth Wiliam Herbert, Iarll Penfro, â dichell *gwŷr y Nordd*, gw., e.e., GGI² 142 (LIII.25–6).
- 43–6 **Gwreiddyn ... / ... brigyn byw ... / O'r derw mawr** Un o'r delweddau cyffredin ond trawiadol a ddefnyddiai'r beirdd i ddisgrifio etifeddiaeth ac olyniaeth oedd sôn am wreiddiau a changhennau neu frigau'r derw, cf. DN 26 (X.11–12) *A dyvo o benndevic./ A dyf o'i wraidd hyd i vric* a gw. ymhellach y Rhagymadrodd, tt. 13–14.
- 47–8 **Afon o'r ffynnon ... / Hyd Dofr yn neutu Hafren** Hynny yw, y mae pen y ffynnon yn neutu Hafren ond y mae'r afon yn llifo hyd Ddofr. Ai

delwedd am y modd y tarddai awdurdod Wiliam o'i ystadau *yn neuu Hafren* gan ymestyn ymhell hyd at dde-ddwyrain Prydain?

- 48 **Dofr** Sef *Dover*; cyfeiria Dafydd Epynt eto ato i gynrychioli pegwn de-ddwyrainiol eithaf Prydain, cf. 12.35–6n. Gormodiaith sydd yma, bid sicr.
- 52 **hedn Aberhodni** Ffurf ar *edn* gydag *h-* anorganig yw *hedn*, a rhydd gytsenedd llawn ag *Aberhodni*; cf. ll. 39n ar *henw*. Ceir yr un ll. gan Huw Cae Llwyd HCLI 101 (XL.34). Ffurf amrywiol yw *Aberhodni* ar *Aberhonddu*, gw. I. Williams: ELI 41 ac EANC 149–54. Yr oedd Colbrwg, cartref Wiliam Herbert, yn y Fenni, ryw 30 km o Aberhonddu.

10

Dyma'r ail gywydd a ganodd Dafydd Epynt i Wiliam Herbert, etifedd y milwr grymus a dylanwadol hwnnw, Syr Rhisiart Herbert o Golbrwg, a cheir yn y cywydd hwn ddisgrifiadau o'r nerth a'r haelioni a oedd yn ddisgwyliedig gan uchelwyr y bymthegfed ganrif.¹ Cyfeirir ato fel *Mastr Wiliam* (ll. 2) a disgrifir ef ymhellach fel *mab Syr Rhisiart* (ll. 49). Holir yn llinell 41 *Pwy fydd epil Syr Wiliam*, ond dichon nad cyfeiriad at wrthrych y gerdd yw hwnnw (gw. ll. 41n). Fe'i cysylltir ymhellach â Rhaglan (ll. 4) a'i gyfarch fel *Llew garw Gwent* (ll. 12). Cyfeirir yn helaeth at gyndeidiau agos a phell Wiliam, megis Urien (ll. 26n), Caradog ab Iestyn (ll. 28n), Godwin Iarll Cernyw (ll. 28n), Einion Sais (ll. 29n) a Syr Dafydd Gam (ll. 42n), a chyfeirir yn benodol at ei briodas â Siân (ll. 37n).

Os cywir dehongli'r cyfeiriad yn y gerdd at Fwlen yn gyfeiriad at warchae ar y ddinas honno yn 1492 (gw. ll. 17n), rhydd y dyddiad hwnnw *terminus post quem* ar gyfer ei chyfansoddi. At hynny, y mae'r cyfeiriad ynddi at y noddwr fel *Mastr Wiliam* (ll. 2) yn awgrymu iddi gael ei chanu cyn c. 1497–9, gan fod Wiliam wedi ei urddo'n farchog erbyn hynny.²

1 **gwŷr gant** Sef 'cant o ddynion'.

2 **mastr** Gw. 9.2n.

Rholant Nai Siarlymaen ac arwr y gerdd Ffrangeg 'Le Chanson de Roland'. Cyfeirir ato'n aml yn y farddoniaeth fel patrwm o filwriaeth ddewr.

4 Cywesgir *bai i* yn unsill er mwyn hyd y ll.

Rhaglan Gw. 9.36n. Yn y cwpled hwn disgrifir Wiliam fel un a amddiffynnai Raglan yn ddewr yn wyneb unrhyw beryglon.

¹ Ymhellach ar Wiliam a'i deulu, gw. nodyn cefndir cerdd 9. Ceir golygiad o'r cywydd hwn yn CH i, 207–8 a ii, 210–16.

² Gw. 9.2n a nodyn cefndir y gerdd honno.

- 5 **gair byr** Llsgr. D *wyr byr*; os cywir y darlleniad hwnnw, cf. o bosibl ll. 27 *byr yw'r llin ac ib.n.*
- 6 **bradwyr** Cyfeiriad at y gelynion y byddai Wiliam yn eu dwyn i gyfiawnder drwy eu cosbi (drwy *burdan* daearol; cf. *unioni gwenwynig*, ll. 8).
Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
- 12 **llew garw Gwent** Cyfeirir yn fynych at yr Herbertiaid fel llewod, gan fod tri llew gwyn yn ddyfais ar eu harfbais; gw. nodyn cefndir cerdd 9 a cf. DWH i, 131. Yr oedd y cysylltiad rhwng yr Herbertiaid a Gwent yn gryf, a thaid Rhisiart oedd Wiliam ap Thomas, sef 'y Marchog Glas o Went', gw. D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r Beirdd', YB xxiv (1998), 78–80 ac R.A. Griffiths: PW i, 147–8. Gw. hefyd 9.36n ar *Rhaglan*.
Y mae'r ll. hon yn fyr o sillaf oni chyfrifir naill ai *garw* neu *Lloegr* yn ddeusill.
- 15 **dau Syr Rhys** Cyfeiriodd Ieuan Deulwyn yntau at *Dau Syr Rhys* yn ei gerdd i Wiliam Herbert, CH i, 205 (53.10), ac awgrymir, *ib.* ii, 208, mai at Syr Rhys Hen ap Gruffudd (*ob.* 1356) a'i fab yntau Syr Rhys Ieuan y cyfeirir. Olrheiniai mam Wiliam, Marged ferch Tomas ap Gruffudd ap Nicolas, ei llinach i Syr Rhys Hen ap Gruffudd, gw. 9.15n. Cofier hefyd fod Syr Rhys ap Tomas yn ewythr i Wiliam, sef brawd i'w fam, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Godwin' 8 (B1).
- 16 **y Fêl Ynys** Sef un o'r tri enw a roddwyd ar Ynys Prydain yn ôl y Trioedd, gw. TYP² 228 a 231 lle y ceir enghreifftiau eraill o waith y Cywyddwyr.
- 17 **Bwlen** Sef *Boulogne* yn Ffrainc, cf. TA 690. Ymddengys fod ewythr Wiliam, Syr Rhys ap Tomas, wedi cymryd rhan yng ngwarchae Harri VII ar y dref hon yn niwedd 1492, a gellir tybio bod Wiliam wedi ei ganlyn ar y cyrch hwnnw. Os felly, gellir dyddio'r gerdd hon ar ôl y flwyddyn 1492.
- 20 **mab Brân ap Dyfnan** Ni lwyddwyd i ddod o hyd i gyfeiriad pellach at Frân ap Dyfnan; dichon mai cymeriad arwrol o'r gorffennol ydyw, a bod y bardd yma'n uniaethu Wiliam â mab iddo. Ar *Dyfnan*, gw. G 412 lle y cyfeirir yn foel at enghreifftiau o'r e. yn DN 48 (XVII.45) a LBS ii, 396. Cyfeirir hefyd yn EWGT 82 ('Plant Brychan' 2(g)) at Ddyfnan fab Brychan. A oedd ganddo ef fab o'r enw Brân? Ond awgrymir yn CH ii, 211, y gall fod cymysgu yma â Brân ap Dyfnwal: am hanes Dyfnwal Moelmud a'i feibion, Brân a Beli, a'u mam, Tonwen, gw. BD 32–9, 64 a cf. GLM 385; TYP² 284.
- 21–2 **Dau enw gŵr ... / Tarw ac eryr ...** Cf. 9.35–6 *Dau enw briod, un yw brân, / Eryr eglur o Raglan*, 12.47–8 *Tri enw y dout ar un dyn, / Iarl a*

milwr, llew melyn. Cyfarchodd Ieuan Deulwyn yntau Wiliam fel eryr: *Rhyw edn hawg o Odwin hen / A chyw eryr gwyach o Urien*, CH i, 206 (53.33–4), a gwelir Dafydd Epynt yn cyfeirio yn 11.14 at Risiart Herbert fel *eryr Gwent*. Disgrifiodd Dafydd hefyd dad Wiliam, Syr Rhisiart Herbert, fel [*t*]arw mawr, 9.9. Dichon mai geiriau i gyfleu natur arwrol y noddwr yw *tarw* ac *eryr* yma, yn hytrach na bod iddynt unrhyw arwyddocâd herodrol neu frudiol.

- 21 **i dan y grog** Ffurf ar yr ardd. *tan* yw *i dan*, gw. GMW 59, 209–10 a GPC 1993 d.g. *i*⁴. Tybed ai cyfeiriad at grog enwog Aberhonddu sydd yma (ar honno, gw. 21.2n)?

Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.

- 24 **nesa' i ben** Cywasger yn deirsill er mwyn hyd y ll.

- 25 **yr iarll hen** Sef Godwin, Iarll Cernyw, un o gyndeidiau'r Herbertiaid, cf. ll. 28 a gw. 9.7n.

- 26 **mab o Urien** Ar ochr ei fam disgynnai Wiliam o Urien Rheged, gw. 9.14n.

- 27 **llew** Gw. ll. 12n.

byr yw'r llin Ai ystyr y ll. yw os bwir Wiliam (sef y *llew*) i lawr, yna bydd llinach yr Herbertiaid yn un fer? Os felly, gellir casglu nad yw Wiliam a'i wraig wedi cael plant eto (cf. ll. 41 *Pwy fydd epil Syr Wiliam* ...). Ond gw. hefyd ll. 5n.

- 28 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi.

Caradog Un o hynafiaid Wiliam Herbert, y mae'n amlwg, ond ni ellir bod yn sicr pa un. Ai Caradog ab Iestyn? Disgynnai Syr Dafydd Gam, hen daid i Wiliam ar ochr ei dad, o Einion Sais (gw. ll. 29n) a gallai gwraig gyntaf Einion, Lleucu ferch Hywel o Feisgyn, olrhain ei hach i Garadog ab Iestyn, gw. ByCy 60; P.C. Bartrum: WG1 'Iestyn' 9; LPGM 194. Neu ai Caradog Freichfras, hynaif rheolwyr Morgannwg a Brycheiniog? Arno ef, gw. J.E. Lloyd: HW³ 90 a TYP² 299–300.

Godwin Cf. ll. 25n a gw. 9.7n.

- 29 Ceir yma *bl-* yn ateb *p..l*.

epil Einion Einion Sais, a drigai yn y 13g.; yr oedd yn un o brif hynafiaid teulu'r Gambiaid, ac felly'r Herbertiaid a'r Fychaniaid, trwy briodas Gwladus ferch Syr Dafydd Gam â Syr Wiliam ap Tomas. Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 13 a ll. 28n. Ymhellach arno ef a'i ddisgynyddion, gw. R.R. Davies: LSMW 225–6. Disgrifir *epil Einion* ymhellach yn llau. 31–2.

- 30 **Annun Ddu** Ai Annun Ddu 'brenin gwlad Groeg'? Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Brycheiniog' 27; hefyd WCD 18–19. Os at Garadog ab Iestyn y cyfeirir yn ll. 28 (gw. y nodyn uchod), sylwer y rhestrir *Annun ddu*

brenin Groec fel cyndad iddo mewn fersiwn o'r 16g. o un o freninllwythau Morgannwg, gw. EWGT 114. Hanai Marchell, mam Brychan, hithau o'r un Annun Ddu, gw. *ib.* 80 ('Plant Brychan' 1).

- 31–2 **Tewach ei phryd .../ No'r graean ...** Disgrifir yma *epil Einion* (ll. 29) sy'n fwy niferus ei hymddangosiad *no'r graean* (ll. 32). Meddir ymhellach am yr epil, *da uwch Ffrainc / ... yw'r gwŷr ieuainc*, sef eu bod yn drech na'r Ffrancwyr.
- 35 **Caeriw** Yr oedd gan ewythr Wiliam, Syr Rhys ap Tomas, lys yng Nghaeriw yn sir Benfro—gw. WATU 309 ac R.A. Griffiths: RhT 247–8—lle y cynhaliodd dwrnamaint mawr yn 1506 i ddatlu Dydd Gŵyl San Siôr a'i urddo ef yn aelod o Urdd y Gardys. Yn ôl un adroddiad yr oedd Wiliam Herbert yn bresennol yn y twrnamaint hwn, gw. *ib.* 248n51. Yn sicr, canwyd y cywydd hwn rai blynyddoedd cyn yr achlysur hwnnw, ond y mae o bosibl yn ategu'r cysylltiad clòs rhwng Wiliam a brawd ei fam—tybed a gymerodd Syr Rhys ei nai dan ei adain ar ôl marwolaeth ei dad, Syr Rhisiart Herbert, ac a dreuliodd Wiliam gyfnodau yn ei gartref yng Nghaeriw? Fodd bynnag, o ystyried bod yn y ll. hon *n* berfeddgoll, a bod llsgr. D, yr hynaf, yn rhoi *keriw*, tybed a fyddai *Cernyw* yn taro'n well yma?
- rhan o Fôn** Ai cyfeiriad at y ffaith y gallai Syr Rhys ap Tomas a'i chwaer Marged, mam Wiliam Herbert, olrhain eu hach drwy eu mam, Elsbeth, i Ednyfed Fychan, sylfaenydd llinach y Tuduriaid ym Môn? Gw. nodyn cefndir cerdd 9.
- 36 **O wreiddiau rhyw Iwerddon** Yn ôl Ieuan Brechfa, hanfyddai teulu nain Wiliam, Elsbeth, o Farchudd ap Cynan ap Deorthach Wledig, gw. WCD 454.
- Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
- 37 **Siân** Gwraig gyntaf Wiliam, a merch Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Godwin' 8(B1) a 'Marchudd' 6 (B3).
- 38 **iarll Gwent** Sef Wiliam Herbert; cf. ll. 12 *Llew garw Gwent* a'r disgrifiad o'i frawd, Rhisiart, 11.14 *eryr Gwent*. Tystiodd Rhys Degannwy yntau i awdurdod Wiliam Herbert yng Ngwent, CH i, 209 (55.17–18) *Dan y gwŷr, o'i filwriaeth, / Duw gwyn, tir deau Gwent aeth*.
- 39 **urddas o Iâl** Deallir hwn yn ddisgrifiad o Wiliam. Lleolid Marchudd ap Cynan, ei gyndad ar ochr ei nain (gw. ll. 36n), yn Rhos Uwch Dulas, heb fod ymhell iawn o Iâl.
- 41 **Syr Wiliam** Os yw hwn yn gyfeiriad at Wiliam Herbert, noddwr y gerdd, y mae'n rhaid ei dyddio ar ôl 1497, sef y flwyddyn y credir iddo gael ei urddo'n farchog yn sgil brwydr Blackheath, gw. nodyn cefndir cerdd 9 uchod. Ond gan fod y bardd eisoes wedi cyfeirio at y noddwr fel *Mastr Wiliam* yn ll. 2, credir mai cyfeirio a wneir yma naill ai at Syr

Wiliam Gruffudd, tad Siân (gw. ll. 37n), neu ynteu at Syr Wiliam ap Tomas, taid Wiliam.

- 42 **Dafydd Gam** Hen daid Wiliam ar ochr ei dad, a fu farw yn 1415 ym mrwydr Agincourt, D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r Beirdd', YB xxiv (1998), 61 *et passim* a P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 20. Testun balchder i'r beirdd oedd tras yr Herbertiaid o Syr Dafydd Gam, cf. disgrifiad Lewys Môn o Wiliam Herbert, CH i, 220 (59.4) *Mawr yw'ch cyff o'r Marchog Cam*, ac eto Rhys Degannwy, *ib.* 209 (55.29–30) *'E dyfodd gair Dafydd Gam / A'i wroliaeth ar Wiliam*. Gw. D.J. Bowen, *art.cit.* 89, a td. 90 lle y dywedir, 'buasai dwyn enw Dafydd Gam ar gof yn yr awdlau a'r cywyddau mawl a marwnad iddynt [*sc.* yr Herbertiaid] a'r Fychaniaid yn achos balchder llwythol iddynt, ac yn atgoffa eu canlynwyr fod i'w teuluoedd le arbennig yng nghwrs y byd wedi methiant Owain Glyndŵr'.
- 43 **Dulyn** Dichon mai cyfeiriad sydd yma at yr helyntion a fu yn Iwerddon yn gynnar yn nheyrnasiad Harri VII ac a arweiniodd at goroni Lambert Simnel yn Edward IV yn Nulyn yn 1487. Trechwyd y gwrthryfelwyr yn fuan gan Harri mewn brwydr yn Stoke ar 16 Mehefin y flwyddyn honno. Ys dywed Dr W. Gwyn Lewis, CH ii, 212, 'yr oedd ... ewythr [Wiliam], Syr Rhys ap Tomas, yn bennaeth llu o wŷr meirch yn y frwydr, a thebygol bod Wiliam yno i'w ganlyn'. (Gw. hefyd nodyn cefndir cerdd 9.)
- 47 **gorddiwedd** Ffurf amhrs.pres.myn. y f. *gorddiweddyd* amrywiad ar *goddiweddyd*, gw. GPC 1427 d.g. *goddiweddaf*.
- 48 **Cai Hir** Cai ap Cynyr, un o farchogion Arthur, gw. TYP² 303–7.
- 49 **Syr Rhisiart** Syr Rhisiart Herbert, tad Wiliam, gw. 9.10n.
- 50 **marchog eurog o'r art** Deellir *marchog o'r art* yn amrywiad ar y cyfuniad *marchog o'r gartr* '*knight of the garter*', GPC 2357, gyda'r a. *eurog* yn disgrifio rhywun sydd wedi derbyn anrhydedd o'r fath (gw. *ib.* 1260). Y mae'r bardd yn cloi ei gerdd, felly, drwy ddymuno gweld ei noddwr yn derbyn yr anrhydedd uchaf honno. Dyma hefyd ddehongliad John Davies, Mallwyd, a gofnododd y gerdd yn Pen 100; ceir ganddo'r nodyn canlynol ar ymyl td. 43, *art, the garter, knight of the garter*. Fodd bynnag, er bod *gart* yn digwydd fel amrywiad ar *gartr*, GPC 1383, fel eg. yn unig y diffinnir *gartr* yno a chan hynny ni ddisgwylid iddo dreiglo ar ôl y fannod yma. Felly, er bod y llsgrau. i gyd yn cefnogi'r darlleniad *o'r art*, hwyrach y dylid diwygio'n *o'r gart* (a byddai hynny, o bosibl, yn cryfhau'r gynghanedd). Llai tebygol mai *art* 'dysg' yw'r gair yma, gw. *ib.* 211, ac am y gair hwnnw cf. IGE² 228 (ll. 19) *Bûm'n yr art dau drimwart derm* (ac *ib.* 402 lle y rhoddir i *art* yr ystyr 'celfyddyd, "art"').

11

Yn y gerdd hon y mae'r bardd yn cyfarch Rhisiart Herbert (1468–1539), ail fab Syr Rhisiart Herbert o Golbrwg a Marged ferch Tomas ap Gruffudd ap Nicolas.¹ Er mwyn gwahaniaethu rhyngddo a'i dad a'i gefnder, Rhisiart Herbert o Euas, cyfeirir yn gyffredin ato fel Rhisiart Herbert o Drefaldwyn, er mai yn weddol ddiweddar yn ei yrfa, ac ar ôl i Ddafydd Epynt ganu'r cywydd gofyn hwn iddo (gw. isod), y symudodd o'r De i Drefaldwyn.² Priododd Rhisiart ddwywaith, yn gyntaf â Marged, merch Gwilym ap Rhys Phylib o Lwynhywel, ac yn ail ag Ann, merch Dafydd ab Ifan ap Llywelyn Fychan o Arwystli,³ ond nid oes unrhyw awgrym ei fod yn briod pan ganwyd y cywydd hwn: i'r gwrthwyneb, awgryma'r cyfeiriadau at garu o dan lwyn o fedw (llau. 21–2) mai cerdd i ŵr ifanc dibriod yw hon.

Fel ei frawd, Wiliam Herbert, gwelir bod Rhisiart yntau yn ddyn tal fel ei dad, ac egyr Dafydd Epynt y cywydd gofyn hwn iddo drwy ei gyfarch fel *Rhisiart hir*.⁴ Ond yn ogystal ag etifeddu nodweddion corfforol ei dad, awgryma'r beirdd fod Rhisiart, fel yntau, yn rhyfelwr diarhebol o ddewr.⁵ Cafodd yrfa hynod lwyddiannus ac y mae lle i gredu iddo gael ei apwyntio yn ddirprwy-gapten castell Aberystwyth yn gynnar yn ei yrfa, a hynny, yn ôl pob tebyg, trwy ddylanwad ei ewythr, Syr Rhys ap Tomas: canodd Lewys Glyn Cothi iddo yn y cyfnod hwn a chan fod lle i gredu bod Lewys wedi tewi yn 1489 rhydd y dyddiad hwnnw *terminus ante quem* ar gyfer y gerdd honno.⁶ Rhisiart oedd y cyntaf o deulu'r Herbertiaid i gartrefu yn sir Drefaldwyn, a chredir mai yn sgil ei wneud yn dderbynnydd yn Nhrefaldwyn, Ceri a Chedewain y bu hynny; ceir y cyfeiriadau cynharaf at hyn yn 1508 a 1509.⁷ Cyfeirir at Risiart yn y cywydd hwn fel *eryr Gwent* (ll. 14) ac ymhellach fel *maer Caerllion* (ll. 20), sef Caerllion ar Wysg ym Mynwy, ac felly y mae'n debygol iddo ddarfod canu'r cywydd hwn cyn i Risiart symud i'r Gogledd. Urddwyd Rhisiart yn farchog ar 13 Hydref 1513,⁸ ond gan na chyfeirir ato fel Syr yn y cywydd hwn, awgryma Dr W. Gwyn Lewis iddo

¹ Ar ganu Dafydd Epynt i Wiliam Herbert, brawd Rhisiart Herbert, gw. cerddi 9 a 10 uchod; am drafodaeth bellach ar achau'r teulu, gw. nodyn cefndir cerdd 9. Ceir golygiad o'r cywydd hwn yn CH i, 242–3 a ii, 252–3.

² Am astudiaeth o yrfa Rhisiart Herbert, gw. W.R.B. Robinson, 'Sir Richard Herbert (d. 1539) of Montgomery', *Mont Coll lxxxvii* (1999), 91–110, ac *ib. lxxxviii* (2000), 1–23.

³ P.C. Bartrum: WG2 'Godwin' 8(B2); W.R.B. Robinson, *art.cit.*, *Mont Coll lxxxvii* (1999), 95, 100.

⁴ Cf. hefyd GLGC 260 (115.3) y *Maestr Rhisiart Herbart hir*.

⁵ CH i, lxxiv–lxxv.

⁶ GLGC xxiii, 260 (115.1–10) a gw. CH i, lxxii a W.R.B. Robinson, *art.cit.* 93–5.

⁷ CH ii, 237; am grynodeb o'i yrfa, gw. *ib.* 237–9 a ByCy 326.

⁸ Gw. Eurys I. Rowlands, 'Syr Rhisiart Herbert o Drefaldwyn', LICy iv (1956–7), 116; GLM 516 a CH ii, 237; W.R.B. Robinson, 'Knighted Welsh Landowners, 1485–1558: A provisional List', *Cylch HC xiii* (1986–7), 296.

gael ei ganu cyn y flwyddyn honno.⁹ Codwyd y gerdd hon gan Ddafydd Epynt ei hun i lawysgrif Pen 55 a ddyddir c. 1500,¹⁰ yn union o flaen ei destun o gerdd 9, sef ei gywydd mawl cyntaf i Wiliam Herbert. Tybed, felly, nad i'r un cyfnod â'r cywydd hwnnw y perthyn y gerdd hon, sef wythdegau neu ddechrau nawdegau'r bymthegfed ganrif?

Yr oedd Rhisiart, fel ei frawd Wiliam, yn noddwr pwysig i feirdd a chadwyd yn y llawysgrifau gerddi iddo gan Lewys Glyn Cothi, Tudur Aled, Lewys Môn, Ieuan Dyfi, Rhys Nanmor a Lewys Morgannwg.¹¹

Neilltuir hanner cyntaf y gerdd hon i foli Rhisiart, gan gyfeirio'n benodol at ei linach. Yna yn llinell 23 try'r bardd i drafnod prif bwnc y gerdd, sef ei gais am fantell, gan gwyno bod y wisg y mae wedi bod yn ei gwisgo yn rhy gwta iddo (*Rhy fychan ... / A fu drosof o drwsiad*, llau. 23–4), a nodi ymhellach fod y gynau y mae wedi bod yn eu derbyn gan noddwyr yn gyfnewid am ei farddoniaeth hefyd yn rhy fyr (llau. 35–6). Ond gan fod Rhisiart Herbert yn ŵr tal (llau. 1, 31–2), y mae ei fantell ef yn gorchuddio *dyn i gyd* (ll. 32), ac felly cais Dafydd Epynt yw fod Rhisiart yn rhoi ei fantell ef iddo yn gyfnewid am ei gerdd, *Dyro am wawd ar 'y min / ... ym y pilyn* (llau. 33–4). Awgryma hyn, wrth gwrs, fod Dafydd Epynt ei hun yn ŵr talach na'r cyffredin, a dysgwn hefyd, mewn olnod i gerdd arall ganddo (gw. cerdd 15 isod), ei fod hefyd yn ŵr trwm.

Celfydd iawn yw'r modd y mae'r bardd yn gwau i'r cais hwn am fantell gyfeiriadau at chwedl am fantell chwedlonol. Ar ôl cyfeirio at ŵn hir Rhisiart, cwyna Dafydd *Ni chefais i fal rhiain / ... un o'r rhain* (llau. 37–8). Dichon mai'r *rhiain* dan sylw yma yw Tegau Eurfron, yr oedd ei mantell yn un o 'Dri thlws ar ddeg Ynys Prydain'. Prif fyrdwn y chwedl hon, y ceir amrywiol fersiynau ohoni, yw fod y fantell yn ymddangos yn llaes am ferch ddiwair ond na chyrhaeddai fawr pellach na phenliniau merch anniwair (llau. 37–8). Yn ôl un fersiwn o'r chwedl, pan fu'n rhaid i Degau wisgo'r fantell hon i brofi ei diweirdeb yn llys Arthur, cyrhaeddai at y llawr. Yn ogystal ag amlygu'r ffaith fod ar Ddafydd eisiau gwisg laes yn hytrach nag un gwta, y mae'n bosibl ei fod wrth gyfeirio at y chwedl hon am ddarbwylllo Rhisiart Herbert o'i ffyddlondeb yntau iddo ef.¹²

Dyma'r gyntaf o ddwy gerdd ofyn a gadwyd i ni gan Ddafydd Epynt,¹³ y ddwy ohonynt yn gofyn am fentyll. Fel y dengys astudiaeth Dr Bleddyn O.

⁹ CH ii, 252.

¹⁰ Gw. td. 209.

¹¹ Trafodir y canu i Risiart Herbert yn CH i, lxxi–lxxxii a cheir golygiad o gerddi a ganwyd iddo yn *ib.* 230–56 (cerddi 62–70) ac yn GSC cerdd 21.

¹² Cyfeiriodd Gwilym ab Ieuan Hen at yr un chwedl wrth ganmol mantell laes ei noddwr yntau, GDID 94 (XII.37–44) *Tebyg, wŷr Feurig, farwn, / Yw dy bais, o dyb a wn, / I fantell, pes dyellynt, / Ti a gai gerdd, Tegau gynt; / Yn amser rhi Caerllion / Prif oed dydd y profwyd hon: / Ber oedd i bawb, ber heb au, / A digon llaes i Degau.*

¹³ Gw. hefyd gerdd 19.

Huws, yr oedd cywyddau yn gofyn a diolch am glogau, ffalingod a gynau yn gyffredin yn y cyfnod hwn.¹⁴

- 1–2 **asur teg / O gylch mwnwgl a'ch maneg** Cymerir mai cyfeirio a wna'r bardd at gadwyn fetel las a wisgid gan Risiart Herbert am ei wddf a'i faneg. Cysylltid asur yn benodol ag arfwisg yr Herbertiaid: meddai Dafydd Epynt mewn awdl i Siôn Fychan o Dretŵr, *Asur a enwais ar ryw Einion* (14.40), gan gyfeirio at linach Einion Sais y tarddai'r Herbertiaid a'r Fychaniaid ohoni. Gelwid Syr Wiliam ap Tomas, sylfaenydd effeithiol llinach yr Herbertiaid a thaid Rhisiart, yn 'Farchog Glas o Went'; a chyfeiriodd Llywelyn ab y Moel at ran o wregys o liw asur a dderbyniodd Rhys Goch gan Syr Wiliam, gw. GSCyf 16.32n. Ymhellach ar arfwisg yr Herbertiaid, gw. nodyn cefndir cerdd 9.
- 1 **Rhisiart hir** Ymddengys fod Rhisiart Herbert a'i frawd Wiliam yn dal fel eu tad; gw. ymhellach y nodyn cefndir.
- 5–6 **a'i foliant / ... a feirw gan dant** Awgrym fod canu mawl byrlymus y beirdd i Risiart yn cael ei ddatgan i gyfeiliant telyn o ryw fath; cf. 19.25n, 48.
- 5 **ŵyr i filwr** Dichon mai cyfeiriad sydd yma at Risiart fel ŵyr i Syr Wiliam ap Tomas, y 'Marchog Glas o Went', ei daid ar ochr ei dad; gw. W.G. Lewis, 'Herbertiaid Rhaglan fel noddwyr beirdd', THSC, 1986, 34–6. Ond fel y gwelir yn 3.2n gallai *ŵyr* hefyd olygu 'disgynnydd' yn gyffredinol, ac o gystrawennu llau. 7–8 ynghyd, gellid cymryd mai disgrifiad o Risiart fel disgynnydd o Forgan (gw. ll. 6n) sydd yma.
- 6 **Morgan** Ni wyddys i bwy y cyffelybir Rhisiart yma.
- 8 **Llywelyn** Sef, yn ôl pob tebyg, Llywelyn tad Dafydd Gam, a enwir yn y ll. nesaf.
- 9 **Dafydd** Sef Syr Dafydd Gam, hen daid Rhisiart, gw. 10.42n.
- 10 **A dyf yn goed fwy no gwŷdd** Delwedd drawiadol i ddisgrifio mawredd y llinach—fel y mae coed yn uwch na gwŷdd (sef 'llwyni' yma, y mae'n debyg, gw. GPC 1753 d.g. *gwŷdd*¹), felly y mae'r teulu hwn yn uwch na thelueodd eraill. Am enghraifft arall o gyffelybu twf llinach i dwf coed, cf. 9.43–6n. Posibilrwydd arall yw cymryd mai mwy niferus, yn hytrach na mwy o ran maintioli, yw ergyd *mwy no gwŷdd* yma; cf. yr ymadrodd *rif y gwŷdd*, 18.21n.
- 12 **Rhif y dail ar wiail ir** Cf. isod, llau. 43–4n.

¹⁴ Bleddyn O. Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350–c.1630* (Caerdydd, 1998), 236–8; am drafodaeth, gw. hefyd tt. 3–6, 67, 215.

- 13–14 **Mawr y cred y cyffredin / Yt ...** Mewn Cym.C. rhoddir y sawl y credir ynddo yn gyffredin dan reolaeth yr ardd. *i*, gw. GPC 586.
- 14 **eryr Gwent** Gan fod Dafydd Epynt yma'n cysylltu Rhisiart â Gwent (cf. 10.12, lle y gelwir Wiliam Herbert yn *Llew garw Gwent*), ac yn ei ddisgrifio ymhellach fel *maer Caerllion* (ll. 20), a chan na chyfeirir o gwbl at Drefaldwyn, cesglir bod y gerdd hon wedi ei chanu cyn iddo symud i'r Gogledd. Gw. ymhellach y nodyn cefndir.
- 15 **i'th law di** Sef 'dan dy awdurdod di'; ar *llaw* 'awdurdod, rheolaeth', &c., gw. GPC 2104 d.g. *llaw*¹.
- 17 **'ll dau** Y ddwy rinwedd a enwir yn ail fraich y cwpled, sef [g]air a [g]wybodau Bedwyr. Am y syniad, cf. 12.3–4 *Deall a dawn, Duw, ill dau*, / *A'r synnwyr sy o'i enau*.
- 18 **Bedwyr** Un o farchogion Arthur, y cofir amdano yn y farddoniaeth fel milwr glew; yn chwedl 'Culhwch ac Olwen' dywedir ei fod yn un o wŷr tecaf Ynys Prydain ac mai ef fyddai'r cyntaf i glwyfo'r gelyn ar faes y gad, er mai un llaw yn unig a oedd ganddo, gw. TYP² 279–80. Cymharodd Tudur Aled yntau Risiart Herbert â Bedwyr: gw. TA 246 (LXI.69).
- 20 **maer Caerllion** Yr oedd gan Arthur lys yng Nghaerllion ar Wysg, gw. ll. 48n, ac y mae'n bosibl fod y bardd yma yn uniaethu Rhisiart â'r arwr hwnnw o'r gorffennol.
- 21 **Gwynedd** Ni wyddys am unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng Rhisiart a Gwynedd, ond gw. 10.35n ar *Môn*. Hefyd, erbyn diwedd y 15g. yr oedd Rhisiart yn ffigur pwerus iawn a'i ddylanwad, yn ôl ei orwyr, Edward, Arglwydd Herbert o Lanffynhonwen, yn eang ledled Cymru. Gw. CH ii, 238; ByCy 326.
- 26 **cyd yw rhisg â'r coed** Cymerir mai 'cyhyd â' yw ystyr *cyd ... â* yma, gw. GPC 658 d.g. *cyd*²; h.y., y mae rhisgl y coed yn eu gorchuddio i gyd.
- 27–8 Yr awgrym yw fod adenydd aderyn yn ei gadw'n glyd, ond na all dyn wneud dim i rwystro'r glaw rhag disgyn arno ef.
- 29 Ceir crych a llyfn yn y gynghanedd sain hon.
- 31 **Dy arrau di o wryd** Ar *garrau*, ffurf l. *gar* 'coes', gw. GPC 1380 d.g. *gar*¹. Dichon mai 'hyd, taldra, maintioli' yw ystyr *gwryd* yma, yn hytrach na 'gwroldeb, dewrder, gwrhydri', &c.; gw. GPC 1740. Cyfeiriad sydd yma eto at daldra Rhisiart: yr oedd ei fantell ef yn arbennig o hir gan ei bod yn ei orchuddio i gyd, gw. ll. 32n.
- 32 **Dy ŵn a gudd dyn i gyd** Mantais derbyn gŵn gan Risiart oedd ei bod hi'n llaes; yn y gorffennol dywed y bardd iddo dderbyn mentyll a oedd yn rhy fyr iddo yn gyfnewid am ei farddoniaeth, llau. 35–6. Y mae hyn yn awgrymu bod Dafydd Epynt ei hun yn wŷr tal.

- 35 **amgen waith** ‘Tro arall, gwahanol adeg, rhyw dro, rhyw bryd, un tro’, yma’n adferfol, gw. GMW 44.
- 37–8 **Ni chefais i fal rhaiin / ... un o’r rhain** Ar ôl cyfeirio at fantell laes Rhisiart, cwyna’r bardd nad yw ef wedi derbyn mantell gyffelyb (*un o’r rhain*) fel y gwnaeth *rhaiin* yn y gorffennol: mantell a oedd yn *hanner hir* a dderbyniodd ef. Y mae’n dra thebygol mai cyfeiriad sydd yma at chwedl mantell Tegau Eurfron, mantell a restrir ymhlith ‘Tri thlws ar ddeg Ynys Brydain’. Yn nhestun Thomas Wiliems o’r chwedl honno yn Pen 77, 213–15 (dyfynnir o Graham C.G. Thomas, ‘Chwedlau Tegau Eurfron a Thristfardd, Bardd Urien Rheged’, B xxiv (1970–2), 4), meddir amdani *mantell degaû eûrvron, ni wasanaethai ir neb a dorrai i briodas nai morwyndod, ac yr neb y byddai lan yw gwr y byddai hyd y llawr, ac ir neb a dorrai i briodas ni ddoe hyd i harffed ...* Felly, mantell i brofi diweirdeb oedd hon. Mewn rhai fersiynau o’r chwedl cysylltir Tegau a’r fantell ag Arthur a’i lys (cf. y dyfyniad o waith Gwilym ab Ieuan Hen yn nhroednodyn 12 y nodyn cefndir), ac o ystyried y cyfeiriadau yn y gerdd hon at Arthur (ll. 48) a Chaerllion (ll. 20), y mae’n bosibl mai dyna a oedd ym meddwl Dafydd Epynt yntau. Ymhellach ar Degau Eurfron a’i mantell, gw. TYP² 512–14; P.C. Bartrum, ‘Tri Thlws ar Ddeg Ynys Brydain’, *Études* x (1963), 441, 473; Eurys I. Rowlands, ‘Y Tri Thlws ar Ddeg’, *LICy* v (1958–60), 66–8; Graham C.G. Thomas, *art.cit.* 1–9. Yn ogystal â defnyddio’r chwedl i amlygu’r ffaith mai gwisg laes y mae’n dymuno ei derbyn, dichon fod y bardd hefyd am awgrymu bod llaester y fantell ar ei gwisgwr yn arwydd o’i ffyddlondeb (boed hynny’n ffyddlondeb y bardd i’w noddwr neu ynteu ffyddlondeb y noddwr i’w fardd).
- 39–40 **Gwell yw no mantell am wan / Gŵn llaes ac yn lle hosan** Dywed y bardd fod y fantell y mae’n gobeithio ei derbyn gan Risiart yn llaes ac yn gorchuddio ei goesau i gyd, ac yn well, felly, na’r mentyll *hanner hir* (ll. 38) y mae’n rhaid gwisgo hosanau gyda hwy. Sonnir am wahanol fathau o hosanau Cymreig (*hosanau mawr* a *hwsiaws*) a geid mewn cyfnod cynharach yn Heather Rose Jones, *Medieval Welsh Clothing to 1300* (Oakland, California, 1993), 7 a 24.
- 42 Gwan yw cynghanedd y ll. hon gan fod yr orffwysfa yn disgyn ar yr ardd. *ar*, cf. 9.31.
- 43–4 **Deilog wyt ti fal gwaiail, / Ni allai ddyn well ei ddail** Cyfeiriad ffigurol at dylwyth niferus Rhisiart; cf. y disgrifiad o Forgan ap Syr Dafydd Gam, 5.20 *Llyna ddyn yn llawn o ddail*.
- 45 **iarll** Gallai gyfeirio’n gyffredinol at ‘wr o fonedd’ yn ogystal ag at ‘iarll, *earl*’ yn benodol, gw. GPC 2001 a GST ii, 33.
- â lliw ederyn** Ai lliw asur, un o’r lliwiau ar arfbais y teulu? Gw. ll. 1–2n.

- 46 **dy gorff, du a gwyn** Dichon mai cyfeiriad herodrol sydd yma; ceid tair brân ar arfbais teulu mam Rhisiart, a thri llew gwyn ar arfbais teulu ei dad, gw. DWH ii, 228 a nodyn cefndir cerdd 9.
- 48 Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
Arthur Arwr chwedlonol, gw. TYP² 274–7. Lleolid un o'i brif lysoedd yng Nghaerllion ar Wysg, a chan y cyfeirir at Risiart fel *maer Caerllion* yn ll. 20, y mae'n bosibl fod y bardd yn awyddus i ni uniaethu Rhisiart a'i lys ag Arthur a'i lys yntau. Ymhellach ar lys Arthur yng Nghaerllion, gw. TYP² 223–4; DN 1 (I.15–16) *Y wledd a gad yn adail / Llion ar Wysc, llyna'r ail*. Cysylltir y chwedl am Degau hefyd ag Arthur mewn rhai ffynonellau, gw. llau. 37–8n.
- 51 **celli** Sef man i garu â merch. Am drafodaeth ar arwyddocâd y goedwig ym marddoniaeth Gymraeg y Canol Oesoedd, gw. M.T. Davies, '“Aed i'r coed i dorri cof”': Dafydd ap Gwilym and the Metaphorics of Carpentry', CMCS xxx (Winter 1995), 67–85; David Johnston, 'The serenade and the image of the house in the poems of Dafydd ap Gwilym', *ib.* v (Summer 1983), 1–19.

12

Fel yn achos y cerddi eraill sydd yn llaw Dafydd Epynt, nid oes teitl i'r gerdd hon yn y llawysgrif: egyr drwy ddisgrifio ei noddwr fel un sy'n perthyn i *Rhyw Niclas hir* (ll. 1), a chyfeirir ato deirgwaith fel Syr Rhys (llau. 14, 30, 44); sonnir hefyd am Domas a ymladdai yn ddewr yn y gorffennol gan awgrymu bod Syr Rhys yn rhagori arno (llau. 7–10). Ar sail hyn, cymerir mai cywydd yw hwn i Syr Rhys ap Tomas (c. 1449–1525),¹ trydydd mab Tomas ap Gruffudd ap Nicolas.² Yr oedd Syr Rhys yn frawd i Farged, mam Wiliam a Rhisiart Herbert, ac awgryma'r cysylltiad clòs rhyngddo a'i nai y gallai fod wedi cymryd Wiliam dan ei adain wedi iddo golli'i dad, Syr Rhisiart Herbert, ac yntau fawr mwy na baban.³ Y mae'n bosibl mai'r cyswllt hwn a ddaeth â Dafydd Epynt i gysylltiad â Syr Rhys ap Tomas, o gofio bod cartrefi Syr Rhys yn siroedd Caerfyrddin a Phenfro ychydig y tu allan i gylch clera arferol y bardd.

Bu Syr Rhys yn noddwr hael iawn i'r beirdd: ys dywed yr Athro Ralph A. Griffiths, 'Sir Rhys's household acted as a magnet for a large and talented group of Welsh poets who were attracted especially by the reputation of the knight himself.'⁴ Ymhlith y rhai a ganodd iddo yr oedd Dafydd Llwyd o

¹ Felly hefyd NBSG 107.

² P.C. Bartrum: WG2 'Einion ap Llywarch' 8. Ymhellach ar Rys ap Tomas, gw. ymdriniaeth drylwyr R.A. Griffiths: RhT a hefyd R.A. Griffiths: PW i, 162 a David Rees, *Sir Rhys ap Thomas* (Llandysul, 1992).

³ Gw. ymhellach nodyn cefndir cerdd 9.

⁴ Ralph A. Griffiths: RhT 81, ac ymhellach 81–6.

Fathafarn, Huw Cae Llwyd, Guto'r Glyn, Ieuan Deulwyn, Tudur Aled a Lewys Glyn Cothi, a chredir mai Rhys Nanmor oedd ei fardd teulu yn Ninefwr.⁵

Taid Rhys, Gruffudd ap Nicolas, a fu'n gyfrifol am ddwyn y gangen hon o'r teulu i'r amlwg drwy gymryd prydles ar arglwyddiaeth Dinefwr yn 1439–40 a chrynhoi i'w ddwylo swyddi gweinyddol allweddol yn llywodraeth tywysogaeth y De, fel dirprwy i'r arglwyddi o Saeson absennol.⁶ Tomas (*ob.* 1473–4) oedd mab ieuengaf Gruffudd a phriododd ag Elsbeth ferch Syr Siôn Gruffudd o Abermarlais a Llansadwrn yn sir Gaerfyrddin a thrwy ei fam etifeddodd Rhys Abermarlais yn ogystal ag ystadau'r teulu yn siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin.⁷ Yr oedd Elsbeth yn ddisgynydd uniongyrchol i Ednyfed Fychan ac felly, trwy ei fam, gallai Rhys ap Tomas arddel perthynas waed â Harri a Siasbar Tudur.⁸

Bu teulu Gruffudd ap Nicolas yn gefnogol i'r achos Lancastraid yng Nghymru er canol y bymthegfed ganrif, ond pan enillodd yr Iorciaid y frwydr yn Mortimer's Cross yn 1461 a choroni Edward IV yn frenin, bu trai ar awdurdod Tomas ap Gruffudd a'i deulu, tra cynyddai grym Wiliam Herbert o Raglan, yr Iorcydd selog. Cilioodd Tomas a'i fab ifanc Rhys i alltudiaeth yn llys Dug Philip ym Mwrgwyn gyda Lancastraid alltud eraill, cyn dychwelyd yn gynnar yn y saithdegau.⁹

Yn fuan wedi iddynt ddychwelyd o Ffrainc daeth tro sydyn ar ffawd Rhys yn sgil marwolaeth ei dad a'i ddau frawd hŷn, ac etifeddodd yntau ystadau eang yn y Deheubarth a'i sefydlu ei hun yn arglwydd yn Abermarlais yng nghwmwd Maenordeilo yn y Cantref Mawr. Cofnodwyd ei fod yn ffermio maenorau Abermarlais, Llansadwrn a Llanrhystud yn y blynyddoedd 1485–9.¹⁰

Ymddengys fod Rhys wedi dod i gyswllt â Harri Tudur pan oedd Harri yn alltud yn Llydaw: tybir ei fod wedi cysylltu â theulu Dinefwr i geisio'u cymorth, fel yr esboniodd yr Athro Ralph A. Griffiths, 'He ... may have sought the support of Rhys's family, by attracting their erstwhile Lancastrian sympathies to the Tudor cause.'¹¹ Y mae'n bosibl fod Rhys wedi cynorthwyo ei gefnder pan laniodd yn Aberdaugleddau yn 1485, cyn ymuno ag ef yn ymyl y Trallwng gyda'i wŷr arfog.¹² Pan gyfarfu Harri â Rhisiart III ar faes Bosworth ar 22 Awst y flwyddyn honno, yr oedd Rhys yn

⁵ Am drafodaeth ar y cerddi a ganwyd i Syr Rhys ap Tomas, gw. NBSG 107–40.

⁶ R.A. Griffiths: PW i, 143.

⁷ R.A. Griffiths: RhT 16, 28, 61 *et passim*.

⁸ Gw. ll. 22n. Pwysleisiodd Lewys Glyn Cothi y berthynas hon yn ei awdl foliant i Syr Rhys ap Tomas, GLGC 45–7 (cerdd 15). Ymhellach ar ddisgynyddiaeth Syr Rhys ap Tomas a'i chwaer Marged o Urien, gw. 9.14n.

⁹ R.A. Griffiths: RhT 29, 37 *et passim*.

¹⁰ R.A. Griffiths: PW i, 162.

¹¹ R.A. Griffiths: RhT 38.

¹² *Ib.* 42.

un o brif arweinwyr byddin Harri, ac y mae lle i gredu mai ef yn wir a laddodd Risiart III.¹³ Dridiau ar ôl y frwydr gwnaeth Harri ef yn farchog,¹⁴ a derbyniodd lu o swyddi a breintiau eraill yn y De.¹⁵ Bu'n arweinydd milwrol gwerthfawr i'r brenin yn ystod ei deyrnasiad, gan arwain, er enghraifft, lu o wŷr meirch ym mrwydr Stoke, 1487, pan orchfygwyd yr ymhonnwr Lambert Simnel, a chymryd rhan yn yr ymgyrch yn erbyn Bwlen yn Ffrainc ym mis Hydref 1492 ac yn erbyn y gwrthryfelwyr o Gernyw ym mrwydr Blackheath yn 1497.¹⁶ Fe'i gwnaethpwyd yn Ustus de Cymru yn 1502 ac, yn goron ar ei yrfa, fe'i dyrchafwyd yn farchog o Urdd y Gardys yn 1505.¹⁷ Bu farw yn 1525 a'i gladdu yng Nghwrt y Brodyr Llwydion yng Nghaerfyrddin; ac wedi diddymiad y mynachlogydd, symudwyd ei fedd i Eglwys Sant Pedr yn y dref honno.¹⁸

Cyfeirir deirgwaith yn y gerdd hon at y noddwr fel Syr Rhys, sy'n brawf mai ar ôl 1485 y'i canwyd. Ategir hynny gan y cyfeiriad yn llinellau 39–40 at ŵr o Wynedd yn gwisgo coron Llundain (sef Harri Tudur). Fodd bynnag, nid oes modd gwybod ymh'le y canwyd y cywydd, ond yr oedd gan Syr Rhys nifer o gartrefi lle y noddai feirdd; ys dywedodd G.J. Williams, 'Am gyfnod bu llys Syr Rhys ap Tomas yn Abermarlais a'r Drefnewydd a Chaeryw a Chastellnewydd Emlyn yn ganolfan bywyd llenyddol Cymru.'¹⁹

Nid yw'r gerdd hon yn hawdd ei deall, yn bennaf oherwydd ei chyfeiriadaeth dywyll. Y mae ynddi hefyd fotifau a chyfeiriadau o ganu brud, yn enwedig llinellau 27–38. Un o themâu mawr y canu hwnnw oedd y gobaith o weld Cymro yn gwisgo coron Llundain, ond erbyn canu'r cywydd hwn gwiredwyd y freuddwyd honno gan fod Harri Tudur, a olrheiniai ei linach i Duduriaid Penmynydd ym Môn, wedi ei goroni; ys dywed y bardd, *Coron Lundain fain neu fwy / A wisg Gwynedd Is Conwy* (llau. 39–40).

- 1 **Niclas** Sef hen daid Rhys ar ochr ei dad, gw. y nodyn cefndir a'r ach, td. 118. Yr oedd Niclas hefyd yn enw ar nawddsant morwyr, ac y mae'n bosibl fod hynny'n berthnasol yma o ystyried y cyfeiriad at y môr yn ll. 2.

¹³ *Ib.* 43. Y mae Guto'r Glyn yntau yn dyst i ran Syr Rhys ym muddugoliaeth Harri Tudur, *Cwncweroedd y King Harri / Y maes drwy nerth ein meistri ni*, GGI² 264 (CI.35–6).

¹⁴ Gw. W.R.B. Robinson, 'Knighted Welsh Landowners, 1485–1558: A provisional List', *Cylchg HC* xiii (1986–7), 288: cafodd ei wneud yn farchog ar 25 Awst 1485 (ar ôl brwydr Bosworth); yn 'knight-banneret', 17 Mehefin 1497 (ar ôl brwydr Blackheath), ac yn farchog o Urdd y Gardys, 22 Ebrill 1505.

¹⁵ R.A. Griffiths: RhT 45–6.

¹⁶ *Ib.* 47–8.

¹⁷ *Ib.* 49–50; cf. NBSG 106, 'Dyma uchafwynt ei rym gwleidyddol a gweinyddol yn y dywysogaeth; cynhaliai lysoedd, gallai apwyntio pob swyddog ac eithrio'r siambren, a disgwyliid iddo warchod buddiannau'r brenin a chodi byddin mewn achos o argyfwng.'

¹⁸ NBSG 139.

¹⁹ TLIM 55.

- hir** Dichon mai cyfeirio at daldra nodedig Niclas a wna *hir* yma; ond gallai hefyd oleddfu *rhyw* 'llinach' (gydag ystyr megis 'yn ymestyn yn ôl yn bell'), neu, a chymryd *rhyw Niclas* yn ddisgrifiad o Rys ap Tomas ei hun ('[un o] linach Niclas'), gallai fod yn gyfeiriad at daldra Rhys.
- 5 **Lleu** Am *lleu* fel e. ac a. 'golau, disgleirdeb; disglair' (ac o bosibl 'tir agored'), gw. GPC 2166 d.g. *lleu*¹. Ond, o ystyried y cyfeiriad at *wayw* yn y ll. hon ac ymhellach at *Llaw ddewr* yn y ll. ddilynol, awgrymir mai cyfeiriad sydd yma at Leu Llaw Gyffes, y cymeriad o bedwaredd gainc y Mabinogi a oedd yn enwog am ei hyfedrwydd yn taflu gwaywffon, gw. PKM 276 a TYP² 420–2. Fodd bynnag, y mae'n rhaid cydnabod mai prin iawn yw'r cyfeiriadau at Leu gan y beirdd.
- 6 **euro** O bosibl yn yr ystyr 'urddo'n farchog', gw. GPC 1257 a cf. 9.27–8n; cyfeirir deirgwaith yn y gerdd at Rys fel *Syr Rhys*, a gwyddys iddo gael ei urddo yn 1485 yn sgil ei ddewrder ar faes Bosworth (gw. ymhellach y nodyn cefndir).
- 7 **ynys** Dichon mai 'talaith, gwlad, teyrnas' yw'r ystyr yma, cf. GGrG At.i.32n a gw. Thomas Jones, 'Teir ynys Prydein a'e their rac ynys', B xvii (1956–8), 268–9. Awgrymir yn llau. 7–8 fod tad Syr Rhys, Tomas, wedi ennill un *ynys*, sef Lloegr (a Chymru) y mae'n debyg, tra bo Syr Rhys ei hun, meddir yn llau. 9–10, yn abl i ennill *dw y ynys*, sef *Lloegr a Ffrainc*, gw. ll. 9n.
- 8 **Tomas** Tomas ap Gruffudd ap Nicolas, tad Rhys, gw. y nodyn cefndir ac am grynodedb o'i yrfa, gw. R.A. Griffiths: PW i, 154–5.
- y maes a gâi** Ar yr ymadrodd *cael y maes* 'to vanquish, overcome', gw. GPC 387; cf. *ennill y maes* 'to win the field, win the day, be victorious', *ib.* 1216.
- 9–10 **Lladd ... / ... allai gorff Rhys** Dehonglir y cwpled yn gyfeiriad at allu milwrol Rhys, gw. y nodyn cefndir. Y mae'r cyfuniad *corff Rhys*, ll. 10, yn annisgwyl ond fe'i deallir yn gyfeiriad at gryfder corff Rhys: honnir y gallai Rhys, pe dymunai, goncro Lloegr a Ffrainc. (Ni cheir *corff* yn yr ystyr 'mintai' tan yr 17g. yn ôl tystiolaeth GPC 559.)
- 9 **y ddwy ynys** Sef *Lloegr a Ffrainc*, meddir yn ll. 10. Dichon fod *Lloegr* yn cyfeirio at Brydain oll, cf. ll. 52n isod.
- 11 **aelod** Deallir hwn yn gyfeiriad trosiadol am dad Rhys a enwyd yn ll. 8; cyfeirir at Rys fel disgyddydd iddo (*ail*) yn y ll. ganlynol: y ddau ohonynt yw'r [*b*]uail (gw. ll. 12n).
- 12 **da 'muail a dwg** Deallir *buail* yn ffig. am 'arglwyddi' (gw. GPC 342). Gellir deall *dwg* yn ffurf amrywiol ar *dug*, gw. GPC 1098 (er na chofnodir y ffurf hon yno; ceir amrywiol ffurfiau ar yr e. mewn S.C., e.e. *duc*, *duik*, *duke*, *deuk*, *douk*, *douc*, *doik*, *dok*, *doc*, *duck*, *dukke*, *dug*, *dux*, gw. MED d.g.). Fel yn achos *iarll*, gw. 11.45n, gall y ffurf gyfeirio

at arweinydd neu bennaeth yn gyffredinol yn ogystal ag at 'ddug'. Ond ceir gwell ystyr o'i ddeall yn ffurf dreigledig *twg*, sef 3 un.pres.myn. y f. *tygio* 'tycio'; os felly, gellid aralleirio'n fras: 'da yw fy arglwyddi sy'n addas imi'.

- 17 **Deau 'n ei law** Fel y gwelir o'r nodyn cefndir, daliai Rhys nifer o swyddi allweddol yn siroedd Caerfyrddin, Aberteifi a Phenfro.

dan haul aeth Dichon mai'r ystyr yw fod y deau drwyddo draw dan lywodraeth Rhys megis dan dywyniad haul.

- 19 **Had hëir hyd Wlad yr Haf** Ar ddefnydd ffigurol *had* yma, gw. 7.8n, ac am y syniad o 'hau had', cf. 16.45 *Ni chad dy had di ei hau*. Dichon fod y bardd yma'n tynnu sylw at ehangder cyffredinol gwasgariad teulu Rhys. Ond tybed a oes yma gyfeiriad mwy penodol? Fel y gwelwyd, perthynai Harri Tudur i'r un llinach â Syr Rhys, ac yr oedd mam Harri, Marged Beaufort, yn ferch i John Beaufort, dug Gwlad yr Haf, gw. R.A. Griffiths: RhT 84.

- 20 **tadidad** Sef o 'dad i dad', '*partilineally*', gw. GPC 3408.

Eudaf Sef Eudaf fab Caradog, brenin cynnar ynys Prydain; ym 'Mreuddwyd Maccsen' dywedir ei fod yn dad i Elen, gwraig Maccsen Wledig; gw. BD 70–5, 228–9; BrM 24 ac ymhellach WCD 257. Cymerir mai cyfeirio at feithder llinach Syr Rhys a wneir yma—ymestynnai'r llinach honno *o dadidad* yn ôl i un o frenhinoedd cyntaf yr ynys. Dichon fod cymharu noddwr ag Eudaf yn awgrymu hawl arbennig y noddwr hwnnw i'w frenhiniaeth: cf. y modd y cymharodd Hywel Srdwal Edward IV ag ef: GHS 5.77 *Edward, ail Eudaf* a gw. *ib.n.*

- 21 **a nerth** Gellid deall yma'r cys. *a* ac e., neu ynteu'r rh.pth. a ffurf 3 un.pres.myn. y f. *nerthu*; pa un bynnag, dichon mai cyfeirio a wneir at Rys fel cefnogwr i'r brenin Harri VII sy'n gwisgo *coron Arthur*. Yr oedd cefnogaeth Rhys i Harri yn gwbl allweddol fel y sylweddolai'r beirdd; ys dywedodd Guto'r Glyn, *Cwncwerodd y King Harri / Y maes drwy nerth ein meistri ni*, GGI² 264 (CI.35–6). Gw. ymhellach y nodyn cefndir.

coron Arthur Sef brenin Lloegr, Harri Tudur. Gobaith y beirdd oedd gweld Cymro yn gwisgo'r goron hon, a phan goronwyd Harri Tudur yn frenin yn 1485 gwireddwyd y freuddwyd honno dros dro. Y mae'n arwyddocaol mai Arthur oedd enw mab hynaf Harri Tudur.

- 22 **cefnder** Yr oedd Rhys yn gefnder o bell i Harri Tudur, gan eu bod ill dau yn disgyn o linach Ednyfed Fychan; gw. R.A. Griffiths: RhT 84 *et passim*. Ond efallai fod i'r gair ystyr mwy amhenodol yma.

- 24 **bwrw cadoedd** Sef 'gorchfygu byddinoedd'. Ar *cad* 'byddin, torf, llu', &c. yn ogystal â 'brwydr, ymladdfa', &c., gw. GPC 374 d.g. *cad*¹ ac ar *bwrw* 'bwrw i lawr, dymchwelyd, gorchfygu', gw. *ib.* 356.

- 25 **Adar Llwh Gwin** ‘Adar chwedlonol sy’n cyfateb, o bosibl, i *griffins* yn Saesneg ac a oedd yn gyfrifol am godi Alecsander Fawr i’r awyr mewn cawell, un ym mhob congl, er mwyn iddo fedru nodi safle byddinoedd Gog a Magog a oedd yn dod i’w erbyn’, gw. GGLI 14.64n, lle y nodir ymhellach y defnyddiai’r beirdd y cyfuniad yn aml am ‘welch, hebogiaid’, neu’n drosiadol am ‘ymladdwyr grymus’, gw. hefyd DN 159–61 a cf. GSC 35.3n. Ergyd y cwpled yw fod llai o fin ar ryfelgri Adar Llwh Gwin wrth ymladd gyda’r brenin ar faes cad nag ar ryfelgri’r frân, sef Rhys ap Tomas.
- 26 **brân** Sef Rhys ap Tomas, gw. 9.16n a ll. 25n uchod.
- 28 **llyfrau** Y mae’r math hwn o gyfeiriad at lyfrau yn ddi-ddorol oherwydd ei fod yn awgrymu bod y beirdd yn gyfarwydd â deunydd brudiol ysgrifenedig cyfoes. Meddir yn Pen 50, 89, *keissa6 llyfreu daroganna6l orugum. a chweddy y kaffel mal bytheuat buanllym llawn ymdeith kr6ydrab a wnethum*, gw. R. Wallis Evans, ‘Canu Darogan: Testunau Amrywiol’, B xxxvi (1989), 94–5. Cyfeiriodd Dafydd Gorlech yntau at lyfr brud, *Y brud hen, wyt yn bratáu / Y byd, ni thâl d’wybodau*, gw. GDGor 5.1–2; soniodd Robin Ddu am *lyfyr o groen* a disgrifiodd Maredudd ap Rhys lyfr darogan fel *brath groen lyfr*, gw. H. Lewis, ‘Rhai Cywyddau Brud’, B i (1921–3), 247 am y cyfeiriadau hyn yn ogystal â thrafodaeth ar y cywyddau a berthyn i’r dosbarth hwn o ganu.
- 29–30 **Nid eurid yn y dyrys / Heb wers yr âb war Syr Rhys** Gellid deall *dyrys* yn gyfeiriad at y Dyrys Lwyn, sef erbyn heddiw Dryslwyn yng nglan Tywi, gw. GLGC 139 (59.73); ond y mae’n fwy tebygol mai ‘caledi’ neu ‘brwydr’ yw’r ystyr yma, gw. GPC 1148. Sonnir am yr *âb* ym ‘Mhroffwydoliaeth y Wennol’ (gw. W. Leslie Richards, ‘Cywyddau Brud Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd o Fathafarn’, LICy ii (1952–3), 244) a gwelir rhywfaint o ddylanwad y broffwydoliaeth honno ar gwpled gan Guto’r Glyn, GGI² 209 (LXXIX 43–4), *Geiriau a wnaeth hen Gyrys, / Gwersau’r âb i gorr Syr Rhys*. (Sylwer mor debyg yw’r cwpled hwn i gwpled Dafydd Epynt.) Bwriad Dafydd yma yw awgrymu na fyddai *gwar Syr Rhys* wedi cael ei euro (h.y. ni fyddai wedi cael ei urddo’n farchog, gw. 9.27–8n) yn y *dyrys* heblaw am arweiniad *gwers yr âb*. Ai cyfeiriad penodol yw hwn at urddo Syr Rhys ar faes Bosworth, brwydr a wireddodd freuddwyd y beirdd? Gw. y nodyn cefndir.
- 31–2 **Nid âi ar ddyn, dŵr a ddaw, / Fôn ei balf wen heb wylaw** Yr ystyr yw y byddai pawb a gâi ergyd o law Rhys yn wylo. Cymerir bod *dŵr a ddaw* yn sangiad: a yw’n gyfeiriad at y dagrau? Cf. y disgrifiad o ddagrau fel *dŵr llygaid*, 13.20.
- 34 **Fraich gŵr, farchog o Urien** Llsg. *vreych gvr varch o urienn*. Y mae’r ll. fel y mae yn y llsg. sillaf yn brin ac y mae’r gynghanedd yn

wallus gan nad atebir g ar ôl yr orffwysfa. Rhydd y diwygiad gynghanedd ac ystyr boddhaol, ond rhaid nodi bod y testun yn llaw y bardd ei hun, a phrin iawn yw'r achosion lle y gwelir bod yn rhaid diwygio ei destunau.

Urien Gallai Tomas ap Gruffudd ap Nicolas, tad Syr Rhys ap Tomas, olrhain ei ach i Urien Rheged, gw. 9.14n.

- 35–6 **Manaw ... / Mynyw, Dofr, Môn ...** Awgrymir bod sŵn min cleddyf Rhys i'w glywed ym mhob rhan o Brydain: yn y Gogledd (*Manaw*), y De (*Mynyw*), y Dwyrain (*Dofr*) a'r Gorllewin (*Môn*). Am *Dofr* 'Dover', gw. 9.48n; cyfeirir yn fynych at frwydr Dofr mewn ffynonellau proffwydol, gw. GDGor 8.51–2; ac yr oedd 'cad ym Môn' hefyd yn un o frwydrau traddodiadol y canu brud, gw. GDGor 9.32n. Gw. hefyd ll. 35n ar *Manaw*.
- 35 **Manaw** Cymerir mai cyfeirio at Fanaw (Gododdin) fel pegwn gogleddol eithaf a wneir yma; gw. y nodyn canlynol. Ond o gofio natur frudiol y rhan hon o'r cywydd, y mae'n bosibl fod y bardd wedi dewis enwau lleoedd sy'n cyfleu naws y canu brud; wrth grybwyll *Manaw*, fe'n hatgoffeir o gyfeiriadau megis 'dwyn arian gwŷr Manaw' a 'thân ym Manaw' y canu hwnnw, gw. GDGor 2.26n, 5.20n.
- 37–8 **Eryri / A Llëyn oll â i ni** Rhagwelir y bydd hyd yn oed cadarnleoedd gogledd Cymru yn dod dan awdurdod Syr Rhys. Ar ddefnydd y f. *mynd i* yma, cf. 11.15–16 *Aeth y wlad oll i'th law di, / Llaw rwydd, llawer â iddi*.
- 39–40 **Coron Lundain ... / A wisg Gwynedd Is Conwy** Wrth weld coron Harri Tudur, ŵyr Owain Tudur o Benmynydd, Môn, gwireddwyd breuddwyd y Cymry i weld Cymro yn gwisgo coron Llundain, gw. ll. 21n. Cyfeiriodd Huw Cae Llwyd yntau at Harri Tudur fel y *mab o Wynedd*, gw. HCLl 89 (XXXII.36). Olrheiniai'r Tuduriaid eu hach drwy Ednyfed Fychan i Farchudd o Ros Is Dulas yng Ngwynedd Is Conwy.
- 41–2 **Ofn brân ef â 'n eu bronnau / Dros ben coed yr Ýsbaen cau** Yn y cyfnod hwn yngenid *Ýsbaen* fel arfer a'r acen ar y sillaf gyntaf, cf. GHS 5.36n. Nid yw arwyddocâd y cwpled yn eglur iawn, ond os meddylir am Sbaen fel lle caeedig (*cau*), yn cael ei warchod gan *goed*, dywedir bod *ofn brân* (sef Syr Rhys, gw. 9.16n) yn treiddio i'w *bronnau* uwch hynny.
- 43–4 Cymerir mai *Dwyn a wna ... / ... groes yr Iesu* yw'r brif frawddeg, er bod y gynghanedd yn milwriaethu yn erbyn hynny yn ll. 43.
- 45 **cyrn a llais** Dyma'r bonllefau a'r dathlu a fyddai'n gyfeiliant i orseddu'r brenin cyfiawn.
- 46 **clariwns** Ffurf l. *clariwn*, sef 'math o drwmped cyfyng ei bib a chyffrous ei sain a ddefnyddid yn fynych mewn rhyfel', gw. GPC 490 a

cf. GHS 1.40n. Cymerir mai ergyd y cwpled yw fod cym, llais a chlar-iwns wedi anrhydeddu (*euraw*) Syr Rhys.

47–8 **Tri enw y dout ar un dyn: / Iarll a milwr, llew melyn** Cf., o bosibl, 10.21–2n. Ffurf 2 un.amhff.myn. y f. *dyfod* yw *dout*, gw. GMW 134 (oni bai mai ffurf ar 2 un.pres.myn. *doit* sydd yma, *ib.* 133). Y mae'r bardd yn cyfarch Syr Rhys gan ddweud bod y tri natur hyn wedi dod yn un ynddo.

48 **llew melyn** Fe'i rhestrir yn un o'r enwau am arwr yn y canu brud yn GWL ii² 267; cf. GDGor 2.39n lle y cynigir y gall fod yn deillio o faner Owain Glyndŵr.

52 **Lloegr** Dichon fod *Lloegr* yn cyfeirio at Gymru a Lloegr neu Brydain oll yma, cf. ll. 9n.

13

Mab hynaf Syr Rhosier Fychan o Dretŵr o'i briodas gyntaf â Denys ferch Tomas ap Phylib Fychan oedd Syr Tomas Fychan, gwrthrych y cywydd mawl hwn.¹ Enwir *Syr Tomas* yn llinell 12, gan gyfeirio at ei dras o Ddefras (ll. 8)—sef cyfeiriad at ei hen nain, Ann ferch Syr Walter Devereux—a'i uniaethu â natur ei dad, y *Rhoseriad* (ll. 10). Sonnir hefyd am y croeso a'r ddarpariaeth arbennig i westeion yn ei gartref yn Nhretŵr (llau. 33–6).

Syr Tomas a etifeddodd gartref ysblennydd Tretŵr ym mhlwyf Llan-fihangel Cwm Du yn Ystrad Yw, Brycheiniog, ar farwolaeth ei dad yn 1471, ac aeth ati i helaethu'r cartref hwnnw yn ystod ei yrfa.² Fel ei dad, yr oedd Syr Tomas yn noddwr hael i'r beirdd, ac y mae pob lle i gredu mai Hywel Dafu oedd ei fardd teulu swyddogol, er bod cerddi iddo gan feirdd eraill megis Lewys Glyn Cothi, Hywel Swardwal a Bedo Brwynllys, yn ogystal â Dafydd Epynt, wedi goroesi.³

¹ Am ei ach, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 2(C₂), P.C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 2 a NBSBM 697. Am hanes y teulu, gw. ByCy 940–1; D.S. Davies, 'Vaughan of Tretower', TRS v (1935), 50; E.D. Jones, 'The Parentage of Sir Thomas Vaughan (d. 1483)', Cylchg LIGC viii (1953–4), 349.

² NBSBM 222–4; E.P. Jones, 'Cartrefi Enwogion Sir Frycheiniog', *Brycheiniog*, xiii (1968–9), 107; Ithiel Vaughan-Poppy, 'The Homes of the Vaughans', *ib.* xviii (1978–9), 103; Richard Haslam, *Powys (Montgomeryshire, Radnorshire, Breconshire)* (Harmondsworth, 1979), 380–4.

³ Gw. NBSBM 256, ac ymhellach ar y canu i Syr Tomas Fychan, gw. *ib.* 243–60; golygwyd cywydd mawl iddo gan Hywel Swardwal yn GHS cerdd 3.

Lamech: cf. Bedo Brwynllys am Syr Tomas, *Y dyn a'i had o Noe hen* (dyfynnir o NBSBM 258). Ymhellach ar y ffurf *Noe*, gw. J. Vendryes, 'Gallois Noe, Neuwy, Nouguy', *Bulletin de la Société de Linguistique de Paris*, xliii (1947), 32–7 a J.E.C. Williams, 'Balchnoe', *Traeth cxxxiv* (1979), 139–41.

Eneas Sef Eneas Ysgwydwyd o Gaerdroea, un arall o hynafiaid traddodiadol y Cymry, gw., e.e., EWGT 188, mynegai, d.g. *Eneas* [*Aeneas*] *Ysgwyddwyd ab Anchises*. Ymhellach arno, gw. OCD³ 22–3, TYP² 347, 551 a cf. GHS 4.16 ac *ib.n.*

6 Y mae'r ll. hon sillaf yn fyr; tybed a ddylid darllen *Ysy Brutus ...?*

Brutus Yn ôl Sieffre o Fynwy, ef oedd sefydlydd teyrnas Prydain, gw. WCD 13, a Jerry Hunter, *Soffestri'r Saeson* (Caerdydd, 2000), 61.

Prytaen Am y ffurf, cf. GHS 3.37, 9.65; fel y nodir *ib.* 3.37n, y mae'n fenthyciad o'r S.C. *Brytayn*, 'Diau mai at Brydain y cyfeirir ... er y gallai *Brytayn* olygu Llydaw hefyd.'

8 **Defras** O'r S. *Devereux*. Ann ferch Syr Walter Devereux oedd hen nain Syr Tomas, sef gwraig Syr Rhosier Hen o Frodorrdyn, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 2; cf. 14.41n.

10 **Rhoseriad** Disgrifiad o Syr Tomas fel 'un yn perthyn i Rosier', sef Syr Rhosier Fychan, ei dad. Ar y terfyniad *-iad* 'sy'n dynodi'r math o berson y cyfeirir ato, y dosbarth y mae'n perthyn iddo, y genedl y mae'n aelod ohoni, &c.', gw. GPC 1998 d.g. *-iad*³.

11 **dwyn iau** Ar ddefnydd *iau* yn yr ystyr ffigurol 'rheolaeth, awdurdod', &c., gw. GPC 2002 d.g. *iau*¹ ac ymhellach Ffrancis G. Payne, *Cwysau: Casgliad o Erthyglau ac Ysgrifau* (Llandysul, 1980), 12.

12 **Syr Tomas** Y mae hyn yn brawf fod y gerdd wedi ei chanu ar ôl 1483/4 pan urddwyd Tomas yn farchog, gw. y nodyn cefndir.

13 **neidr** Cyfeiriad at y neidr yn arfbais y Fychaniaid; cf. GHS 2.1n, 3.42 a 13.51. Yn ôl traddodiad, ganwyd Moreiddig Warwyn fab Drymbenog (un o hynafiaid Fychaniaid Brodorrdyn, Hergest a Thretŵr, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 1) â neidr o gwmpas ei wddf, wedi i'r neidr fynd i mewn i gorff ei fam drwy ei cheg pan oedd yn cysgu. Fel yr awgrymir yn DWH ii, 386–7, y tebyg yw i Foreiddig gael ei eni â'r llinyn bogail o amgylch ei wddf.

15 **dŵr ir** Cf. y cyfeiriad at *aweddwr* 'dŵr croyw' diddiwedd yn Nhretŵr, ll. 35. Posiblirwydd arall yw mai cyfeirio'n ffigurol at Syr Tomas a wneir yma, cf. 14.17 *Yn hir â dŵr ir pan dorrer—allan* ac *ib.n.* Ar *dŵr* yn golygu 'dagrau', gw. ll. 20n.

16 **Cyd â'r haul** Ai cyfeiriad at yr haul fel symbol Iorcaidd sydd yma? Cf., o bosibl, 12.17n. Neu a ddylid deall *cyd â* i olygu 'cyhyd â, mor bell

/ mor faith â', a deall y ll. yn ddisgrifiad o Syr Tomas, sy'n rheoli mor bell ag y mae'r haul yn cyrraedd?

17–18 Gellid aralleirio'n fras: 'Ymledodd y gair am ba mor gryf y mae dy grafanc wrth drin [gwaywffon] bren ac [wrth ymladd] yn erbyn gŵr o Ffrainc'. Ar *gair* 'clod, bri', gw. ll. 23n.

20 **dŵr llygaid ieirll** Ar *dŵr* 'dagrau', cf. o bosibl 12.31–2n. Y dagrau hyn a'r *gwaed ir* yw'r *dau* y cyfeirir atynt yn ll. 19.

Dichon mai cynghanedd groes o gyswllt yn hytrach na chynghanedd draws fantach sydd yma, gyda'r -d ar ddiwedd *llygaid* hefyd yn cael ei chario ymlaen.

23 **Cent** Dichon y cyfeirir yma'n gyffredinol at Gent fel pegwn dedwyrain Lloegr. Cf. y cyfeiriad at *Ddofr*, 12.35–6n.

aud â'r gair Ar *gair* yn golygu 'enw, bri, clod' yn benodol, gw. GPC 1372. Dehonglir yr ymadrodd *mynd â'r gair*, fel *mynd â'r glod* neu *ddwyn y bêl/bel*, i olygu 'haeddu canmoliaeth' neu 'ennill clod', cf., e.e., *Ac ynnill â gwayw uniawn / Gair a chlod goruchel iawn*, GGI² 3 (I.21–2). Ar *ddwyn y bel*, gw. GSRh 11.72n.

25 **Rhôn** E. Cym. dinas Rouen yn Ffrainc sydd yma, yn fwy na thebyg, neu ynteu Afon Rhône. Pa un bynnag, dichon ei fod yn cynrychioli teyrnas Ffrainc, a bod y bardd yn honni yn y cwpled nad oes neb yn Ffrainc hyd yn oed, ac eithrio Siarls, yn ddewrach na Syr Tomas. Fodd bynnag, cyfeiriodd Bedo Brwynllys at Rôn yng nghyswllt gwrhydri Tomas yn Ffrainc: *Cyffion o Rôn oedd ei ryw, / Rhydwaed ar Ffrancod ydyw; / Cafas gyda'r Ffrainc hefyd, / Cymru bob cam ar y byd* (dyfynnir o NBSBM 257) a cf. GHS 3.2, 53.

Y mae'r ll. hon yn fyr o sillaf ac y mae'r gynghanedd yn wallus.

26 **Siarls** Gan fod y bardd yn moli gwroldeb Syr Tomas yn y cwpled hwn, cymerir mai cyfeiriad sydd yma at Siarlymaen, gw. y nodyn blaenorol a DN 149–50.

Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.

31–2 **Gorau un gŵr ... / ... a holl Gred** Gellid aralleirio'n fras: 'Y gŵr gorau ei win oedd a anwyd yn Lloegr a holl wledydd Cred'.

35 **aweddwr** 'Dŵr croyw, rhedegog', gw. GPC 240 a cf. o bosibl ll. 15n. Cymerir mai canmol y ddarpariaeth ar gyfer trigolion Tretŵr a wneir yn y ll. hon a'r ll. nesaf.

37 **Caer Dulun** Sef Dilyn yn Iwerddon, y mae'n debyg, a all fod, fel *Cent*, yn gyfeiriad at begwn pell. Posiblirwydd arall yw fod y bardd yn cysylltu Syr Tomas â'r helyntion yn Iwerddon a arweiniodd at goroni'r ymhonnwr Lambert Simnel yn Nulyn ar 24 Mai 1487; bu Wiliam

Herbert hefyd yn rhan o'r ymgyrch hon, cf. 10.43–4 *Mae enw Wiliam yn Nulyn / Ar finiau gwŷr, fwy nog un a gw. ib.* 43n.

Gwelir bod Dafydd Epynt yn defnyddio'r ffurf *Dulun* yma er mwyn odli ag *un* (cf. 14.45 lle y mae'n odli â *danun*); cf. 15.16n ar *Dafudd*.

- 39 **hwyr** Cymerir mai 'annhebygol, prin, o'r braidd' yw ei ystyr yma, gw. GPC 1942 d.g *hwyr* (b), a bod y bardd yn honni yn llau. 39–40 mai go brin y gwelir ar adeg Calan unrhyw emprwr hyd yn oed a chanddo fwy o ddynion o'i gwmpas nag sydd gan Syr Tomas; cf. ll. 38.
- 41–2 **Am frân darogan a drig, / Mwy ferw oedd am Foriddig!** Yn y cywyddau brud cynrychiolai'r frân yn aml un o linach Dinefwr, ac yn aml Rys ap Tomas ei hun, 9.16n. Ond gan fod cysylltiad cynnar rhwng Owain ab Urien a brain, a bod enw Owain wedi ei gysylltu â'r mab darogan, dichon fod y frân yn hen symbol brudiol, ac mai ergyd y cyfeiriad yn y ll. hon a'r nesaf yw fod darogan am frân yn parhau fel erioed, ond bod y berw o obaith sydd am *Foriddig*, sef un o linach Moreiddig Warwyn (gw. ll. 13n), yn fwy cyffrous a byrlymus. Am y treigladd meddal yn dilyn *mwyr*, gw. Treigladau 48.
- 44 **Deifr** Trigolion Deira yn yr Hen Ogledd yn wreiddiol, ond yn y farddoniaeth ddiweddarach tuedda i gyfeirio at y Saeson yn gyffredinol, cf. GSRh 12.21n. Ond yng ngoleuni'r cyfeiriadau yn ll. 46 at Gernyw a Lloegr, y mae'n bosibl mai cyfeiriad penodol at Saeson gogledd Lloegr sydd yma (cf. 12.35n ar *Manaw*).
- 45 **cyrnho** Ffurf 2 un.grch. *cyrnhoi*, sef ffurf amrywiol ar *crynhoi* drwy drawsosod; cf. *tarhaus*, 21.44.
- 46 **Cernyw a Lloegr** Cymerir bod y bardd yn llau. 43–6 yn canmol milwriaeth Syr Tomas, a'i fod wedi codi ofn ar Saeson o bob rhan o Loegr, o'r Hen Ogledd i Gernyw. Yn y cyfnod hwn ystyrir Cernyw ar wahân i Loegr. Sefydlwyd dugiaeth Cernyw yn 1337; am ei hanes, gw. F.E. Halliday, *A History of Cornwall* (Letchworth, 1975), 122, 144, 167 *et passim*.
Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
- 51 **rhòl o'r broffwydoliaeth** Cyfeiriad at ganu brud ysgrifenedig, cf. 12.27–8 *Darogan i'r Brytaniaid / Y llyfrau oll ...*, a gw. *ib.* 28n.
- 54 **neidr** Gw. ll. 13n.
- 55 **Un tarw o Went a eurwyd** Ar ddefnydd Dafydd Epynt o'r e. *tarw* fel term arwrol, gw. 9.9–10n. Ai cyfeirio at urddo Syr Rhosier Fychan, tad Tomas, a wneir yma? Ar *euro* 'urddo'n farchog', gw. 12.6n.
- 56 **yr ail pen** Ar y diffyg treigladd i'r eg. *pen* yma ar ôl *ail* fel trefnol, gw. Treigladau 43.

14

Ar sail tystiolaeth fewnol y gerdd, cynigir â pheth petruster mai awdl fawl yw'r gerdd hon i Siôn Fychan, mab Syr Tomas ap Syr Rhosier Fychan, gwrthrych y gerdd flaenorol. Enwir Siôn ynndi deirgwaith (llau. 8, 48, 70) a chyfeirir ato fel wŷyr i *Roser Fychan* (ll. 2); wrth sôn am ei dras, cyfeirir at *Foriddig* (ll. 12), *ryw Einion* (ll. 40), [*t*]ras *Defras* a *Syr Rhoser* (ll. 41) a dywedir ei fod yn hanfod o *Sisil* (ll. 54). Gallai Siôn Fychan olrhain ei ach ar ochr ei dad i Einion Sais a Moreiddig Warwyn, dau o sylfaenwyr llinach y Fychaniaid a'r Herbertiaid.¹ Priodasai ei orhendaidd, sef Syr Rhosier Hen o Frodorrdyn, ag Ann ferch Syr Walter Devereux,² a'i fam oedd Sisil ferch Margred ferch Dafydd Mathew a oedd yn chwaer i'r esgob Siôn Morgan, y canodd Dafydd Epynt gerdd o fawl iddo (cerdd 18).³

Ond y mae'n rhaid bod ychydig yn ochelgar o safbwynt y noddwr, yn enwedig gan fod Lewys Glyn Cothi wedi canu awdl i feibion Syr Tomas Fychan, sef Harri, Gwacyn a Rhosier, heb enwi Siôn, er bod Siôn Fychan yn cael ei enwi yn yr achau.⁴ Posibilrwydd arall yw mai cerdd ydyw i Siôn, brawd Syr Tomas Fychan, y canodd Lewys Glyn Cothi gywydd iddo;⁵ ond o dderbyn hynny, anodd fyddai esbonio'r cyfeiriad at Sisil (ond gw. llau. 53–4n).

Anodd yw dweud unrhyw beth pendant ynghylch gyrfa filwrol Siôn. Fel ei dad, dichon iddo fod yn Iorcydd pybyr,⁶ ac iddo fod yn gefnogol i Edward IV, fel yr awgrymir yn llinell 69. Y mae'n bosibl iddo hefyd gymryd rhan ym mrwydr Twtil ger Caernarfon lle y trechwyd Lancastraiid gogledd Cymru gan blaid Iorc yn 1461.⁷

Molir Siôn yn yr awdl hon drwy grybwyll aelodau amlwg ei linach, a thrwy bwysleisio ei ffyrnigrwydd didrugaredd a'i lwyddiant ysgubol ar faes y gad. Fel yr awgrymwyd uchod, uniaethir ef â'r achos Iorcaidd ond, er mor bwysig oedd yr ymlyniadau sectyddol hyn, nid anghofir am yr hen gynnen rhwng Cymry a Saeson a phwysleisir rhan flaenllaw Siôn yn y dial cenedlaetholgar hwn, yn enwedig yn ail ran yr awdl lle y sonnir am fwrw dieithriaid o dŵr Babilon. Bron nad yw'n ymgais i gyfleu'r neges mai'r Cymry gorau, sef y Cymry a gais adfeddiannu Prydain, yw'r Cymry Iorcaidd. Ond eto nid yw'r neges yn gyson: er enghraifft, sonnir yn llinellau 31–2 fel y bu'r *Cymry yn gaeth, camryfyg oedd / ... yn nwrn Saeson*; yna yn

¹ Gw. y tabl achau, td. 142, a llau. 12n a 40n isod.

² P.C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 2.

³ Gw. llau. 53–4n.

⁴ Gw. GLGC 295–7 (cerdd 131) a P.C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 2(C2).

⁵ Y mae'r cywydd hwn yn anghyflawn, ond canwyd ef yn 1472. Gw. GLGC 639–40 (Atodiad III) a P.C. Bartrum: WG2 *l.c.*

⁶ Gw. nodyn cefndir cerdd 13.

⁷ Gw. ll. 22n.

yr un pennill, canmolir Siôn, sef yr *esillydd i Gaswallon*, am ddarparu milwyr ac arfau *i'r Goron* (llau. 35–6).

Yn gymysg yn y mawl ceir ambell gyfeiriad at ganu brud. Sonnir, er enghraifft, am *Hen o ddarogan oedd i'r egin / O enau Myrddin am Iwerddon: / Ef allai delai fwyail Dulun / A gwaed ir danun gyda'r dynion* (llau. 43–6, a cf. hefyd lau. 63–6 a'r nodiadau arnynt). Nid rhag-weld y dyfodol yw amcan yr elfennau brudiol hyn, ond modd i helaethu ar foliant Siôn. Stôr ychwanegol o ddelweddau ydynt i'w defnyddio i foli noddwr. Yr oedd y math hwn o gyfuno brud a mawl yn ddigon cyffredin yn y bymthegfed ganrif: cenid hefyd gywyddau marwnad, cywyddau serch, cywyddau gofyn a diolch a chywyddau ymddiddan ac elfennau o'r canu brud ynddynt.⁸

Agwedd arall ar yr awdl a haedda sylw arbennig yw ei chreffft a'i mesur. Yn y rhan gyntaf ceir cadwyn o chwe englyn unodl union a gysylltir â chyrch-gymeriadau. Y mae gair olaf y gadwyn englynion yn cyrchu ail ran yr awdl drwy gyrch-gymeriad. Yn yr ail ran ceir wyth pennill o drybedd y mynaich, sef mesur anghyffredin iawn yn cynnwys yma ddau gwpled o linellau naw sillaf sy'n odli'n gyrch ac yn cael eu dilyn gan doddad.⁹ Torrir ar y patrwm yn llinellau 57–60, ond y mae'n debygol iawn fod y llinellau hyn yn llwgr.¹⁰ Nid yw trybedd y mynaich yn un o'r pedwar mesur ar hugain cydnabyddedig a dyma'r unig enghraifft ohono yng ngwaith hysbys Dafydd Epynt. Fodd bynnag, y mae penderfyniad Dafydd i ganu ar y mesur hwn yn awgrymu nad oedd yn ystyried y mesurau cydnabyddedig fel yr unig fesurau addas i fardd proffesiynol.¹¹

Nodweddir yr awdl ymhellach gan y nifer o eiriau hynafol sydd ynddi o'i chymharu â chywyddau ac awdlau eraill y bardd: geiriau megis *emys* (ll. 27), *esillydd* (ll. 36), *etewynion* (ll. 64), *cadfaon* (ll. 66) a *beryon* (ll. 72). Dichon fod hyn yn ychwanegu at urddas a cheinder yr awdl ac yn arwydd o chwaeth lenyddol hynafiaethol noddwyr mawr teulu Tretŵr.

2 **wyr i Roser Fychan** Dichon mai cyfeiriad yw hwn at Siôn Fychan fel wŷr i Syr Rhosier Fychan a sefydlodd y Fychaniaid yn Nhretŵr ac a gymerodd ran flaenllaw ar ochr yr Iorciaid yn Rhyfel y Rhosynnu cyn ei ddienyddio gan Siasbar Tudur yng nghastell Cas-gwent yn 1471 am y rhan a chwaraeodd yn nienyddiad tad Siasbar, Owain Tudur. Ymhellach ar Syr Rhosier Fychan, gw. R.A. Griffiths: PW i, 219–20.

5–7 **Un anian o'r tân a'r tonnau—yw'r ail / ... / Awyr a thir ...** Credid yn yr Oesoedd Canol fod y bydysawd wedi ei gyfansoddi o'r pedair

⁸ Gw. GWL ii²293.

⁹ J. Morris-Jones: CD 355. Ffurir trybedd y mynaich drwy ystumio'r mesur naw ban a'i odli'n gyrch fel awdl-gywydd. Ymddengys mai Dafydd Nanmor a fu'n gyfrifol am yr arbrawf hwn yn gyntaf yng nghanol y bymthegfed ganrif ond buan y cydiodd yn nychymyg beirdd eraill.

¹⁰ Gw. y nodiadau ar y llinellau isod.

¹¹ J. Morris-Jones: CD l.c.

anian neu sylwedd (gw. ll. 4), sef daear, dŵr, awyr a than. Cynhwysai popeth materol yn y greadigaeth wahanol gyfuniadau o'r pedwar defnydd hyn a gyfatebai yn eu tro i gyfuniadau o sychder, gwlybanaeth, oerni a gwres. Credid bod pedwar defnydd yng nghyfansoddiad corff dyn hefyd, sef gwaed, fflem, y bustl du a'r bustl melyn, a bod y rhain yn cyfateb i'r pedwar ansawdd. Yr oedd cyfuniadau o'r ansoddau hyn yn pennu personoliaeth yr unigolyn ac, o'r herwydd, tybid bod corff a ffawd dyn dan reolaeth troad y planedau, gw. DrOC 107–8.

- 7 **hau** Defnyddir y f. yn aml mewn cyd-destun brudiol am 'baratoi', gw. GDGor 1.2n, a dichon mai rhywbeth tebyg yw ei ystyr yma: sef bod y pedair elfen, *tân, tonnau, awyr a thir*, wedi eu defnyddio i 'baratoi' Siôn ar gyfer *r(h)eoli'r deau*.
- 8 **Siôn hir** Ymddengys fod Siôn Fychan yn wŷr tal, cf. 11.1n.
- 11 **ar a fo** 'Yr hwn a fo'; ar ddefnydd rhagenwol *ar* o flaen cymal pth., gw. GMW 70–1.
- 12 **Moriddig** Sef Moreiddig Warwyn fab Drymbenog, un o sylfaenwyr llinach y Fychaniaid, gw. 13.13n d.g. *neidr*.
- 17 **Yn hir â dŵr ir pan dorrer—allan** A yw'r bardd yn cymharu hynt Siôn Fychan mewn brwydr â hynt dŵr ffres a bywiog pan gaiff ei ryddhau? Cf. o bosibl 13.15n.
- 18 **gwylliaid** Sef y gelyn, cf. GDGor 5.60n.
- 19–20 **Euro'r ffon a'r war a'r ffêr, / Aur a fyn ar ei faner** A yw Dafydd Epynt yma'n datgan dymuniad i weld urddo Siôn yn farchog? Gobeithiai hefyd weld coler aur am war Wiliam Herbert yntau, 9.27–8 *Ei goler teg, êl o'r tŵr, / Yn aur melyn i'r milwr* a gw. *ib.n.* Byddai marchog o Urdd y Gardys yn gwisgo gardys islaw'r ben-lin chwith, sydd o bosibl yn esbonio'r cyfeiriad yma at y ffêr, gw. Boutell 193. O ran *euro'r ffon*, ceir y nodyn hwn, *ib.* 251–2, 'The pennon was the personal ensign of the knight who bore it. It was small, pointed or swallow-tailed at the fly, and was borne immediately below the lance-head. It was charged with the badge or the armorial device of the bearer, and sometimes was richly fringed with gold.'
- 22 **Afon Fenai** A yw'r bardd yn cyfeirio at achlysur penodol pan fu Siôn Fychan ar ymgyrch filwrol yng Ngwynedd? Honnir ymhellach yn llau. 25–30 iddo amddiffyn glannau Môn *rhag estronion*. Braidd yn gynnar efallai fyddai ymgyrch yn gysylltiedig â brwydr Twtíl ger Caernarfon lle y trechwyd Lancastriaid gogledd Cymru gan yr Iorciaid ar 16 Hydref 1461, gw. WWR² 86. Neu a yw amddiffyn Afon Menai a Môn yma'n gyfystyr ag amddiffyn un o gadarnleoedd Cymru (cf. efallai'r cyfeiriadau at Eryri a Llŷn yn 12.37–8) ac felly Gymru gyfan?

- 24 **llanw a thrai** Cymerir mai dyma yw goddrych y f. *ni phryderai* yn y ll. flaenorol: a Siôn yn cario ei waywffon ddur, ‘nid achosai llanw na thrai bryder i lu na thrin’.
- 27 **emys** Gallai fod yn un. neu’n ll. yma: ‘march’ neu ‘feirch rhyfel’, gw. GPC 1211.
- 28 **cost yr ynys** Sef ynys Môn, cf. ll. 22n. Ai *cost* yn yr ystyr ‘glan y môr’ (o’r S. *coast*) a geir yma? Gw. GPC 569 d.g. *cost*², a cf. GLGC 501 (231.50) *cost Iwerddon*.
- 31–2 **Cymry a fu gaeth ... / ... yn nwrn Saeson** Ai cyfeiriad at ‘Frad y Cyllyll Hirion’ pan garcharodd y Saeson Wrtheyrn gan fynnu meddiannu Llundain, Caer Efrog, Lincol a Chaer Wynt yn gyfnewid am ei ryddhau, a lladd trigolion y dinasoedd hynny? Gw. BD 98 (ll. 10)–99 (ll. 26).
- 34 **Ynys y Morynion** Sef Ynys Afallon, y mae’n debyg, lle y credid bod naw morwyn neu chwaer yn gofalu’n dyner am y sawl a ddeuai atynt i aros o Ynys Prydain. Gw. LM 101–2 (llau. 916–29).
- 36 **Caswallon** Un ai Caswallon fab Beli, un o arweinwyr cynnar Ynys Prydain, a fu, yn ôl Brut Sieffre o Fynwy, yn gyfrifol am drechu’r Rhufeinwyr ddwywaith (gw. TYP² 300–1, WCD d.g. Cassivellaunus 108–9), neu Gaswallon Lawir, gw. GLM 386 .
- 38 **iach** Sef ‘ach’ yma, er mai *ach* yw’r ffurf arferol gan y bardd.
- 39 **arian heb aur ar wŷn neu bais** Cf. 17.27–8n.
- 40 **Asur a enwais ar ryw Einion** *Rhyw Einion* yw llinach Einion Sais, un o sylfaenwyr llinach y Fychaniaid, y Gamiaid a’r Herbertiaid; arno gw. 10.29n. Ymhellach ar *asur* mewn cyswllt â disgynnydd o linach Einion Sais, gw. 11.1–2n.
- 41 **Defras** Gorchennain Siôn ar ochr ei dad oedd Ann ferch Syr Walter Devereux, gwraig Syr Rhosier Hen o Frodorddyn, 13.8n.
Syr Rhoser Ai Syr Rhosier Hen o Frodorddyn, gŵr Ann Devereux (gw. y nodyn blaenorol), ei fab Syr Rhosier Fychan (*ob.* 1415), neu ei fab yntau Syr Rhosier Fychan o Dretŵr (*ob.* 1471)? Gw. y tabl achau, td. 142.
- 42 **eurer** Dichon fod y f. yma’n golygu ‘anrhydeddu’ yn hytrach nag ‘urddo’n farchog’, gw. 12.6n.
cyffion Enghraifft arall o ddefnyddio gair o fyd coed mewn cyswllt â thras neu wehelyth, cf. 5.27–8 *Derw’r byd ar ei fôn a gaiff o’i gyffion / A’r wyrion yw’r irwydd*.
- 43–6 Y mae naws frudiol i’r llau. hyn sydd fel petaent yn cyfeirio at un o broffwydoliaethau Myrddin yn ymwneud ag Iwerddon; gw. Geoffrey of Monmouth, *The History of the Kings of Britain*, trans. L. Thorpe

- (London, 1966), 175. Awgrymir ymhellach yn llau. 47–8 fod holl obeithion y canu brud â'i *arwyddion*—*lawer* wedi eu rhoi yn Siôn.
- 49 **gwns** Ffurf l. *gwn* 'dryll', &c., gw. GPC 1687 d.g. *gwn*¹. Fe'i ceir yn fynych i odli ag *aliwns*, cf. GLGC 302 (133.49–50) *ac os aliwns â gwns gant / in tiroedd a anturiant*, ac eto *ib.* 255 (113.9–10), 444 (203.51).
- 50 **aliwns Tŵr Pabilon** Tŵr Babel ym Mabilon, gw. Gen. xi.1–9; yr *aliwns* yma yw'r estroniaid, y bobl hynny o dras wahanol i'r Cymry. Thema'r pennill hwn yw'r modd y mae Siôn yn peri i'w elynion ffoi.
- 51 **neidr** Yn ffigurol am Siôn, a berthynai i linach Moreiddig Warwyn, gw. 13.13n.
- 53–4 **f'eryr ... / ... o Sisil** Mam Siôn oedd Sisil ferch Morgan ap Siencyn, gwraig gyntaf Syr Tomas Fychan, a'i mam oedd Margred ferch Dafydd Mathew, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 2 (C₂), 'Cydifor Fawr' 15 (A₁). Yr oedd Sisil, felly, yn chwaer i'r esgob Siôn Morgan, gwrthrych cerdd 18. Posibilrwydd arall yw mai'r e. lle Sicily yw *Sisil* yma—fe'i ceir hefyd yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 673 am yr enghrau.—yn enwedig gan fod y bardd yn cyfeirio at Siason, sef Siason fab Aeson, arweinydd yr Argonawtiaid, yn yr un ll. Ond ni welir bod cyswllt amlwg rhwng Siason a Sicily a chan hynny, haws cymryd mai'r e.prs. sydd yma.
- 53 **rhif aeron** Sef 'nifer mawr'; gw. 18.21n ar *rhif y gwŷdd*.
- 54 **Siason** Siason fab Aeson oedd arweinydd yr Argonawtiaid, gw. OCD³ 793 a Jenny Marell, *Cassell Dictionary of Classical Mythology* (London, 1998), 223–4.
- 55 **awmler** Ffurf amrywiol ar *amler* 'march rhygyngog', gw. GPC 95.
- 57–8 Llsgr. *Y prenn ai lav wen o linon nev / vyrr a dyrr onis gyrr yn ysgyryon*, ond nid yw'r llau. hyn yn dilyn yr un patrwm mydryddol ag a geir yn y penillion eraill o drybedd y mynaich: disgwyliid i *nef* odli'n grych â gair yng nghanol ll. 58. Ceid cwpled cywir a gwell ystyr o hepgor *nef*, a symud *fyr* yn ôl o'r ll. ddilynol; gw. hefyd lau. 59–60n.
- 57 **fyr** O'r S.C. *vyrr* 'ffynidwydden, ffyr, pin', gw. GPC 1272 a GHS 3.4n; yma am waywffon neu arf o'r cyfryw bren. Gw. hefyd lau. 57–8n.
- 59–60 Disgwyliid toddaid yma i gyd-fynd â phatrwm mydryddol y penillion eraill a geir yn ail hanner yr awdl hon, ond y mae ll. 59 sillaf yn brin ac nid oes iddi brifodl. Hefyd *emylau* a geir yn safle'r brifodl yn ll. 60 (fe'i diwygiwyd yn *emylon* yn y testun golygedig). O graffu ar y testun yn y llsgr. (sydd yn llaw'r bardd ei hun) gwelir bod croes uwchben y gair *am* yn ll. 60, fel petai'n arwyddo bod gair neu eiriau i'w mewnddodi yma; tybed a gollwyd y gair hwnnw wrth i'r ddalen gael ei thocio'n ddiweddarach? Byddai diwygio ll. 60 a darllen *Y dur am waladr yr/i'r*

emylon yn rhoi odl â *gwydr*; ar *gwaladr* ‘arweinydd’, &c., gw. GPC 1565.

- 60 **emylon** Llsg. *emylau*; gw. llau. 59–60n.
- 61 **asau** Ffurf l. *asen*, gw. GPC d.g. *asen*²; cf. 13.21 lle y ceir y ffurf l. arall ar *asen*, sef *ais*.
- 63 **tarw** Ar ddefnydd *tarw* yn y canu fel term arwrol, gw. 9.9–10n, 10.21–2n a 13.55n.
- 65 **prif aber** Cyfeirir yn y Trioedd at *[D]ri Prif Aber*, gw. TYP² 228 heb eu henwi, ac awgrymir *ib.* 232 mai cyfeirio at aber afonydd Tafwys, Hafren a Humber a wneir yno.
- Siarmania** Ffurf Gym. ar *Germania*. Ai cyfeiriad at y Saeson sydd yma? Gwelir hefyd fod mynych sôn am yr Almaen ym ‘Mhroffwydoliaethau Myrddin’, gw. Geoffrey of Monmouth, *op.cit.* 172–3. E.e. yn fersiwn Llyfrgell Bodley o’r ‘Broffwydoliaeth Fawr’ meddir, ... *ai weithredoedd a vydd bowyd ir neb ai datkano chwech wedi ef a geidw y deirn wialen a gwedi hwyntav y kyfyd y pryf o syrmania ag ar hynny peidiaf i ar bryffydoliath vawr rag anhowsed i dallt*, gw. R. Wallis Evans, ‘“Y Broffwydoliaeth Fawr” a’r “Broffwydoliaeth Fer”’, B xxii (1966–8), 120.
- 69 **rhyfel Edwart** A yw’r cyfeiriad hwn yn awgrymu i’r gerdd gael ei chanu yn ystod teyrnasiad Edward IV, sef cyn 1483?
- 70 **naw ynys** Dichon mai cyfeiriad at Ynys Prydain yn ei chyfanrwydd sydd yma. O ddeall *ynys* i olygu ‘talaith, gwlad, teyrnas’, cf. GGI² 12 (IV.50), 376, gall *naw* fod yn gyfeiriad at nifer mawr o deyrnasoedd Ynys Prydain a gynhwysai Gymru, Lloegr, yr Alban, Môn, Manaw ac Ynys Wyth, gw. Thomas Jones, ‘Teir ynys Prydein a’e their rac ynys’, B xvii (1956–8), 268–9.
- 71 **Iddewon** Cyfeiria Dafydd Epynt at Iddewon yma fel pe baent ar wahân i’r ddyndoliaeth gyffredin. Nid yw hyn yn syndod gan fod gwrth-Iddewiaeth a mythau ynghylch natur ddrygionus Iddewon yn rhemp yn yr Oesoedd Canol, gw. Robert Bartlett, *The Making of Europe: Conquest, Colonization and Cultural Change 950–1350* (London, 1994), 236–42; Barnet Litvinoff, *The Burning Bush: Antisemitism and World History* (Glasgow, 1989), 53–85; Norman Cantor, *The Sacred Chain: A History of the Jews* (London, 1986), 173; Robert S. Wistrich, *Anti-Semitism* (London, 1992), 32.

Esbonnir cyd-destun y cywydd diolch hwn i Ddafydd ap Hywel mewn rhaglith i’r gerdd yn Llst 118:

Cywydd Dafydd Epynt i ddiolch march i Ddafydd ap Hywel, prydydd Watgyn Fychan o Hergest; canys Dafydd Epynt a ddaeth i glera Rhwng Gwy a Hafren ar ei draed, a Dafydd ap Hywel a'i gwelas yn glairch trwm ac a ddisgynnodd i lawr oddi ar ei farch ac a roes y march a'r ffrwyn a'r ysbarduuau a'r bwysgyns i Ddafydd Epynt.¹

Egyr y gerdd ddiolch hon drwy gyfeirio at *Dafydd ... ab Hywel fel Ederyn ... o Herast*, sef Hergest; fe'i disgrifir ymhellach fel *wyr Ieuan* (ll. 6) ac fel *Penaig ar imp ... / O fab Ieuaif o Bowys* (llau. 11–12). Ceir sawl cyfeiriad at ei ddawn fel bardd: cyfeirir ato yn y gerdd fel *edn* neu *ederyn* (llau. 1–2 a cf. 47–52), fel *Eos Powys* (ll. 4, cf. ll. 48), ac fel *brawd* (sef bardd o'r un natur) i'r bardd serch hwnnw, *Bedo / Brwynllys gerdd felys* (llau. 21–2n). Fe'i gelwir ymhellach yn *Organ Watgyn Fychan* (ll. 46), gan ategu'r wybodaeth a gafwyd yn yr hanesyn uchod mai Watgyn Fychan o Hergest oedd ei noddwr, sef mab hynaf ac aer Tomas ap Rhosier Fychan.² Fel ei dad, daliodd Watgyn nifer o swyddi gweinyddol yn nwyrain Cymru, ac ym Mhowys a Brycheiniog yn arbennig, a bu hefyd yn noddwr pwysig i feirdd:³ cadwyd yn y llawysgrifau gerddi iddo gan feirdd megis Lewys Glyn Cothi, Tudur Penllyn, Owain ap Llywelyn ab y Moel, Dafydd Llwyd o Fathafarn, Bedo Brwynllys, Llawdden a Dafydd ap Maredudd ap Tudur.⁴ Medd Tegwen Llwyd amdano:

Mae'n amlwg wrth y casgliad helaeth o gerddi a gadwyd i Watgyn ac wrth y ffeithiau hanesyddol amdano sy'n aros fod arglwydd Hergest yn ystod y cyfnod hwn wedi llwyddo'n eithriadol i gyplysu dyletswyddau cyhoeddus dan lywodraeth leol y cyfnod a chariad tuag ar barhad y traddodiad nawdd.⁵

Tybed a allwn uniaethu'r bardd dan sylw yma â'r bardd hysbys Dafydd ap Hywel ab Ieuan Fychan? Priodolir iddo ef yn y llawysgrifau gerddi i Ddafydd Llwyd o Fathafarn, i Ruffudd Dwinn a'i wraig, i Wiliam Tomas o Langathen ac eraill, a gosodir ef yn ei flodau rhwng 1480 a 1512.⁶

¹ Am destun diplomataidd o'r rhaglith, gw. uchod td. 58; am destun Llist 118 o'r rhaglith a'r gerdd, gw. D.J. Bowen, 'Two "Cwrs Clera" Poems', *Cylchg LIGC vii* (1951–2), 274–6.

² Ymhellach ar Domas ap Rhosier Fychan (*ob.* 1469 ym mrwydr Banbri), yr aelod cyntaf o'r teulu i ymsefydlu yn Hergest, ym mhlwyf Ceintun, swydd Henffordd, a hynny, fe ddichon, yn sgil ei benodi yn gwnstabl castell cyfagos Huntington yn 1422, gw. NBSBM 658ff a GLGC 584. Gw. hefyd y tabl achau, uchod td. 142.

³ Am grynodedd o yrfa Watgyn ap Tomas a thrafodaeth ar y cerddi a ganwyd iddo, gw. NBSBM 668–88 a ByCy 937. Am ei ach, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 2(B1).

⁴ GLGC 283 (cerdd 126), 285 (cerdd 127); GTP 18 (cerdd 11); GOLIM 48 (cerdd 24); GDLI 31 (cerdd 5), 104 (cerdd 45) ac ar gerdd Dafydd ap Maredudd ap Tudur, gw. NBSBM 672–3; am gerddi Bedo Brwynllys, gw. *ib.* 670–2, 683–4, ac am gerddi Llawdden, gw. *ib.* 681–3.

⁵ *Ib.* 685.

⁶ Arno, gw. ByCy 87; rhestrir 26 o gerddi dan ei enw (ond nid yw'r cyfan yn ddilys) yn MFGLI, ond hyd y gellir barnu, ni chanwyd yr un ohonynt i Watgyn Fychan o Hergest.

Nid yw'r hanesyn uchod, mwy na'r cywydd, yn dadlennu llawer inni am berthynas Dafydd ap Hywel a Dafydd Epynt. Dywed Dafydd Epynt fod Dafydd ap Hywel wedi rhoi ei farch iddo heb iddo ofyn amdano (ll. 30) a diolcha iddo drwy ei foli yn laes: molir ei ach a'i linach (llau. 7–10), gan awgrymu ei fod yn hanfod *o ryw Dewdwr* (ll. 13) a bod ei [f]onedd o *ddwy Wynedd wen* (ll. 7); cyfeirir at ei hoffter o *win tefyrn* (ll. 16); at ei allu fel bardd (llau. 35–6) gan ei alw'n frawd (cyd-fardd, fe ddichon) i Fedo Brwynlllys (llau. 21–2); a molir ei ddysg ac yn benodol ei wybodaeth am rif *Sêr ar awyr y dwyrain* (llau. 37–8). Honna ymhellach fod haelioni Dafydd ap Hywel ato i'w gymharu â haelioni Ifor Hael yn rhoi menig i Ddafydd ap Gwilym (llau. 33–4), sy'n awgrym cryf fod Dafydd ap Hywel yn fardd ar ei fwyd ei hun.

Y mae P.C. Bartrum yn rhestru un gŵr o'r enw Dafydd ap Hywel ab Ieuan Fychan yn achau Powys: tybed ai dyma'r bardd-uchelwr a roes ei farch a thaclau meirch i Ddafydd Epynt?⁷ Sylwer y gallai ei nain ef, Angharad ferch Ieuan, gwraig Ieuan Fychan, olrhain ei hach i Ieuf ab Alo:⁸ ai hwn yw'r Ieuf y cyfeirir ato yn llinell 12?

Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y gerdd hon a allai fod yn gymorth i ni ei dyddio: ond os gellir derbyn bod disgrifiad y rhaglith o Ddafydd Epynt fel *clairch trwm* i'w gymryd yn llythrennol, yna dichon mai pan oedd y bardd yn hen y'i canwyd, ac felly tua diwedd y bymthegfed ganrif neu ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, a byddai hynny'n cyd-fynd yn burion â dyddiad blodeuo Dafydd ap Hywel y bardd (sef 1480–1510, gw. uchod).

- 1 **edn** Cyfeirir yn ffigurol at y bardd, Dafydd ap Hywel, fel *edn, ederyn* ac *eos* yn y gerdd; cf., e.e., lau. 2, 4, 47–52.
gwast Rhydd GPC 1598 iddo'r ystyron 'gwasg corff, canol corff; bodis'; ceir yno groesgyfeiriad at y ffurf *pren gwast*, ond un enghraifft a geir o'r ffurf honno yn slipiau GPC, a honno o'r 19g. yn yr ystyr '*corset frame*'. Ai 'ffurf, siâp [corff]' yw ystyr *gwast* yma?
- 2 **Herast** Ffurf amrywiol ar Hergest, ym mhlwyf Ceintun yn swydd Henffordd; etifeddodd Watgyn Fychan Hergest gan ei dad, Tomas ap Syr Rhosier Fychan, gw. y nodyn cefndir.
- 4 **eos Powys** Cyfeirir ymhellach at Ddafydd fel *eos* yn ll. 48, gan awgrymu melyster ei lais; gw. hefyd ll. 1n. Cysylltir ei noddwr, Watgyn Fychan, yn gyffredin â Phowys yn y cerddi a ganwyd iddo: e.e., dywed Lewys y Glyn amdano, GLGC 285 (127.35–6), *Gwlad Bowys, mamwys y medd*, / *yw ei genedl a Gwynedd*; ac yntau Tudur Penllyn sy'n awgrymu bod gan Watgyn swydd weinyddol yn y dalaith, GTP 18 (11.23–4) *Llywodraethwr holl drethi / Powys wen, hapus yw hi*; ac

⁷ P.C. Bartrum: WG 2 'Gwyn ap Gruffudd' 3(G).

⁸ P.C. Bartrum: WG1 'Morgan Hir' 3.

meddai Dafydd Llwyd o Fathafarn, GDLI 32 (5.17–18), *Pen cenedl penâig Gwynedd, / Powys achlân, pais a chledd*, gan ddisgrifio Watgyn ymhellach mewn cerdd arall fel *Pais dew Powys ystiwart*, GDLI 105 (45.62).

- 6 **ŵyr Ieuan** Yr oedd Dafydd ap Hywel yn ŵyr i Ieuan Fychan, gw. y nodyn cefndir. Neu ai cyfeiriad at un o noddwyr Troea sydd yma?

o Droea Ai cyfeiriad sydd yma at un o lysoedd yr Herbertiaid, Troy Parva, yng nghantref Tryleg, arglwyddiaeth Brynbuga, gw. WATU 277? Cysylltir Wiliam Herbert a'i wraig â'r llys hwn, gw., e.e., NBSBM 26. Ond ni wyddys am gysylltiad rhwng Ieuan Fychan, taid Dafydd ap Hywel, a'r llys hwnnw. Ar y llaw arall, y mae'n bosibl mai cyfeiriad at Gaerdroea sydd yma, a'r bardd yn lleisio'r hen gred mai disgynyddion Brutus o Gaerdroea oedd y Cymry, gw. WCD 62. Yn ôl un traddodiad, ar ôl iddo ymsefydlu ym Mhrydain, cododd Brutus ddinas o'r enw *Troia Nova* ar lan Afon Tafwys.

- 7 **y ddwy Wynedd** Honnir yma fod Dafydd ap Hywel yn olrhain ei ach i deuluoedd Gwynedd Is Conwy a Gwynedd Uwch Conwy (cf. 9.34).

- 10 **ach y cyffin** Ai cyfeiriad at deulu'r Cyffiniaid yw hwn? Gan na lwyddwyd i olrhain unrhyw gysylltiad rhwng y Dafydd ap Hywel ab Ieuan Fychan a restrir yn yr achau a'r teulu hwn, diogelach, efallai, yw dehongli *cyffin* yma fel e.c. yn golygu 'ffin, goror, terfyn, tiriogaeth gyffiniol', gw. GPC 730, gan gymryd bod y gair yn cyfeirio at Ddafydd ap Hywel fel bardd a ganai yn ardal y Gororau.

- 12 **o fab Ieuf** Disgynnai Dafydd ap Hywel drwy ei nain, Angharad, o Ieuf ab Alo; gw. P.C. Bartrum: WG2 'Gwyn ap Gruffudd' 3(G) a'r nodyn cefndir. Ar *mab* 'disgynnydd', cf. y disgrifiad o Wiliam Herbert fel *mab o Urien*, 10.26.

o Bowys Cf. ll. 4n am gysylltiad Dafydd ap Hywel â Phowys.

- 13 **o ryw Dewdwr** Ni lwyddwyd i olrhain cysylltiad rhwng Dafydd ap Hywel a theulu Rhys ap Tewdwr.

- 14 **Arwystl** Ffurf amrywiol gyffredin mewn Cym.C. ar yr enw Arwystli, y cantref ym Mhowys Wenwynwyn, gw. WATU 7, 182. Hanai teulu nain Dafydd ap Hywel, Angharad ferch Ieuan, o Drefnant, Castell Caerinion, nid nepell o Arwystli. Gw. ll. 12n a P.C. Bartrum: WG1 'Morgan Hir' 3.

ystil Ar amrywiol ystyrion posibl *ystil*, gw. GPC 3333 d.g. *stil*^{1,2}. Yng nghyswllt y cyfeiriadau achyddol yma, cymerir mai 'teitl (swyddogol), (cyf)enw' yw'r ystyr tebycaf, cf. GLM 301 (LXXXIV.1) *Piau stil Powys dalaith?*

- 15 **aur rhudd** GPC 237 'red, ruddy or burnished gold; gold coins'.

- 16 **tefyrn** Gw. 9.20n.

- Dafudd** Sef Dafydd ap Hywel. Yn y tair llgr. ceir y ffurf *Dafudd*, gyda'r copïwyr yn amlwg yn poeni am yr odl â *rhudd* yn y ll. flaenorol; cf. uchod 13.37 lle y ceir gan Ddafydd Epynt ei hun y ffurf *Dulun* i odli ag *un*, ond gw. J. Morris-Jones: CD 246–7.
- 21–2 **Bedo / Brwynllys** Bedo Brwynllys, bardd a gysylltir yn arbennig â chanu serch. Canodd swrn go dda o gywyddau serch ynghyd â nifer bychan o gywyddau ac awdlau crefyddol a mawl a marwnad i uchelwyr. 1460 yw'r dyddiad a roddir ar ei gyfer yn CLC² 40, ac y mae'n amlwg o'i gerddi ei fod yn gyfoeswr i Ddafydd Epynt, Hywel Dafu ac Ieuan Deulwyn. Ymhellach, gw. ByCy 27 a CSTB 15–35 (XII–XXVII).
- 23 **tŷ gwaiil** Delweddaeth a berthyn i *genre*'r canu serch a natur, gw. David Johnston, 'The serenade and the image of the house in the poems of Dafydd ap Gwilym', CMCS, v (Summer 1983), 1–19.
- 24 **Dafydd** Gall yr enw hwn gyfeirio at Ddafydd ap Gwilym neu Ddafydd ap Hywel, gw. ll. 23n a'r nodyn canlynol.
- Ofydd** Publius Ovidius Naso, y bardd serch Rhufeinig; arno, gw. 5.77n. Erbyn cyfnod Dafydd Epynt cysylltid enwau Ofydd a Dafydd ap Gwilym â'i gilydd gan y Cywyddwyr, gw. R. Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1986), 2, 70–3.
- 33–4 **Tebyg am ei fenyg fydd / I rodd Ifor i Ddafydd** Cymherir Dafydd ap Hywel o ran ei haelioni yn rhoi ei farch, ei ffrwyn a'i gyfrwy i Ddafydd Epynt ag Ifor Hael, a roes ei fenig i Ddafydd ap Gwilym. Dichon y gwelir yma gyfeiriad penodol at gywydd Dafydd ap Gwilym yn diolch i Ifor Hael am fenig, gw. GDG³ 24–6 (cerdd 9). Ystyrid enw Ifor Hael, sef Ifor ap Llywelyn o Wernyclepa ym Masaleg, yn gyfystyr â'r noddwr delfrydol yng nghanu'r beirdd.
- 35 **Gwaith-foed** Yr oedd Gwaithfoed—neu *Waith-foed* fel y'i hacennir yn y ll. hon er mwyn y gynghanedd—yn sylfaenydd nifer o deuluoedd pwysig ym Mhowys, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Powys' 47 ac *ib.* 'Cydifor ap Gwaithfoed' 2.
- 36 **yndo** Ffurf amrywiol ar *ynddo*, gyda chalediad *-ndd-* > *-nd-*.
- Taliesin** Priodolir yma i Ddafydd ap Hywel *lais hen Daliesin*, gan uniaethu'r bardd felly â'r traddodiad barddol Cymraeg a ymestynnai yn ôl i'r 6g. Ai cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod Dafydd ap Gwilym yntau yn uniaethu ei *lais* ag eiddo Taliesin wrth ddiolch i Ifor Hael am ei fenig? Gw. GDG³ 25 (10.33, 35) *Rhoddaf i hwn ... / ... / Bendith Taliesin wingost*, a llau. 33–4n. Sylwer hefyd fod Dafydd Epynt yn moli Dafydd ap Hywel yn y cwpled nesaf am ei wybodaeth am rif y sêr, sef y math o wybodaeth a oedd ar flaenau bysedd y 'Taliesin' chwedlonol.

- 37–8 **Sêr ar awyr y dwyrain, / Ef a wŷr rhif ar y rhain** Molwyd yr esgob Siôn Morgan, yntau, am ei wybodaeth o gwrs y sêr, gw. 18.19–20 a 18.20n.
- 37 **awyr** Y mae'n odli'n lleddf yma, cf. 10.11.
- 40 **pryffaith** Ffurf amrywiol ar *pyrffaith*, *perffaith* drwy drawsosod, gw. GPC 2772, a cf. y ffurf *Tarhaearn* yn 20.40, 21.14.
- 41 **henwi** Am yr *h-* anorganig yma, gw. 9.39n.
- 42 **Nid â'r un neidr o'i enau** Cyfeiriad at arfau teulu'r Fychaniaid, a darddai o'r traddodiad fod un o hynafiaid y teulu, Moreiddig Warwyn, wedi ei eni â neidr am ei wddf; gw. 13.13n.
- 43 **Hwn yw Myrddin Moriddig** Yma uniaethir Dafydd ap Hywel â'r bardd Myrddin, a Watgyn Fychan ag un o'i hynafiaid yntau, sef Moreiddig Warwyn; gw. ll. 42n.
Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
- 46 **organ** Yn ffigurol am y bardd Dafydd ap Hywel.
Watgyn Fychan Sef noddwr Dafydd ap Hywel; gw. y nodyn cefndir.
- 48 **eos** Yn ffigurol am fardd; cf. ll. 4n.

16

Cywydd o fawl yw hwn i Siôn ap Rhosier ab Ieuan o Lanfrynach ger Aberhonddu a'i wraig Mawd.¹ Enwir Siôn ynddo ddwywaith (llau. 5, 12): fe'i gelwir yn *mab Roser* (ll. 3), cyfeirir ato fel *Brynachad* (ll. 22), a'i gysylltu â *Rhyw'r Gwnter* (ll. 28), *Rhyw Dudur* a *had Adam* (ll. 30); at hynny, enwir ei wraig, Mawd (ll. 48), a'i chysylltu â Morgan Awbrai (llau. 39–40).²

Hanai Siôn ap Rhosier o linach Trahaearn Fawr, a chan hynny gallai olrhain ei ach i Frychan Brycheiniog.³ Perthynai ei fam, Marged ferch Siencyn Hen, i linach y Gwnteriaid,⁴ ac yr oedd hi'n chwaer i Isbel, nain Hywel Amhadog (cerdd 21); gallai mam Marged ac Isbel, Gwenllïan ferch Gwilym o Borthogof, olrhain ei hach hithau i Einion Sais drwy Rys Llwyd ab Adam.⁵ Priodasai Siôn â Mawd ferch Morgan Awbrai Hen, a oedd yn chwaer i Siencyn Awbrai, tad Hoggyn Awbrai y canodd Dafydd Epynt awdl

¹ Am gerddi eraill lle y cyfeirir at wragedd noddwyr, gw. y Rhagymadrodd, tt. 16–17.

² Gw. y tabl achau, isod td. 160.


³ P.C. Bartrum: WG2 'Trahaearn Fawr' 10(A1), P.C. Bartrum: WG1 'Trahaearn Fawr' 10, 8, 1; P.C. Bartrum, 'Pedigrees of the Welsh Tribal Patriarchs', Cylch LIGC xiii (1963–4), 122 (rhif 67).

⁴ P.C. Bartrum: WG 2 'Gunter' 2, 1.

⁵ P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 25.

faith iddo (cerdd 17).⁶ Cysylltir Siôn yn yr achau â Llanfrynach (cf. ll. 22n).

Ach Siôn ap Rhosier



Cadwyd tair cerdd i Siôn ap Rhosier yn Pen 55, sef awdl anghyflawn gan Domas Derllys a chywydd yr un gan Owain Ieithon a Dafydd Epynt,⁷ pob un ohonynt yn ganu mawl traddodiadol. Fe'i molir am ei filwriaeth ddewr ac am ei achau ef a'i wraig, a chyfeiria Tomas Derllys yn arbennig at ei ddysg—*E fyn wybodau fwy no'i bader*—gan ddweud ei fod fel *lanter* a oleuai'r ffordd i'r beirdd. At hynny, dywedir ei fod yn boblogaidd gan y *glêr*, a *glyw i ddaed / O ddwywent i Fynwy*.⁸

Nid oes gennym ddigon o wybodaeth i allu cynnig dyddiad ar gyfer y cywydd hwn, ac eithrio'r ffaith iddo gael ei godi gan Ddafydd Epynt cyn c. 1500 i lawysgrif Pen 55.⁹ Fel sy'n gyffredinol wir am ganu'r bardd hwn, y mae rhannau o'r cywydd yn dywyll iawn. Dichon fod y defnydd o gyfeiriadaeth frudiol a welir yma'n rhannol gyfrifol am hyn.

- 2 **Arian filwr â'n felyn** A yw'r bardd yma'n dymuno gweld coler arian ei noddwr yn cael ei heuro wrth iddo gael ei urddo? Cf. 17.27–8n.
- 3 **mab Roser** Rhosier ab Ieuan o Lanfrynach oedd tad Siôn, gw. y nodyn cefndir.
- 4 Y mae'r ll. yn hir o sillaf ac efallai y dylid darllen *Y doi i'r gred*. A yw'r ll. yn gyfeiriad at sôn am grwsâd newydd, efallai yn y Brudiau?
- 5–6 **Siôn, ni bu wers yn y brud / Yt na weddai** Cymerir mai ystyr *gwers* yma yw 'cyngor' neu efallai 'pennill' (gw. GPC 1645 am amrywiol ystyron y gair); cf. *gwers yr âb*, 12.29–30n. Awgrym y cwpled yw fod

⁶ P.C. Bartrum: WG2 'Aubrey' 2.

⁷ Gw. Pen 55, 41, 154, 156; ac am ymdriniaeth â'r canu hwn, gw. NBSBM 114–20.

⁸ *Ib.* 116–20.

⁹ Ymhellach ar y llsgr., gw. td. 209.

popeth a ddywedir yn y canu brud am y mab darogan yn gweddu ar gyfer Siôn, hynny yw, y mae'n ymgorfforiad o obeithion y canu brud.

Ceir crych a llyfn yn ll. 5.

- 11–12 **Un drwg a wna dŵr eigion, / A'th war sy waeth o'i fwrw, Siôn** Deellir *dŵr eigion* yn ll. 11 yn ffigurol am ddagrau (cf. 12.31, 13.20, &c.); yn ll. 12 cawn achos y dagrau hyn, sef y ffaith fod gwar Siôn wedi ei bwrw. Yn sgil y cyfeiriadau at 'euro gwar' mewn cyswllt ag urddo gŵr yn farchog a'i anrhydeddu (cf. 12.29–30 *Nid eurid yn y dyrys / Heb wers yr âb war Syr Rhys*), gellid cynnig bod 'bwrw gwar' yn gyfystyr ag ymosod ar anrhydedd neu falchder dyn. Ond y mae'n bosibl mai cyfeirio a wneir at daro Siôn yn llythrennol, a'i fod wedi ei glwyfo: ai dyma yw'r *Gwayw dan y fron ... / A than iad* y cyfeirir ato yng nghwpled olaf y gerdd?
- 18 **ffwyl** Sef 'ataliad, rhwystr' yma, cf. GPC 1331 d.g. *ffwyl*¹, lle y daw'r enghraifft gynharaf o ail hanner yr 17g. Sylwer, er hynny, mai *hawllffwyl* yw darlleniad y llsg. (a roddai gynghanedd groes o gyswllt); ond ni lwyddwyd i gael unrhyw oleuni ar y ffurf *hawllff*. Yn betrus cynigir aralleirio'r cwpled yn fras fel a ganlyn: 'Ni welais ffaelu'n faith hawl [ar dy roddion] er y sawl a geisiodd atal eu rhoddion hwythau.'
- 21 **pêl** Sef yma 'gwobr, camp, anrhydedd, clod', &c., gw. 9.3n.
- 22 **Brynachad** Cysylltir Siôn ap Rhosier yn yr achau â Llanfrynach yn Nhir Ralff ger Aberhonddu, gw. WATU 124, ac felly dehonglir yr enw hwn yn gyfuniad o'r ep. *Brynach* a'r terfyniad *-ad* (cf. 13.10n ar *Rhoseriad*).
- brain uchel** Fel y gwelwyd yn 9.16n, cynrychiola'r frân neu'r brain yn aml aelod o deulu Dinefwr; ond oherwydd y cyswllt â brain Owain ab Urien Rheged, dichon eu bod yn hen symbolau brudiol, gw. 13.41–2n.
- 23 **ni bu dwrn** Ymddengys mai treiglo'r goddrych yw arfer Dafydd Epynt yn dilyn *ni bu*—cf. ll. 5 *Ni bu wers yn y brud*, a 10.3 *Ni bu ddwrn heb wayw neu ddau*—a chan hynny cymerir mai *twrn* yw'r ffurf gysefin yma. Yn GPC 3662 rhoddir i *twrn* yr ystyron 'tro ..., gweithred, camp, gorchest', a cf. GIG 30 (VI.86) *Mewn pwll trydwill troëdig / Y bu ar Sadwrn, dwrn dig* a gw. *ib.* 180. Rhoddai hynny ystyr boddhaol i'r cwpled *Ni bu dwrn ... / Betai 'n Iorc na baut ti'n un*: 'Ni bu camp / gorchest ... / Betai yn Efrog na byddet ti'n rhan ohono'.
- 24 **Iorc** Cymerir bod y bardd yn y llau. hyn yn cyfeirio at ymgyrch benodol i ogledd Lloegr, gw. llau. 23n, 26n.
- 26 **North** Sef gogledd Lloegr yma; cf. 9.42n; gw. hefyd lau. 23n, 24n.
- 27 **tarw** Ar ei ddefnydd fel term arwrol, gw., e.e., 9.9–10n a 10.21–2n.
- 28 **Gwnter** Yr oedd mam Siôn, Marged ferch Siencyn, yn perthyn i linach y Gwnteriaid, gw. y nodyn cefndir.

- 30 **Tudur** Ni lwyddwyd i ganfod unrhyw Dudur amlwg yn achau Siôn ap Rhosier.
Adam Un o hynafiaid nain Siôn ar ochr ei fam oedd Rhys Llwyd fab Adam, gw. y nodyn cefndir.
- 32 **gloen Duw** Ar *gloen*, amrywiad ar *glöyn*, gw. GPC 1410 ac *ib.* am y cyfuniad *glöyn Duw* ‘butterfly’. Disgrifiodd Iolo Goch Ithel ap Robert fel *gloyn Duw Tegeingl*, GIG 69 (XV.20).
- 34 **gwÿdd fyr** Cf. 14.57 [l]linon fyr.
- 36 **gwraig** Gw. ll. 48n.
- 38 **afall o nef** Ai cyfeiriad at Mawd yw hwn?
- 39–40 **Morgan / Awbrai** Tad Mawd, gwraig Siôn, oedd Morgan Awbrai; gw. y nodyn cefndir.
- 39 Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
- 42 **Normant wen orau** Disgrifiad o Fawd, gwraig Siôn, a hanai o deulu Normanaidd yr Awbriaid. Ar y *-t* anorganig yma yn *Normant*, cf. GC 7.219n.
- 44 Ceir twyll gynghanedd yn y ll. hon.
- 45 **had ... ei hau** Ar y syniad o *hau had*, gw. 12.19n.
- 48 **Mawd** Gwraig Siôn, gw. y nodyn cefndir. Er mai Norman ydoedd o ran ei thras, fe’i molir yn y cwpled hwn fel un a roddai bris uchel ar farddoniaeth frodorol ac fel un a oedd yn barod ei chanmoliaeth i Ddafydd Epynt ei hun.
- 51 **gair** ‘Clod, bri’ yma, gw. 13.23n.

17

Dyma’r unig gerdd ar glawr i Hopgyn Awbrai o Abercynfrig.¹ Enwir Hopgyn yn yr englyn cyntaf, a chyfeirir at ei enw teuluol, *Awbrai* (llau. 12, 50), ac at ei ach drwy ei gysylltu â *rhyw Dafydd* (ll. 25), *llwyth Urien* (ll. 18), *Einion* (ll. 37) ac *Owain* (ll. 38). Er ei gysylltu â’r ardal *uwch Hafren* (ll. 19, ac *ib.n.*), ni chyfeirir at ei gartref yma, nac ychwaith at ei wraig, ond hwyrach nad oedd wedi priodi erbyn canu’r gerdd hon.

O’r achau gorau i gyd—y tyfaist, / Etifedd cedernyd (llau. 15–16), medd y bardd wrth gyfarch Hopgyn, ac o edrych yn yr achau gwelir ei fod yn wir yn perthyn i nifer o deuluoedd pwysig. Yr oedd Gwenllïan, ei fam, merch Owain ap Gruffudd ab Owain Gethin (gw. ll. 38), yn chwaer i wraig Hywel Amhadog ap Trahaearn (cerdd 21), a thrwy ei mam hithau, Mawd, yr oedd

¹ Ni sonnir am y gerdd hon yn NBSBM 29ff lle y cyfeirir at dair cerdd a gadwyd i Siôn Awbrai o ail hanner yr 16g. fel yr unig gerddi a gadwyd i noddwr o Abercynfrig.

odl, a phob pennill yn cynnwys dau gwpled o gyhydedd naw ban yn cael eu dilyn gan doddaid.⁸ Cysylltir diwedd y gyfres englynion â'r gwawdodyn cyntaf drwy gyrch-gymeriad, ac y mae diwedd yr awdl yn cyrchu ei dechrau. O ran y gynghanedd, gwelir bod Dafydd Epynt erbyn canu'r awdl hon yn feistr llwyr ar ei grefft: gweler, er enghraifft, linellau 31–6, lle y mae'r cynganeddu'n ymddangos yn gwbl ddiymdrech ond lle y mae'r gyfatebiaeth cytseiniaid yn y gynghanedd groes a rhwng yr ail a'r trydydd bar yn y gynghanedd sain yn llawn iawn.

Nid oes modd dyddio'r awdl hon, dim ond nodi iddi gael ei chodi gan Ddafydd Epynt ei hun i lawysgrif Pen 55 c. 1500.⁹

- 1 **o lyn diol—hwnt** Deellir *diol* yn ffurf amrywiol ar *deol*, gw. GPC 919 d.g. *deholaf*. O ddeall *glyn diol* yn gyfeiriad at ardal alltudiaeth, a ellid deall yr ymadrodd yn gyfeiriad at gyny'r Cymry?
- 12 **Awbrai** Enw teuluol Hopgyn; cf. ll. 50 a gw. y nodyn cefndir.
- 12, 13 **pêl** Ar y gair yn yr ystyr ffig. 'gwobr, camp, anrhydedd', cf. 9.3n. Fodd bynnag, o ystyried yr ymadrodd *uchel yw'r bêl* yn ll. 13, y mae'n rhaid ystyried ai'r gair *bel*, o'r S. *bell* 'cloch', sydd yma, gair a geir yn yr un math o ystyron ffigurol â *pêl*; ar *bel*, gw. GSRh 11.71–2n a GDG³ 475–6.
- 14 **chwech gwryd** Mewn Cym.C. gellid rhoi *chwech* neu *chwe* o flaen e., gw. GMW 45 ac WG 175.
- 18 **llwyth Urien** Sef Urien Rheged; gallai Hopgyn olrhain ei ach i Urien drwy ei dad, Siencyn ap Morgan Awbrai Hen, gw. y nodyn cefndir.
- 19 **uwch Hafren** Dichon y cyfeirir yma at ehanger dylanwad Hopgyn Awbrai y tu draw i Afon Hafren. Ar wahanol ystyron *uwch* mewn cyswllt ag enwau lleoedd, gw. Melville Richards, 'The significance of *is* and *uwch* in Welsh commote and cantref names', Cylchg HC ii (1964–5), 9–18.
- 23–4 **A fo dewraf a diriaid, / Yn eirth a drôn' wrth dy raid** Deellir *eirth* yma'n ffig. am filwyr dewr: awgrym y cwpled yw fod Hopgyn yn llwyddo i droi'r gwŷr dewraf a gorchfygwyr (*diriaid*) i ymladd dros ei achos ef (*dy raid*). Ar *diriaid*, ffurf l. *diriad* 'cymhellwr, ... gorchfygwr', gw. GPC 1034 d.g. *diriad*²; ac ar *rhaid* 'anghenraid, ... argyhoeddiad', &c. ac o bosibl 'brwydr', gw. GPC 3031. Caiff milwriaeth Hopgyn, a'i allu fel arweinydd milwyr, gryn sylw yn yr englynion hyn.
- 25 **rhyw Dafydd** Disgynnai Gwenllian, mam Hopgyn, o Syr Dafydd Gam; gw. y nodyn cefndir.

⁸ J. Morris-Jones: CD 341–2.

⁹ Ymhellach ar y llsgr., gw. td. 209.

- 26 **bwned** Dichon mai ffurf amrywiol ydyw ar *bonet*, *boned* ‘penwisg dynion a bechgyn gynt’, gw. GPC 299 (lle y cyfeirir at enghreifftiau o waith Tudur Aled), yn hytrach na ‘Darn o gynfas wedi ei sicrhau wrth odre hwyl er mwyn dal mwy o wynt’, *ib.* 354 d.g. *bwned*. Cymerir mai cyfeirio at benwisg amddiffynnol neu helm o ryw fath a wneir yma.
- 27–8 **Dau goler arian ... / Duw a ro newid o aur newydd** Mynegir yma’r un dymuniad ag a leisiodd y bardd yn ei gerdd i Siôn ap Rhosier, sef y newidid coler arian ei noddwr am goler aur fel y câi’r noddwr ei urddo’n farchog: 16.1–2 *Ysgwier, gwisg aerwy gwyn, / Arian filwr â’n felyn*; cf. hefyd 14.39. Ar arwyddocâd coleri aur, gw. ymhellach 9.27–8n.
- 35 **i’th genedl** ‘Yn dy genedl’; cf. 4.28n.
- 36 Cynganedd sain neu gynghanedd groes gydag *r* wreiddgoll.
Yr haf grymusaf a gâi’r mesydd Ni restrir *mesydd* yn GPC 2443 ac felly y mae’n bosibl y dylid diwygio a darllen *meysydd*; am yr ymadrodd *cael y maes* ‘gorchfygu, ennil’, gw. 12.8n. Fodd bynnag, ceir enghraifft arall o’r ffurf *mesydd* yn Peniarth 67, 110 (LXXIII.39) *Torri maes taer ymessyd*, ac fe’i dehonglir yn betrus i olygu ‘un sy’n defnyddio mes’ (ar *mes* ‘brysgyll’, o’r S. *mace* ‘club’, gw. GPC 2438 d.g. *mes*³), gyda’r terfyniad *-ydd* yn dynodi gweithredydd. Fe’i deallir yn gyfeiriad at Hopgyn. Yr oedd haf da yn un o’r arwyddion brud (‘yr haf hirfelyn’, ‘haf da brwd’, &c., gw. GDGor 4.41–2n), a hwyrach fod y bardd yma’n gweld *yr haf grymusaf* hwn yn arwydd o lwyddiant ei noddwr yn sgil ei ymladd effeithiol.
- 37 **Einion** Einion Sais, cyndad i Hopgyn ar ochr ei dad a’i fam; gw. y nodyn cefndir, ac ymhellach ar Einion Sais, gw. 10.29n.
- 38 **Owain** Cyfeiriad achyddol arall: yr oedd mam Hopgyn, Gwennllïan, yn ferch i Owain ap Gruffudd ab Owain Gethin, gw. y nodyn cefndir.
- 39 **od** Y mae sawl posibilrwydd: gallai gynrychioli’r cys. *o(d)* ‘os’, GPC 2611 d.g. *o*³; gallai fod yn a. yn yr ystyr ‘anarferol, ... rhyfedd’, &c., gw. *ib.* 2616 d.g. *od*¹; neu ynteu’n e. *ôd* ‘eira’, *ib.* d.g. *ôd*¹. Os yr olaf, ai delweddaeth o’r canu brud sydd yma? Cf. GDGor 4.68n.
- 41 **Sedd** Seth, y cymeriad o’r Hen Destament y digwydd ei enw yn yr achau fel cyndad traddodiadol; gw. EWGT 213 d.g. *Seth*, a cf. 6.5n ar *Noe* ‘Noa’.
- 42 **Ni wedd dy fonedd hyd Fefenydd** Cwmwd yn Uwch Aeron yw Mefenydd, gw. WATU 154. Dichon mai ‘mynd dan yr iau, plygu, ymostwng’, &c. yw ystyr *gweddu* yma (gw. GPC 1609), a bod y bardd yn honni nad oes dim plygu na gostwng ar fonedd neu bendefigaeth y noddwr hyd at eithafion Mefenydd.

- 44 **Maelienydd** Cantref ac un o arglwyddiaethau Iorc yn nwyrain y Gororau, gw. WATU 287. Ymddengys fod y bardd yn y cwpled hwn yn cysylltu'r *hendad a'r tad* â'r cantref hwn ('Dau o Faelienydd a foliannwyd'), er na lwyddwyd i olrhain unrhyw gyswllt yn yr achau; ond gellid hefyd ddeall bod y mawl i'r ddau yn dod o *Faelienydd*, h.y. o bell.
- 50 **Awbrai** Gw. ll. 12n.
- 51 **Nudd** Nudd Hael, un o'r Tri Hael, gw. TYP² 476–7.
- 53–4 **Dy daid ... / A rôl'r aur Afia** Gan fod *taid* yn gallu golygu 'hen daid', cf. GPC 2432, tybed ai cyfeiriad sydd yma at y ffaith fod Morgan ap Syr Dafydd Gam, hen daid Hopgyn ar ochr ei fam, wedi bod yn noddwr i Ddafydd Epynt? (Am ei awdl farwnad i Forgan, gw. cerdd 5.) Ar *aur Afia* 'Arabian gold', gw. GPC 237 ac ymhellach GSH 18.73n ar *mwnai'r Afia* a GDG³ 452 ac IGE² 394 lle yr esbonnir i'r ffurf *yr Afia* darddu o *Arafia*, drwy gymryd mai'r fannod oedd sillaf gyntaf y gair hwnnw. Annisgwyl braidd yw cael y fannod o flaen y cyfuniad *aur Afia* yma, ac ni chafwyd enghreifftiau eraill o'r gystrawen hon.
- 57 **tân onwydd** Yn y cwpled hwn dywed y bardd nad oes rhaid iddo ofni dyfodiad y gaef byth eto oherwydd y tân ar aelwyd Hopgyn. Cyfeiriodd eisoes at dân croesawgar Tretŵr, 13.35–6 *Ni ddaw diwedd aweddwr / Na derw i'r tân o Dre'rtŵr*. Posibilrwydd arall yw fod y bardd yma'n tynnu ar ddelweddaeth y canu brud, o gofio'r mynych gyfeiriadau ynddo at danau.
- 59 **pêl** 'Clod', &c., gw. 9.3n.
- 65 Ceir crych a llyfn yn y gynghanedd sain hon.
- 67 **difiâu** Ymddengys fod y bardd yn y ll. hon (ac yn wir yn y pennill hwn) yn tynnu ar draddodiadau'r canu brud. Ceid traddodiad yn y canu hwnnw y gorchfygid y Saeson ar ddydd Iau, gw. GDGor 4.70n; cf. hefyd y cyfeiriad at Iau yn yr englynion brud yn GGM 13.11. Yn llau. 67–8 y mae Dafydd Epynt fel petai'n gofyn i Hopgyn sicrhau ei fod yn dod â rhyddid i'w bobl ar ddydd Iau rhag iddynt gael eu dwyn i'r *rhwyd* (sef i gaethiwed).
- 69 **haf ... hydd** Am gyfeiriadau at yr *haf* yn y canu brud, gw. ll. 36n. Yr oedd yr *hydd* hefyd yn ddelwedd gyffredin yn y canu hwnnw am 'arwr', gw. GWL ii², 267.
- 72 **Iddewon** Ystyrid yr Iddewon yn yr Oesoedd Canol yn ddi-ffydd, ac felly dywed y bardd mai un o ddyletswyddau Hopgyn oedd eu dwyn i'r ffydd â'i ffon (cf. 5.80n) a lladd y Saeson (ll. 71)! Yr oedd brwydro yn erbyn yr Iddewon a'r Saeson yn ogystal â'r Gwyddyl eto'n thema gyffredin yn y canu brud; gw. GWL ii², 259–60. Ymhellach ar wrth-Iddewiaeth yr Oesoedd Canol, gw. 14.71n.

Ceir dau gopi o'r gerdd hon yn y llawysgrifau, y naill yn llaw Dafydd Epynt yn Pen 60, 77 a'r ail yn Pen 312, 77 yn llaw John Jones, Gellilyfdy. Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng y ddau destun. Nid oes na theitl na phriodoliad i'r gerdd, a'r prif sail dros ei chynnwys yng ngwaith Dafydd Epynt yw'r ffaith ei bod yn ei law ei hun.¹ (Dim ond dwy gerdd nad oeddynt yn sicr yn waith iddo'i hun a gododd Dafydd Epynt, sef cywydd a briodolir ganddo i Lawdden a cherdd o gyfnod Beirdd y Tywysogion a briodolir ganddo i Lywarch Offeiriad.²) O ran iaith ac arddull, y mae'r gerdd yn gwbl nodweddiadol o waith Dafydd Epynt, ac o gymharu ei ch ynganeddiad â'r gerdd arall gan Ddafydd yn y llawysgrif hon (sef 'Marwnad Hywel Amhadog ap Trahaearn', cerdd 21), gwelir nad oes fawr o wahaniaeth rhyngddynt.³

Ar yr olwg gyntaf, y rheswm cryfaf dros amau mai cerdd gan Ddafydd Epynt yw hon yw ei noddwr. Cyfeirir ato yn y llinell gyntaf fel esgob, ac ymhellach fel *Doctor Siôn* (ll. 38). Cyfeirir at Fynyw (ll. 6) ac at Ddewi (llau. 14, 43), a derbynias awgrym Mr Daniel Huws mai Siôn Morgan, esgob Tyddewi rhwng 1496 a 1504, yw'r noddwr.⁴ (Gwrthodir barn J. Gwenogvryn Evans mai cerdd 'In memory of Bp. Robert Ferrar' ydyw, gŵr a fu farw yn 1555.⁵) Y mae'r ffaith fod Dafydd Epynt yn cyfarch Siôn fel esgob yn llinell gyntaf y gerdd yn awgrymu'n gryf ei bod yn perthyn i'r cyfnod 1496–1504; ategir hyn gan y cyfeiriadau pellach at Ddewi (llau. 14, 43).

Yn ogystal, o edrych ar linach Siôn Morgan, gwelir bod cysylltiad achyddol rhyngddo a nifer o'r teuluoedd y canodd Dafydd Epynt iddynt. Yr oedd yn fab i Forgan ap Siencyn o deulu Morgan o Fachen a Thredegar, sir Fynwy, a thrwy ei fam, Margred ferch Dafydd Mathew, perthynai i brif deuluoedd de-ddwyrain Cymru: yr Herbertiaid, disgynyddion Syr Dafydd Gam a'r Woganiaid yn ogystal â'r Dwniaid.⁶ Yr oedd hefyd yn frawd i Sisil, gwraig gyntaf Syr Tomas Fychan (gwrthrych cerdd 13) a mam Siôn Fychan (gwrthrych cerdd 14), ac y mae'n bosibl mai hi yw'r cyswllt rhwng Siôn Morgan a'r bardd.⁷

¹ Cf. cerdd 6 uchod a gw. ymhellach y Rhagymadrodd, td. 22.

² RWM i, 424.

³ Cerdd 18: croes tua 84 y cant, llusg 8 y cant, sain 6 y cant a thraws 2 y cant; Cerdd 21: croes 86 y cant, llusg 8 y cant a sain 6 y cant.

⁴ J. Le Neve ed., *Fasti Ecclesiae Anglicanae 1300–1541: the Welsh Dioceses*, compiled by B. Jones (London, 1965), 55. Ymhellach ar Siôn Morgan, gw. ByCy 608; L. Dwnn: HV i, 218–19; P.C. Bartrum: WG2 'Cydifor Fawr' 15(A1). Canodd Ieuan Deulwyn yntau gywydd i Siôn Morgan, gw. ID 50–1 (XXVII).

⁵ RWM i, 439; ar yr Esgob Robert Ferrar, gw. CLC² 256.

⁶ Gw. P.C. Bartrum: WG2 'Cydifor Fawr' 15(A1).

⁷ Gw. *ib.* a 'Gwaithfoed' 5 ac ymhellach nodyn cefndir cerdd 14 uchod.

Gwyddom rai manylion am hynt gyrfa Siôn Morgan. Fe'i haddysgwyd yn Rhydychen lle y graddiodd yn ddoethur yn y gyfraith.⁸ Ymddengys iddo gynorthwyo ei frawd, Trahaearn Morgan, cyfreithiwr o Gydweli, i ddarbwylllo Syr Rhys i gefnogi gwrthryfel gan yr alltud Harri Tudur yn erbyn Richard III.⁹ Pan esgynnodd Harri i'r orsedd, rhoes nifer o swyddi eglwysig i Siôn, yn eu plith ddeoniaethau Windsor a Chaerlŷr ac archddiaconiaeth Caerfyrddin. Yn 1496 dyrchafwyd Siôn yn esgob Tyddewi a bu farw ym mhriordy Caerfyrddin tua diwedd Ebrill neu ddechrau Mai, 1504 a'i gladdu yn eglwys gadeiriol Tyddewi.

Yn hanner cyntaf y gerdd (llau. 1–26) ceir mawl traddodiadol i'r esgob: molir ei ddoethineb, gan gyfeirio at y ffaith ei fod yn ddoethur (e.e. llau. 9, 17–18, 38). Rhoddir cryn bwyslais yn y gerdd ar gryfder ei ffydd (neu efallai ei gryfder corfforol): fe'i cymherir ag *Ector hen / Fab Briaf* (llau. 9–10) a honnir, *O'r crefyddwyr cryf oeddu* (ll. 8). Sonnir am ei ymgyrch yn erbyn pechod ac anghyfiawnder yn y byd yn nhermau milwriaethol: *D'arfau a gad rif y gwýdd / I gadw'r byd gyda'r bedydd* (llau. 21–2).

Y mae naws y cywydd yn newid yn llinellau 27–8 wrth i'r bardd droi ei sylw at grair, y daw'n amlwg mai torch Cynog Sant ydyw (gw. yn arbennig lau. 34, 35, 52). Cyfeirir at hanes llunio'r dorch (gw. llau. 29–32n), gan honni na fyddai Cynog yn ei symud o'i eglwys (ll. 35). Yna y mae'r bardd yn cyfarch Siôn Morgan yn uniongyrchol, gan ymbil arno i beidio â gwneud dim a fyddai'n digio'i *gâr* a'r saint a chan erfyn arno i wneud penderfyniad doeth (llau. 37–8, 41–2). Ymddengys fod y bardd yn ymbil ar yr esgob i beidio â symud torch Cynog, ac o bosibl ei gorff, o'u man cysegredig yn eglwys Merthyr Cynog i Dyddewi. Yn y cwpled olaf erfynia'r bardd ar i'r esgob adael llonydd i'r dorch i amddiffyn eglwys y sant: *Gwedy bod y gwaed o'i ben, / Gad i'r dorch gadw'r dywarchen* (llau. 51–2).

1 **Yr esgob aur wisg ei ben** Fel y gwelir yn y nodyn cefndir, yr oedd Siôn Morgan yn esgob Tyddewi pan ganwyd y gerdd hon. Cyfeiriodd Ieuan Deulwyn yntau at wisg euraid yr esgob Siôn, *dyn U wisc ayr dan y gob / dwfwnn o ddysc defnydd escob / ... mythyr ayr am yiad traw*, ID 50–1 (XXVII.21–2, 26).

2 **had** Gw. 7.8n.

Urien Sef Urien Rheged, brenin yr Hen Ogledd yn y 6g., yr olrhainiaid nifer o deuluoedd eu hach iddo; arno—gw. TYP² 516–20 a cf. 10.26n—gan gynnwys teulu mam Siôn Morgan, sef Margred ferch Dafydd Mathew, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Einion ap Gollwyn' 1, 2, 14 ac *ib.* td. 51. Cyfeiria Ieuan Deulwyn yntau yn ei gywydd i Siôn at lwyth Urien:

⁸ A.B. Emden, *The Biographical Register of the University of Oxford to 1500* (3 vols., Oxford, 1958), ii, 1311.

⁹ R.A. Griffiths: RhT 38; ymhellach ar hanes cyfeillgarwch a chefnogaeth Siôn Morgan i Harri Tudur, gw. WCCR² 302.

llwyth U rryen ynlllythyrol / U llen aeth oll yn y ol, gw. ID 50 (XXVII.11–12).

- 3 **ucha' gradd** Gall gyfeirio naill at ei radd doethur yn y gyfraith neu at ei statws fel esgob Tyddewi.
- 4 Ceir yma *-d d-* yn cael eu hateb gan *d-*.
- 6 **Mynyw** Dichon mai Tyddewi (*Menevia*) yn sir Benfro.
- 9 **doctor** Cf. ll. 38 *Doctor Siôn* ac *ib.n.* Fel y gwelwyd yn y nodyn cefndir, yr oedd Siôn Morgan wedi graddio'n ddoethur yn y gyfraith.
- 9–10 **Ector hen / Fab Briaf** Hector oedd mab hynaf Priaf a Hecuba, a'r dewraf o ryfelwyr Caerdroea, gw. OCD³ 673, a cf. TYP² 122 *Tri Dyn a gauas Kedernit Adaf: Ercwlf Gadarn, Ac Ector Gadarn, A Sompson Gadarn*.
- 11 **pab** Defnyddid *pab* yn aml gan y beirdd i ddisgrifio uchel swyddogion yr eglwys megis esgob neu offeiriad, gw. GPC 2662, ond gall gyfeirio yma'n benodol at y Pab yn Rhufain.
- 12 **Agla** Un o'r enwau a ddefnyddid i gyfarch Duw, gw. GSRh 12.241n a cf. GIBH td. 10n50.
- 14 **Dewi** Nawddsant Cymru, gw. TWS 31–73. Awgryma'r bardd yn y cwpled hwn fod duwioldeb Siôn gymaint ag eiddo Dewi Sant, ei ragflaenydd pell yn eglwys Tyddewi.
- 19 **dydi** Llsgr. *Tydi*; diwygiwyd er mwyn osgoi twyll gynghanedd.
- 20 **cwrs y sêr** Er mai doethur yn y gyfraith oedd Siôn ap Morgan, cais Dafydd Epynt bwysleisio yma ehangder cyffredinol ei ddysg. Yr oedd seryddiaeth yn faes astudiaeth poblogaidd ym mhrifysgolion yr Oesoedd Canol, pan gredai dyn fod y ddaear yn ganolbwynt y bydysawd a bod y pum planed a oedd yn hysbys ar y pryd, sef Mercher, Gwener, Mawrth, Iau a Sadwrn, yn ogystal â'r haul a'r lleuad a gyfrifid yn blanedau, yn troi mewn cyfres o gylchoedd consentrig crisialaidd o gwmpas y byd. Credid bod y planedau wedi eu cyfansoddi o gyfuniad o bedwar defnydd a chan fod y rhain yn cyfateb i wlybyron y corff dynol fod cysylltiad annatod rhwng y planedau a dyn a bod symudiadau'r syngngylech yn y ffurfafen yn rheoli'r corff dynol, gw. DrOC 109. Bu Ieuan ap Rhydderch, yntau, yn astudio hynt y planedau, o bosibl yn Rhydychen, *Dysgais, ystriciais ystrac, / Deall modd y sodiac; / A'r saith planed, dynged dygn, / Diddicson a'r deuddecysgn*, gw. IGE² 229 (llau. 9–12). Ymhellach, gw. Laurel Means, *Medieval lunar astrology: a collection of representative Middle English texts* (Lampeter, 1993), 1.
- 21 **rhif y gwÿdd** Ymadrodd cyfystyr â *rhif y sêr* neu *rif y gwllith*, gw. GPC 3069 lle y rhoddir iddo'r ystyron '*the number of the trees, a great number or amount; as numerous as the trees, ... countless, innumerable*'.

Cyfystyr hefyd yw *rhif y dail* (11.12), *rhif aeron* (14.53) a *rhif y glaswellt* (19.19). Yma y mae'n goleddfu *arfau*.

- 26 **sedd** Gwyddys i Siôn adeiladu gorsedd esgobaethol rwysgfawr yng nghadeirlan Tyddewi, ac felly gall y cyfeiriad hwn fod yn un penodol, gw. Edward Yardley, *Menevia Sacra*, ed. Francis Green (London, 1927), 83. Er hynny, gall mai cyfeiriad at y cymeriad beiblaidd, Seth, sydd yma; cf. 17.41n.
- 28 **crair** Ai cyfeiriad at dorch Cynog Sant sydd yma? Gw. llau. 29–32n a'r nodyn cefndir, ac ymhellach ar Gynog a'i dorch, gw. y nodyn cefndir i gerdd 3.
- 29–32 Ymddengys fod y bardd yma'n cyfeirio at hanes am dorri torch Cynog. Yn ôl Hywel Dafî, ni fyddai na tân na gof yn gallu ei gwneud yn gyfan pe torrai; dywedir bod gof o *Evena gynt* wedi cael cryn waith yn ei thrwsio, tra bo Iesu wedi asio'r tri darn yn hawdd: *odid, o thorrid, na tân / nag un gof a'i gwnai 'n gyvan; / y gof yn Evena gynt, / o'i thorri, bu waith hirynt; / tri darn kadarn y kydiawdd, / Iesu' i hun a'u asiai'n hawdd* (dyfynnir o TWS 182). Er sôn gan Hywel Dafî yma am dân a gof a thorri'r dorch yn dri darn (cf. ll. 30 *deiran*), nid esbonnir yr awgrym a wneir gan Ddafydd Epynt fod y gof wedi ceisio torri'r dorch ac wedi marw *o'r gis* ('ergyd'). Fodd bynnag, cofnododd Hugh Thomas, hynafiaethydd o'r 18g., hanes a all oleuo hyn (dyfynnir eto o TWS 183): '[Hugh Thomas ...] writes that when Cynog was passing a smithy the smith called him in, and deriding him took the torque, striking it on the anvil and saying it never killed an Ormest. Thereupon, a little piece flew up and pierced the smith's brain, killing him.'
- 31 Y mae'r gynghanedd groes yn milwriaethu yn erbyn yr ystyr yn y ll. hon. Posibilrwydd arall yw atalnodi fel a ganlyn: *Gwae ef, tra, gof a'i trewis*, gan ddeall *tra* yn e., yn ffurf amrywiol ar *traha*. Ond sylwer mai gyda phetruster y nodir yr amrywiad hwnnw yn GPC 3550 d.g. *traha*.
- 34 **Ôl y mwrthwl ym Merthyr** Ymddengys fod hwn yn gyfeiriad at hanes gwneuthuriad torch Cynog (gw. y nodyn blaenorol), sant a gysylltir â Merthyr Cynog.
- 35 **Cynog** Sef Cynog Sant, gw. llau. 29–32n. Yr oedd hefyd w'r arall o'r enw Cynog, a oedd, yn ôl Sieffre o Fynwy, yn esgob Llanbadarn a Mynyw (*ob.* 606), gw. WCD 182. Y mae'n bosibl, gan hynny, fod y bardd wedi cymysgu rhwng y ddau Gynog hyn gan fod y naill yn arddel cysylltiad â Mynyw a'r llall yn enwog am ei dorch ryfeddol.
- 36 **parhâu** Cymerir bod y ffurf hon (llsgrau. AB *parhau*) yn deisill er mwyn osgoi crych a llyfn a thor mesur; cf. 19.30 [*p*] *arhâus*, ond gthg. 6.8, 9.52, 21.33 lle y mae'n ddeusill.

- 38 **Doctor Siôn** Gw. ll. 9n. Cyfeiriodd Ieuan Deulwyn yntau at Siôn Morgan fel 'Doctor Siôn', gw. ID 50–1 (XXVII.4, 20, 27).
- 40 Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
Marchell Marchell ferch Tewdrig, sef mam Brychan ac felly nain Cynog, gw. 3.25n. Ceir lle o'r enw Caerfarchell ym mhlwyf Tyddewi hyd heddiw, gw. WCD 453–4.
Brychan Tad Cynog Sant y cyfeirir ato yn ll. 35; ymhellach arno, gw. 3.24n.
- 43 **Dewi** Gw. ll. 14n.
- 46 **Goleuni'r haul wen a'r rhod** Deallir hwn yn ddisgrifiad o'r dorch: cf. 3.51 *Cylch o haul* ac *ib.* llau. 55–6n.
- 48 **o'i fedd** Ai *bedd* neu *medd* 'meddiant' yw'r ystyr yma?
- 52 **torch** Cyfeiriad at dorch Cynog Sant; ymhellach arni, gw. nodyn cefndir cerdd 3.

19

Cywydd yw hwn yn gofyn ffaling i Siancyn ap Rhys (a enwir yn ll. 14), gŵr a gysylltir gan y bardd â Maelor (ll. 3) ac â Dinbych (ll. 10). O ran achau'r noddwr, dywedir eu bod yn *hen o Frychan* (ll. 17) a chysylltir enw Siancyn ymhellach â *Bledri mawr* (ll. 20), sef Bledri ap Cydifor Fawr, yn ôl pob tebyg, gŵr yr olrheiniai nifer o deuluoedd Morgannwg eu hachau iddo. Fodd bynnag, rhydd y bardd gryn dipyn mwy o sylw i'r ffaling y mae'n ei cheisio a dichon mai yn y rhodd, ac nid yn y rhoddwr, yr oedd ei brif ddiddordeb.

Anodd yw dod i unrhyw gasgliad ynglŷn â'r noddwr ar sail y ddau enw lle. Y mae cyfeiriadau eraill at leoedd yn y Gogledd yng nghanu Dafydd Epynt yn awgrymu ehangder dylanwad y noddwr,¹ ac efallai mai felly y dylid dehongli'r cyfeiriad at Faenor. Gallai Dinbych gyfeirio naill ai at y fwrdeistref yn Nyffryn Clwyd neu ynteu at dref a phorthladd Dinbych-y-pysgod yn y De. O gofio bod Siancyn yn fasnachwr a fewnforiai nwyddau o bob math a'i fod, o bosibl, yn berchen ar ei longau ei hun (cf. llau. 5–6), y mae'n debygol mai at y Dinbych deheuol y cyfeirir. Gwelwyd hefyd fod y bardd yn cysylltu llinach Siancyn â Brychan, sef Brychan Brycheiniog, tad Cynog Sant, ac felly y mae'n dra thebygol mai gŵr o Frycheiniog ydoedd.

Llwyddwyd i ddod o hyd i ddau Siancyn ap Rhys y canodd beirdd iddynt ar ddiwedd y bymthegfed ganrif. Yr oedd y naill yn fab i Rys ap Siancyn o Aberpergwm, Glyn-nedd, c. 1430–50, ac yn aelod o deulu pwysig iawn ei

¹ Cf. o bosibl 21.23 *Gwynedd wen a gwynai'i ddydd* (marwnad Hywel Amhadog).

nawdd i feirdd.² Un o frodyr y Siancyn hwn oedd Siôn ap Rhys o Aberpergwm a fu'n gefn i feirdd fel Lewys Glyn Cothi, Deio ab Ieuan Du, Rhisiart ap Rhys Brydydd ac Ieuan Gethin.³ Enwir y Siancyn ap Rhys hwn yn yr achau fel Jenkin Tew ond ni cheir yr un gerdd arall iddo ar glawr ac eithrio cywydd Hywel Daf i bedwar mab Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd lle yr enwir *Wiliam wrda ail Mordaf, Tomas i vrawd diamau, a Siankyn hael Sion kawn i haur*.⁴

Posibilrwydd arall yw mai tad Lewys a Rhys ap Siancyn o Lywel sydd dan sylw yn y cywydd. Cofnodir cywydd gan Huw Cae Llwyd i'r ddau frawd hyn yn Pen 55, llawysgrif y cofnododd Dafydd Epynt rai o'i gerddi ef ei hun ynddi (gan gynnwys y cywydd gofyn hwn).⁵ Cloir y cywydd hwnnw gan Huw Cae Llwyd â'r llinell *Barhau hedn Aberhodni*, a cheir yr union linell yng nghywydd Dafydd Epynt i Wiliam Herbert.⁶ Tybed a fu Dafydd Epynt a Huw Cae Llwyd ar daith glera i Lywel gyda'i gilydd?

Daeth y cywydd gofyn a'r cywydd diolch yn fwyfwy poblogaidd fel yr âi'r bymthegfed ganrif rhagddi. Wedi'r blynyddoedd blwng a ddilynodd Wrthryfel Owain Glyndŵr bu twf yn yr economi ac un o sgileffeithiau'r cynnydd hwnnw oedd moethusrwydd materol o bob math yng nghartrefi uchelwyr.⁷ Gwelwyd Dafydd Epynt eisoes yn gofyn i'w noddwr, Syr Rhisiart Herbert, am fantell hir (gw. cerdd 11), ond yn y gerdd hon y mae'n gofyn yn fwy penodol am *ffaling*, sef clogyn trwm Gwyddelig a oedd yn boblogaidd iawn ledled Ewrop yn y cyfnod hwn. Wrth drafod cerdd gyffelyb gan Hywel Srdwal i ofyn ffaling gan ei noddwr ef, cyfeiriodd Mr Dylan Foster Evans at y ffaith fod ffalingod yn cael eu mewnforio i Loegr o ardal Waterford drwy borthladd Bryste; ond o gofio'r cyfeiriad at *Dinbych* (ll. 10) yma, nid yw'n amhosibl mai drwy borthladd Dinbych-y-pysgod y dymunai Dafydd Epynt dderbyn ei ddewis bilyn.⁸

Neilltuir sawl llinell yn y cywydd hwn i ddisgrifio'r ffaling, gan sylwi ar ei defnydd trwchus (llau. 31–2) sy'n amddiffyn ei gwisgydd rhag elfennau creulon y tywydd (llau. 33–4, 45); at ei lliw coch sydd megis *lliw syfi* (ll. 26), *Lliw tân* (ll. 37), *Defni gwaed* (ll. 41); ac at yr addurniad euraidd sydd arni (llau. 38, 40). Yr un math o ffaling ydyw o ran sylwedd a lliw â'r un y

² Ar y teulu hwn fel noddwyr, gw. TLIM 20–1 ac Eirian E. Edwards, 'Cartrefi Noddwyr y Beirdd yn Siroedd Morgannwg a Mynwy', LICy xiii (1974–81), 193.

³ *Ib.* Yr oedd Marged, ail wraig Morgan ap Dafydd Gam (gwrthrych cerdd 5) yn perthyn i'r teulu hwn, gw. HCLl 16.

⁴ Am ei ach, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Einion ap Gollwyn' 11(Fi). Gw. Llst 134, 413.

⁵ HCLl 100–1 (cerdd XL).

⁶ Gw. 9.52n.

⁷ Eurys Rowlands, 'Un o Gerddi Hywel Srdwal', YB vi (1971), 96. Trafodir dull y canu gofyn a diolch yn fanylach gan Bleddyn O. Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c. 1350–c. 1630* (Caerdydd, 1998).

⁸ Gw. GHS 169–70 a'r cyfeiriadau yno.

gofynnodd Hywel Swrdwal amdani, a sylwodd Mr Eurys Rowlands fod y beirdd bron i gyd yn deisyf ffaling Wyddelig goch yn y cyfnod hwn.⁹

- 1 Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
- 2 **Gent** Sef porthladd yn nwyrain Fflandrys a oedd yn ganolfan fasnach fawr. Bu'n ganolfan frethyn lewyrchus yn ystod yr 11g. a'r 12g. ar gorn mewnfario gwlan o Loegr a pharhaodd felly drwy gydol yr Oesoedd Canol. Erbyn diwedd y cyfnod yr oedd ystod eang o ddiwydiannau yn ffynnu yno, gan gynnwys y diwydiant tapestri pwysig. Erbyn yr 16g. mewnfoid gwlan a brethyn o Loegr, sidan o'r Eidal, sbeisys o Bortiwgal, gwinoedd o Ffrainc a'r Rhein, siwgr o Bortiwgal, halen o Ffrainc, olew a halen Iberaidd, a chopr o'r Almaen, gw. Herman Van der Wee, *The Low Countries in the Early Modern World* (Aldershot, 1993), 87–114, ac yn arbennig td. 104.
- 3 **Maelawr** Gall fod yn gyfeiriad at Faelor Saesneg neu Faelor Gymraeg yng ngogledd-ddwyrain Cymru, neu at Faelor gyfan, gw. WATU 148. Dichon yr enwir Maelor yma er mwyn tynnu sylw at gylch eang dylanwad Siancyn ap Rhys, gw. y nodyn cefndir.
- 10 **Dinbych** Dinbych-y-pysgod, yn ôl pob tebyg, gw. y nodyn cefndir. Ymhellach ar hanes y porthladd hwn, gw. Wilfred Harrison, *Some Aspects of Tenby's History* (Tenby, 1985), 2, 6 a 8.
- 11–12 **Difa ... / Ffrwythau'r Eifft a'i pherthi'r wyd** Llsg. ... *ffrethi rwyd ...* Gyda phetruster y cynigir y diwygiad, gan na chafwyd unrhyw oleuni ar y ffurf *ffrethi*. (Am enghreifftiau eraill o drawsosod llythrennau yng ngwaith Dafydd Epynt, gw. y Rhagymadrodd td. 3.) Ni cheid goleuni ychwaith o rannu'r geiriau *ai ffreth ir wyd* ('a'i ffreth yr wyd').
- 17 **Brychan** Brychan Brycheiniog, brenin a sant a roes ei enw i Frycheiniog, gw. y nodyn cefndir ac ymhellach 3.24n. Ymddengys fod Siancyn ap Rhys yn perthyn i'w linach.
- 19 **rhif y glaswellt** Ni cheir enghraifft o'r cyfuniad hwn yn GPC 3029 d.g. *rhif*, ond dichon ei fod yn gyfystyr â *rhif y gwellt* 'the number of the blades of grass, a great number or amount', &c., gw. *ib.* ac ymhellach 18.21n ar *rif y gwýdd*. Gellid aralleirio'r cwpled yn fras: 'Y mae nifer mawr o lafnau mellt yn yr ymladd oherwydd y Bledri mawr [hwn]'.
- 20 **Bledri mawr** Dichon mai Bledri ap Cydifor Fawr yw hwn, gŵr yr olrheiniai nifer o deuluoedd Morgannwg eu hachau iddo.
- 23 **Tir yr Iâ** Credid bod y ddaear fel wy a bod ganddi bum gwregys amdani: yr oedd y canol yn rhy boeth i ddyn fyw yno a'r ddwy ran eithaf yn rhy oer, gw. DrOC 120. Felly'r ystyr yn y ll. hon yw fod y sôn am Ddafydd yn cyrraedd eithafion pell y ddaear.

⁹ Eurys Rowlands, *art.cit.* 94.

- 24 **Asia** I Ewropeaid yn yr Oesoedd Canol yr oedd Asia yn wlad y rhyfeddodau mawrion a gwelir ôl hynny ar fapiau'r cyfnod, e.e. y map a geir yn Eglwys Gadeiriol Henffordd, gw. DrOC 120. Dichon mai gor-ddweud a welir yn y ll. wrth i'r bardd honni bod gwisgoedd y masnachwr wedi cyrraedd mor bell ag Asia.
- 25 **llaf tant a wellâf** Dyma awgrym cryf fod Dafydd Epynt yn canu'r delyn ac, at hynny, ei fod yn canu ei gerddi i gyfeiliant yr offeryn hwnnw; cf. ei ddisgrifiad ohono'i hun yn ll. 48 fel *Un â thelyn* a hefyd 11.5–6 *a'i foliant*, / ... *a feirw gan dant*. Anodd gwybod beth yw union rym y f. *gwella* yma (GPC 1631 'gwneud yn well'), ond cf. GP 17 *Tri pheth a wellaa awen kerdawr: ymrysson, a llewenyd, a chanmawl*.
- 26 **lliw syfi** Sef yma mantell goch o liw mefus.
- 27 **ffelfed** Ni restrir y ffurf hon yn GPC 1281, ond dichon mai amrywiad ar *felded* ydyw o'r S. *velvet* (ceir ffurfiau megis *felvet* mewn S.C., gw. OED³ d.g. *velvet*) yn ddisgrifiad o ansawdd defnydd y ffaling; cf. Pen 55, 199 *porffor yw ffelfed*. Cadarnheir yr *ff-* gan y gynghanedd a'r cymeriad yn llau. 27–30.
- 28 **ffaling** 'Mantell, clogyn, hugan', a'r gair yn fenthyciad o'r Gwydd.C. *ffallaing* 'clog, mantell', gw. GPC 1275 ac ymhellach y nodyn cefndir.
- 29 **ffenigl** S. '*fennel*'. Tyfid y llysieuyn hwn mewn gerddi i roi blas ar fwydydd hallt yr Oesoedd Canol, gw. GPC 1282–3. Hwyrach mai cyfeirio at ddail hirgul y planhigyn hwn a wneir yma er mwyn pwysleisio maint y ffaling a ddeisyfir.
- 30 **ffris** Sef 'brethyn tewban cyrliog'; defnyddiodd Hywel Swrdwal yntau'r gair am y ffaling y dymunai ef ei derbyn, gw. GHS 6.46n.
parhäus Yn deirsill yma er mwyn osgoi tor mesur; cf. 18.36 *parhäu*, a gw. *ib.n.*
- 31–2 **Ni fu 'n ei grwyn fewn y Gred, / Ysgîn dewis, gyn dewed** Gellid aralleirio'r brif frawddeg yn fras fel hyn: 'Ni fu un [= neb] a'i grwyn [= gwisgoedd] mor drwchus â hyn ym myd Cred'; sangiad yw *ysgîn dewis*, 'mantell ddewisol'. (Gall *ysgîn* fod yn eg. yma, neu'n eb. gyda chalediad *-n dd-* > *-n d-* yn yr a. sy'n ei ddilyn; ymddengys mai eb. ydyw yn GDG³ 158 (59.8)). Honnodd Hywel Swrdwal, yntau, y byddai pobl yn credu ei fod wedi tewychu pe gwisgai ffaling ei noddwr: GHS 12.53–6 *O gofyn ym ddyn a ddêl / 'Ai tewhäu 'dd wyd, Hywel?' / Modd esgus ym a ddisgyn, / 'Honno'n fy llunio fellÿn.'*
- 39 **Gwe Wyddelig o Ddulun** Dichon mai o Ddulyn yr allforid y math o ffaling y gobeithiai Dafydd Epynt ei derbyn. Diddorol yn y cyswllt hwn yw'r ymdrech gyfreithiol a fu yn chwedegau'r 15g. i wahardd y wisg Wyddelig hon o dref Seisnig Dulyn, gw. GHS tt. 169–70.

- 40 **tun** Ai gair cyfystyr â *tunnell*, ll. 16, sef ‘casgen o win’? Cf. S.C. *tonne* (*tunne*, &c.) ‘*A large barrel for wine*’, &c., gw. MED d.g. Ni roddir yr ystyr hwn i *tun* yn GPC 3653, ond cf., o bosibl, WLI 38 (XVI.85) *Kawn dynau hefyd kawn dy win hafoc* (er dichon mai ll. *dwn* yw *dynau* yma). Os dyna’r ystyr yma, dichon y cyfeirir yn drosiadol at y fantell (gan gyfeirio at ei lliw, efallai).
- 41 **gwÿdd** Ai ‘ffrâm gwÿydd i weu defnyddiau fel gwlanenni, brethynnau, carthenni, &c.’ yma? Gw. GPC 1753 d.g. *gwÿdd*¹ (3), er na cheir enghraifft yno cyn canol yr 16g. Cf. ll. 42 *brwyd* ‘ffrâm i frodio arni’, &c.
- 46 **crefft Iddew** Am hanes y modd y gorfodwyd Iddewon Lloegr i droi yn fasnachwyr ac yn arianfenthycwyr am nad oedd hawl ganddynt i fod yn berchen ar diroedd, gw. Joseph Gies, *Merchants and money men: the commercial revolution, 1000–1500* (London, 1972), 61–8. Er mai prin oedd nifer yr Iddewon yn Iwerddon erbyn y 15g. a’r 16g. yr oedd rhai o ieirll Iwerddon yn ddibynnol iawn ar fasnachwyr Iddewig i gyflenwi eu hanghenion masnachol, gw. Louis Hyman, *The Jews of Ireland: from earliest times to the year 1910* (Shannon, 1972), 8.
- 48 **un â thelyn** Disgrifiad Dafydd Epynt ohono’i hun; cf. ll. 25 lle y cyfeiria at ei gân fel *Llef tant*, a gw. *ib.n.*
- 49–51 **Ni wisgaf ... / Wn rhyir yn yr heol; / Mantell a wisgaf** Y mae’r bardd eisoes wedi dweud bod yn well ganddo ffaling na *gwn* (ll. 37 *gwel ytiw no gwn*). Dichon y byddai’r ffaling, sef y fantell y mae’n ei herchi, yn cynnig gwell amddiffyniad iddo rhag yr elfennau wrth iddo fynd ar ei deithiau clera *yn yr heol*; cf. llau. 33–4, 45–6.
- 51 **Dafydd** Sef Dafydd Epynt ei hun.

20

Cesglir mai cerdd farwnad yw hon i wŷr o’r enw Morgan a’i wraig. Cyfeirir deirgwaith ynddi at Forgan (llau. 13, 41, 56), ei alw’n *fab Owain* (ll. 21, cf. ll. 38) ac yn *wyr Feredudd* (ll. 36), gan gyfeirio at *lwyth Risiart* (ll. 24) a *llin Tarhaearn* (ll. 40) ac at Ferthyr (ll. 10). Cyfeirir at ei wraig a fu farw o’i flaen ef (llau. 41, 51–2), a chesglir mai ei henw hi oedd *Sisli* (ll. 44).

Nid oes sicrwydd o gwbl pwy yn union oedd gwrthrych y farwnad hon. Yr unig Forgan ab Owain y llwyddwyd i’w leoli yn achau Brycheiniog oedd Morgan ab Owain ap Rhys Llwyd o Lanfihangel Nant Brân, ryw 10 km i’r gogledd-orllewin o Aberhonddu, a 4 km i’r gogledd-ddwyrain o Ferthyr Cynog, y cyfeirir ato o bosibl yn y gerdd (ll. 10). Tybed ai yn Eglwys Merthyr Cynog y claddwyd Morgan a’i wraig? Trigai’r ddau, felly, yn yr ardal y canodd Dafydd Epynt ynddi a gallai Morgan olrhain ei ach i Risiart Fawr o Slwch ac i Drahaearn o Lan-gors, sef o bosibl y ddau hynafiad a

enwir yn y cywydd (llau. 24, 40).¹ Ni cheir enw ar gyfer gwraig Morgan yn achau Bartrum,² ac ni ddaethpwyd o hyd i ferch o'r enw Sisli a oedd yn briod â gŵr o'r enw Morgan ab Owain yno ychwaith.³ Yr unig gyfeiriad sy'n peri petruster yw'r disgrifiad o Forgan fel wŷr *Feredudd* (ll. 36). *Rhys* oedd enw taid y Morgan ab Owain hwn ar ochr ei dad, a Gwilym oedd enw ei daid ar ochr ei fam, Mallt.⁴ Wrth gwrs, gall wŷr olygu 'disgynnydd' yn gyffredinol, yn ogystal â disgrifio'n fwy penodol y berthynas rhwng dyn a'i daid (fel sy'n arferol gan y bardd hwn, cf. 14.2n, 21.14, ond gthg. 8.12n lle y cyfeiria o bosibl at 'orwyr').

Dengys y cywydd hwn fod Morgan wedi marw yn sgil salwch yn hytrach nag yn sgil trais: ar ôl datgan bod nifer o wŷr yn marw oherwydd gwaniad â gwaywffon neu arf dur (llau. 5–6, 19–22), honna'r bardd nad oes ôl arf yr un dyn byw ar Forgan, ond yn hytrach *Llaw Dduw a'i lladdodd â'i ddart* (ll. 23). Cyfeirir ar ddiwedd y cywydd at y ffaith fod Morgan a'i wraig wedi *dioddef* cyn mynd i'r nefoedd (llau. 53–4), ac felly dichon mai'r un salwch a laddodd y ddau, oherwydd *Duw a wnaeth ei dwyn hithau* (ll. 51), medd y bardd, a hynny ychydig cyn marwolaeth ei gŵr (ll. 52).

Nodwedd ddi-ddorol ar y farwnad hon yw'r modd y manylir ynddi ar angladd Morgan a'r pwyslais a roddir ar alar a cholled y gymuned ar ei ôl ef a'i wraig.⁵ Cyfeirir at feirch a chanddynt len neu orchudd drostynt (du y mae'n debyg), sydd o bosibl yn tynnu'r elorwydd (llau. 11–12); at y galarwyr a oedd yn bresennol a'u dagrau'n llifo'n *llifddwr pell* o'u llygaid (llau. 15–16) wrth iddynt weld corff Morgan yn cael ei gludo ar yr elor (llau. 13–14); ac at orweddfan terfynol Morgan yn y bedd *dan grwys Duw a dŵr swyn dros ei enau* (llau. 30, 32). Wrth gyfeirio wedyn at angladd Sisli, cyfeiria'r bardd eto at y llu o gydnabod a cheraint wrth ymyl ei bedd yn gwrando ar *eiriau Duw*, ac at y groes a'r aroglarth (*sens*) (llau. 47–50).

Wrth ddarllen y farwnad hon dylid dwyn i gof y gwahaniaeth rhwng galar yr Oesoedd Canol ac eiddo'r cyfnod ar ôl y Dadeni. Tra bo ymataliaeth stoicaidd yn nodweddu llawer o gerddi'r traddodiad Ewropeaidd o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, y mae beirdd yr Oesoedd Canol yn agored eu galar ac yn gignoeth o ran eithafiaeth eu profedigaeth. O bosibl, math o gatharsis i leihau baich galar oedd swyddogaeth yr arfer ganoloesol hon.⁶ Enghraifft o fynegiant cyhoeddus o'r brofedigaeth honno yw'r cywydd

¹ P.C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 11(D2); P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 11; *ib.* 1.

² P.C. Bartrum: WG2 'Cydfifor Fawr' 9(A).

³ *Ib.* vol. 13.

⁴ *Ib.* 'Bleddyn ap Maenyrch' 11(D2).

⁵ Am ddisgrifiad pellach o angladd noddwr, gw. cerdd farwnad Iolo Goch i Ithel ap Robert, GIG 69–74 (XV) ac ymdriniaeth J. Saunders Lewis arni yn YB iii (1967), 11–27, yn arbennig tt. 25–7.

⁶ Dafydd Johnston, *Galar y Beirdd* (Caerdydd, 1993), 17–18.

marwnad hwn, a gellir ei gymharu o'r safbwynt hwnnw â chywydd marwnad Iolo Goch i Ithel ap Robert o Goedymynydd.⁷

Ni cheir yn y gerdd hon unrhyw fanylion am yrfa Morgan a allai fod yn gymorth i ni ei dyddio, ac felly'r cyfan y gallwn ei awgrymu yw iddi gael ei chanu cyn c. 1500, sef y dyddiad a roddir i lawysgrif Pen 55 y codwyd y gerdd iddi gan Ddafydd Epynt ei hun.⁸

1–2 **Trabluddus y try blwyddyn / Dan law ac ôd a niwl gwyn** Awgrymir yn y cwpled agoriadol hwn mai yn ystod y gaeaf, ac yn benodol efallai ar droad y flwyddyn, y bu farw Morgan. Y mae elfennau'r tywydd ([y g]law ac ôd a niwl gwyn) fel petaent yn dwysáu galar y bardd.

2 **ac ôd a niwl** Llsg. *ac od niwl*; ychwanegir y cys. *a* er mwyn yr ystyr ac er mwyn hyd y ll.

4 **nos Iau** Dichon mai cyfeiriad cyffredinol yw hwn yn hytrach nag un penodol a chymerir bod y bardd yn y cwpled hwn yn cyfeirio at ansicrwydd ac oferedd bywyd dyn a therfynoldeb angau, drwy ddweud y gall fod dyn yn aelod pwysig o'r gymdeithas ac yn dal swyddi un dydd, ac yna mai *damwain* ('digwyddiad', &c., gw. GPC 886) fyddai pe bai unrhyw beth (*dim*) ar ôl ohono erbyn y nos Iau canlynol. Mynegir yr un thema ym marddoniaeth Siôn Cent, gw., e.e., IGE² 288 (llau. 27–8) *Heddiw mewn pridd yn ddiddim / O'i dda nid oes iddo ddim*; gw. y bennod ar Siôn Cent yn GWL ii² 150–69 a hefyd D.J. Bowen, 'Siôn Cent a'r Ysgwieriad', LICy xxii (1998), 14–15. Ond am gyfeiriadau pellach at Iau yng ngwaith Dafydd Epynt (lle y cyplysyr ef â Gwener), a hynny o bosibl mewn cysylltiadau brudiol, cf. 4.23–4 a 5.43.

5 **gwenwyn** Dichon y gallai olygu unrhyw fath o bla marwol ac annisgwyl yn ogystal â gwenwyn '*poison*' (gw. GPC 1639).

7–8 Un o themâu mawr canu crefyddol Cymraeg yr Oesoedd Canol oedd marwoldeb bonedd a gwreng fel ei gilydd; lleisir y thema hon, e.e., yng nghywydd Siôn Cent, 'Gwagedd Ymffrost Dyn', IGE² 278–9 (XCIII).

10 **meirw** Sef y be., gw. 21.32n.

Merthyr Merthyr Cynog yng nghantref Selyf ym Mrycheiniog; ar gysylltiad Morgan ab Owain â'r ardal hon, gw. y nodyn cefndir, ac am gerdd Dafydd i Gynog, nawddsant eglwys Merthyr Cynog, gw. cerdd 3.

Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.

11 **meirch yn llennau** Ymddengys fod y meirch a gludai elorwydd Morgan wedi eu gorchuddio â mentyll. Cyfeiriodd Iolo Goch yntau at y meirch a oedd yn rhan o gynhebrwng Ithel ap Robert, GIG 70 (XV.75).

⁷ Gw. J. Saunders Lewis, *art.cit.*

⁸ Gw. td. 209.

- 13–14 **Morgan, drem ar gnawd a red / Ar ei elor ei weled** A awgrymir bod corff Morgan yn gorwedd ar yr elor i bawb ei weld? Cyfeiriodd Hywel Dafu yntau at dyrfa'n wylo'n hallt wrth ymyl elor ei noddwr, Peniarth 67, 127 (LXXXIII.21–2) *wylodd yn [n]ev tv elor / vgain mil val eigion mor a disgrifir yr arch ar elor bedwar olwyn / kist yr llann aeth am annedd ...* (llau. 10–11).
- 15 **lliw ni wylen'** Cyfeirir yn y cwpled hwn at y llu a wylai yn eu galar wrth weld Morgan yn cael ei gludo ar yr elor, ond y mae arwyddocâd y cymal hwn yn amwys. O ddehongli *wylen'* yn ffurf 3 ll.pres.myn. y f. *wylo*, gellid awgrymu bod y bardd yn honni bod y galarwyr yn wylo gwaed, sef lliw nid arferent ei wylo (cf. *dagrau o waed*, ll. 35). Posibilrwydd arall yw dehongli'r f. yn 3 ll.pres.myn. *gwylad* 'gwylio' (cf. 14.60), a chymryd bod y bardd yn honni nad oes 'lliw' i'w weld yn unman gan fod y wlad wedi mynd yn ddu o golli ffynhonnell goleuni (cf. llau. 17–18n), neu gan fod pawb a phopeth wedi ei wisgo mewn du. (Sonnir yn y farwnad i Hywel Amhadog am drigolion Glan Wysg yn eu gwisgoedd *du o Lir*, 21.25–6.)
- 17–18 **Duo'r blaned ... / Du fu'r wlad o'i fwrw i lawr** Gallai *planed* yma gyfeirio at y ddaear neu'r haul, gan y cyfrifid yr haul yn blaned yn yr Oesoedd Canol, gw., e.e., GGLI 9.3n. Am gyfeiriadau at y ddaear yn mynd yn ddu oherwydd colli'r noddwr, cf. 5.49–50 a hefyd Iolo Goch yn ei farwnad i Ithel ap Robert, GIG 70 (XV.63–4) *Y ddaear ddu, dyrru dwst, / Yn crynu ...*
- 21–2 Gellid aralleirio'n fras: 'Os bu arf ar fab Owain, / Ni bu ôl un byw â'i lafn [arno]', ac esbonnir yn ll. 23, *Llaw Dduw a'i lladdodd â'i ddart*. Ymddengys, felly, fod Morgan wedi marw o ryw afiechyd neu o henaint, yn hytrach na'i drywanu gan arf dyn.
- 21 **Owain** Tad Morgan, gw. y nodyn cefndir.
- 23 Ceir yma dair *dd* yn ateb un.
- 24 **llwyth Risiart** Ai Rhisiart Slwch, un o hynafiaid Morgan ab Owain? Gw. y nodyn cefndir.
- 28 **ar far** '*In judgement, at the bar*', gw. GPC 256 d.g. *bar*¹ (a cf. 6.40 *Ysgwier braisg i'r bar wyd*). Dichon mai ystyr y cwpled yw, tra oedd Morgan yn ddynd iach ni chollai unrhyw faint o allu neu rym, na thiroedd ychwaith, oherwydd barn yn ei erbyn mewn brawdlys. Posibilrwydd arall yw cymryd mai'r geiryn cadarnhaol yw *neu* yn y ll. hon, mai'r a. yn golygu 'enbyd' yw *dir*, ac mai e. yn golygu 'gwaywffon' yw *bar*: 'enbyd yw wrth [ddefnyddio ei] waywffon'.
- 32 **dŵr swyn** Sef yn S. '*holy water*'; esbonnir yn GIBH 2.24n, 'daw swyn o'r Llad. *signum* ac felly dynoda *dŵr swyn* ddŵr y gwnaed arwydd y


- groes uwch ei ben'. Yma y mae'n amlwg y defnyddid y dŵr hwn i eneinio ceg neu, o bosibl, ben yr ymadawedig. Cf. hefyd l. 34n ar *olew*.
- 33 Ceir cynghanedd groes o gyswllt yn y ll. hon gyda chamosodiad yn safle'r benthyca (*chl* = *lch*).
- 34 **olew** Ai cyfeiriad at yr olew a ddefnyddid i eneinio'r corff marw ac a gâi ei [g]loi 'n ei gylch (ll. 33), sef ei roi o gylch y corff?
- 35 **dagrau o waed** Cf. ll. 15n. Dichon mai dagrau chwerw iawn a olygir.
- 36 **wyr Feredudd** Ni lwyddwyd i leoli gŵr o'r enw Maredudd yn achau Morgan ab Owain; gw. y nodyn cefndir.
- 37 **llif ar y main** Ai cyfeiriad at y dagrau yn disgyn yn llifeiriant ar feini'r bedd neu lawr yr eglwys?
- 38 **Owain** Gw. ll. 21n.
- 40 **Tarhaearn** Trahaearn, un o gyndeidiau Morgan ab Owain, gw. y nodyn cefndir. Am y trawsosod, cf. 13.45n d.g. *cyrnho*.
- 41–2 **Morgan ym a'i wraig a wnaeth, / Yn iach arian, awch hiraeth** Am yn iach 'farewell', gw. GPC 1994, a cf. Peniarth 67, 128 (LXXXIII.43–4) yn iach bellach e ballodd / gael tal ... Gellid aralleirio'r cwpled yn fras: 'Parodd [marwolaeth] Morgan a'i wraig i mi awch hiraeth, [dyma] ganu'n iach i arian'.
- 42 **awch hiraeth** Cf. Lewys Glyn Cothi yn ei farwnad i'w fab, Siôn y Glyn, *Siôn y sy'n danfon i'w dad / Awch o hiraeth a chariad*, gw. GLGC 513 (237.43–4).
- 43 **casoedd** Ni wyddys beth yw'r gair hwn sy'n cael ei gadarnhau gan y gynghanedd. Nid yw ffurf ar y f. *casu* 'casáu', gw. GPC 435, na ffurf l. yr e. *cas* (*ib.* d.g. *cas*¹) yn rhoi ystyr dderbyniol yma: disgwyliid mai ystyr y cwpled yw cwyno na roddodd Iesu i Sisli oes hir.
- 44 **Sisli** Gwraig Morgan, er na cheir ei henw yn yr achau, gw. y nodyn cefndir.
- 50 **crwys a sens** Cf. llau. 30, 32n a 34n.
- 52 **llanw y iau** Am ddefnydd o ddelwedd yr *iau*, a chyfeirio at arglwydd fel *ieuawr* sef 'gŵr sy'n dwyn yr iau (mewn ystyr glodforus am un yn gwneud mwy na'i ran ...)', GPC 2014, gw. Ffrancis G. Payne, *Cwysau: Casgliad o Erthyglau ac Ysgrifau* (Llandysul, 1980), 10, ac *id.*, *Yr Aradr Gymreig* (Caerdydd, 1975), yn arbennig tt. 164–74. Yn y cwpled hwn cymerir bod y bardd yn sôn yn ffigurol am farwolaeth Sisli, gan awgrymu bod Duw wedi ei dwyn hi o'r ddaear i *lanw y iau* gyda'i gŵr yn y nefoedd.
- 54 **deuddyn ... dda** Am y treigladd meddal i'r a. yma yn dilyn y ffurf ddeuol *deuddyn*, gw. Treigladau 61–3.

- 55 **Hen oedd Noe yn niwedd nant** Am *Noe* 'Noa', gw. 13.4n; ac am hanes Noa a'r Dilyw, gw. Gen vi–ix. Cyfeiria'r beirdd yn fynych at oedran anghyffredin Noa, cf. GHS 25.58n.
- 56 Ceir crych a llyfn o roi'r rhagacen ar *egin* ond osgoir hynny o'i roi ar *fo'r*.

21

Dysgwn mai gwrthrych y cywydd marwnad hwn yw Hywel Amhadog ap Trahaearn: cyfeirir ato fel *Hywel Amhadog* (ll. 1) a'i alw'n *wyr Tarhaearn* (ll. 14). Cyfeirir ymhellach at y *Gwnteriaid* (ll. 30), *Adam* (ll. 31), *Owain ac Einiawn* (ll. 35), ac at blant Hywel, sef *Madog* (ll. 37) a *Siôn* (ll. 44) a'i [b]um merched (ll. 41).

Hanai Hywel Amhadog ap Trahaearn o linach 'Drymbenog',¹ a gwelir o'i achau ei fod yn perthyn yn agos i rai o noddwyr eraill Dafydd Epynt a drigai yn ardal Aberhonddu. Nid yw enw ei wraig yn hysbys, ond gwyddys ei bod hi'n chwaer i Wenllïan, mam Hoggyn Awbrai (cerdd 17), ac mai eu tad hwy oedd Owain fab Gruffudd ab Owain Gethin (cf. ll. 35).² At hynny, yr oedd mam Hywel, sef Isbel ferch Siencyn Gwnter (ll. 30), yn chwaer i Farged, mam Siôn ap Rhosier (cerdd 16), a gallai eu mam hwythau, Gwenllïan ferch Gwilym o Borthogof, olrhain ei hach drwy Adam (ll. 31) i Einion Sais (ll. 35).³ Yn ôl yr achau yr oedd gan Hywel ddau fab, sef *Madog* (ll. 37) a *Siôn* (ll. 44), ond ni sonnir yno am ei bum merch, y cyfeiria Dafydd Epynt atynt yn y gerdd hon (ll. 41).⁴



¹ P.C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 5(B).

² P.C. Bartrum: WG1 'Bledwyn ap Maenyrch' 30.

³ P.C. Bartrum: WG2 'Gunter' 2 a gw. nodyn cefndir cerdd 16 uchod.

⁴ *Ib.* 'Drymbenog' 5(B).

Ni ddywedir yn yr achau b'le'r oedd cartref Hywel Amhadog: eithr cyfeirir yn y gerdd hon at *San Ffred* (ll. 16) ac at *Glan Wysg* (ll. 25). Cysylltir disgynyddion Hywel yn yr achau â Llansanffraid a Llanfrynach ger Aberhonddu, a dichon mai dyma, felly, leoliad ei gartref yntau. Y mae'r cyfeiriad at *dŷ San Ffred* (ll. 16), yn awgrym mai yn eglwys Llansanffraid y claddwyd ef.

Awgryma'r geiriau *Doe y byriwyd y barwn* (ll. 3) fod y farwnad hon wedi ei chanu drannoeth marw neu gladdu Hywel Amhadog, neu o leiaf yn fuan iawn wedi hynny. Y mae'r modd y manylir ar y bedd (llau. 17–18, 27–8) ac ar ei farwnadu (llau. 19–22) yn awgrym pellach mai yn fuan wedi ei farwolaeth y canwyd y gerdd hon. Gan na wyddom ddim am yrfa Hywel, a chan nad oes unrhyw gyfeiriad at ddigwyddiadau cyfoes yn y gerdd hon, nid yw'n bosibl cynnig dyddiad ar ei chyfer. Y cyfan y gellir ei fentro yw ei bod wedi ei chanu erbyn 1510–15, sef y dyddiad a roddir i Pen 60, y llawysgrif y cofnododd Dafydd Epynt y gerdd hon ynddi.⁵

Y mae'r gerdd yn ymrannu'n ddwy. Yn y rhan gyntaf, canolbwynt sylw'r bardd yw'r ffaith fod Duw wedi cipio'r gŵr cyfiawn, teg a hael. Y mae'n gollod fawr y cwynir amdani hyd bellafodd Gwynedd a Maelienydd (llau. 23–4), a chyda diwedd oes Hywel daw *diwedd bonedd a bwyd* (ll. 9). Gyda'r cwpled *Ni bu un pren byw yn parhau / Na bai lydain eu blodau* (llau. 33–4) daw trobwynt yn y gerdd wrth i'r bardd droi ei sylw at barhad llinach Hywel Amhadog drwy flodeuo ei ddau fab, Madog (ll. 37) a Siôn (ll. 44) a'i bum merch, ac awgrymir na fydd hyd yn oed angau yn drech na'i deulu (llau. 45–6).

Dyma enghraifft o farwnad rymus sy'n dadlennu un o swyddogaethau'r gyfundrefn fawl, sef cynnal y bendefigaeth a'r drefn gymdeithasol a oedd ohoni o genhedlaeth i genhedlaeth.

- Hywel Amhadog** Gwrthrych y farwnad, gw. y nodyn cefndir. Y mae'r ll. hon yn hir o sillaf, a rhaid cywasgu *Mae i'n* yn unsill.
- O gymryd bod Hywel Amhadog yn trigo yn ardal Llanfrynach ger Aberhonddu—gw. y nodyn cefndir—y mae'n dra phosibl fod Dafydd Epynt yma'n cyfeirio'n benodol at grog enwog priordy'r Benedictiaid yn Aberhonddu. Arni, gw. M.P. Bryant-Quinn, '“Enaid y Gwir Oleuni”: Y Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, ii (1996), 51–94 a GIBH cerdd 6.
- byriwyd** Ffurf amrywiol ar *bwriwyd*, amhrs.grff.myn. y f. *byriaw*, *bwrw*. Am enghreifftiau pellach o'r bôn *byry-/byri-*, gw. G 84–5.
- aur ar far** Llsgrau. *aur ar varr*; o ran y gynghanedd atebir y gytsain *f yn far gan f yn arferoedd*, a gellir cynnig mai ffurf dreigledig *bar* a welir yma, gyda'r ystyr 'amddiffynnwr, ceidwad, gwarcheidwad, noddwr',

⁵ Gw. ymhellach td. 209 isod.

gw. GPC 256 (a cf. y cyfeiriad yno at Pen 76, 47 *bar aur*), neu *bar* fel term am y gyfraith (gw. 20.28n). Posibilrwydd arall yw fod *far* yn ffurf dreigledig *gwar*, gyda'r *w* wedi magu ansawdd gwefus-ddeintiol. Am gyfeiriadau pellach at aur ar war uchelwyr, fel arwydd o'u statws uchel, cf. 12.29–30 *Nid eurid yn y dyrys / Heb wers yr âb war Syr Rhys*, 14.1, 18.1–2.

- 13 **Tri** Fe'i deallir yn gyfeiriad at y Drindod.
- 14 **wyr Tarhaearn** Trahaearn oedd enw taid Hywel ar ochr ei dad, gw. y nodyn cefndir. Am y trawsosod yn y ffurf, cf. ll. 44 *tarhaus*, 20.40, a gw. 15.40n.
[y] **Triael** Dichon mai cyfeiriad sydd yma at Dri Hael Ynys Prydain, sef Nudd, Mordaf a Rhydderch, gw. TYP² 5–6, yn hytrach nag at ryw dri gŵr hael arall o linach Hywel Amhadog.
- 16 **tŷ San Ffred** *San Ffred* yw'r ffurf a geir gan Ddafydd Epynt ei hun yn Pen 60; gthg. y ffurf fwy safonol *Sanffraid* a geir gan John Jones, Gellilyfdy, yn Pen 312. Dichon y cyfeirir at Lansanffraid-ar-Wysg ger Llanfrynach, lleoliad cartref Hywel yn ôl pob tebyg (gw. y nodyn cefndir); gall mai cyfeirio at eglwys Llansanffraid a wna *tŷ San Ffred* yma, ac mai yno y claddwyd ef.
- 17 Ceir twyll gynghanedd yn y ll. hon.
- 20 **llyfrau** Ai cyfeiriad at lyfrau'r gwasanaeth?
Nid atebir yma'r *r* dan yr acen, *llef ... llyfrau*.
- 21 **gwely o dywod** Cyfeiriad at orweddfan Hywel yn y bedd, cf., e.e., GLIG 12.15 *Gwrthod wely tywod hir*; GDG³ 38 (13.132) *Diwyd grair dan dywod gro*.
- 24 **Maelienydd** Cantref ac arglwyddiaeth yn nwyrain y Gororau a aeth yn rhan o sir Faesyfed wedi'r Deddfau Uno, gw. J.E. Lloyd: HW³ i, 255–6 a WATU 287. Awgrymir yma fod y galar ar ôl colli Hywel i'w deimlo cyn belled â Gwynedd yn y gogledd-orllewin, ac ym Maelienydd yn y dwyrain.
- 25 **Glan Wysg** Sef lleoliad cartref Hywel Amhadog ar lan Afon Wysg, yn ôl pob tebyg, gw. y nodyn cefndir.
- 26 **du o Lir** Gw. GPC 1097 a cf. y ffurf *blac-y-lir*, *blac-o-Lir* 'brethyn du a weithid yn nhref Lyre ym Mrabant yn y Canol Oesoedd', *ib.* 279 a GIBH At.v.65n. Dichon mai cyfeiriad sydd yma at ddillad galar teulu Hywel.
- 30 **Gwnteriaid** Yr oedd Isbel, mam Hywel, yn ferch i Siencyn Hen ap Wiliam Gwnter, gw. y nodyn cefndir.

- 31 **coed Adam** Yr oedd Adam yn un o gyndeidiau Isbel, mam Hywel, gw. y nodyn cefndir. Dichon fod *coed* yma'n gyfeiriad at gyff teuluol Adam.
- 32 **meirw** Ffurf ar y be. *marw* a ddefnyddir pan fydd y goddrych yn ll., gw. GPC 2364 a cf. GGLl 2.82n; cf. hefyd 20.9–10 *Mae'r gwraidd, lle gorwedd gwŷr / Yn meirw ...*
- 33 Y mae'r ll. hon yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi.
- 35 **Owain ac Einiawn** Owain ap Gruffudd ab Owain Gethin oedd tad gwraig Hywel, a dichon mai ato ef y cyfeirir yma. Dichon mai *Einiawn* yw Einion Sais: yr oedd Gwennlian ferch Gwilym o Borthogof, sef nain Hywel ar ochr ei fam, yn olrhain ei hach drwy Adam i Einion Sais. Gw. ymhellach y nodyn cefndir.
- 37 **Madog** Un o feibion Hywel, gw. y nodyn cefndir.
- 41 **pum merched** Mewn Cym.C. gellid rhoi e.ll. ar ôl rhifolyn, gw. GMW 47.
- 44 **Siôn** Un arall o feibion Hywel, gw. y nodyn cefndir.
tarhaus Am y trawsosod, cf. ll. 14 *Tarhaearn*.
- 47 **Ei feibion ef ... â'n wŷr** Awgrym efallai mai ifanc oedd meibion Hywel pan ganwyd y farwnad hon.
- 48 **Mair** Y Forwyn Fair. Am gyfeiriadau at ei swyddogaeth bwysig fel eiriolwraig, gw. nodyn cefndir cerdd 2.

22

Ceir yr unig gopi o'r gerdd hon yn llawysgrif Pen 55, 17, llawysgrif a ddyddir c. 1500, a dyma'r gerdd gyntaf ynddi yn llaw Dafydd Epynt.¹ Cesglir mai marwnad ydyw i ddau fardd, sef Huw Cae Llwyd a Hywel Dafî:

Adar oedd â derw iddun,
Colli dau, Cae Llwyd yw un;
Hywel Dafî, ail Dafydd,
Os marw fu, eisïau mawr fydd. (llau. 9–12)

Yn gwbl nodweddiadol o waith Dafydd Epynt, y mae rhannau o'r gerdd yn astrus. Fodd bynnag, dysgwn fod y tri bardd, Dafydd Epynt, Hywel Dafî a Huw Cae Llwyd, wedi bod yn gyfeillion clòs, a mynegir tristwch Dafydd o weld y cwmni o dri yn mynd yn ddau (*O dri i ddau draw ydd aeth*, ll. 19), ac oherwydd ei anallu i ganfod neb *Yn ôl Cae a wnêl cywydd* (ll. 22). Dywed ymhellach fod y ddau Hywel (sef Huw Cae Llwyd a Hywel Dafî, gw. ll. 25n) bellach yn dynn mewn iau (h.y. yn y nefoedd gyda'i gilydd) a'i fod ef,

¹ Ymhellach ar Pen 55, gw. td. 209.

Dafydd, wedi ei adael ar ôl yn unig (llau. 25–8). Yn annisgwyl, o linell 37 tan ddiwedd y gerdd, ymddengys mai marwnadu un gŵr a wneir yn hytrach na dau, a dichon mai Hywel Dafï yw hwnnw. Paham na chyfeirir yma at y ddau fardd? Hyd y gwelir, ni cheir ateb i'r cwestiwn hwn yng nghorff y gerdd ei hun, ond o sylwi ar safle'r gerdd yn y llawysgrif, gwelir ei bod yn rhagflaenu cerddi gan Huw/Hywel Cae Llwyd a gofnodwyd yn llaw y bardd hwnnw.² Felly, er bod Dafydd Epynt, fel y gwelwyd uchod, yn dweud yn benodol fod Huw Cae Llwyd wedi marw, y mae hi bron yn sicr ei fod yn dal ar dir y byw pan ganwyd y cywydd hwn.³ Nid oes modd gwybod paham y mae'r bardd am esgus bod Huw Cae Llwyd yntau wedi marw: ai er mwyn mynegi'r golled a deimlid pe bai hynny wedi digwydd, neu a oedd Huw, tybed, wedi mynd ymaith am gyfnod? Yn ôl un traddodiad, dychwelodd Huw i fro ei febyd yn y Gogledd ar ddiwedd ei oes a'i gladdu yn Llanuwchllyn: os yw'r traddodiad hwnnw yn gywir, gall y ffaith na chrybwyllir hynny o gwbl yn y farwnad hon ategu ymhellach mai ffug-farwnad ydyw o safbwynt ei farwolaeth ef.⁴

Yr oedd Hywel Dafï a Huw Cae Llwyd ymhlith beirdd amlycaf Cymru'r bymthegfed ganrif ac ar un achlysur buont yn ymryson â'i gilydd yn Nhretŵr.⁵ Rhoddir Huw Cae Llwyd yn ei flodau rhwng 1455 a 1505, ac er iddo gael ei fagu yn Llandderfel, Meirionnydd, treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn ne Cymru, a chan hynny cyfeiria Dafydd Epynt ato fel un o'r *deheuwy*r (ll. 25).⁶ Aeth i dde Cymru ar gylch clera yn gynnar yn ei oes a chanodd fawl a marwnad i'r Gambiaid, yr Hafardiaid, y Fychaniaid a'r Herbertiaid, sef yr un cylch o noddwyr yn fwy neu lai ag y canodd Dafydd Epynt a Hywel Dafï iddynt. At hynny, bu Huw, fel Hywel Dafï a Dafydd Epynt, yn cofnodi ei gerddi yn llawysgrifau Peniarth 54 a 55, ffaith sy'n awgrymu bod gan y tri hyn gysylltiad clòs â'r noddwr a oedd yn berchen ar y ddwy lawysgrif hyn.

Yr oedd Hywel Dafï (neu Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys) yn ei flodau rhwng 1450 a 1480, ac yr oedd ganddo gysylltiad cryf â theulu'r Herbertiaid yn Rhaglan, lle y dywedir iddo fod yn fardd llys.⁷ Canodd hefyd i bendefigion fel Gruffudd ap Niclas o Ddinefwr, Phylib ap Tomas o Langoed, Rhys ap Siencyn o Lyn-nedd yn ogystal ag i aelodau o deulu

² Gw. RWM i, 421, ac ymhellach MWM 95 a throednodyn 22.

³ Ymhellach ar ffug-farwnadau'r cyfnod, gw. Huw Meirion Edwards, 'Murnio marwnadau: golwg ar y ffug-farwnad yng nghyfnod y cywydd', *Dwned*, v (Hydref, 1999), 47–70. Hyd y gwelir y mae cerdd Dafydd Epynt yn unigryw, er bod enghreifftiau eraill o farwnadau i ragor nag un bardd ar glawr: e.e. canodd Hywel Rheinallt (neu Hywel Dafï yn ôl traddodiad llawysgrifol arall) farwnad i Ieuan Deulwyn, Dafydd Nanmor, Deio ab Ieuan Du a Thudur Penllyn (Bangor 5945, 24), a chanodd Tudur Aled gywydd marwnad i Ddafydd ab Edmwnd, Rhys Nanmor ac Ieuan Deulwyn (TA 282–5 (LXX)).

⁴ HCL1 23–4.

⁵ Gw. *ib.* 80–3 (XXVII a XXVIII).

⁶ Am grynodedb o yrfa Huw Cae Llwyd, gw. *ib.* 11–25.

⁷ Am grynodedb o yrfa Hywel Dafï, gw. ByCy 380.

Herbertiaid Penfro, a bu'n ymryson â Guto'r Glyn, Bedo Brwynllys a hefyd Gruffudd ap Dafydd Fychan a Llywelyn Goch y Dant. Yn ôl Rhys Cain, yr oedd gan Hywel Dafî radd Meistr y Celfyddydau, yr oedd yn awdur llyfr hanes Prydain yn Lladin a hanes Cymru yn Gymraeg, ac yr oedd ganddo lawer o lawysgrifau da yn ei feddiant,⁸ ac y mae'n bosibl y cyfeirir yn benodol at ei ddysg yn y cywydd hwn.⁹

Egyr y gerdd drwy adleisio rhai o gerddi mawr y Cywyddwyr gyda'u pwyslais ar fudandod marwolaeth, a'r mudandod hwnnw, wrth gwrs, yn fwy trasig i fardd nag i'r rhelyw o'r ddyndoliaeth. Yn y llinell agoriadol amrywia Dafydd Epynt ar y syniad hwnnw drwy ddatgan mai gweddill y ddyndoliaeth sy'n fud yn achos colli'r ddau fardd: *Mud yw'r byd ym mhedwar ban*. Efallai y byddai cynulleidfa Dafydd wedi disgwyl hen drawiad am fudandod y bardd neu'r beirdd ymadawedig ond dyma ysgwyd y disgwyliadau hynny a hoelio'r sylw o'r cychwyn cyntaf.

- 7 **grëu'r gro** Ai cyfeiriad at leisiau cryg y rhai a fu'n galaru ar ôl y ddau fardd? Ar y f. *grëu* (sy'n ddeusill yma er mwyn y mydr a'r gynghanedd), gw. GPC 1527–8 d.g. *greaf: greu*.
- 8 **Brycheiniog** Dengys y ffaith fod Hywel Dafî, Huw Cae Llwyd a Dafydd Epynt wedi cofnodi cerddi i noddwyr o Frycheiniog yn llawysgrifau Pen 54 a Pen 55 fod gan y tri ohonynt gysylltiadau clòs â'r ardal hon; gw. ymhellach y Rhagymadrodd, tt. 2–3.
- breuach** Ystyr arferol y gair *brau* yng ngwaith Dafydd Epynt yw 'hael' (gw. yr Eirfa am enghreifftiau); ond dichon mai 'bregus' yw ei ystyr yma, a'r bardd yn awgrymu na fu Brycheiniog erioed yn fwy bregus na phan fu farw'r ddau fardd mawr hyn.
- 11 **ail Dafydd** Dichon y cymherir Hywel Dafî â Dafydd ap Gwilym.
- 14 **a dyr cerdd** Ar *torri cerdd* 'cyfansoddi cân', gw. GPC 3531 *torraf*².
- 17–18 **gwÿr duon / Talbod** Cf. GLGC 236 (104.49–50) *tawlbrdd gwÿr duon Talbod, / tros y bwrdd gwnaed Rhys eu bod* a gw. *ib.* 574: 'Cyfeirir at John Talbod, cadfridog enwog yng nghanol y 15fed ganrif, a'r hanes am fwrw coelbrenni ar fwrdd ei long. Trefnwyd trwy dwyll mai'r pymtheg dyn du a fwridd dros y bwrdd, ac arbed y pymtheg dyn gwyn yn y criw'; gw. GGL² 148 (LV.51–2). Bwriad Dafydd Epynt wrth gyfeirio at yr hanes hwn oedd tynnu sylw at greulondeb anwadal y *rhod*, cf. 5.1.
- 23 **yn Nwywent** Sef Gwent Is Coed a Gwent Uwch Coed, gw. WATU 81.
- 25 **dau Hywel** Sef Huw Cae Llwyd a Hywel Dafî; am ymdriniaeth â'r modd y gallai'r enwau *Huw* a *Hywel* ymgyfnewid, gw. W Surnames 20, 125 a cf. y ffurf *Hywel* neu *Howel Cae Llwyd* ar enw'r bardd cyntaf yn

⁸ *Ib.*

⁹ Gw. llau. 41–4.

Pen 54 (gw. RWM i, 420) ac yn Pen 55 (gw. RWM i, 421) a'r ffurf Hywel Dafí a Huw Dafí a geir am yn ail yn Pen 67 (e.e. Peniarth 67, 125 *Huw Davi*, *ib.* 84 *Howel Davi*).

deheuwy Er mai o Landderfel yr hanai Huw Cae Llwyd treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn ne Cymru, gw. y nodyn cefndir.

- 27 **tyn yn y iau** Disgrifiad ffigurol o'r ddau fardd, Hywel Dafí a Huw Cae Llwyd, sydd fel ych gwedd yn llenwi'r iau yn y nefoedd, tra bo Dafydd yn unig ar y ddaear, ll. 28 *Gwae fi, unig wyf innau*. Am y syniad, ac ymhellach ar ddelwedd yr *iau* yn y canu, gw. 20.52n. Posibilrwydd arall yw darllen *tynnyn* y *iau* 'yr oeddynt yn arfer tynnu'r iau [ynghyd]' a roddai cystal ystyr.
- 31 **Iolo** Ai Iolo Goch, y bardd o'r 14g.? Arno, gw. GIG. Ystyr tebygol y cwpled anghyflawn hwn yw mai ergyd lem oedd dwyn Iolo o'r byd, ond mwy o lawer y galar ar ôl Ieuan Deulwyn.
- 32 **mwy ddialedd** Am y treigladd meddal yma i'r e. yn dilyn *mwy*, gw. Treigladau 48–51. Dichon mai 'poen, dolur' yw ystyr *dialedd* yma, ond byddai'r ail ystyr, 'peth wmbredd, swm dirfawr, lliaws mawr, llawer iawn', a roddir yn GPC 947 hefyd yn rhoi ystyr da.
- Deulwyn** Yr oedd y bardd Ieuan Deulwyn yn frodor o Gydweli ond canodd i gylch eang o uchelwyr, gan gynnwys Wiliam, iarll Penfro a laddwyd ym mrwydr Banbri yn 1469, Syr Rhisiart Herbert a laddwyd yn yr un frwydr â'i dad, Siôn Morgan, esgob Tyddewi (gwrthrych cerdd 18) ac Wiliam Siôn o Lanegwad. Felly, yr oedd llawer o'i noddwyr yn noddwyr i Ddafydd Epynt hefyd. Yr oedd yn Iorcydd brwd a bu mewn ymryson â Bedo Brwynllys lle y ceryddodd y Bedo am chwarae'r ffon ddwybig yn Rhyfel y Rhosynnau. Golygir ei waith yn ID, ac ymhellach arno, gw. ByCy 388 lle y rhoddir ef yn ei flodau c. 1460.
- 34 **Brwynllys** Bedo Brwynllys, bardd o Frycheiniog a chyfoeswr i Ddafydd Epynt a ganodd yn yr un cylchoedd ag ef a'r beirdd eraill a enwir yn y cywydd. Daw ei enw o'r pentref a adwaenir bellach fel Bronllys (gw. R. Morgan and R.F. Peter Powell, *A Study of Breconshire Place-Names* (Llanrwst, 1999), 46). Bardd serch a natur oedd yn bennaf, ond ymhlith y nifer bychan o awdlau a chywyddau mawl ceir cywydd marwnad i Syr Rhisiart Herbert (*ob.* 1469), a chywyddau dychan rhyngddo ac Ieuan Deulwyn a Hywel Dafí. Gw. ByCy 27 lle y'i rhoddir yn ei flodau c. 1460, ond nid oes sicrwydd ynghylch dyddiad ei farw.
- 35 Y mae'r ll. hon sillaf yn fyr.
- 36 **edn Epynt** Ai cyfeirio ato ef ei hun y mae Dafydd Epynt yn y ll. hon? Nid yw ystyr y cwpled yn eglur.

- 37 **[y] Cân** Cyfeirir at y *Cân Mawr* gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn, gw. GDLI 28 (3.32), gw. OED² d.g. *Khan*, ‘*The specific title ... given to the successors of Chingiz Khan, who were supreme rulers over the Turkish, Tartar, and Mongol tribes, as well as emperors of China, during the middle ages.*’ Disgrifiad o bennaeth ydyw, ac yn y cyd-destun gall fod yn gyfeiriad at naill ai Hywel Dafí neu Huw Cae Llwyd fel pennaeth beirdd. Posibilrwydd arall yw mai’r e.c. *cân* sydd yma; arno fel eg., gw. D. Bowen, ‘Cân fel enw gwrywaidd’, LICy xii (1972–3), 122.
- o dir Cynog** Ymhellach ar Gynog, un o saint mwyaf poblogaidd Brycheiniog, gw. nodyn cefndir cerdd 3. Dichon mai Brycheiniog yw *tir Cynog* yma, neu’n fwy penodol, efallai, yr ardal o gwmpas eglwys y sant ym Merthyr Cynog.
- 38 **i’r grwn o dir y grog** Ar *grwn* ‘bedd’, cf. 5.58n. Yn 1.30 cyfeiriodd Dafydd Epynt at *dir y grog* mewn cyswllt ag Aberhonddu, ac awgrymir yno mai cyfeirio at y grog enwog yn y dref honno a wneir (gw. *ib.n.*) A awgrymir, felly, fod Hywel Dafí neu Huw Cae Llwyd wedi eu claddu yn eglwys Aberhonddu?
- 39 **rhoes** Ffurf 3 un.grff.myn. y f. *rhoddi*; nid yw’n amlwg pwy yw’r goddrych, ac oni bai am y gynghanedd, ceid darlleniad mwy ystyrllon o ddarllen *rhoed* ‘rhoddwyd’.
- 40 **bardd i Dduw** Os at Hywel Dafí y cyfeirir (a gw. y nodyn dilynol) gellid nodi iddo ganu rhai cerddi crefyddol, gan gynnwys cywydd i’r ugain mil o saint a gladdwyd yn Ynys Enlli a dau gywydd i Fair.
- 41 **llyfrau** Yn ôl Rhys Cain, Hywel Dafí a fu’n gyfrifol am ysgrifennu hanes Prydain yn Lladin a hanes Cymru yn Gymraeg, ond ni chadwyd y rhain ymhlith ei lawysgrifau, gw. y nodyn cefndir.
- 42 **llwyth Risiart** Ai llinach Hywel Dafí? Enw llawn Hywel Dafí oedd Hywel ap Dafydd ap Ieuan ap Rhys a gellid esbonio *Rhisiart* fel amrywiad ar Rhys.
- 43 **llai ddeall** Am y treigladd meddal, cf. 5.32n ac 8.38n.
- 44 **Mair** Y mae *Ar ôl i Fair ei alw fo* yn gyfystyr â dweud ‘ar ôl iddo farw’; cf. 5.11n.
- 47–8 **Dyn a farnai dan frenin, / Pe bai fyw, heb hybu’i fin** Awgrymir aralleirio’n fras fel a ganlyn: ‘Dyn oedd ef a roddai ei farn dan awdurdod brenin, / Pe bai fyw, heb ffrwyno dim ar ei dafod.’
- 47 Ceir crych a llyfn yn y ll. hon.
- 49 **ef** Cyfeirir yn benodol at Hywel Dafí, yn ôl pob tebyg.

23

Englyn yn mydryddu cyfystyron geiriau yw hwn, a dichon mai fel englyn unigol y bwriadwyd ef, yn hytrach na'i fod yn rhan o gerdd hwy. Ni cheir copi ohono yn yr un o'r tair llawysgrif sydd yn llaw Dafydd Epynt ei hun, ond y mae'r llawysgrifau yn weddol gyfûn o ran y testun.

Y mae'n ddiddorol nodi bod dau o'r geiriau, sef *midlan* ac *allwest*, yn digwydd mewn hen eirfa yn Pen 55, 199 (ond nid yn llaw Dafydd Epynt, er ei bod yn dilyn dwy gerdd yn ei law ef).¹ Yn y rhestr honno ceir:

midlan yw kayth ymladd ballistys
allwest yw porfa.

Hefyd, mewn rhestr arall a geir yn llawysgrifau Pen 118, 138 a 169 ceir:

arien. i. gwllith.²

Ar sail diffiniad yr eirfa yn Pen 55 o *midlan*, gellir derbyn y darlleniad *Blist* a geir yn llawysgrifau ABD (cf. *lyst* yn llsgrau. EFG¹G²H), a gwrthod y darlleniad haws *maes* a geir yn llawysgrif C, er nad oes tystiolaeth dros y ffurf *blist* yn GPC (gw. isod ll. 3n).

- 1 **Beth fydd hefelydd? Heulwen—yw honno** Ystyr *hefelydd* yw rhywbeth neu rywun hafal neu debyg (gw. GPC 1837), ac yng nghyswllt yr englyn hwn dichon mai 'cyfystyr' yw'r ystyr. Anos yw deall ail ran y ll. Petai modd darllen *Heulwen—yw hwnnw* (gyda'r rh. dangosol yn cyfeirio at yr eg. *hefelydd*) gellid cynnig bod *heulwen* yn ffigurol am 'oleuni, esboniad' ac aralleirio'n fras: 'Beth yw cyfystyr? Esboniad yw hwnnw.'
- 2 **Henw ar wllith yw arien** Gw. y nodyn cefndir uchod, ac ymhellach ar *arien*, gw. GPC 205. Ar y ffurf *henw*, gydag *h-* anorganig, cf. uchod 9.39n.
- 3 **blist yw midlan** Yn GPC 2453 diffinnir *midlan* fel 'maes y gad', &c., neu 'marchog' (ar sail geiriadurol), a chan hynny rhydd *maes yw midlan*, sef darlleniad llsgr. C, ystyr da. Ond, fel y gwelir yn y nodyn cefndir, derbyniwyd y darlleniad *blist* a geir yn nifer o'r llsgrau. (gan gymryd mai ffurf lwgr arno yw *lyst* a geir yn y llsgrau. eraill), ar sail y diffiniad yng ngeirfa Pen 55 o *midlan* fel *kayth ymladd ballistys*. Ni chofnodir ffurfiau megis *blist*, *bal(l)ist*, nac ychwaith *lyst* yn GPC, ond mewn S.C. ceid y ffurfiau *ballist*, *ballista* 'An ancient military engine, resembling a bow stretched with cords and thongs, used to hurl stones and other missiles ... also loosely for Arbalest' (sef 'A cross-bow', &c.): gw. OED² d.g. *ballist*, *ballista* ac *Arbalest*. Mentrir derbyn y darlleniad hwn, felly, er nad yw'n cynnig cyfystyr hollol dderbyniol i *midlan*. Ond

¹ Ceir copi o'r eirfa yn RWM i, 424.

² Gw. T. Gwynn Jones, 'The Welsh Bardic Vocabulary', B i (1921–3), 319.

cofier nad oedd *midlan* yn air cyffredin yn y cyfnod hwn, fel y prawf y ffaith fod Pen 169 wedi ei ddiffinio fel ‘marchog’, gw. GPC 2453; ni sylwyd ychwaith ar yr un enghraifft ohono hyd yn hyn yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr (ond ceir enghraifft brin yn GIG 16 (IV.12)).

man yw men Cyfystyron yn golygu ‘lle’ yw’r ddeuair hyn, gw. GPC 2336.

- 4 **Allwest yw lle os dien** Yn yr eirfa yn Pen 55, 199 ceir *allwest yw porfa* (a cheir diffiniadau cyffelyb yn llsgrau. Pen 118, 138 ac 169, gw. T. Gwynn Jones, *art.cit.* 317). Un o ystyron *dien* fel e. yw ‘glaswellt, gwelltglas’, GPC 974 d.g. *dien*¹) a dichon mai dyna’r ystyr yma: ‘Porfa yw lle os yw’n laswellt.’

24

Esbonnir mai englyn gorchest yw hwn *heb un gydsein ynddaw ond dd drwyddaw*. Ceir testun ohono mewn chwe llawysgrif, ac mewn tair ohonynt (sef llawysgrifau BDE) y mae’n dilyn dau englyn gorchest arall a dim ond un gytsain ynddynt, sef *f.*¹ Yn yr hynaf o’r tair llawysgrif hynny (llawysgrif E, canol yr 16g.) ceir yr englyn hwn a’r priodoliad i Ddafydd Epynt neu Ddafydd ap Siencyn Fynglwyd mewn llaw wahanol i’r ddau englyn cyntaf, a gellid tybio mai drwy eu cymryd ynghyd y credodd copïwyr diweddarach mai Dafydd Epynt neu Ddafydd ap Siencyn Fynglwyd oedd piau’r tri englyn.

Y mae pob un o’r copïwyr yn ffafrio priodoli’r englyn hwn i Ddafydd Epynt, ond gan ychwanegu bod ‘rhai’ neu ‘eraill’ yn honni mai Dafydd ap Siencyn Fynglwyd a’i canodd. Casglwyd gwaith Dafydd ap Siencyn Fynglwyd ynghyd gan M.E. Bassett: canodd englynion a chywyddau i Ruffudd Dwn o Ystradmerthyr, i Domas fab Syr Rhys ap Tomas, a Harri ap Tomas o Abermarlais ymhlith eraill; nid yw hi’n cynnwys golygiad o’r englyn hwn.² Esbonnir gan Bassett mai prin yw’r wybodaeth am y bardd hwnnw, a chynigir ganddi *c.* 1545–8 ar gyfer ei flodeuo.

Ar sail y ffaith y priodolir yr englyn hwn i Ddafydd Epynt yn bennaf, fe’i derbynnir yn betrus i’w ganon. Nid annheg fyddai tybio bod yr orchest o gael englyn ar un gytsain yn unig yn bwysicach i Ddafydd Epynt yma na chael englyn ystyrion!

Atodiad i

Ceir yr unig gopi o’r gerdd anghyflawn hon gan law anhysbys yn Pen 60, 80; priodolir y testun i Ddafydd Epynt, a gallwn nodi mai dyma’r unig gerdd

¹ Ceir golygiad o’r ddau englyn hyn dan y pennawd ‘Llyma ddau englyn orchest a fu rhwng Siôn Ceri a Hywel ap Syr Mathau’ yn GSC 164 (cerdd 59).

² Gw. Rhisiart Fynglwyd, &c.: Gw xxx–xxxii, 159–77.

o'i waith a gadwyd yn un o'r tair llawysgrif gynnar—Pen 54, 55 a 60—nad yw yn ei law ef ei hun.³ Gall hyn esbonio paham y mae'r gerdd yn anghyflawn. Y mae'r testun yn dilyn yn syth gywydd Dafydd i Siôn Morgan, esgob Tyddewi, sydd wedi ei gofnodi ganddo ef ei hun, ond heb briodoliad (cerdd 18).

Ni chredir bod unrhyw sail dros amau'r priodoliad i Ddafydd Epynt, a'r unig reswm dros osod y gerdd mewn Atodiad yw ei chyflwr anghyflawn. Cyflwynir y testun yn union fel y mae yn y llawysgrif, heb rannu geiriau na diweddarau'r orgraff.

Tynnodd Dafydd Johnston sylw at arfer Lewys Glyn Cothi o gofnodi breichiau cyntaf cwpledi yn unig, gan awgrymu y buasai hynny—ar adeg pan oedd y diwylliant llafar eto'n hyfyw—wedi bod yn ddigon o ysbardun i fardd neu ddatgeiniad ddwyn gweddill y gerdd ar gof.⁴ Trwy gofnodi hanner llinellau neu freichiau cyntaf cwpled gellid hefyd ddiogelu trefn y llinellau. Y mae'n bosibl iawn mai'r un arfer a welir ar waith yma, ond ni ellir bod yn hollol sicr ai darn cyflawn sydd yma (gyda'r llinellau yn dilyn ei gilydd yn y drefn y bwriedid eu datgan), ynteu llinellau digyswllt sy'n dod o'r un gerdd (cf. testun llsgr. A¹ o gerdd 3 a gofnodwyd yn llaw Dafydd Epynt, a hefyd y llinellau yn Atodiadau ii–iv, ond bod y rheini wedi eu cofnodi gan Siôn Dafydd Rhys at ddibenion penodol). Y mae'n bosibl fod y cymeriad a welir ar ddechrau rhai o'r cwpledi yn awgrymu'r cyntaf (e.e. llau. 1–2, 17–18, 19–20, 21–2).

Cesglir mai cnewyllyn marwnad i ryw Forgan yw'r gerdd hon: fe'i henwir yn llinell 5, ond ni cheir unrhyw wybodaeth bellach a fyddai'n gymorth i ni ei adnabod. Canodd Dafydd Epynt farwnadau i ddau ŵr o'r enw Morgan: y naill yn awdl farwnad i Forgan ab Owain a'i wraig Sisli (cerdd 20), a'r llall yn farwnad i Forgan fab Syr Dafydd Gam (cerdd 5). Posibilrwydd arall yw Morgan ap Siencyn, tad Siôn Morgan a Sisil, gwraig Syr Tomas Fychan o Dretŵr y canodd Dafydd Epynt ei foliant (gw. nodyn cefndir cerdd 13); sylwer bod y darn yn dilyn yn y llawysgrif gywydd Dafydd Epynt i Siôn Morgan (sef cerdd 18).

Atodiadau ii–iv

Codwyd y llinellau a geir yn y tri atodiad hyn gan Siôn Dafydd Rhys i Lst 55. Yn y llawysgrif honno ceir adrannau yn cynnwys llinellau o waith nifer o Gywyddwyr—llinellau yr oedd y Gramadegydd am eu defnyddio, o bosibl, at bwrpas ei Ramadeg. Ceir y llinellau a gyflwynir yma wedi eu

³ Gwrthygyferbynier fy sylwadau blaenorol ar y gerdd hon yn Owen Thomas, 'Dafydd Epynt: bardd llythrennog o Frycheiniog', *Dwned*, vi (2000), 90–4.

⁴ Gw. enghreifftiau o gerddi anghyflawn eraill yn GLGC 637–46; gw. hefyd D.R. Johnston, 'Lewys Glyn Cothi, clerwr Dyffryn Tywi', THSC, 1996, 11.

priodoli i Ddafydd Epynt mewn tair adran yn y llawysgrif honno. Ceir hefyd bedwaredd adran yn cynnwys llinellau o gywydd Dafydd i Fair (gw. cerdd 2, llsg. M), ac ar sail hyn cesglir bod y llinellau a geir yn y tri atodiad hyn wedi eu codi o dair cerdd sydd bellach wedi mynd ar goll.

Y mae'n debygol mai chwe llinell o gerdd farwnad a geir yn At.ii; ymddengys mai cywydd yw'r mesur, a gall llinellau 2–3 fod yn gwpled. Pedair llinell yn unig a geir yn At.iv, a dichon mai llinellau o gywydd mawl i ryw swyddog oeddynt; y mae'n bosibl fod llinellau 3–4 yn gwpled.

Cysylltir y darn yn At.iii, sy'n cynnwys tair llinell seithsill, un llinell wythsill, ac un llinell chwesill, ag enw Gwallter Hafart. Unwaith eto, y mae'n bosibl fod llinellau 4–5 yn gwpled. Yr oedd *Gwallter* yn enw tra chyffredin gan yr Hafardiaid ac felly ni ellir bod yn hollol sicr pwy yw'r gwrthrych yma gan na cheir gwybodaeth ychwanegol amdano; er hynny, yr oedd Gwallter ap Gwilym Hafard yn noddwr hysbys i feirdd a chadwyd cywydd marwnad iddo gan Hywel Dafï a chywydd moliant gan Ieuan Deulwyn.¹ Y mae'r ffaith fod Dafydd Epynt wedi canu mawl i'w dad, Wiliam Hafard (cerdd 7, a gw. y nodyn cefndir i'r gerdd honno) yn rheswm dros uniaethu'r gwrthrych ag ef.

¹ Peniarth 67, 47–9 (LXXXIII) a Pen 55, 69; gw. ymhellach NBSBM 170.

Geirfa

- âb** 12.29–30n
aber 14.65n
ach llinach 3.26, 6.4, 8.61, 15.9, 10n, 18.3 **iach** 14.38n; *ll. achau* 9.38, 17.15, 19.17
adail adeiladwaith; cynllunio 5.19, 21
adain aden, braich, llaw, nawdd 4.7, 31, 11.27–8n, 14.59; *ll. adenydd* 5.33, 17.37
adar 5.38n
Adar Llwhch Gwin 12.25n
adnabod 1 *un.pres.myn.* **adwaen** 15.1; 3 *un.pres.myn.* **edwyn** 18.19; 3 *un.pres.dib.* **adnapo** 22.36
ado 5.23n
addaw 24.1
addef¹ cyffes 2.11
addef² arddel, cydnabod 7.10
aelod braich neu goes; ?perthynas 9.6, 12.11n, 17.6
aelýnael wyneb yn wyneb 14.30
aeron gw. **rhif aeron**
aerwy addurn am y gwddf, coler 16.1
afal pren afalau, *ac yn ffig.* 1.46n, 6.22, 16.38n
agwedd ffurf, gwedd 2.27
angel 2.13n; *ll. engylion* 22.26
anghyfiaith [dyn] estron 17.6
anghywir un twyllodrus neu annidwyll 14.14
ail ail, tebyg i 9.6, 12.12, 13.56n, 14.5, 22.11, 33
ais bron, mynwes, asennau 3.41, 4.17, 37, 6.2n, 13.21, 29, 20.20
(a gw. **asau**)
alfach 5.65n
aliwns estroniaid 14.50n
allwest 23.4n
amddifad anghenus 8.27
amerodr ymherawdr 13.28
amgen waith 11.35n
aml niferus 20.47
angerdd an-gerdd 22.13
anian natur 1.36n, 5.56, 14.4, 5–7n, 16.13
anianol cryf, cynhenid, arferol 1.23, 9.22
anniddan digysur, truenus 5.55
annwyd cynneddf, anian 16.13
anos 6.19–20n
arab ffraeth 17.21
aradr *ll. erydr* 12.37
araf mwyn, tirion 7.20, 17.38, 46, 21.8
arail gwarchod, amddiffyn 3 *un.pres.myn.* **arail** 5.18
araith cân 11.36
archenad gwisg, dillad 8.26
archoll 2.52n
ar dro 5.81–4n
ardymer tywydd 1.9
arf 3.59–60n
ar far 20.28n
arfog milwr 5.60
ar gil ar ffo 14.53
arglwyddes 2.3–4n
ar hyder rhag ofn, S. ‘on the off chance’ **ar ei hyder** 5.82
arian 14.39n, 16.2n, 17.27–8n
ar iawn yn weddus, yn gywir 12.52

- arien** 23.2n
aros 3 *un.pres.myn.* **ery** 14.14, 51
art 10.50n
arth 10.13; *ll.* **eirth** 17.23–4n
ar wad 8.31–2n
arweddiad arweinydd,
 cynheiliad 8.59
asau gw. **asen**
asen *ll.* **asau** 14.61n (a gw. **ais**)
asglod dellt, ysgyryon pren 13.24
asur 11.1–2n, 14.40n
atal 1.8n; 3 *un.pres.myn.* ?**atail**
 6.32n
athrywyn cyfryngu, cymodi 3.39
aur 2.5, 3.8n, 7.46n, 9.27–8n,
 14.39n, 17.27–8n, 18.1n
aur Afia, [yr] 17.53–4n
aur rhudd 15.15n
awch llymder, miniogrwydd
 4.11, 12.25, 33, 20.42n
awdl 16.47
aweddwr 13.35n
awenydd bardd 5.68, 8.9, 15.20,
 17.50, 22.29
awmler 14.55n
awyr 10.11, 14.5–7n, 72, 15.37n
bagad mintai, llu 8.48
ban¹ pegwn 1.18n, 22.1
ban² pan 8.43, 10.23
band gw. **pand**
baner 14.19–20n, 21
bar 6.39–40n, ?21.7n (a gw. **ar**
far)
bâr lliid, dicter 10.26, 13.44, 18.37
bardd 22.40n
Barn gw. **Dydd y Farn**
barnu 3 *un.amhff.myn.* **barnai**
 22.47–8n
barwn uchelwr 21.3, 43
bedd 2.27–8n, 3.9–10n, 4.6n
berw cynnwrf, cyffro 5.8n, 47,
 13.41–2n, 15.27, 16.3
berwi byrlymu 3 *un.pres.myn.*
beirw 1.32, 11.6
bery aderyn ysglyfaethus, barcud
ll. **beryon** 14.72
blaen gw. **o'r blaen**
blaenawr blaenor, arweinydd 20.17
blaenu arwain, blaenori, rhagori
 10.29
blaidd 3.58n, 9.13n, 13.5
blewyn 1.12n
blist 23.3n
bod *amhrs.pres.myn.* (*fel cyplad*)
es 6.29n **ys** 8.17;
 2 *un.amhff.myn.* **oeddud** 1.19,
 47, 16.6, 18.8; 2 *un.pres.dib.*
bych 19.9; 2 *un.amhff.dib.* **baud**
 17.34, 46 **baut** 16.24; 3 *un.grch.*
bid 6.54
boly bol, canol 4.18
bôn cyff, gwraidd, gwaelod 5.27
bonedd 4.21–2n
bort 7.35n
bradwr *ll.* **bradwyr** 10.6n
bragod diod frag, *S. bragget* 7.38
braisg cadarn, nerthol 6.40
brân 9.16n, 35–6n, 12.26n, 41–
 2n, 13.41–2n; *ll.* **brain** 16.22n
brau hael, ?bregus 5.79, 6.39,
 7.36, 42, 16.52, 18.13; *cmhr.*
breuach 22.8n
brawd cyfoeswr, cyd-fardd,
 cyfaill 15.21, 18.13
brawdwr barnwr, beirniad 6.39
bredech 8.13n
brenhines 2.47n
brenin 3.2n
breuder haelioni 15.21
brig copa, brigau (*yn ffig. am*
epil) 5.81, 16.39, 21.32
brigyn 5.26n, 7.38n, 9.43–6n
bro 5.74n
bru croth 1.20
brud 5.69–70n, 6.30, 7.25–6n,
 16.5–6n

- brwyd** ffrâm i frodio arni 19.42
brwyn tristwch 5.31
bryn 3.1–2n
Brynachad 16.22n
Brytaniaid 12.27, 17.22
bual *ll.* **buail** 12.12n
bwa 3.17–20n
bwch 6.44n
bwne 5.62n, 17.26n
bwrw 12.24n
bwyall 12.50; *ll.* **bwyaill** 14.45
byd 6.44n
byr 10.5n, 27n
byriaw *amhrs.grff.myn.* **byriwyd** 21.3n
bysedd 7.46n
cad¹ byddin, brwydr 8.43, 13.5, 16.33, 17.8; *ll.* **cadoedd** 12.24n
cad² gw. **cael**
cadarn cydnerth; gŵr cadarn 8.42n, 21.6; *ll.* **cedyrn** 5.81
cadfaon milwyr, rhyfelwyr 14.66
cadw cadw, amddiffyn, diogelu 5.80n, 11.25, 13.16, 18.22, 52; 2 *un.grch.* **cadw** 16.33
cadwedig diogel, a drysorir 21.31
caead caeedig, wedi ei amddiffyn 5.57, 8.40, 17.29
cael *amhrs.pres.myn.* **cair** 5.53, 8.39, 17.3, 18.39; *amhrs.amhff.myn./dib.* **caid** 1.27, 3.9, 31, 43, 4.35, 13.33, 16.44, 20.33; 3 *un.grff.myn.* **caf** 4.29, 8.60, 10.39, 18.49; *amhrs.grff.myn.* **cad** 2.17, 8.46, 11.23, 16.45, 18.21; *amhrs.pres.dib.* **caffer** 14.42
cael y maes 12.8n
caeth caethiwus, wedi ei gloi; dyn caeth 4.5, 14.31–2n; *ll.* **caith** 2.33
calon gw. **un galon**
camryfyg hyfdra, beiddgarwch 14.31
canawl canol 3.59
caniad cerdd 8.56
cannwr cant o ddynion neu o filwyr 7.4
cannyn cant o ddynion 3.52
cant 10.1n
cares cyfeilles 20.50
carw milwr ifanc, uchelwr 7.1n; *ll.* **ceirw** 21.19
casoedd 20.43n
cau 12.41–2n
cedernyd cadernid 17.16, 17
cefnder 12.22n
ceibio torri, cloddio *amhrs.grff.myn.* **ceibiwyd** 5.58
ceimiad 8.47n
celli 11.51n
cennad negesydd, cenhadwr 3.45
cerdd 22.14n
cerddwriaeth prydyddiaeth 16.50
cerennydd carennydd, perthynas cyfeillgarwch 5.53, 18.41
cerydd 2.43n
cil gw. **ar gil**
cis 18.29–32n
clariwn *ll.* **clariwns** 12.46n
cled gw. **clyd**
cloch *ll.* **clych** 21.22
cloi diogelu, amddiffyn, cau 12.1, 20.33
clwydau f'ais 6.2n
clyd *b.* **cled** 11.29
coeden *ll.* **coed** 11.10n, 26, 12.41–2n, 21.31n
coler 9.27–8n, 17.27–8n
côr cangell 18.35
corff 3.3–4n, 31, 11.46, 12.9–10n
corn 2.39n; *ll.* **cyrn** 12.45n
coron 10.14, 12.21n, 39–40n, 14.35
cost 14.28n
crair 3.54, 18.28n

- cranc gwniau** 3.52n
cred¹ ffydd 3.54, 5.59, 16.4
cred² gw. **credu**
Cred 9.23, 13.31–2n, 19.31
credu bod â ffydd [yn]
3 un.pres.myn. cred 11.13–14n
crefft Iddeu 19.46n
croesi 2 *un.grch.* **croesa** 2.46n
crog 1.30n, 2.27, 5.59, 10.21n,
 21.2n, 22.38n
crud 9.17n
crwys 20.30, 50n
cwr 4.6n
cwrrwm 5.61n
cwrs y sêr 18.20n
cwyn 5.73n
cwyr 1.33–4n, 21.19
cyd ... â 11.26n, 13.16n
cyfarwydd 7.17n
cyfarwyddaw arwain, tywys,
 ?hyfforddi 1.25
cyff bôn, tras, llinach 15.10,
 19.29; *ll. cyffion* 5.27, 14.42n
cyffin 15.10n
Cymry 13.48, 14.31–2n
cynnull cynulliad, ?brwydr 7.4
cyrnhoi 2 *un.grch.* **cyrnho**
 13.45n
cyrraedd 3 *un.pres.myn.*
cyrraidd 9.43
cywydd 5.57, 17.52, 22.22; *ll.*
cywyddau 8.6
chwech 17.14n
chwerthiniad chwerthin 8.54
dafn *ll. dafnau* 5.45–6n **defni** 19.41
dagr *ll. ?deigr* 6.13n (ond gw. **deigr**)
dail 5.20n, 11.12, 43–4n, 15.24
dalen *ll. dalennau* 6.7n
daly dal 3.32, 22.15
damwain digwyddiad 20.4
dan 2 *un.* **danad** 6.41; 3 *ll.*
danun 14.46 (a gw. **dan y**
rhod)
- dant** 4.10n
dan y rhod 4.27n
darfod 5.39–40n
darogan rhag-weld;
 rhagweledigaeth 1.22, 6.31,
 12.27, 13.41–2n, 53, 14.43
dart 7.2, 9.5, 20.23
dau 3.3–4n, 9.35–6n, 10.15n,
 13.19; *b. dwy* 12.9n, 49, 15.7n
deall deall, medru dehongli;
 deallusrwydd 5.69, 12.3, 20.38,
 22.43 **dyall** 6.30, 52
deau y parthau deheuol 5.23, 75,
 9.32, 12.17n, 14.6
dechreuad gw. **un ddechreuad**
defnydd sylwedd 5.45–6n, 17.64
deheuwlad y parthau deheuol
 8.41
deheuur *ll. deheuwyr* 22.25n
Deifr 13.44n
deigr dagrau 5.51n, ?6.13n
dagrau 20.35n
deilog 11.43–4n
deirton 4.10n
deri gw. **rhuddyn deri**
derw derw, *ac yn ffig.* 5.27, 9.43–
 6n, 13.36, 16.50, 18.5, 22.9
derwen 15.52
desgl dysgl 15.50
deuddyn 20.54n
deuto 6.35n
deutu dwy ochr 9.48
dewis dewisol 5.41–2n, 19.31–2n
dialedd 22.32n
diasbad dolef, gwaedd 8.53
diawd diod 7.29 **diod** 15.28;
ll. diodydd 5.38, 17.51
diawl 3.47n, 59–60n
dieithr rhyfedd 1.3
dien¹ 23.4n
dien² distryw 12.51
dieneidiaw lladd, dinistrio 3.43
difer ystrywgar *eith.* **diferaf** 6.9–

- 10n
difiau dydd Iau 17.67n
difrychau di-nam 12.23
digynnydd dyn digynnydd 6.10
dihenydd dinistr 17.71
dilid canlyn, *dilyn 3 un.pres.myn.*
dilid 19.48
dilwgr pur 2.35
dilyn 3 un.pres.myn. **dilyn** 5.71
diol deol, alltud 17.1n, 73
diriad gorfodwr, cymhellwr *ll.*
diriaid 17.23–4n
diriaid¹ dihiryn 8.47
diriaid² gw. **diriad**
dirio rhoi dan bwysau, pwysu ar
 20.29
diwair gwyruf 2.9, 11
diweddu rhoi terfyn ar
amhrs.grff.myn. **diweddwyd**
 21.10
doctor 18.9n, 38n
doeth gw. **dyfod**
drain 1.41n
drem gw. **trem**
dros 1.26n
drws bwlch 2.45
drych adlewyrchiad, llun 8.15–
 16n, 16.31
du du, tywyll 2.40, 4.10n, 30,
 5.49–50n, 75, 11.46n, 20.17–
 18n, 21.26; *ll.* **duon** 22.17–18n
 (a gw. **du o Lir**)
dug 7.2 **duc** 6.16; *ll.* **dugiaid**
 16.41
duo 20.17–18n
du o Lir 21.26n
dur dur, arf dur; caled, creulon
 1.41n, 3.7, 9.5, 12n, 21, 11.47,
 13.21, 14.23, 52, 59, 60, 62,
 17.5, 26, 18.29, 19.22, 20.6
durew rhew du 19.34
duwiol 2.18n
dwg ?12.12n (ond gw. **tygiaw**)
dŵr 1.37–8n, 4.30n, 12.31–2n,
 13.15n, 20n, 14.17n, 16.11–12n;
ll. **dyfredd** 12.36 (a gw. **dŵr**
swyn)
dŵr swyn 20.32n
dwyawr 5.41–2n
dwyen genau, min 2.30n, 6.52
dwyno anrheithio 16.25
dyad 8.38n
dyall gw. **deall**
dydd Iau 3.13n
dyddiaw 24.4
Dydd y Farn 1.54 **y Farn** 2.42,
 20.39
dyfaliad disgrifiad, darluniad
 8.21
dyfod 2 un.amhff.myn. **dout**
 12.47–8n; *3 un.grff.myn.* **doeth**
 1.39, 2.14n
dyfredd gw. **dŵr**
dyfyn gwŷs, galwad 5.29
dyfynnu gwysio, gorchymyn
amhrs.grff.myn. **dyfynnwyd**
 19.11
dygyfor terfysg, cythrwfl 14.67
dyn 1.31n, 2.34n
dyrchafu 3 un.pres.myn.
dyrchaif 9.38
dyrys 12.29–30n
dywedyd dweud 1.15–16n;
3 un.pres.myn. **dywaid** 17.7
ederyn aderyn, *ac yn ffig.* 1.2,
 5.7, 9.49, 11.45n, 15.2, 49, 20.7;
ll. **adar** 1.5, 5.23n, 38n, 12.25n,
 14.71, 19.43, 44, 21.43, 22.9
edn aderyn, *ac yn ffig.* 11.27,
 15.1n, 22.4, 36n **hedn** 9.52n
eferwr 6.36n
egin gwehelyth, disgynnydd,
 disgynyddion 6.41, 11.7, 14.43,
 16.43, 20.56
eginyn disgynnydd, hiliogaeth
 6.9–10n, 14.10

- englyn** 22.26
ehedydd 5.82
eiddaw 24.2; 3 *un.b.* **eiddi** 24.1;
 ?3 *ll.* **eiddoedd** 24.2
eiddoedd gw. **eiddaw**
eigion 14.68, 16.11–12n
elawr 5.11 **elor** 20.14
elfydd trigfan, bro 5.65n, 17.65
eli eli, meddyginiaeth 3.49, 20.34
elor gw. **elawr**
elorwydd elor, hers 20.12
emprwr ymherodr 13.40
emyl ymyl 20.47 **ymyl** 18.33; *ll.*
emylon 14.60n
emys 14.27n
enaid cyfaill, person 7.24, 15.17,
 17.20
ennyn cynnau, cyffroi 9.11
enyntu 19.21; 3 *un.pres.myn.*
enyntu 14.64
enw enw, clod, bri 3.55–6n, 5.67,
 7.3, 7.25–6n, 8.67, 9.35, 10.21–
 2n, 43, 12.47–8n, 13.13, 17.48,
 19.14 **henw** 9.39n, 23.2n
enwi enwi, datgan, arddel 1.36,
 3.22, 11.4 **henwi** 15.41n;
 1 *un.grff.myn.* **enwais** 14.40
enwir drwg, anfad, celwyddog 13.47
eos 15.4n, 48n, 22.23
erchi ceisio, gofyn (am) 15.20;
 3 *un.amhff.myn.* **archai** 8.26
erchwyniog amddiffynnwr,
 cynhaliwr 6.4
eryr 9.35–6n, 10.21–2n, 11.14n,
 14.1, 53–4n, 17.54, 18.28, 21.48
esgair coes *ll.* **esgeiredd** 11.42
esgob 18.1n
esillydd disgynnydd 14.36
estyn ymestyn, tyfu
 3 *un.pres.myn.* **estyn** 1.12n
etewyn ffagl, tors *ll.* **etewynion**
 14.64
eurad addurniad aur, goreurad
 19.40
euraw gw. **euro**
euro anrhydeddu, urddo'n
 farchog 8.24, 12.6n, 14.19–20n
euraw 12.46; *amhrs.amhff.*
myn. **eurid** 12.29–30n;
amhrs.grff.myn. **eurwyd** 13.55n;
amhrs.grch. **eurer** 14.42n
eurog 10.50n
eurych gof aur 3.46
ewin gw. **un ewin**
ewyn 5.39–40n
fyr 14.57n, 16.34
ffaling 19.28n
ffelfed 19.27n
ffenigl 19.29n
ffêr 14.19–20n
ffo ffoi 3.31, 4.32
ffon 5.80n, 6.13n, 14.19–20n,
 16.7, 17.72
Ffranc gŵr o Ffrainc 13.17; *ll.*
Ffrainc 10.31–2n
ffris 19.30n
ffriw wyneb 21.16
ffrwd llifeiriant 4.32, 5.51n
ffrydo 1.40n
ffwyl 16.18n
ffydd 5.80n, 17.1, 72, 18.24
ffynnon 9.47–8n
ffyrf cadarn 16.8
gadael 1 *un.pres.myn.* **gadaf**
 16.19 *amhrs.pres.myn.* **gedir**
 5.34; 3 *un.amhff.myn.* **gadai**
 22.5
gair 2.13n, 13.23n, 16.51n
galont 7.5n
gallu 3 *un.pres.dib.* **gallo** 8.22n
gar *ll.* **garrau** 11.31n
gên 7.41n
geni 5.22n
geudduw duw ffals 8.62
glan *ll.* **glennydd** 17.40
glân *eith.* **glanaf** 2.9–10n

glaswellt gw. **rhif y glaswellt**
glaw ?1.12n, 7.6, 19.33, 20.1–2n
gleindid glendid, harddwch 16.32
gloen Duw 16.32n
gloywnaint nentydd disglair 7.15
gof 11.3, 18.29–32n
gogymaint 8.47n
gohir gohriiad, rhwystr 10.19,
 21.40
goleuad 8.37n
goleuni 2.10n, 18.46n
golwg 2.35–6n
gorddiwedd *amhrs.pres.myn.*
gorddiweddir 10.47n
gorddiwes 1.28n
goresgynnydd 5.22n
gorfod *amhrs.pres.myn.*
gorfyddir 3.9–10n
gor-ffwys 6.13n
go ysblennydd tra ysblennydd
 5.41
gradd gradd, urddas, teilyngdod
 9.37, 10.47, 18.3n
graeon 10.31–2n
gran 5.58n
grasus rhadlon, bendithiol 18.20
greso croeso 19.1
grëu 22.7n
gro cerrig mân, bedd, gweryd
 2.27, 8.67, 20.30, 22.7n
Gröeg 3.55n (a gw. dan Enwau
 Lleoedd)
grudd boch 20.35
grwn bedd 5.58n, 22.38n
gwad gw. **ar wad**
gwaed gwaed, ach, bonedd 1.39,
 2.32n, 33, 4.24, 30n, 5.19, 25,
 7.22n, 9.7, 10.30, 40, 42, 13.20,
 14.46, 18.51, 19.41, 20.35n
gwaethu gwneud drwg i
amhrs.pres.myn. **gwaethëir** 8.58
gwahaniad 8.68
gwaith gw. **amgen waith**

gwâl lloches, amddiffynfa 3.5
gwallt brig deiliog (coeden) 6.22
gwalltan 8.10n
gwar gwar, ymyl, min 3.1–2n,
 4.2, 9.5, 12.29–30n, 14.19–20n,
 16.11–12n, 18.2, 22.39
gwart nodded, amddiffyn 22.41
gwas gwyh 8.14n
gwast 15.1n
gwawr arglwydd 5.13
gwayw picell, gwaywffon, brath
 5.45–6n, 10.3, 12.5n, 16.7, 55,
 17.8, 33; *ll.* **gweywyr** 4.11,
 17.29, 20.19 **gweywyr** 14.35
gwddwg gwddf 3.4
gwe gwead, defnydd 19.39
gweddu bod yn addas, siwtio,
 plygu i, ymostwng
 3 *un.pres.myn.* **gwedd** 10.38,
 11.27, 41, 16.9, 17.42n **gwedda**
 8.62; 3 *un.amhff.myn.* **gweddai**
 16.5–6n
gwehelyth gw. **un wehelyth**
gweled¹ 3 *un.pres.myn.* **gwyl**
 7.6n, 8.45, 18.33; 3 *un.grff.myn.*
gwelas 7.33n; *amhrs.grff.myn.*
gwelad 8.33
gweled² 6.28n
gweli 1.53n
gwely 21.21n
gwellhau 1 *un.pres.myn.* **gwellâf**
 19.25n
gwen gw. **gwyn**
Gwener 4.23, 5.43n
gweniaith geiriau dichellgar 17.7
gwenithen gronyn neu blanhigyn
 gwenith 15.8
gwennol 8.17n
gwenwyn gwenwyn, chwerwder
 5.32, 20.5n
gwenwynig chwerw 5.1, 85, 10.8
gwers cyngor, pennill, ennyd, tro
 12.29–30n, 16.5–6n, 22.39

- gwestwr** ymwelydd, gwestai
ll. gwestwyr 8.25
- gwiail** 5.17n, 11.12, 43–4n, 15.23n
- gwig** coedwig, llwyn 15.44
- gwillad** 6.45n **gwilliad** 8.44n;
ll. gwillaid 6.12n
- gwinau** 5.43n
- gwirion** un di-fai a chywir 5.79
- gwisg** 18.1n
- gwisgo** 3 *un.pres.myn.* **gwisg** 3.8n
- gwliith** 23.2n
- gwn** dryll *ll. gwns* 14.49n
- gwn** mantell 11.32, 35, 39–40n,
 52, 14.39n, 19.37, 50; *ll. gynau*
 7.24n, 8.8n, 9, 9.23n
- gwneuthur** 2 *un.pres.myn.* **gwnai**
 11.17; 2 *un.amhff.myn.* **gwnaut**
 19.21 **gwnaud** 16.9;
 2 *un.amhff.dib.* **gwnelud** 17.5
- gwniau** 3.52n
- Gwnteriaid** 21.30n
- gwr** gwr, milwr 2.11n; *ll. gwyr*
 10.1n, 11.11
- gwraich** 4.11n
- gwraidd** gwehelyth 13.3;
ll. gwreiddiau 10.36 (a gw.
gwreiddyn)
- gwraidd** gwrol 8.30
- gwraig** 2.32n, 8.49, 16.36n,
 20.41
- gwreiddyn** tarddiad, gwehelyth 7.10,
 9.43–6n, 18.3 (a gw. **gwraidd**)
- gwres** 9.9–10n
- gwrthiau** gw. **gwyrrth**
- gwryd**¹ gwrhydri, cadernid 17.14
- gwryd**² hyd, maintioli 11.31n
- gwybod**¹ 3 *un.pres. arferiadol*
gwybydd 5.58n; 2
un.amhff.myn. **gwyddud** 19.13
- gwybod**² gwybodaeth, barn
ll. gwybodau 11.18
- gwydr** gwydr, drych 1.15–16n,
 8.15–16n, 14.59
- gwŷdd** pren, gwaywffyn neu
 darianau [pren], ffrâm gwëydd,
 llwyn[i], coed 2.27–8n, 11.10n,
 13.24, 16.34, 17.62, 19.41n (a
 gw. **rhif y gwŷdd**)
- gŷydd** presenoldeb 6.25
- Gwyddel** 17.10; *ll. Gwyddelaid*
 Gwyddelod 3.32
- Gwyddelig** 19.39n
- gwyld** gwylio 14.60
- gwyliad** 8.22n
- gwyliad** *ll. gwylliaid* 14.18n
- gwyn** 11.46n
- gwynt** 1.8n
- gwyrrth** *ll. gwrthiau* 4.24, 9.41n
- gwyrrthfawr** gwyrrthiol, rhyfeddol
 2.24
- gŷyth** gwythïen *ll. gwythi* 2.37, 4.40
- gwythen** 4.33n
- gwywo** 3 *ll.pres.myn.* **gwywan**¹
 5.17; 3 *un.pres.dib.* **gwywo**
 20.19
- had** had, disgynyddion, hil 6.5,
 42, 7.8n, 8.58, 9.26n, 12.19n,
 20, 13.4, 16.30, 45n, 17.40,
 18.2n, 19, 20.38
- haf** 4.14, 8.11–12n, 11.26,
 17.36n, 69, 19.36, 20.25, 21.39,
 22.3
- Hafardiaid** 7.8 (a gw. **Hafart**
 dan *Enwau personau*)
- hafog** dinistr, ysbeiliad 7.13
- haid weny** 6.19
- hanfod** 3 *un.pres.myn.* **henyw**
 19.29; 3 *un.grff.myn.* **hanoedd**
 3.33
- hap** llwyddiant, ffyniant, lwc dda
 13.50, 19.52
- hau** 5.37n, 13.47, 14.7n, 15.15,
 16.45n; *amhrs.pres.myn.* **hëir**
 12.19n
- haul** haul, *ac yn ffig.* 1.6, 3.51,
 8.45n, 9.29n, 12.17n, 13.16n,

- 18.46n, 47
hawl prawf, ple, awdurdod 2.26, 16.18, 21.5
heb law 1.12n
hed 1.33–4n
hedn gw. **edn**
hefelydd 23.1n
hen 10.25n
henw gw. **enw**
henwaith hen grefft neu gelfyddyd 11.3
henwi gw. **enwi**
heol 7.5n, 19.50; *ll.* **heolydd** 5.50, 17.31
heulwen 5.50, 23.1n
hir hir, maith, pell, tal 10.48, 11.1n, 38, 12.1n, 13.15, 14.8n, 16, 17, 15.14, 25, 16.18, 19.30, 21.46
hiraeth 20.42n, 21.46, 22.20
honno 23.1n
hosan 11.39–40n
hun cwsg 4.16
hur tâl, rhodd 16.28
hwnt draw, y fan acw 3.1
hwyad hwyaden 3.20
hwyr 13.39n
hybu atal, ffrwyno 22.47–8n
hyd 1.31n
hyder gw. **ar hyder**
hydd carw, arwr 3.20, 5.34n, 14.36, 17.69n; *ll.* **hyddod** 5.5
hyn 6.12
iâ 1.10, 9.30n
iach¹ gw. **ach**¹
iach² 20.27, 41–2n
iad corun, pen 1.43, 2.6, 31, 4.7, 5.51n, 8.50, 12.26, 16.56
iaith iaith, cenedl 13.45, 17.9, 19, 18.18; *ll.* **ieithoedd** 2.51
iarll 7.21n, 10.25n, 38n, 11.45n, 12.48; *ll.* **ieirll** 12.16, 13.20n, 17.41
iau 9.37, 13.11n, 15.41, 20.52n, 22.27n
Iau 3.13n, 4.23, 5.43n, 20.4n
i dan 10.21n
Iddew 19.46n; *ll.* **Iddewon** 1.24, 14.71n, 17.72n
ieithydd 5.69–70n
iesin hardd, disglair 21.16
imp twf ieuanc 15.11
ir ffres, bywiog, egnïol 1.53n, 4.30n, 11.12, 13.15n, 20n, 14.17n, 46, 18.5
irder gwyrddni, ffyniant 7.27, 17.61
irwydd prennau byw, glaswydd 5.28n
i'th yn dy 1.25, 2.24, 4.22, 4.28n, 11.15, 50, 52, 17.2, 35n, 65
lladd *amhrs.grff.myn.* **llas** 3.1–2n
llaes 11.39–40n
llaeth 2.37n
llai 5.32n, 8.38n, 22.43n
llanw¹ llanw'r môr 14.24n
llanw² llenwi 20.52n
llaw awdurdod 11.15n, 12.17n
llawenydd 2.7n
llawn 7.41n
lled gw. **llydan**
llen *ll.* **lennau** 20.11n
llew 9.3, 10.12n, 27n **llew melyn** 12.48n
llewa bwyta, yfed *amhrs.grff.myn.* **llewad** 8.55
llewpart 8.66n
llif llifeiriant 2.4, 13.54, 20.37n
llifddwr dagrau llifeiriol 20.16
llifeiraint llifeiriant 5.47
llifeiriant 17.70
llin llinach 3.1, 6.8, 10.27n, 15.9, 20.40
llinon gwaywffon, gwaywffyn 14.57
lithio denu 6.20

- lliw** 20.15n
lloer 4.21–2n, 9.29n
llonydd bodlon 17.34
llu bedydd trigolion y byd
 (Cristnogol) 5.21
llwyd sanctaidd, bendigaidd,
 duwiol 6.37, 15.39
llwyth tylwyth 6.5, 10.25,
 17.18n, 20.24n, 22.42n
llydan eang 6.51; *cmhr.* **lled**
 6.27, 52
llyfr 5.77, 7.42; *ll.* **llyfrau**
 12.28n, 21.20n, 22.41n
llyma dyma 7.31, 8.19
llyn 8.55
llyna dyna 3.49, 5.20, 7.16, 41,
 11.47, 20.11
llythr 3.17–20n
llywydd 5.39–40n
mab 15.12n; *ll.* **meibion** 5.15
mab maeth 7.45n
maen maen, *ac yn ffig.* 4.18,
 5.61n, 7.15–16n, 9.17n; *ll.* **main**
 20.37n
maes gw. **cael y maes**
maestr gw. **meistr**
magwyr mur *ll.* **magwrydd**
 17.30
main¹ tenau, craff, astud 7.21n,
 12.39
main² gw. **maen**
mal fel 14.54, 16.37
mam 2.16n, 5.18n
man 23.3n
maneg 11.1–2n
manod 5.49–50n
marcu pennu, penodi 11.20
marchog 10.50n, 12.34n, 13.1n;
ll. **marchogion** 13.2, 14.38
marsiant masnachwr 19.1
mastr gw. **meistr**
mau 7.23n
medd diod fedd 7.45n, 11.22,
 15.26
meirw marw 20.10n, 21.32n
meistr 14.48 **maestr** 9.2n **mastr**
 10.2n
melyn 12.48n, 16.2n
mellt 19.20
men 23.3n
mennu 3 *un.pres.dib./dyf.* **menno**
 19.5
menyg 15.33–4n
merch *ll.* **merched** 21.41n
mesur 7.46n
mesydd 17.36n
meudwy 4.26
midlan 23.3n
min genau, ymyl 5.67, 7.2, 19n,
 8.37, 11.33, 12.35, 15.19, 35,
 17.49, 22.47–8n
modd 8.31–2n (a gw. **un fodd**)
môr *ll.* **moroedd** 2.1n
mud 1.15–16n, 22.1, 30
mwnwgl 11.1–2n
mwrthwl 18.34n
mwy 13.41–2n, 22.32n
mwyn ?metel, ?trysor 17.61
my hunan fy hunan 8.5
myned 2 *ll.pres.myn.* **ewch** 8.53–
 4n; 2 *un.amhff.myn.* **aud** 13.23n;
 3 *un.pres.dib.* **êl** 8.53–4n, 9.27–
 8n
mynnu 2 *un.amhff.myn.* **mynnud**
 1.47, 17.63
mynwes mynwes, nawdd 2.47,
 4.22, 18.50
mynydd 2.47n, 8.10n
nacáu 2 *un.pres.myn.* **nacéi** 17.52
nâd llef, rhyfelgri 12.26
naf arglwydd (ac am Dduw) 2.20,
 6.47, 17.60
nai 9.16n; *ll.* **neiaint** 8.47n
nant nant, y Dilyw, ceunant 4.34,
 6.46n, 20.55n, 21.29; *ll.* **naint**
 5.48, 17.70

- nasiwn** cenedl 18.49
naw ynys 14.70n
neidr 13.13n, 54, 14.51n, 15.42n
neitio neidio, llamu 9.13
nerth ?12.21n
nerthu cryfhau, atgyfnerthu
 10.14; 3 *un.pres.myn.* **nerth**
 ?12.21n; 2 *un.grch.* **nertha** 2.51
newidio cyfnewid 3.29
niwl 20.1–2n
nod bwriad, enwogrwydd 5.3
nofiad nofio 8.29
Normant 16.42n
nos 5.43n **nos Iau** 20.4n
nychdod 3.9–10n
od 17.39n
ôd 8.11–12n, 19.33, 20.1–2n
odid eithriadol 15.5
oed oedran, adeg, amser
 penodedig 5.4n, 34n, 17.32,
 20.54, 22.31, 35
oedi rhwystro, gwrthod 17.51
Oen Duw 1.1n
o flaen 20.52 **o'i flaen** 10.16
ofnhau dychryn 13.14
ofni ofni, dychryn 17.64;
 3 *un.amhff.myn.* **ofnai** 7.2n
olew 20.34n
onwydd 17.57n
o'r blaen ar y blaen 9.13, 13.5
organ 15.46n
orn cerydd, enllib, gwawd 6.18
osai gwin gwyn melys 6.26
pab 18.11n
pader 22.46
paladr llafn, colofn 15.44, 19.20
palf llaw, pawen 12.32
pand oni 6.50
para parhau 3 *un.pres.myn.* **para**
 6.18n
parhäu 18.36n **parhau** 6.8, 9.52,
 21.33
parhäus 19.30n
pe os 13.50, 15.15, 22.48
pedwar 5.65n
pêl 9.3n, 16.21n, 17.12n, 13n, 59n
pen pen, genau, pennaeth 1.52n,
 2.38, 3.3–4n, 6.8, 13.56n
penaig arweinydd, arglwydd
 15.11, 17.33
penfelyn 2.13n
penllad 8.66n
perchen 2.52n
perth *ll.* **perthi** 19.11–12n
perygl *ll.* **peryglau** 10.4
pilyn dilledyn 11.34
pìn ysgrifbin 3.21
planed 5.41–2n, 20.17–18n
plu 19.27
praff 1.40n
pren arf pren, crocbren, pren [y
 Groes], coeden, *ac yn ffig.* 1.40,
 3.42, 12.33, 13.17, 14.57, 19.14,
 21.33
prid drudfawr, costus 19.47
priod 9.35–6n
prior uchel swyddog eglwysig
 18.36
proffwyd 15.40
proffwydoliaeth 13.51n
pryd 10.31–2n
prydydd 5.69–70n, 6.30, 7.25,
 34, 17.53, 19.42
pryf bwystfil 3.42
pryfaith 15.40n
pryniad 8.35n
prynu 3 *un.pres.myn.* **prÿn** 19.47
pum 2.52n, 21.41n
rhad gras, bendith; rhadlon 2.20,
 25, 8.24, 36 *ll.* **rhadau** 2.14
rhagor rhagoriaeth, blaenoriaeth
 9.45, 14.68
rhaid anghenraid, cyfyngder,
 brwydr 2.2, 3.13, 4.3, 12.28,
 13.50, 17.23–4n, 25, 53, 57,
 18.42

- rhan** 10.35n
rhediad 8.28n
rheial brenhinol 10.40
rhent budd, elw 7.28
rhiain boneddiges, merch 8.61,
 10.40, 11.37–8n, 15.19; *ll.*
rhianedd 15.25
rhidyll 1.43–4n
rhif aeron 14.53n
rhif y glaswellt 19.19n
rhif y gwŷdd 18.21n
rhin cyfrinach 15.19
rhisg 11.26n
rhod ffurfafen, nef, cylch, byd,
 ffawd 1.13, 3.48, 5.1, 85,
 18.46n, 22.18 (a gw. **dan y**
rhod)
rhoddiad rhoddwr, cyfrannwr 6.43
rhoi 2 *un.pres.myn.* **rhoi** 11.14;
amhrs.pres.myn. **rhoir** 17.26,
 19.42; *amhrs.amhff.myn.* **rhoid**
 5.38, 21.39; 1 *un.grff.myn.*
rhoddais 6.15n; 2 *un.grff.myn.*
roaist 1.17; 3 *un.grff.myn.*
rhoes 22.39n; *amhrs.grff.myn.*
rhoed 9.32 **rhodded** 14.47;
 3 *un.pres.dib.* **rho** 17.28;
amhrs.pres.dib. **rhoer** 2.35–6n
rhòl 13.51n
Rhoseriad 13.10n
rhubi 16.14
rhudd gw. **aur rhudd**
rhuddyn deri 5.5n
rhwng 1 *un.* **rhof** 3.59–60n
rhwyd 17.68; *ll.* **rhwydau** 1.43–4n
rhwygo clwyfo, llarpio 1.22
rhydidd rhyddid 2.14
rhyfel 14.69n
rhyir hir iawn 19.50
rhyw rhywogaeth, hil, natur
 6.34n, 9.7, 15, 10.36, 12.1,
 14.40n, 15.13n, 16.28, 30, 40,
 17.11, 25n
rhywiogaeth rhywogaeth,
 bonedd 12.18, 13.1
said llafn 10.2
Sais 17.10; *ll.* **Saeson** 14.31–2n,
 17.71
sant 3.1, 4.15, 33, 18.7
sawdwr milwr, rhyfelwr *ll.*
sawdwyr 14.1
sedd 18.26n
sens 20.50n
seren 1.51, 2.5n; *ll.* **sêr** 5.43,
 9.25n, 14.48, 15.37–8n, 18.20n
sias ymlid 7.17n, 19.19
sidan 5.66n, 8.23, 13.29, 14.1,
 17.27
sir 8.63
soriant dicter, llid 13.10
stent 8.52n
sud gw. **un sud**
swrn amllder, nifer helaeth 5.26
swydd 7.17n; *ll.* **swyddau** 17.18,
 20.3
swyn gw. **dŵr swyn**
syfi mefus 19.26
tad 2.16n
tadidad 12.20n
tafarn *ll.* **tefyrn** 9.20n, 15.16
taid 17.53–4n; *ll.* **teidiau** 5.44
tair ban 1.18n
talm cyfran (o bobl) neu ysbaid
 (o amser) 13.37
tân 1.35n, 2.5, 50n, 4.7, 9.9–10n,
 10.33, 13.9, 36, 14.5–7n, 15.5,
 16.6, 17.57n, 18.29, 19.21, 37
tant 11.5–6n, 19.25n
tarhaus trahaus 21.44n
tarian 8.1, 9.9–10n
taro 18.30; 3 *un.grff.myn.* **trewis**
 18.31; 3 *un.pres.myn.* **tery** 9.50
tarw 9.9–10n, 10.21–2n, 13.55n,
 14.63n, 16.27n
tau¹ eiddot ti 1.43, 19.18
tau² gw. **tewi**

- teiran** 18.29–32n
teiriaith 5.79, 7.20n
telyn 15.45, 19.48n
terfyn 5.39–40n
tes 1.37, 4.21–2n
tew *cfrr.* **tewed** 19.31–2n; *cmhr.*
tewach 10.31–2n
tewi 3 *un.pres.myn.* **tau** 4.33, 8.9,
 15.35, 16.16; 1 *un.grff.myn.*
tewais 6.1
tir 1.37–8n, 4.28n, 14.5–7n,
 22.37n; *ll.* **tiredd** 19.8
tir y grog 1.30n, 22.38n
to cenhedlaeth 1.21
ton¹ *ll.* **tonnau** 14.5–7n
ton² gw. **twn**
tonnen croen 3.41
torch 3.46n, 18.52n
torri torri, holli, difa, cyfansoddi
 19.22; 3 *un.pres.myn.* **tyr** 8.1,
 9.50, 14.11, 58, 20.20, 22.14n; 3
un.grff.myn. **torres** 1.38, 21.29;
amhrs.grff.myn. **torred** 4.10;
amhrs.pres.dib. **torrer** 14.17n
toryn mantell 19.34
trabluddus terfysglyd, cynhyrfus
 20.1
traean 1.17n
traï 14.24n
trallawd gofid, gorthrymder
 1.45
traws gormeswr, gelyn 7.7
tref 5.81–4n, 8.11n, 15–16n
treigledig 5.45–6n
treio lleihau 20.40
trem golwg, edrychiad 2.45
drem 20.13–14n
Triael 21.14n
trigo parhau 3 *un.pres.myn.* **trig**
 13.41–2n
trin helynt, brwydr 9.8, 19
tro hynt, taith, cylch,
 amgylchyniad 5.83, 16.36, 19.2
 (a gw. **ar dro**)
- troi** troi, newid 3 *un.pres.myn.*
try 20.1–2n; 3 *ll.pres.myn.*
trôn 17.23–4n
trwbl trafferth, helynt 9.6
trwsiad dilledyn, gwisg 8.31–2n,
 9.25n, 11.24, 19.24
tu 6.19–20n
tudded gorchudd, mantell 19.46
tun 19.40n
tunnell casgen win 19.16
twn toredig, wedi ei holli *b.* **ton**
 4.9
tŵr 9.27–8n
twrn 16.23n
tŷ 15.23n
tydi 18.19n
tyddyn 8.35n
tyfiad 6.46n
tygiaw bod yn addas
 3 *un.pres.myn.* **twg** ?12.12n
tyn 22.27n
tywarchen bedd 18.52, 21.17
tywod 21.21n
tywydd 5.41–2n
ucha 18.3n
uchel 16.22n
ucheneidio ochneidio
 1 *un.pres.myn.* **ucheneidiaf** 22.4
ufydd ufudd, gwylaidd 17.54
un unig 20.34
un ddechreud o'r un dechreud
 neu darddiad 8.61
un ewin o'r un ewin 16.7
un fodd yn yr un modd 15.47
un galon o'r un teimlad neu o'r
 un dewrder 5.54
un sud cyfryw 18.7
un wehelyth o'r un dras 3.22
un ymddygiad o'r un
 ymddygiad, cystal ei ymddygiad
 8.64
uwch 17.19n
weithian yn awr, bellach 5.16,
 17, 55, 70, 10.34, 20.10

wybr 1.35n

wylaw wylw 9.2, 12.31–2n **wylo**
10.17, 20.15, 22.21;

3 *un.pres.myn.* **wyl** 13.19;

3 *ll.amhff.myn.* **wylen'** 20.15n

wŷr wŷr, disgynnydd 3.2n, 8.12n,

11.5n, 14.2n, 15.6n, 20.36n,

21.14n; *ll.* **wyrion** 2.12, 5.28n

wyth anian 1.36n

ych 8.17n

ymafael ymaflyd, ymladd 4.12,
12.13

ymaros 7.31–2n

ymddygiad gw. **un ymddygiad**

ymennydd 5.48n

ymwan ymladd 8.43

ymwanwr rhyfelwr, milwr

ll. **ymwanwyr** 8.1

ymyl gw. **emyl**

yndo 15.36n

yni hyd nes 5.12, 17.60

ynt-wy hwynt-wy 22.27

ynys 12.7n, 9n, 14.28n (a gw.

naw ynys)

yrhawg bellach 4.19

ysgŷn 19.31–2n

ysgwier 6.40, 16.1

ysgyrion darnau mân 14.58

ysig anafus 14.13

ystil 15.14n

yw coed yw 18.5

Enwau personau

- Adam** 16.30n, 21.31n
Addaf 2.27–8n
Agla 18.12n
Annun Ddu 10.30n
Arthur 4.24n, 11.48n, 12.21n
Awbrai 17.12n, 50n (a gw.
Hopcyn a Morgan Awbrai)
Bedo Brwynllys 15.21–2n
Brwynllys 22.34n
Bedwyr 11.18n
Bledri 19.20n
Brân ap Dyfnan 10.20n
Brutus 13.6n
Brwynllys gw. Bedo Brwynllys
Brychan Brychan Brycheiniog
 3.24n, 18.40n, 19.17n
Cae gw. Huw
Cae Llwyd gw. Huw
Cai Hir 10.48n
Cân, [y] 22.37n
**Caradawg gw. Cawrdaf ab
 Caradawg**
Caradog 10.28n
Caswallon Caswallon fab Beli
 14.36n
Cathen 4.5, 19n, 40
Cawrdaf ab Caradawg 4.20n
Cynddelw Cynddelw Brydydd
 Mawr 5.72n
Cynog 3.6, 23, 59, 18.35n, 22.37n
Dafi gw. Hywel Dafi
Dafydd¹ Dafydd Epynt 19.51
Dafydd² Dafydd ap Gwilym
 15.24n, 33–4n, 22.11n
Dafydd³ Syr Dafydd Gam 5.25n,
 11.9n, 17.25n **Dafydd Gam**
 10.42n
Dafydd ap Hywel 15.3–4, 22n
Dafudd 15.16n
Dafydd Gam gw. Dafydd³
Defras 13.8n, 14.41n
Deulwyn Ieuan Deulwyn 22.32n
Dewi Dewi Sant 18.14n, 43n,
 24.1
Dofydd 17.67 (a gw. **Duw**)
Duw 1.1n, 8, 24, 45, 50, 2.21, 22,
 3.29, 56, 58, 4.28, 5.10, 13, 18n,
 59, 6.44, 8.34, 12.3, 51, 15.2,
 39, 16.19, 32, 17.28, 18.4, 15,
 45, 20.23, 30, 48, 51, 21.4, 21,
 22.33, 40n **Duw Dofydd** 5.29
Duw Naf 6.47 (a gw. **Agla,
 Dofydd, gloen Duw**)
Dyfnan gw. Brân ap Dyfnan
Ector ... / Fab Briaf 18.9–10n
Edwart Edward IV 14.69n
Efa 2.26n
Ffrog 8.42n
Einion Einion Sais 6.4n, 10.29n,
 14.40n, 17.37n **Einiawn** 21.35n
Elidir Elidir Ddu 6.34n
Eneas Aeneas 13.4n
Eudaf 12.20n
Ffred gw. San Ffred
Godwin Godwin iarll Cernyw
 9.7n, 10.28n
Gwaith-foed 15.35n
Gwallter Hafart gw. At.iii.1
Gwenddydd 5.72n
Gwilym¹ gw. Wiliam²
Gwilym² [Hywel ap] Gwilym
 Dew 6.28n **Gwilym Dew** 6.1
Gwnter 16.28n (a gw.
Gwnteriaid)
Hafart 7.1n, 20, 8.66 (a gw.
Hafardiaid)
Herbart 9.6, 10.46 (a gw. **Syr
 Rhisiart**)
Hopcyn Hopgyn Awbrai 17.4
Huw Huw/Hywel Cae Llwyd
 22.3 **Cae Llwyd** 22.10 **Cae**
 22.22 **dau Hywel** 22.25n (a gw.

- Hywel¹**
Hywel¹ gw. **Hywel Dafï**
Hywel² gw. **Huw**
Hywel³ gw. **Dafydd ap Hywel**
Hywel⁴ Hywel ap Gwilym Dew
 6.20, 42
Hywel Amhadog 21.1n **Hywel**
 21.5
Hywel Dafï 22.11 **Dafï** 22.16
Hywel 22.6 **dau Hywel** 22.25n
 (a gw. **Hywel²**)
Iesu 1.33, 39, 2.29, 8.32, 9.51,
 12.44, 20.43
Ieuaf Ieuan ab Alo 15.12n
Ieuan¹ 2.30n
Ieuan² [Dafydd ap Hywel ab]
 Ieuan Fychan 15.6n
Ifor Ifor Hael 15.33–4n
Iolo ?Iolo Goch 22.31n
Isbel 8.3n, 53–4n
Lewys 8.1
Lleu 12.5n
Llŷr ?Llŷr Marini 6.37n
Llywelyn [Dafydd Gam ap]
 Llywelyn 11.8n
Madog Madog ap Hywel
 Amhadog 21.37n
Mair 1.42, 2.17, 29, 50n, 3.26n,
 13.2n, 21.48n, 22.44n **Mair**
Forwyn 2.1
Marchell 3.25n, 18.40n
Mawd Mawd ferch Morgan
 Awbrai 16.48n
Meredudd 20.36n
Meredydd 8.12n **M¹redydd** 8.13
Morgan¹ 11.6n
Morgan² Morgan ab Owain
 20.13, 41 **Morgant** 20.56
Morgan³ Morgan fab Syr Dafydd
 Gam 5.14, 26
Morgan⁴ At.i.5
Morgan Awbrai 16.39–40n
Morgant gw. **Morgan²**
- Moriddig** Moreiddig Warwyn
 13.41–2n, 14.12n, 15.43n
Myrddin 14.43–6n, 15.43n
Niclas [Syr Rhys ap Tomas ap]
 Nicolas 12.1n
Noe Noa 6.5n, 13.4n, 20.55n
Nudd 17.51n
Ofydd 5.77n, 15.24n
Owain¹ Owain ap Gruffudd neu
 Owain Gethin 17.38n, 21.35n
Owain² [Morgan ab] Owain
 20.21n, 38
Priaf gw. **Ector ... / Fab Briaf**
Rhisiart¹ Rhisiart ap Syr Rhisiart
 Herbert o Golbrwg 11.1n
Rhisiart² 20.24n
Rhisiart³ 22.42n
Rhisiart, Syr Syr Rhisiart
 Herbert o Golbrwg (*ib.* 1469)
 9.10n, 10.49n **Syr Rhisiart**
Herbart 9.26n
Rholant 10.2n
Rhosier [Siôn ap] Rhosier ab
 Ieuan o Lanfrynach 16.3n
Rhosier, Syr ?Syr Rhosier Hen o
 Frodorddyn 14.41n
Rhosier Fychan Syr Rhosier
 Fychan o Dretŵr (*ob.* 1471)
 14.2n
Rhys [Siancyn ap] Rhys 19.52
Rhys, Syr¹ Syr Rhys ap Gruffudd
 (*ob.* 1356) 9.15n **dau Syr Rhys**
 10.15n
Rhys, Syr² Syr Rhys ap Tomas
 12.14, 29–30n, 44 **Rhys** 12.10
 (?Rhys ap Tomas)
San Fred 21.16n
Sedd Seth 17.41n
Siân Siân ferch Syr Wiliam
 Gruffudd o'r Penrhyn 10.37n
Siancyn ap Rhys 19.14
Siarls Siarlymaen 13.26n
Siason Siason fab Aeson 14.54n

- Siôn**¹ yr esgob Siôn Morgan
18.38n
- Siôn**² Siôn Fychan ap Syr Tomas
Fychan o Dretŵr 14.8n, 48n, 70
- Siôn**³ Siôn ap Rhosier o
Lanfrynach 16.5–6n, 12
- Siôn**⁴ Siôn ap Hywel Amhadog
21.44n
- Sisil** Sisil ferch Morgan, gwraig
Syr Tomas Fychan o Dretŵr
14.53–4n
- Sisli** gwraig Morgan ab Owain
20.44n
- Talbod** 22.17–18n
- Taliesin** 5.67n, 15.36n
- Tarhaearn**¹ [Hywel Amhadog
ap] Trahaearn 21.14n
- Tarhaearn**² Trahaearn o Lan-
gors 20.40n
- Tewdwr** 15.13n
- Tomas**¹ [Syr Rhys ap] Tomas ap
Gruffudd ap Nicolas 12.8n
- Tomas**² Tomas ap Gwilym
Hafard 7.18n
- Tomas**³ [Lewys ap] Tomas ab
Wiliam 8.60n
- Tomas, Syr** Syr Tomas Fychan
13.12n
- Tudur** 16.30n
- Urien** Urien Rheged 6.6n, 9.14n,
10.26n, 12.34n, 17.18n, 18.2n
- Watgyn Fychan** Watgyn Fychan
ap Tomas ap Rhosier Fychan
15.46n
- Wil** Gwilym ap Hywel ap
Gwilym Dew 6.37n
- Wiliam**¹ Wiliam Herbert 9.2, 18,
10.2, 23, 43
- Wiliam**² Wiliam Hafard ap
Tomas 7.40, 50 **Gwilym** 7.11n,
26
- Wiliam, Syr** ?Syr Wiliam
Gruffudd o'r Penrhyn 10.41n
- Ynyr Gwent** 9.40n

Enwau lleoedd

- Aberbrân** 7.36n
Aberhodni Aberhonddu 9.52n
Afon Fenai 14.22n
Aifft 1.26n
Arwystl 15.14n
Asia 19.24n
Brycheiniog 22.8n
Bwlen 10.17n
Bwrddiaws Bordeaux 7.8n
Cadair Sidydd 5.66n
Caeo 5.81–4n
Caer Dulun 13.37n (a gw.
Dulyn, Dulun)
Caeriw 10.35n
Caerllion 11.20n
Caerysalem Jerwsalem 2.46n
Cent 13.23n
Cernyw 13.46n
Conwy gw. Gwynedd Is Conwy
Dinbych 19.10n
Dofr 9.48n, 12.35–6n
Dulyn 10.43n **Dulun** 14.45,
 19.39n (a gw. **Caer Dulun**)
Dwywent 22.23n
Eifft, [yr] 19.12
Epynt 22.36n
Eryri 12.37–8n
Ewas 8.59n
Ffrainc 12.10 (a gw. dan **Ffranc**)
Gent 19.2n
Glan Wysg 21.25n
Glyn Tawy 7.5
Glyn Wysg 7.6n
Groeg 19.2
Gwent 8.51n, 10.12n, 38n,
 11.14n, 13.55n, 22.24 (a gw.
Ynyr Gwent a Dwywent)
Gwlad yr Haf 12.19n
Gwy Afon Gwy 9.31n
Gwynedd 5.74n, 7.39, 8.18,
 10.37, 11.21n, 14.37, 18.47,
 21.23 **dwy Wynedd** 6.17n,
 9.34n, 15.7n
Gwynedd Is Conwy 12.39–40n
Hafren 9.47–8n, 17.19n
Herast Hergest 15.2n
Hodni Afon Hoddni 1.32n
Iâl 10.39n
Iorc 16.24n
Iwerddon 3.28n, 10.36n, 14.44
Llandyfaelog 5.13n
Llëyn 12.37–8n
Lloegr 9.4n, 10.12, 12.10, 52n,
 13.32, 46n, 19.38
Llundain 12.39–40n
Maelawr 19.3n
Maelienydd 5.76n, 17.44n,
 21.24n
Manaw 12.35n
Mefenydd 17.42n
Meirionnydd 5.74n
Mêl Ynys, [y] 10.16n
Menai gw. Afon Fenai
Merthyr Merthyr Cynog 18.34n,
 20.10n
Môn 9.33n, 10.35n, 12.35–6n
Mynyw 12.35–6n, 18.6n
North 9.42n, 16.26n
Pabilon gw. Tŵr Pabilon
Peutyn, y 5.6n
Powys 8.18, 15.4n, 12n
Prydain 1.32 **Prytaen** 13.6n
Prydyn 8.28n
Rhaglan 9.36n, 10.4n
Rheidiol Afon Rheidol 9.31n
Rhôn 13.25n
Siarmania 14.65n
Tir yr Iâ 19.23n
Tre'rtŵr 13.36
Troea 15.6n
Tŵr Pabilon 14.50n
Ynys y Morynion 14.34n
Ŷsbaen, yr 12.41–2n
Ysgêr, yr 3.35n

Llawysgrifau

Y mae nifer o'r llawysgrifau yn cynnwys sawl llaw; ni nodir ond y llaw(iau) a fu'n gyfrifol am godi'r cerddi sydd yn y gyfrol hon. Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth Mr Daniel Huws ynglŷn ag unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth nas crybwyllir yn y ffynonellau printiedig a nodir.

Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain

BL Add 14991: Owen Jones 'Owain Myfyr' a Hugh Maurice, c. 1800, gw. CAMBM 1844, 57–8.

BL Add 15016: llaw anh., ail hanner y 18g., gw. *ib.* 67.

BL Add 31055 [= RWM 32]: Thomas Wiliems, c. 1594–6: gw. CAMBM 1876–81, 154; RWM ii, 1053–65.

BL Add 31058: llaw anh., ail hanner yr 17g., gw. CAMBM 1876–81, 154.

Llawysgrif yn Llyfrgell Bodley, Rhydychen

Bodley Welsh f 4: Benjamin Simon, c. 1760, gw. SCWMBLO vi, 54.

Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Brog (y gyfres gyntaf) 2: Wmffre Dafis, 1599, gw. 'Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1937), i, 3–5; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LIGC v (1947–8), 234–6.

Llawysgrifau yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd

Card 2.615: Edward Jones, 1748–9, gw. G.C.G. Thomas & D. Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the "Cardiff MSS"' (Aberystwyth, 1994), 141.

Card 5.44: Llywelyn Siôn, cwblhawyd 1613, gw. G.C.G. Thomas & D. Huws, *op.cit.* 440.

Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

CM 3: William Salesbury, c. 1564, gw. RWM ii, 873–7; B.G. Owens & R.W. McDonald, ‘A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 3.

Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies ym Mhrifysgol Cymru, Bangor

Gwyn 7: Peter Bailey Williams, c. 1802, gw. GSCMB 30.

Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen

J 101 [= RWM 17]: llaw anh., canol yr 17g., gw. RWM ii, 68–86; ‘Schedule of Boderwyd Manuscripts and Documents’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1932), 1; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, Cylchg LIGC v (1947–8), 234–6.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

LIGC 16B: cynorthwydd Wiliam Bodwrda, canol yr 17g., gw. NLWCM 37–47; R.G. Gruffydd, ‘Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Felteyrn)’, Cylchg LIGC viii (1953–4), 349–50; Dafydd Ifans, ‘Wiliam Bodwrda (1593–1660)’, *ib.* (1975–6), 300–10, *passim*.

LIGC 970E [= Merthyr Tudful]: Llywelyn Siôn, c. 1613, gw. RWM ii, 372–94; HMNLW i, 77; D.H. Evans, ‘Ieuan Du’r Bilwg (*fl.* c. 1471)’, B xxxiii (1986), 106.

LIGC 2023B [= Pant 56]: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, ail hanner y 18g., gw. RWM ii, 862–3.

LIGC 2692B [= Llyfr Cwmbychan]: llaw anh., hanner cyntaf y 18g., gw. HMNLW i, 233.

LIGC 3029B [= Mos 110]: Thomas Williems, gw. RWM i, 23–6.

LIGC 3487E: llaw anh., diwedd y 18g., gw. *ib.* 291.

LIGC 5262A [= Dingestow 2]: Robert Vaughan, Hengwrt, 1616–25, gw. HMNLW ii, 81; rhwng 1616 a 1625, gw. MWM 299.

LIGC 9176A: Peter Bailey Williams, 1799–1834, gw. HMNLW ii, 123.

LIGC 13071B: llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. HMNLW iv, 358–9.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llanstephan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Llst 9: Roger Morys, 1580–1600, gw. RWM ii, 442.

Llst 47: Llywelyn Siôn, 1586–90, gw. *ib.* 516–23.

Llst 55: Siôn Dafydd Rhys, 1579, gw. *ib.* 549–53.

Llst 118: Wmffre Dafis, c. 1600–20, gw. *ib.* 579–92; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, *Cylch LIGC* v (1947–8), 234.

Llst 120: Jasper Gryffyth, c. 1607, gw. RWM ii, 603–9.

Llst 133: Samuel Williams ac Iago ap Dewi, yn gynnar yn y 18g., gw. *ib.* 664–94; G.H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1648–1722* (Caerdydd, 1953), 37–40.

Llst 134: Llywelyn Siôn, c. 1609–10, gw. RWM ii, 695–712; CLC² 478–9.

Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Pen 54: Dafydd Epynt, c. 1480, gw. RWM i, 409–19; MWM 63 ac ymhellach y Rhagymadrodd, tt. 3, 4–5, 22.

Pen 55: Dafydd Epynt, c. 1500, gw. RWM i, 421–5; MWM 63 ac ymhellach y Rhagymadrodd, tt. 5, 22–3.

Pen 60: Dafydd Epynt a llaw anh., 1510–15, gw. RWM i, 437–40; MWM 63 ac ymhellach y Rhagymadrodd, td. 23.

Pen 100: John Davies, Mallwyd, c. 1610–20, gw. RWM i, 624–34; gw. Rh.F. Roberts, ‘A List of Manuscripts from the Collection of Iolo Morganwg among the Family Papers Presented by Mr. Iolo Aneurin Williams and Miss H. Ursula Williams, 1953–4’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1978), 342.

Pen 147: Wiliam Dafydd Llywelyn, c. 1570, gw. RWM i, 911–23.

Pen 198: llaw anh., c. 1693–1701, gw. *ib.* 1026.

Pen 230: Wiliam Llŷn, c. 1560, gw. *ib.* 1058–9 a Roy Stephens, ‘Geirfâu Wiliam Llŷn’, *LlCy* (1984–8), 308–9.

Pen 312: John Jones, Gellilyfdy, 1610–40, gw. RWM i, 1114–18.

Pen 313: John Jones, Gellilyfdy, hanner cyntaf yr 17g., gw. *ib.* 1118–19.

Llawysgrif yng nghasgliad Stowe yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain

Stowe 959 [= RWM 48]: llaw anh., chwarter olaf yr 16g., gw. RWM ii, 1110–26.

Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstey yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Wy 1: Thomas Wiliems, c. 1570–90, gw. ‘Schedule of the Wynnstey Manuscripts and Documents’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth), 1–2.

Mynegai i'r llinellau cyntaf

	<i>Td.</i>
Adwaen un edn yn ei wast	57
Am y ffydd i'n dydd o lyn diol—hwnt	61
Beth fydd hefelydd? Heulwen—yw honno.....	74
Blin o fab ei lun wyf i	32
deuth deigr	76
Dragywydd y rhydd y rhod—wenwynig	34
Ef aeth yma fyth yn fais.....	77
Eryr y sawdwyr â'r sidan—a'r aur.....	54
Mab Wilym Dew, ni thewais	37
Mae i'n gwlad, Hywel Amhadog.....	70
Mae ofn at rym fyned draw.....	44
Mair Forwyn, mae ar foroedd.....	27
Mud yw'r byd ym mhedwar ban.....	72
O, Ddewi, eiddi i addaw—ydd oedd.....	75
Oen Duw oedd yn dioddef.....	25
Pennabh yw gwalhter habhart.....	78
Pwy a rôi gwymyp i wŷr gant?	46
Rhisiart hir a'r asur teg	48
Rhyw Niclas hir yn cloi sydd.....	50
Trabluddus y try blwyddyn.....	68
Y carw ifanc o'r Hafart.....	39
Y marchog o rywiogaeth.....	52
Y marsiant mawr ei reso	66
Ymwanwyr a dyr dan darian—Lewys	41
Yr esgob aur wisg ei ben.....	64
Y sant a las, hwnt, a'i lin	30
Ysgwïer, gwisg aerwy gwyn.....	59
y swydhog calonog clan.....	79

Mynegai i'r noddwyr a'r gwrthrychau

Cerdd

Cathen.....	4
Crist.....	1
cyfrwy.....	15
Cynog.....	3
Dafydd ap Hywel	15
ffaling.....	19
ffrwyn	15
Gwallter Hafart	Atodiad iii
gŵn	11
Hopgyn Awbrai o Abercynfrig	17
Huw Cae Llwyd.....	22
Hywel Amhadog ap Trahaearn	21
Hywel ap Gwilym Dew	6
Hywel Dafï.....	22
Isbel, gwraig Lewys Hafard.....	8
Lewys Hafard	8
Mair.....	2
march	15
Mawd ferch Morgan Awbrai	16
Morgan.....	Atodiad i
Morgan ab Owain	20
Morgan ap Syr Dafydd Gam.....	5
Rhisiart Herbert o Golbrwg	11
Siancyn ap Rhys.....	19
Siôn ap Rhosier o Lanfrynach	16
Siôn Fychan o Dretŵr.....	14
Siôn Morgan, esgob Tyddewi.....	18
Sisli, gwraig Morgan ab Owain	20
Syr Rhys ap Tomas.....	12
Syr Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Dretŵr	13
Watgyn Fychan o Herast.....	15

Wiliam Hafard ap Tomas o Aberbrân.....	7
Wiliam Herbert o Golbrwg	9, 10